# Cofnod y Trafodion
# The Record of Proceedings
# 19/06/2013

Cynnwys Contents

Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Questions to the Minister for Health and Social Services

Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol
Questions to the Counsel General

Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi
Questions to the Minister for Communities and Tackling Poverty

Dadl yn Ceisio Cytundeb y Cynulliad i Gyflwyno Bil Arfaethedig Aelod ynghylch Meysydd Carafanau Gwyliau (Cymru)
Debate Seeking the Assembly's Agreement to Introduce a Member Proposed Bill on Holiday Caravan Park (Wales)

Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Hedfan yng Nghymru
Welsh Conservatives Debate: Aviation in Wales

Dadl Plaid Cymru: Y System Gynllunio yng Nghymru
Plaid Cymru Debate: The Planning System in Wales

Cyfnod Pleidleisio
Voting Time

Dadl Fer: A yw'r Parth Clustogi Glo Brig yn Addas at y Diben?
Short Debate: Is the Opencast Buffer Zone Fit for Purpose?

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m.gyda'r Llywydd (Rosemary Butler) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer (Rosemary Butler) in the Chair.*

13:30

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The National Asembly for Wales is now in session.

Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

## Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

## Questions to the Minister for Health and Social Services

### Amseroedd Aros Triniaeth Canser

### Cancer Treatment Waiting Times

13:30

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*1. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am amseroedd aros triniaeth canser yng Ngorllewin De Cymru? OAQ(4)0288(HSS)*

*1. Will the Minister make a statement on cancer treatment waiting times in South Wales West? OAQ(4)0288(HSS)*

13:30

## Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

The number of patients referred for treatment against 31-day and 62-day targets continues to rise annually across South Wales West. Numbers seen within the 62-day target are at an all-time high in Wales. However, fresh work is required, and has begun, to address the failure to meet the 95% target for referrals on the urgent suspected cancer route.

Mae nifer y cleifion a atgyfeiriwyd am driniaeth yn erbyn targedau o 31 diwrnod a 62 diwrnod yn parhau i gynyddu bob blwyddyn ar draws Gorllewin De Cymru. Mae'r ffigurau a welwyd mewn perthynas â'r targed o 62 diwrnod yn uwch nag erioed yng Nghymru. Fodd bynnag, mae gwaith newydd wedi dechrau i fynd i'r afael â'r methiant i gyrraedd y targed o 95% mewn perthynas ag atgyfeiriadau brys lle ceir amheuaeth o ganser.

13:31 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that reply, Minister, and thank you for acknowledging that the Government is still failing to meet its targets. As you know, Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board has one of the worst cancer waiting times in Wales. One reason given for that is that people are scanned through the x-ray departments, where there is a 9 a.m. to 5 p.m. culture, compared with other parts of Wales, where such scans are available out of hours. What are you planning to do about that?

Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Weinidog, a diolch ichi am gydnabod bod y Llywodraeth yn dal i fethu â chyflawni ei thargedau. Fel y gwyddoch, mae amseroedd aros Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg mewn perthynas â chanser ymhlith y gwaethaf yng Nghymru. Un rheswm a roddwyd am hynny yw bod pobl yn cael eu sganio drwy'r adrannau pelydr-x, lle ceir diwylliant 9 tan 5, o gymharu â rhannau eraill o Gymru, lle mae sganiau o'r fath ar gael y tu allan i oriau. Beth rydych yn bwriadu ei wneud am hynny?

13:31 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for that. ABMU has agreed, and is implementing, a six-part action plan to address its inability, so far, to meet the 95% target. Part of that six-point plan is a focus on the early identification of patients, so that they are seen within 10 days of being referred at an out-patients department. That means that out-patients departments need to be geared up to ensure that that is done. That first out-patient appointment is crucial, across Wales, to meeting the 62-day target, and it is one of the six actions in the ABMU plan.

Diolchaf i'r Aelod am hynny. Mae PABM wedi cytuno ar gynllun gweithredu chwe rhan i fynd i'r afael â'i analllu, hyd yn hyn, i gyrraedd y targed o 95%, ac yn ei weithredu. Mae'r cynllun chwe-phwynt hwn yn cynnwys ffocws ar nodi cleifion yn gynnar, er mwyn sicrhau y cânt eu gweld o fewn 10 diwrnod i gael eu hatgyfeirio mewn adran cleifion allanol. Mae hynny'n golygu bod angen i adrannau cleifion allanol gael eu trefnu'n ddigonol er mwyn sicrhau bod hynny'n digwydd. Mae'r apwyntiad cyntaf hwnnw'n hanfodol, ledled Cymru, i gyrraedd y targed 62 diwrnod, ac mae'n un o'r chwe cham gweithredu yng nghynllun PABM.

13:32 **David Rees** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Reducing cancer treatment waiting times is critical to improving the survival chances of individuals in South Wales West, as is improving early diagnosis. Currently, the bowel cancer screening take-up rate is approximately 54%. Cancer Research UK has evidence to show that a fecal immunochemical test is a more appropriate test for population screening—it is simpler, it requires fewer samples, and it is likely to increase uptake. Will you look at this evidence, with a view to introducing this as a standard test for bowel cancer screening, particularly for those with a family history of bowel cancer?

Mae lleihau amseroedd aros am driniaeth canser yn hanfodol i wella cyfleoedd unigolion o oroesi yng Ngorllewin De Cymru, felly hefyd wella cyfraddau diagnosis cynnar. Ar hyn o bryd, mae 54% o bobl yn cael eu sgrinio am ganser y coluddyn. Mae gan Cancer Research UK dystiolaeth i ddangos bod prawf imiwnogemegol ysgarthol yn ddull mwy priodol o sgrinio'r boblogaeth—mae'n symlach, mae angen llai o samplau, ac mae'n debygol o ddenu mwy o bobl. A wnewch chi ystyried y dystiolaeth hon, gyda'r nod o gyflwyno hyn fel prawf safonol ar gyfer sgrinio am ganser y coluddyn, yn enwedig i'r rhai sydd â hanes teuluol o ganser y coluddyn?

13:33 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for that question. I have been lucky enough, since being Minister, to have visited the Wales bowel cancer screening team. It is concerned, as I know Assembly Members have been, at the low uptake of bowel screening, which is a particular problem among men—women take up the screening much more readily. However, there are groups in the population that fail to respond to the offer of bowel cancer screening. I know that the screening team is keen to find new ways of improving those rates, and part of that will be work by the Wales screening committee, which will now look at the fecal immunochemical test as part of its review of the process. However, the way the system works overall is that Wales carries out screening programmes under the UK national screening committee. It is due to review this policy next year.

Diolchaf i'r Aelod am y cwestiwn hwnnw. Bum yn ddigon ffodus, ers dod yn Weinidog, i ymweld â thîm sgrinio canser y coluddyn Cymru. Mae'n pryderu, fel y bu Aelodau'r Cynulliad yn pryderu, ynghylch nifer isel y bobl sy'n cael eu sgrinio am ganser y coluddyn, sy'n broblem benodol ymhlith dynion—mae merched yn llawer mwy parod i fanteisio ar y sgrinio. Fodd bynnag, mae grwpiau yn y boblogaeth nad ydynt yn ymateb i'r cynnig i gael eu sgrinio am ganser y coluddyn. Gwn fod y tîm sgrinio yn awyddus i ddod o hyd i ffyrdd newydd o wella'r cyfraddau hynny, a bydd gwaith gan bwyllgor sgrinio Cymru yn rhan o hynny, a fydd bellach yn ystyried y prawf imiwnogemegol ysgarthol fel rhan o'i adolygiad o'r broses. Fodd bynnag, o ran y ffordd y mae'r system yn gweithio yn gyffredinol, mae Cymru'n cynnal rhaglenni sgrinio o dan bwyllgor sgrinio cenedlaethol y DU. Disgwylir iddo adolygu'r polisi hwn y flwyddyn nesaf.

13:34 **Byron Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I think that you have largely addressed the question that I wanted to ask in your answer to Peter Black, but I think that it is worth repeating. I share the concerns of organisations such as Cancer Research UK and Macmillan Cancer Support that we need to ensure that health boards are meeting targets, especially as it is a key performance measure in the cancer delivery plan. While we welcome your expectations that patients should be seen within 10 working days, can you outline what specific measures you are taking to ensure that health boards such as Abertawe Bro Morgannwg are delivering on the timetable?

Weinidog, credaf eich bod wedi mynd i'r afael i raddau helaeth â'r cwestiwn yr oeddwn am ei ofyn yn eich ateb i Peter Black, ond credaf ei bod yn werth ei ailadrodd. Rhannaf bryderon sefydliadau megis Cancer Research UK a Chymorth Canser Macmillan fod angen inni sicrhau bod byrddau iechyd yn cyrraedd targedau, yn enwedig gan ei fod yn fesur perfformiad allweddol yn y cynllun cyflawni ar gyfer canser. Er ein bod yn croesawu eich disgwyliadau y dylai cleifion gael eu gweld o fewn 10 diwrnod gwaith, a allwch amlinellu pa gamau penodol yr ydych yn eu cymryd i sicrhau bod byrddau iechyd fel Abertawe Bro Morgannwg yn cyflawni'r amserlen?

13:34 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We are taking a series of actions with our health boards to ensure that they are on track to meet the 62-day target. They already meet the 31-day target across Wales. Among those actions are the local plans that LHBs have drawn up. I will be visiting ABMU health board tomorrow as it happens. I will be meeting the chair of the board and this is on the agenda for me to discuss with him. Cancer plans more generally are on the agenda of my next meeting with health board chairs right across Wales.

Rydym yn cymryd cyfres o gamau gweithredu gyda'n byrddau iechyd i sicrhau eu bod ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed o 62 diwrnod. Maent eisoes yn cyrraedd y targed 31 diwrnod ledled Cymru. Ymhlith y camau gweithredu hynny mae'r cynlluniau lleol y mae Byrddau Iechyd Lleol wedi'u llunio. Byddaf yn ymweld â bwrdd iechyd PABM yfory fel mae'n digwydd. Byddaf yn cwrdd â chadeirydd y bwrdd ac mae hyn yn ar yr agenda imi ei drafod ag ef. Mae cynlluniau canser yn fwy cyffredinol ar yr agenda ar gyfer fy nghyfarfod nesaf â chadeiryddion byrddau iechyd ledled Cymru.

13:35 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Byddaf yn codi'r mater hwn gyda ABMU mewn cyfarfod ddydd Gwener. Fodd bynnag, mewn datganiad yn y 'South Wales Evening Post' yn ddiweddar, dywedodd ABMU y bydd mwy o welyau gofal dwys yn Ysbyty Treforys tra bo'r ganolfan ddiagnostig newydd ar gyfer gwasanaethau niwroleg yn Ysbyty Castell-Nedd Port Talbot. A ydych chi fel Gweinidog yn hyderus bod digon o staff ar draws yr ardal i ddelio gyda'r mater hwn?

I will raise this matter with ABMU in a meeting on Friday. However, in a recent statement in the 'South Wales Evening Post', ABMU said that there will be more intensive care beds in Morriston Hospital while the new neurological diagnostic unit will be in the Neath Port Talbot Hospital. Are you, as Minister, confident that there are adequate numbers of staff across the region to deal with this issue?

13:35 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch am y cwestiwn. Wythnos diwethaf, cyhoeddais ddatganiad ar ofal dwys ar draws Cymru gyfan. Mae staffio'r unedau sydd gennym yn bwysig, ac o dan y cynllun a gytunom gyda'r bobl sy'n gweithio yn y maes, rydym yn hyderus bod gennym ddigon o staff a digon o gynllun ar gyfer staffio'r unedau yn y dyfodol.

Thank you for the question. Last week, I issued a statement on intensive care across the whole of Wales. Staffing in our units is important, and under the scheme that we agreed with those working in this area, we are confident that we have adequate staff numbers and an adequate plan for staffing the units in the future.

### Lefel y Presgripsiynau ar gyfer Gwrthfiotigau

### Level of Prescriptions for Antibiotics

13:36 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*2. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am lefel y presgripsiynau ar gyfer gwrthfiotigau yng Nghymru? OAQ(4)0294(HSS)*

*2. Will the Minister make a statement on the level of prescriptions for antibiotics in Wales? OAQ(4)0294(HSS)*

13:36

## Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I thank the Member for that. Thanks to careful work at national and local level, the volume of antibiotics prescribed in Wales in 2012-13 fell in comparison with 2011-12, a trend which needs to continue. We work closely with healthcare professionals and all key stakeholders to tackle this issue. A UK antimicrobial resistance strategy will be published later this summer and there will be an action plan for Wales to go alongside that.

Diolchaf i'r Aelod am y cwestiwn hwnnw. Diolch i waith gofalus yn genedlaethol ac yn lleol, gostyngodd nifer y gwrthfiotigau a ragnodir yng Nghymru yn 2012-13 o gymharu â 2011-12, tuedd y mae angen iddo barhau. Rydym yn gweithio'n agos gyda gweithwyr iechyd proffesiynol a'r holl randdeiliaid allweddol i fynd i'r afael â'r mater hwn. Caiff strategaeth ymwrthedd gwrthficrobaidd ei chyhoeddi ar gyfer y DU yn ddiweddarach yr haf hwn a bydd cynllun gweithredu i Gymru i gyd-fynd â hi.

13:36

## Janet Finch-Saunders [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Thank you for your response, Minister. You will be also be aware that a group of G8 Ministers for science met recently to discuss the implications of antibiotic use and the estimate that almost 50% of antibiotic use in hospitals is deemed unnecessary. Only last week, the chief medical officer for England, Professor Dame Sally Davies, argued that routine operations could become potentially life-threatening due to the growing levels of antibiotic resistance. Will you continue your work in this regard, so as to ensure that we do not have this situation, but also to ensure that money is not being wasted, especially with free prescriptions and needless use of antibiotics?

Diolch am eich ymateb, Weinidog. Byddwch yn ymwybodol hefyd fod grŵp o Weinidogion G8 dros wyddoniaeth wedi cyfarfod yn ddiweddar i drafod goblygiadau defnyddio gwrthfiotigau a'r amcangyfrif bod bron 50% o'r gwrthfiotigau a ddefnyddir mewn ysbytai yn ddiangen. Dim ond yr wythnos diwethaf, dadleuodd prif swyddog meddygol Lloegr, yr Athro Fonesig Sally Davies, y gallai llawdriniaethau cyffredin o bosibl beryglu bywyd yn sgil y lefelau cynyddol o achosion o ymwrthedd gwrthfiotig. A fyddwch yn parhau â'ch gwaith yn hyn o beth, er mwyn osgoi'r sefyllfa hon, ond hefyd er mwyn sicrhau nad yw arian yn cael ei wastraffu, yn enwedig mewn perthynas â phresgripsiynau am ddim a defnydd diangen o wrthfiotigau?

13:37

## Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I thank the Member, who made a number of important points there. Unless antibiotics are properly used, these life-saving medicines will not be as effective in the future as we would want them to be. That is why we have taken action right across Wales to bear down on this. It is a two-way process: prescribers have to be sure that they prescribe properly and that they do not prescribe antibiotics when they are not needed, but patients have a part to play as well. When they are prescribed antibiotics, they need to use the full course and in the way that has been prescribed. They should not save a few for the next time they do not feel well because if you do it in that way, you add to the resistance that is building up in the population. We are lucky to have the All-Wales Therapeutics and Toxicology Centre here in Cardiff, which leads the work in this area and has contributed to the success that we are seeing in Wales.

Diolch i'r Aelod, a wnaeth nifer o bwyntiau pwysig. Oni chaiff gwrthfiotigau eu defnyddio'n briodol, ni fydd y meddyginiaethau hynny sy'n achub bywydau mor effeithiol yn y dyfodol ag y byddem am iddynt fod. Dyna pam rydym wedi cymryd camau ledled Cymru i fynd i'r afael â hyn. Mae'n broses ddwyffordd: rhaid i ragnodwyr fod yn siŵr eu bod yn rhagnodi'n iawn ac nad ydynt yn rhagnodi gwrthfiotigau pan nad oes eu hangen, ond mae gan gleifion ran i'w chwarae hefyd. Pan ragnodir gwrthfiotigau iddynt, mae angen iddynt ddefnyddio'r cwrs llawn yn y ffordd a ragnodwyd. Ni ddylent gadw rhai ar gyfer y tro nesaf y byddant yn anhwylus oherwydd os gwnewch hynny, rydych yn ychwanegu at yr ymwrthedd sy'n datblygu yn y boblogaeth. Rydym yn ffodus o gael Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan yma yng Nghaerdydd, sy'n arwain y gwaith yn y maes hwn ac sydd wedi cyfrannu at y llwyddiant rydym yn ei weld yng Nghymru.

13:38

## Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Will the Minister confirm that there is no relationship that he can see—I certainly cannot see it—between the overuse of antibiotics and the free prescription regime that he and I support? The drop in the number of antibiotics prescribed in the last year underlines the fact that specific action is needed here. He and I both know that people do tend to leave them in the cupboard; there is an element of keeping them until the next time and so forth. While keeping the free prescription regime, is there any way that we can incentivise people to bring back not just antibiotics, but other medicines that they have not used? Has the Minister examined the idea of a deposit scheme on some medicines, in order to encourage such good practice?

A wnaiff y Gweinidog gadarnhau na all weld unrhyw gydberthynas—yn sicr ni allaf ei gweld—rhwng y gorddefnydd o wrthfiotigau a'r drefn o roi presgripsiynau am ddim y mae ef a minnau'n ei chefnogi? Mae'r gostyngiad yn nifer y gwrthfiotigau a ragnodwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn pwysleisio'r ffaith bod angen cymryd camau penodol yn y maes hwn. Gŵyr ef a minnau fod pobl yn tueddu i'w gadael yn y cwpwrdd; mae elfen o'u cadw tan y tro nesaf ac ati. Tra'n cadw'r drefn o roi presgripsiynau am ddim, a oes unrhyw ffordd y gallwn gymell pobl nid yn unig i ddychwelyd gwrthfiotigau, ond hefyd feddyginiaethau eraill nad ydynt wedi'u defnyddio? A yw'r Gweinidog wedi ystyried y syniad o gynllun blaendal mewn perthynas â rhai meddyginiaethau, er mwyn annog arferion da o'r fath?

13:39 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for that question. He is absolutely right that there is no relationship whatsoever between free prescriptions and antibiotic prescribing—they are completely different things. While prescribing generally has gone up in Wales, in line with the rest of the United Kingdom, antibiotic prescribing has, over the last few years, either been stable or is just beginning to fall. I am very well aware of the need to educate patients about how medicines are best used. We work closely with Community Pharmacy Wales to try to make sure that, when people are given medicines, they are properly instructed on how to use them and how to deal with any that are not needed. I have not looked specifically at the deposit scheme idea that the Member has raised, but I am certainly prepared to have a look at that.

Diolchaf i'r Aelod am y cwestiwn hwnnw. Mae'n gwbl gywir nad oes unrhyw gydberthynas o gwbl rhwng presgripsiynau am ddim a rhagnodi gwrthfiotigau—maent yn bethau cwbl wahanol. Er bod cyfraddau rhagnodi wedi cynyddu yng Nghymru yn gyffredinol, yn unol â gweddill y Deyrnas Unedig, mae cyfraddau rhagnodi gwrthfiotigau, dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, naill ai wedi bod yn sefydlog neu'n dechrau gostwng. Rwy'n ymwybodol iawn o'r angen i addysgu cleifion am y ffordd orau o ddefnyddio meddyginiaethau. Rydym yn gweithio'n agos gyda Fferylliaeth Gymunedol Cymru i geisio sicrhau, pan fydd pobl yn cael meddyginiaethau, y cant gyfarwyddiadau priodol o ran sut i'w defnyddio a sut i ddelio ag unrhyw beth nad oes ei angen. Nid wyf wedi ystyried yn benodol y syniad o gynllun blaendal a godwyd gan yr Aelod, ond rwyf yn sicr yn barod i ystyried hynny.

### Gwella'r Broses o Gyflenwi Gwasanaethau'r GIG

### Improving the Delivery of NHS Services

13:40 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*3. A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei flaenoriaethau ar gyfer gwella'r broses o gyflenwi gwasanaethau'r GIG yng Ngogledd Cymru? OAQ(4)0303(HSS)*

*3. Will the Minister outline his priorities for improving the delivery of NHS services in North Wales? OAQ(4)0303(HSS)*

**Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Thank you for that. I expect NHS services in north Wales to continue to improve performance, to meet clinical safety standards and to deliver sustainable healthcare services into the future.

Diolch ichi am hynny. Disgwyliaf i wasanaethau'r GIG yn y gogledd wella perfformiad, er mwyn bodloni safonau diogelwch clinigol a darparu gwasanaethau gofal iechyd cynaliadwy yn y dyfodol.

13:40 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, people living in north Wales will have been dismayed at the news that, in the last year, there were more than 400 999 calls to the ambulance service involving immediately life-threatening emergencies that took more than half an hour to get a response. One patient was left waiting for more than seven hours. What confidence do you have that there will be an improvement in the next 12 months? What assurances will you give to someone living in a rural area of north Wales that they will not be left waiting if they are facing an emergency?

Weinidog, bydd pobl sy'n byw yn y gogledd wedi cael eu siomi o glywed, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ei bod wedi cymryd dros hanner awr i ymateb i fwy na 400 o alwadau 999 i'r gwasanaeth ambiwlans a oedd yn ymwneud ag argyfyngau a oedd yn bygwth bywyd. Bu'n rhaid i un claf aros am fwy na saith awr. Pa mor hyderus ydych y bydd gwelliant dros y 12 mis nesaf? Pa sicrwydd a roddwch i rywun sy'n byw mewn ardal wledig yn y gogledd na fydd yn rhaid iddo aros os yw'n wynebu argyfwng?

13:41 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for the question. As the Member is well aware, we have the report from Professor McClelland on the future of ambulance services in Wales. It sets out a series of measures, the majority of which I have already endorsed and reported to Assembly Members on. There are a small number of matters in the report that I continue to work on and will report on within the next few weeks. Taken together, those will bring about an improvement in the ambulance service and its response times. However, we need response times that are clinically sensible and not driven simply by an artificial number. I note her reference to the case of someone who was waiting seven hours; I have seen reports of that in newspapers as though ambulances were lying idly by, just waiting to go. In fact, that particular case took place on a day when the weather was the worst that it had been in Wales all year. It involved the highways agency, the police and the air ambulance. The RAF was asked to assist and was unable to do so because it was unable to get any aircraft into the air. Eventually, the patient concerned was seen by the mountain rescue service and it was it that was able to bring the patient to an ambulance, when that was possible. Every effort was made throughout that seven-hour period to get that person the help that they needed.

Diolch ichi am y cwestiwn. Fel y gŵyr yr Aelod, mae gennym adroddiad yr Athro McClelland ar ddyfodol y gwasanaethau ambiwlans yng Nghymru. Mae'n nodi cyfres o fesurau, yr wyf eisoes wedi cymeradwyo'r rhan fwyaf ohonynt ac wedi adrodd arnynt i Aelodau'r Cynulliad. Mae nifer fach o faterion yn yr adroddiad yr wyf yn parhau i weithio arnynt ac y byddaf yn adrodd arnynt o fewn yr ychydig wythnosau nesaf. Gyda'i gilydd, byddant yn arwain at welliant yn y gwasanaeth ambiwlans a'i amseroedd ymateb. Fodd bynnag, mae angen amseroedd ymateb sy'n glinigol synhwyrol ac nad ydynt wedi'u llywio gan nifer artiffisial. Nodaf ei bod wedi cyfeirio at rywun a fu'n aros saith awr; rwyf wedi gweld adroddiadau am hynny yn y papurau newydd gyda'r awgrym bod ambiwlansys, fel pe bai, yn segur ac yn aros am yr alwad i fynd. Yn wir, digwyddodd yr achos penodol ar ddiwrnod mwyaf garw'r flwyddyn yng Nghymru. Roedd yn cynnwys yr asiantaeth priffyrdd, yr heddlu a'r ambiwlans awyr. Gofynnwyd i'r RAF gynorthwyo ond ni lwyddodd i wneud hynny am na allai hedfan unrhyw awyren. Yn y pen draw, llwyddodd y gwasanaeth achub mynydd i gyrraedd y claf, a'i gludo i ambiwlans, pan oedd hynny'n bosibl. Gwnaed pob ymdrech drwy gydol y cyfnod o saith awr i roi'r cymorth angenrheidiol i'r person hwnnw.

13:42 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mae nifer o bobl wedi codi consýrn gyda fi ynglŷn â pha mor anodd yw hi i gael yr holl 'stakeholders on board' ar gyfer yr 'home enhanced care model'. A allwch chi gadarnhau fod gennych ffydd lawn yn y model arfaethedig hwn?

A number of people have expressed concerns to me with regard to how difficult it is to get all stakeholders on board for the home enhanced care model. Can you confirm that you have complete faith in that proposed model?

13:42 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I do have complete faith in the model, but I understand the point that the Member makes about the difficulty of persuading all those that you need to persuade to commit to it fully. I know that we are sometimes asking people to commit to a model where the future benefits are to be realised and they cannot see them immediately in front of them. There is a job of work to be done by all of those who are involved in the healthcare field to go on making those arguments, persuading people, bringing them together, often taking them to see examples of the sort of service that we think they will benefit from in the future so that they can see it in front of them. In that way, we can make inroads into the understandable scepticism that we sometimes face when we are asking people to take a bit of a leap of faith with us into the furture.

Mae gennyf ffydd lwyr yn y model, ond deallaf y pwynt a wna'r Aelod ynghylch pa mor anodd ydyw i ddarbwyllo pawb y mae angen ichi eu darbwyllo i ymrwymo iddo'n llawn. Gwn ein bod weithiau'n gofyn i bobl ymrwymo i fodel lle caiff y buddiannau eu gwireddu yn y dyfodol ac ni allant eu gweld yn uniongyrchol o'u blaenau. Mae gan bawb sy'n ymwneud a'r maes gofal iechyd ran i'w chwarae wrth barhau i gyflwyno'r dadleuon hynny, gan ddarbwyllo pobl, eu dwyn ynghyd, ac yn aml fynd â hwy i weld enghreifftiau o'r math o wasanaeth y credwn y cant fudd ohono yn y dyfodol fel y gallant ei weld drostynt eu hunain. Drwy wneud hynny, gallwn fynd i'r afael a'r amheuaeth ddealladwy a wynebwn weithiau wrth ofyn i bobl gamu i'r dyfodol gyda ni yn hyderus.

13:43 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Weinidog, diolch am ymateb i fy llythyr ynglŷn â'r ganolfan yn Wrecsam sy'n delio â 'prosthetics'. Cefais gyfarfod â'm hetholwr yr wythnos diwethaf ynglŷn â'ch ymateb, ac roedd yn dweud nad yw'r sefyllfa fel rydych chi wedi cael ar ddeall gan y bwrdd iechyd a'ch gweision sifil. Mae adolygiad Murrison yn Lloegr yn sôn am wella gwasanaethau. A ydych mewn sefyllfa i ddweud a fydd adolygiad tebyg yng Nghymru, neu a fydd arian yn deillio o'r penderfyniadau yn Lloegr?

Minister, thank you for replying to my letter about the Wrexham prosthetics centre. I had a meeting with my constituent last week to discuss your reply, and he said that the situation is not as you have been led to believe by the health board and your civil servants. The Murrison review in England talks about service improvements. Are you in a position to tell us whether there will be a similar review in Wales, or whether money will flow from decisions made in England?

13:44 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch am y cwestiwn. Rwy'n gyfarwydd â'r achos, wrth gwrs, ac rwy'n gyfarwydd ag adolygiad Murrison. Byddwn yn gwneud nifer o bethau sydd yn yr adolygiad ond mae rhai pethau ynddo na fyddant yn addas i'r sefyllfa rydym yn ei hwynebu yng Nghymru. Rwy'n hyderus nad problem ariannol yw hon, ond yn hytrach broblem o ddarparu gwasanaethau i lai o bobl na'r niferoedd dros y ffin yn Lloegr. Rydym yn delio â'r problemau hynny. Rydym yn dysgu oddi wrth adolygiad Murrison, ond nid oes modd trosglwyddo'r cyfan i gyd-destun Cymru.

Thank you for the question. I am, of course, familiar with the case and with the Murrison review. We will be doing a number of the things specified in the review, but it includes some things that would not be appropriate for the situation that we face in Wales. I am confident that this is not a financial problem, but rather a problem of providing services to fewer people than is the case across the border in England. We are dealing with those problems. We are learning from the Murrison review, but the whole thing cannot be transferred to the Welsh context.

13:45 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yr hyn sy'n syndod imi, wrth geisio gweld beth yn union yw'r sefyllfa yn Wrecsam—rwy'n meddwl bod problemau rheolaeth o fewn y ganolfan—nid yw bwrdd iechyd Betsi Cadwaladr, er enghraifft, yn casglu gwybodaeth ynglŷn â'r nifer o gyn-filwyr sydd o fewn ei wasanaeth. Pam nad yw'r bwrdd iechyd yn gwneud hynny? A oes modd ichi, ar lefel cenedlaethol, gael y wybodaeth honno, a gofyn i'r byrddau iechyd a fyddent yn cyrraedd targedau cenedlaethol?

What surprises me, as we try to see what the situation is in Wrexham—I think that there are management problems within the centre—is that Betsi Cadwaladr health board, for example, does not collect information about how many veterans there are within its service. Why does the health board not do that? Is there a way for you, on a national level, to gather that information and ask the health boards whether they will reach national targets?

13:45 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Os ydym yn mynd i wella pethau, bydd yn rhaid inni gasglu'r data go iawn. Os oes problemau o fewn bwrdd iechyd Betsi Cadwaladr gyda chasglu'r fath ddata, rwy'n gallu siarad â nhw ac edrych i mewn i'r sefyllfa, a dod yn ôl at yr Aelod ar ôl gwneud hynny.

If we are to improve the situation, we will need to gather the real data. If there are problems at Betsi Cadwaladr health board in terms of a failure to collect such data, then I will speak to the board and look into this, and get back to the Member when I have done so.

## Cydlynu Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

## The Co-ordination of Health and Social Services

13:45 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*4. A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei ystyriaethau o ran cydlynu iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn effeithiol yn deillio o gyllideb a rennir? OAQ(4)0300(HSS)*

*4. Will the Minister outline his considerations of an effective co-ordination of health and social services arising from a shared budget? OAQ(4)0300(HSS)*

13:46 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol / The Deputy Minister for Social Services*

The integration of health and social services is one of our key priorities, and pooled budgets are a driver for that change. The formal partnerships in Wales, using pooled budgets, evidence that they can simplify structures and procedures, retain accountabilities and provide more flexible service delivery solutions.

Mae integreiddio iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn un o'n blaenoriaethau allweddol, ac mae cyllidebau cyfun yn sbardun ar gyfer y newid hwnnw. Mae'r partneriaethau ffurfiol yng Nghymru, gan ddefnyddio cyllidebau cyfun, yn dangos eu bod yn gallu symleiddio strwythurau a gweithdrefnau, cadw atebolrwydd a darparu gwasanaethau mwy hyblyg.

13:46 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am most grateful to the Deputy Minister for her answer. May I draw her attention, once again, to the Torbay and Southern Devon Health and Care NHS Trust? The Deputy Minister will know that this information has been given in evidence to the Health and Social Care Committee previously. Combining local authority social care teams with NHS community health teams has achieved savings of well over £250,000 in the first year and a fall of 25% in emergency bed day-use for people aged 75 and over. Will the Deputy Minister consider having a pilot of this kind in Wales?

Rwy'n hynod ddiolchgar i'r Dirprwy Weinidog am ei hateb. A allaf dynnu ei sylw, unwaith eto, at Ymddiriedolaeth GIG Iechyd a Gofal Torbay a De Dyfnaint? Bydd y Dirprwy Weinidog yn gwybod bod y wybodaeth hon wedi'i rhoi fel tystiolaeth i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol o'r blaen. Mae cyfuno timau gofal cymdeithasol awdurdodau lleol â thimau iechyd cymunedol y GIG wedi cyflawni arbedion o ymhell dros £250,000 yn y flwyddyn gyntaf a gostyngiad o 25% yn nifer y gwelyau dydd brys a ddefnyddir ar gyfer pobl 75 oed a throsodd. A wnaiff y Dirprwy Weinidog ystyried rhoi cynllun peilot o'r fath ar waith yng Nghymru?

13:46 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Yes, and there are other examples. We now have 11 formal partnerships using pooled budgets in Wales. The biggest partnership involves the five Gwent local authorities and the local health board for the Gwent frailty programme. But, as we implement our integration agenda, I will want to see a much greater emphasis placed on the use of pooled budgets. This is a good start, and you give another example, but we need to do more. Therefore, we have run a series of workshops for health and local authority teams on the merits of formal partnerships and how to develop them with pooled budgets. Advice notes have also been published on our website, together with templates for formal agreements under section 33 of the NHS (Wales) Act 2006.

Gwnaf, ac mae enghreifftiau eraill. Mae gennym bellach 11 o bartneriaethau ffurfiol sy'n defnyddio cyllidebau cyfun yng Nghymru. Mae'r bartneriaeth fwyaf yn cynnwys pum awdurdod lleol Gwent a'r bwrdd iechyd lleol ar gyfer rhaglen eiddilwch Gwent. Ond, wrth inni weithredu ein hagenda integreiddio, byddaf am weld llawer mwy o bwyslais yn cael ei roi ar y defnydd o gyllidebau cyfun. Mae hyn yn ddechrau da, a rhowch enghraifft arall, ond mae angen inni wneud mwy. Felly, rydym wedi cynnal cyfres o weithdai ar gyfer timau iechyd ac awdurdodau lleol ar fanteision partneriaethau ffurfiol a sut i'w datblygu gyda chyllidebau cyfun. Cyhoeddwyd hefyd nodiadau cyngor ar ein gwefan, ynghyd â thempledi ar gyfer cytundebau ffurfiol o dan adran 33 o Ddeddf y GIG (Cymru) 2006.

Senedd.tv
Fideo Video

13:47 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Again, I am very grateful to the Deputy Minister for her reply. The Deputy Minister will also know that, in evidence, we had very strong comments that it was felt that the bar, as it were, in Wales between nursing care and social care is set too high. The Deputy Minister will be well aware of this comment. Has the Deputy Minister any suggestions as to how that might be addressed?

Unwaith eto, rwy'n ddiolchgar iawn i'r Dirprwy Weinidog am ei hateb. Bydd y Dirprwy Weinidog hefyd yn gwybod ein bod, mewn tystiolaeth, wedi clywed sylwadau cryf iawn ynghylch y farn bod disgwyliadau rhy uchel yng Nghymru rhwng gofal nyrsio a gofal cymdeithasol. Bydd y Dirprwy Weinidog yn ymwybodol iawn o'r sylw hwn. A oes gan y Dirprwy Weinidog unrhyw awgrymiadau ynghylch sut y gellid mynd i'r afael â hynny?

Senedd.tv
Fideo Video

13:48 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

The Act that I have just mentioned allows the swapping of responsibilities between health and social care. But, while they are different organisations, they retain their responsibilities. That power is there now, but we want to look at that. We must be careful about what we are talking about, because the Law Commission made it quite clear that swapping actual treatment is not advisable, but there are other things that can done and section 33 of the Act allows that.

Mae'r Ddeddf yr wyf newydd ei chrybwyll yn caniatáu cyfnewid cyfrifoldebau rhwng iechyd a gofal cymdeithasol. Ond, er eu bod yn sefydliadau gwahanol, maent yn cadw eu cyfrifoldebau. Mae'r pŵer hwnnw yno nawr, ond rydym am edrych ar hynny. Rhaid inni fod yn ofalus o ran yr hyn rydym yn sôn amdano, oherwydd nododd Comisiwn y Gyfraith yn gwbl glir nad yw cyfnewid triniaeth wirioneddol yn ddoeth, ond mae pethau eraill y gellir eu gwneud ac mae adran 33 o'r Ddeddf yn caniatáu hynny.

Senedd.tv
Fideo Video

13:48 **Kenneth Skates** Bywgraffiad Biography

Deputy Minister, the effective co-ordination of young people's social services with wider health services helps to drive important financial savings across the board. In that vein, will you join with me in welcoming the start of three When I am Ready pilots this month, with a view to rolling out the scheme further across Wales in future years? Would you agree with me that it is this kind of effective co-ordination and integration of social services with health and other services that can help to drive down costs in future years?

Ddirprwy Weinidog, mae cydgysylltu gwasanaethau cymdeithasol pobl ifanc â gwasanaethau iechyd ehangach yn helpu i lywio arbedion ariannol pwysig yn gyffredinol. Yn yr un modd, a wnewch chi ymuno â mi i groesawu'r cychwyn tair rhaglen beilot Pan Fyddaf yn Barod y mis hwn, gyda'r nod o gyflwyno'r cynllun ymhellach ledled Cymru yn y dyfodol? A fyddech yn cytuno â mi y gall gwaith effeithiol o'r fath i gydgysylltu ac integreiddio gwasanaethau cymdeithasol â gwasanaethau iechyd a gwasanaethau eraill helpu i leihau costau yn y dyfodol?

Senedd.tv
Fideo Video

13:49 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

I thank the Member for Clwyd South for that supplementary and I would like to pay tribute to the work that he did in developing these schemes. I fully welcome the establishment of the three pioneer areas in implementing the When I am Ready scheme, which aims to place greater corporate accountability on local authorities to ensure that looked-after children experience a seamless transition from care into adulthood. The scheme, which supports young people beyond the age of 18 in a familial environment, will help to divert some young people from a lifestyle in which they are more vulnerable to harm, and then have to rely more on health services, of course.

Diolch i'r Aelod dros Dde Clwyd am y cwestiwn atodol hwnnw a hoffwn dalu teyrnged i'r gwaith a wnaeth wrth ddatblygu'r cynlluniau hyn. Croesawaf yn llwyr y cynnig i sefydlu tair ardal arloesi wrth weithredu cynllun Pan fyddaf yn Barod, sydd â'r nod o roi mwy o atebolrwydd corfforaethol i awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod plant sy'n derbyn gofal yn gallu symud yn ddidrafferth o ofal i fyd oedolion. Bydd y cynllun, sy'n cefnogi pobl ifanc y tu hwnt i 18 oed mewn amgylchedd teuluol, yn helpu i ddargyfeirio rhai pobl ifanc oddi wrth ffordd o fyw lle maent yn fwy agored i niwed, ac yna'n gorfod bod yn fwy dibynnol ar wasanaethau iechyd, wrth gwrs.

Senedd.tv
Fideo Video

13:49 **Ieuan Wyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Er fy mod, Ddirprwy Weinidog, yn croesawu'r symudiadau tuag at fwy o gydweithio rhwng adrannau gwasanaethau cymdeithasol a'r gwasanaeth iechyd, a hefyd yn croesawu'r ffaith bod ymgais rŵan i gyfuno cyllidebau, a ydych yn ymwybodol bod tensiynau sylweddol yn codi hyd yn oed lle mae'r cyllidebau hynny'n cael eu cyfuno, oherwydd bod pobl yn atebol i gyrff gwahanol a bod y trefniadau llywodraethiant ac atebolrwydd o ran cyllidebau yn wahanol? Gofynnwyd i'r Prif Weinidog y diwrnod o'r blaen a fyddai'n croesawu'r syniad o uno'r cyrff hyn sy'n gyfrifol am iechyd a gwasanaethau cymdeithasol gyda'i gilydd, a byddai hynny, wrth gwrs, yn osgoi unrhyw broblem o ran penderfyniadau ynglŷn â chyllideb.

Deputy Minister, although I welcome the moves towards greater collaboration between social services departments and the health service, and also welcome the fact that there is an attempt now to pool budgets, are you aware that significant tensions arise even where those budgets are pooled, because people are accountable to different organisations, and the governance arrangements and the accountability in terms of budgets are different? The First Minister was asked the other day if he would welcome the concept of merging these bodies that are responsible for health and social services, and that, of course, would solve any problems in terms of decisions on budgets.

13:50 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Nid wyf yn siŵr a fyddwn yn cytuno'n hollol â phopeth rydych wedi ei ddweud. Rwy'n meddwl bod cwestiynau mawr yn codi ynglŷn ag uno'r gwasanaethau. Nid oes unrhyw dystiolaeth o gwbl bod y system yn gweithio'n well yng Ngogledd Iwerddon, er enghraifft, nag yn unrhyw wlad arall yn y Deyrnas Unedig. Mae angen i ni feddwl yn ôl ar adroddiad yr Athro Geoffrey Pearson. Ef, wrth gwrs, fel cadeirydd, a fu'n datblygu'r Papur Gwyrdd. Roedd ef yn gryf o'r farn nad oedd uno'n arwain at y gwasanaethau gorau ac nid dyna oedd y ffordd ymlaen.

I am not sure that I would agree entirely with everything that you have said. I think that there are significant questions in relation to merging services. There is no evidence at all that the system works better in Northern Ireland, for example, than in any other country in the United Kingdom. We need to think back to Professor Geoffrey Pearson's report. He, of course, as chair, developed the Green Paper. He was of the strong opinion that merging would not lead to the best services and that that was not the best way forward.

### Ymgyrchoedd Iechyd Cyhoeddus

### Public Health Campaigns

13:51 **Gwyn R. Price** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*5. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y defnydd o ymgyrchoedd iechyd cyhoeddus i annog pobl i fanteisio ar frechiadau? OAQ(4)0296(HSS)*

*5. Will the Minister make a statement on the use of public health campaigns to encourage people to take up vaccinations? OAQ(4)0296(HSS)*

13:51 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The recent measles outbreak has demonstrated how effective public health campaigns can impact significantly on the uptake of vaccination programmes. The Welsh Government works with Public Health Wales and health boards to raise awareness of the importance of immunisation programmes in gaining maximum protection against infectious diseases.

Mae'r achosion diweddar o'r frech goch wedi dangos yr effaith sylweddol y gall ymgyrchoedd iechyd y cyhoedd ei chael ar nifer y bobl sy'n manteisio ar raglenni brechu. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru a byrddau iechyd i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd rhaglenni imiwneiddio o ran sicrhau bod pobl wedi'u diogelu cymaint â phosibl rhag clefydau heintus.

13:52 **Gwyn R. Price** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer. Minister, the recent upsurge in measles cases highlighted more than ever the need for public health campaigns spelling out the importance of being vaccinated. Sadly, however, we see a large amount of incorrect information appearing on unaccountable websites. Do you agree with me that it is important to get the message across that the site to go to would be the Public Health Wales site?

Diolch ichi am yr ateb hwnnw. Weinidog, mae'r cynnydd diweddar yn nifer yr achosion o'r frech goch wedi dangos yn fwy nag erioed yr angen am ymgyrchoedd iechyd y cyhoedd sy'n dangos pwysigrwydd cael brechiad. Yn anffodus, fodd bynnag, gwelwn lawer iawn o wybodaeth anghywir yn ymddangos ar wefannau anatebol. A gytunwch â mi ei bod yn bwysig cyfleu'r neges mai gwefan Iechyd Cyhoeddus Cymru yw'r un y dylid ymweld â hi?

13:52 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that question, which I think points to an important issue and one that is likely to grow in the future. We know that people are more and more likely to look for information on health matters from websites and the internet. The democratic nature of the internet is said to be one of its great strengths. However, the downside of that is that it can be difficult for individuals to discriminate between information that is properly researched and validated and worth acting upon, and information that is simply put there by people with particular and, sometimes, unusual points of view. I think that the point made is an important one. We will all need to look more in the future to make sure that people are properly signposted and know the sites that give information that they can act upon reliably.

Diolch ichi am y cwestiwn hwnnw, sy'n cyfeirio, fe gredaf, at fater pwysig iawn ac un sy'n debygol o dyfu yn y dyfodol. Gwyddom fod pobl yn fwyfwy tebygol o chwilio am wybodaeth am faterion iechyd ar wefannau a'r rhyngrwyd. Dywedir mai natur ddemocrataidd y rhyngrwyd yw un o'i brif gryfderau. Fodd bynnag, anfantais hynny yw y gall fod yn anodd i unigolion wahaniaethu rhwng gwybodaeth yr ymchwiliwyd yn briodol iddi sydd wedi'i dilysu ac sy'n werth gweithredu arni, a gwybodaeth a roddwyd yno'n syml gan bobl â barn benodol ac, weithiau, anarferol. Credaf fod y pwynt a wnaed yn un pwysig. Bydd angen i bob un ohonom wneud mwy yn y dyfodol i sicrhau bod pobl yn cael eu cyfeirio'n briodol ac yn gwybod pa safleoedd sy'n rhoi'r wybodaeth y gallant weithredu arni mewn ffordd ddibynadwy.

13:53 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I would agree very much with everything that you have said. However, it is not just measles that we have to deal with as far as vaccination and immunisation are concerned. I recently had some discussions with the Meningitis Trust. Its representatives are keen to ensure that the new meningitis B vaccine is made available through the childhood immunisation programme in Wales. What discussions have you had regarding that particular vaccine, and when do you envisage that it may be possible to introduce it into the vaccination programme that our children in Wales are protected with?

Weinidog, byddwn yn cytuno'n llwyr â phopeth rydych wedi'i ddweud. Fodd bynnag, nid dim ond y frech goch y mae'n rhaid inni ddelio â hi mewn perthynas â brechu ac imiwneiddio. Cefais rai trafodaethau ag Ymddiriedolaeth Llid yr Ymennydd yn ddiweddar. Mae ei chynrychiolwyr yn awyddus i sicrhau bod y brechlyn newydd rhag llid yr ymennydd B ar gael drwy raglen imiwneiddio plant yng Nghymru. Pa drafodaethau rydych wedi'u cael ynghylch y brechlyn penodol hwnnw, a phryd rydych yn rhagweld y gall fod yn bosibl ei gyflwyno yn y rhaglen frechu sy'n diogelu ein plant yng Nghymru?

13:53 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that important question. The system we have for vaccinations in Wales is that we follow the advice of the Joint Committee on Vaccination and Immunisation, which is a UK-wide committee. It is on its advice that we will be introducing four new vaccines into Wales over the coming months, including a new way of providing for meningitis C. The meningitis B vaccination continues to be discussed by that joint committee. I will get advice through my officials once it has made a determination on it, but we are closely engaged in the work that it does.

Diolch ichi am y cwestiwn pwysig hwnnw. Mae'r system sydd gennym ar gyfer brechiadau yng Nghymru yn dilyn cyngor y Cydbwyllgor ar Frechu ac Imiwneiddio, sy'n bwyllgor ar gyfer y DU gyfan. Byddwn yn gweithredu ar ei gyngor wrth gyflwyno pedwar brechlyn newydd i Gymru dros y misoedd nesaf, gan gynnwys ffordd newydd o ddarparu ar gyfer llid yr ymennydd C. Mae'r brechiad rhag llid yr ymennydd B yn parhau i gael ei drafod gan y cydbwyllgor hwnnw. Byddaf yn cael cyngor drwy fy swyddogion unwaith y bydd wedi gwneud penderfyniad yn ei gylch, ond rydym yn ymwneud yn agos â'r gwaith a wneir ganddo.

13:54 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mae cancr ceg y groth yn dal yn angheuol ac mae rhaglen frechu ar gyfer menywod ifanc, wrth gwrs, yn gweithredu'n barod. Pa mor llwyddiannus yw'r rhaglen honno wedi bod ac a yw'r darlun ar hyd a lled Cymru'n weddol gyfartal neu a oes ardaloedd lle mae'r niferoedd sy'n cael y brechiad yn isel?

Cervical cancer is still a lethal disease and there is, of course, an immunisation programme for young women that is operational. How successful has that programme been and is the picture relatively consistent across Wales or are there areas where the uptake of the vaccination is low?

13:54 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch yn fawr am y cwestiwn.

Thank you very much for that question.

The rates of vaccination under that programme are encouraging across Wales, but they vary. Interestingly, they vary in a way that is different to many health programmes, in that the take-up is highest in the areas of greatest disadvantage. It is one of the reasons why I have always been keen on vaccination programmes, because they are health inequality measures. The highest uptake of that vaccination is in Merthyr Tydfil and Blaenau Gwent, and some of the lowest uptakes are in areas of Wales where general health is best. So, the overall picture is good and improving, but some parts of Wales are a little behind others in its uptake.

Mae cyfraddau brechu o dan y rhaglen honno yn galonogol ledled Cymru, ond maent yn amrywio. Yn ddiddorol, maent yn amrywio mewn ffordd sy'n wahanol i lawer o raglenni iechyd, yn yr ystyr mai pobl yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig sy'n manteisio mwyaf ar y rhaglen frechu. Mae'n un o'r rhesymau pam rwyf bob amser wedi bod yn awyddus i gyflwyno rhaglenni brechu, oherwydd maent yn fesurau anghydraddoldeb iechyd. Mae'r cyfraddau brechu ar eu huchaf ym Merthyr Tudful a Blaenau Gwent, ac ar eu hisaf mewn ardaloedd o Gymru lle mae iechyd cyffredinol ar ei orau. Felly, mae'r darlun cyffredinol yn dda ac yn gwella, ond mae rhai rhannau o Gymru yn gwneud yn well nag eraill o ran nifer y bobl sy'n cael eu brechu.

13:55 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, will you make a statement on the importance of vaccination and immunisation awareness in our universities sector? This is looking towards the autumn. It is particularly important to take this into account, especially when we look at our rural university towns, which each year meet an influx of students from across the UK, the European Union and the wider world.

Weinidog, a fyddwch yn gwneud datganiad ar bwysigrwydd ymwybyddiaeth o frechu ac imiwneiddio yn ein sector prifysgolion? Mae hyn ar gyfer yr hydref. Mae'n arbennig o bwysig ein bod yn ystyried hyn, yn enwedig wrth edrych ar ein trefi prifysgol gwledig, sydd bob blwyddyn yn denu myfyrwyr o bob rhan o'r DU, yr Undeb Ewropeaidd a'r byd ehangach.

13:56 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for the chance to make an important point in relation to the new regime for meningitis C vaccination, which will have a particular focus on young people who are about to go to university. The evidence is that it is important that those young people have the vaccination while they are still at home and about to go to university. It is not as effective if you wait until someone has already arrived at university and finds themselves living in the conditions in which first year students tend to be in, where they are all together in a large hall of residence, and so on, where the spread of disease can happen quickly. So, I entirely agree with the Member that this is an important issue, and the message that we have to get across to parents is, 'Don't wait for freshers' week'. It is sometimes misleadingly called the freshers' vaccination. Young people need to have the vaccination before they leave for university, then they will be properly protected.

Diolch ichi am y cyfle i wneud pwynt pwysig am y gyfundrefn newydd ar gyfer brechlyn rhag llid yr ymennydd C, a fydd yn canolbwyntio'n benodol ar bobl ifanc sydd ar fin mynd i'r brifysgol. Mae'r dystiolaeth yn dangos ei bod yn bwysig bod y bobl ifanc hynny'n cael y brechlyn tra eu bod yn dal i fod gartref ac ar fin mynd i'r brifysgol. Nid yw mor effeithiol os byddwch yn aros nes bod rhywun eisoes wedi cyrraedd y brifysgol ac yn canfod ei hun yn byw mewn amodau y mae myfyrwyr blwyddyn gyntaf yn tueddu i fod ynddynt, lle maent i gyd gyda'i gilydd mewn neuadd breswyl fawr, ac ati, lle gall y clefyd ledaenu'n gyflym. Felly, cytunaf yn llwyr â'r Aelod fod hwn yn fater pwysig, a'r neges y mae'n rhaid inni ei chyfleu i rieni yw 'Peidiwch ag aros am wythnos y glas'. Weithiau mae'n cael ei alw'n gamarweiniol yn frechlyn y glas. Mae angen i bobl ifanc gael y brechlyn cyn iddynt adael am y brifysgol, yna byddant wedi'u hamddiffyn yn briodol.

### Opinion Research Services

### Opinion Research Services

13:57 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*6. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am waith yr ORS yn yr ymgynghoriadau ar ailgyflunio'r Gwasanaeth Iechyd? OAQ(4)0286(HSS)*

*6. Will the Minister make a statement on the Opinion Research Service's work in the consultations on the reconfiguration of the health service? OAQ(4)0286(HSS)*

13:57 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Byrddau iechyd Cymru sydd wedi comisiynu'r cwmni annibynnol Opinion Research Services i'w helpu â'u prosesau cysylltu ac ymgynghori, ac i'w cynorthwyo i ddadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad drwy nodi'r prif themâu a negeseuon er mwyn llywio penderfyniadau sy'n gyfrifoldeb, wrth gwrs, i'r byrddau iechyd lleol.

Health boards in Wales commissioned the independent company Opinion Research Services to help support their engagement and consultation processes, and to help provide an analysis of consultation responses by identifying the key themes and messages to help inform decisions that are, of course, the responsibility of LHBs.

13:57 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, you know that ORS has threatened legal action for defamation against Hywel Dda Community Health Council and two individual members of that CHC, one of whom is a constituent of mine. I have seen solicitor letter after solicitor letter on behalf of ORS insisting on what I consider to be an unreasonable apology from the CHC. Do you agree that for one party to resort to the threat of legal action is no way to promote public confidence in a health consultation? Will you provide confirmation to me and my constituent that the Welsh Government will stand ready to support any legal costs incurred by individual CHC members in matters such as this?

Weinidog, gwyddoch fod ORS wedi bygwth cymryd camau cyfreithiol yn erbyn Cyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda a dau aelod unigol o'r CIC hwnnw, y mae un ohonynt yn etholwr imi. Rwyf wedi gweld llythyrau lu gan gyfreithwyr ar ran ORS yn mynnu ar yr hyn a ystyriaf yn ymddiheuriad afresymol gan y CIC. A gytunwch nad yw bygwth camau cyfreithiol yn gwneud dim i hyrwyddo hyder y cyhoedd mewn ymgynghoriad iechyd? A allwch gadarnhau wrthyf i a'm hetholwr y bydd Llywodraeth Cymru yn barod i gefnogi unrhyw gostau cyfreithiol yr eir iddynt gan aelodau CIC unigol mewn materion o'r fath?

13:58 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that question. I was sorry to read about the dispute between ORS and Hywel Dda Community Health Council, its chair and vice-chair. I cannot get directly involved in such a dispute, but as I have previously reported to Members, I have asked Professor Marcus Longley, who had been instrumental in helping the CHC during the consultation process, to return to west Wales to act as a broker between the two parties, and he has been there and done that. He has further contact with both parties, separately, arranged for tomorrow. What I say to both parties is that they must be prepared to be flexible and that they must come to the table with the intention of reaching an agreement. With the help of Professor Longley, I am cautiously optimistic that they will achieve that in the near future.

Diolch am y cwestiwn hwnnw. Roedd yn ddrwg gennyf glywed am yr anghydfod rhwng ORS a Chyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda, ei gadeirydd a'i is-gadeirydd. Ni allaf gymryd rhan yn uniongyrchol mewn anghydfod o'r fath, ond fel yr wyf wedi ei ddweud o'r blaen wrth Aelodau, rwyf wedi gofyn i'r Athro Marcus Longley, a fu'n allweddol wrth helpu'r CIC yn ystod y broses ymgynghori, ddychwelyd i'r gorllewin i weithredu fel brocer rhwng y ddwy ochr, ac mae wedi bod yno ac wedi gwneud hynny. Mae wedi trefnu cyswllt pellach â'r ddwy ochr, ar wahân, yfory. Yr hyn a ddywedaf wrth y ddwy ochr yw bod yn rhaid iddynt fod yn barod i fod yn hyblyg a bod yn rhaid iddynt gyfarfod â'r bwrdd gyda'r bwriad o ddod i gytundeb. Gyda chymorth yr Athro Longley, rwy'n lled obeithiol y byddant yn llwyddo i wneud hynny yn y dyfodol agos.

As to the legal position of CHC members, I have now had definitive legal advice on the legal indemnity that is available for CHC members. Given that it is a proper legal position, I hope that the Member will be content for me to write to her later today setting out that position on paper, so that there is no room for ambiguity that there might be in an oral answer. I can provide the same information to other Members of the Assembly who have written to me on that matter.

O ran sefyllfa gyfreithiol aelodau'r CIC, rwyf bellach wedi cael cyngor cyfreithiol penodol ar yr indemniad cyfreithiol sydd ar gael i aelodau'r CIC. O ystyried ei bod yn sefyllfa gyfreithiol briodol, gobeithiaf y bydd yr Aelod yn fodlon imi ysgrifennu ati yn ddiweddarach heddiw yn nodi'r sefyllfa honno ar bapur, fel nad oes lle i amwysedd a allai fod mewn ateb llafar. Gallaf roi'r un wybodaeth i Aelodau eraill y Cynulliad sydd wedi ysgrifennu ataf ynghylch y mater hwnnw.

14:00 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Weinidog am eich ateb cynhwysfawr ar hynny. Mae gofal yn y gymuned yn elfen bwysig o ail-gyflunio'r gwasanaeth iechyd. Mae arweinydd Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol wedi dweud yn ddiweddar y dylid edrych eto ar gyfrifoldeb GPs o ran edrych ar ôl cleifion cronig yn y gymuned dros gyfnod o 24 awr. Mae hyn yn syniad newydd sy'n weddol arloesol. A fyddwch chi'n barod i drafod gyda'r coleg brenhinol a Chymdeithas Feddygol Prydain ychwanegu at rôl GPs o ran edrych ar ôl cleifion yn y gymuned?

Thank you, Minister, for your comprehensive report on that. Care in the community is an important element of reconfiguring the health service. The leader of the Royal College of General Practitioners has said recently that we should look again at GPs' responsibilities in relation to looking after chronic patients in the community over a period of 24 hours. This is a new idea that is quite innovative. Would you be prepared to discuss with the royal college and the British Medical Association adding to the role of GPs in relation to looking after patients in the community?

14:00 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Wrth gwrs, mae'n bwysig dros ben inni siarad gyda'r coleg brenhinol. Byddaf yn cwrdd â phennaeth y coleg yng Nghymru, a gyda'r BMA hefyd, ynghylch dyfodol meddygon teulu a'r gwasanaethau y maen nhw'n eu darparu. Rwyf yn siarad â nhw ac rwy'n hapus i godi'r pwnc y mae'r aelod wedi codi gyda nhw yn y dyfodol.

Of course, it is very important that we speak to the royal college. I will be meeting the head of the college in Wales, and also the BMA, to discuss the future of GPs and the services that they provide. I speak to them and I will be happy to raise the issue that the Member has raised with them in the future.

14:01

## Angela Burns Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, I would like to return to the first part of Elin Jones's question to you, because the other person who is being pursued by ORS is one of my constituents. I have written to you on this issue. I would be grateful to have a clearer understanding of the indemnity. They have been told that a very limited indemnity is available to them now and, once that has been spent, they are going to have to meet the fees themselves. They have been told that they could lose their houses and their entire livelihoods over this. The other thing that I would like your view on, Minister, is how we can better protect people in the future. I would hate for the consequence of this incident to be that people no longer wish to serve their communities, their villages and their towns by joining any organisation, because we live in a very litigious world. I, too, have looked at all of the letters and it appears that what was asked of them has been done, but they are still being held to the cross over this. We need those volunteers to come and help us to have our voice. You yourself said in your statement only the other day that you want to hear the voice of the patient more.

Weinidog, hoffwn ddychwelyd at ran gyntaf cwestiwn Elin Jones i chi, gan fod yr unigolyn arall sy'n cael ei erlyn gan ORS yn un o'm hetholwyr. Rwyf wedi ysgrifennu atoch ynghylch y mater hwn. Byddwn yn ddiolchgar o gael dealltwriaeth gliriach o'r indemniad. Dywedwyd wrthynt mai indemniad cyfyngedig iawn sydd ar gael iddynt bellach ac, unwaith y caiff hwnnw ei wario, y bydd yn rhaid iddynt dalu'r ffioedd eu hunain. Dywedwyd wrthynt y gallent golli eu tai a'u bywoliaeth gyfan yn sgil hyn. Y peth arall yr hoffwn gael eich barn yn ei gylch, Weinidog, yw sut y gallwn amddiffyn pobl yn well yn y dyfodol. Byddai'n gas gennyf pe na bai pobl, yn sgil y digwyddiad hwn, yn dymuno gwasanaethu eu cymunedau, eu pentrefi a'u trefi mwyach drwy ymuno ag unrhyw sefydliad, gan ein bod yn byw mewn byd cyfreithgar iawn. Rwyf innau, hefyd, wedi edrych ar yr holl lythyrau ac ymddengys fod yr hyn y gofynnwyd iddynt ei wneud wedi'i wneud, ond maent yn cael eu dwyn i gyfrif am hyn o hyd. Mae angen i'r gwirfoddolwyr hynny ddod i'n helpu i leisio ein barn. Dywedasoch eich hun yn eich datganiad dim ond y diwrnod o'r blaen eich bod am glywed llais y claf yn fwy.

14:02

## Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I am very happy to confirm what I said to Elin Jones. I have pursued the matter that the Member and others have raised with me. I have definitive legal advice on the indemnity that can be made available to CHC members and I will set that out today in a letter that you will be able to see and use. I entirely agree with your general point that it is very important that people who undertake duties on behalf of the public are able to do so freely and would wish to do so in the future.

Rwy'n falch iawn o gadarnhau yr hyn a ddywedais wrth Elin Jones. Rwyf wedi mynd ar drywydd y mater y cododd yr Aelod ac eraill â mi. Mae gennyf gyngor cyfreithiol penodol ar yr indemniad y gellir ei roi i aelodau'r CIC a byddaf yn nodi hynny heddiw mewn llythyr y byddwch yn gallu ei weld a'i ddefnyddio. Cytunaf yn llwyr â'ch pwynt cyffredinol ei bod yn bwysig iawn bod pobl sy'n ymgymryd â dyletswyddau ar ran y cyhoedd yn gallu gwneud hynny'n rhydd ac y byddent yn dymuno gwneud hynny yn y dyfodol.

### Amseroedd Ymateb Ambiwlansys

### Ambulance Response Times

14:02

## Byron Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*7. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am amseroedd ymateb ambiwlansys yng Ngorllewin De Cymru? OAQ(4)0295(HSS)*

*7. Will the Minister make a statement on ambulance response times in South Wales West? OAQ(4)0295(HSS)*

14:03

## Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Ambulance times in the Abertawe Bro Morgannwg region in April show that 59% of patients for whom an emergency ambulance was called received a response within eight minutes; 70% of emergency ambulances arrived at the scene within 10 minutes, 86% within 15 minutes and 92% within 20 minutes from receipt of the original call.

Dengys amseroedd ambiwlans yn rhanbarth Abertawe Bro Morgannwg ym mis Ebrill fod 59% o gleifion y galwyd ambiwlans brys ar eu cyfer wedi cael ymateb o fewn wyth munud; cyrhaeddodd 70% o ambiwlansys brys y lleoliad o fewn 10 munud, 86% o fewn 15 munud a 92% o fewn 20 munud i dderbyn yr alwad wreiddiol.

14:03

## Byron Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer, Minister. It seems that, sadly, a week does not go by without standard ambulance response times being missed or ambulances queuing at our local hospitals, such as Morriston. This obviously leads to distress for the patients involved and subsequent negative media coverage, which compounds the problem. Of course, morale falls within the service and among the public as a consequence. What specific actions are you taking within South Wales West to ensure that ambulance response times improve and that ambulances are not stationary outside our A&E departments?

Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Yn anffodus, ymddengys nad oes wythnos yn mynd heibio heb fod amseroedd ymateb ambiwlansys safonol yn cael eu methu neu fod ambiwlansys yn ciwio y tu allan i'n hysbytai lleol, fel Treforys. Mae hyn yn amlwg yn arwain at ofid i'r cleifion dan sylw a sylw negyddol dilynol yn y cyfryngau, sy'n ychwanegu at y broblem. Wrth gwrs, mae morâl yn lleihau o fewn y gwasanaeth ac ymhlith y cyhoedd o ganlyniad i hynny. Pa gamau penodol rydych yn eu cymryd yng Ngorllewin De Cymru i sicrhau bod amseroedd ymateb ambiwlansys yn gwella ac nad yw ambiwlansys yn segur y tu allan i'n hadrannau damweiniau ac achosion brys?

14:04

## Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

As the McClelland review made clear, the ambulance service is best seen as an emergency medical service firmly located within the unscheduled care service that the NHS provides. Those are the actions that we are taking across Wales and in the Abertawe Bro Morgannwg region specifically to make sure that ambulances are freed up to do the job that they need to do, that they are not left waiting to decant patients at A&E departments, and are able to provide the service that we want them to. It is still a remarkable service that they provide. In the far south-west of Wales, in the Hywel Dda area, which is one of the most rural parts of Wales, over a third of patients are seen within four minutes of the call arriving at the ambulance station. In the time that it will take to answer this question, a third of all calls that are received in that area will have been answered and treatment will have begun.

Fel y nododd adolygiad McClelland yn glir, ystyrir y gwasanaeth ambiwlans ar ei orau yn wasanaeth meddygol brys sydd wedi'i leoli'n gadarn o fewn y gwasanaeth gofal heb ei drefnu a ddarperir gan y GIG. Dyna'r camau rydym yn eu cymryd ledled Cymru ac yn rhanbarth Abertawe Bro Morgannwg yn benodol i sicrhau bod ambiwlansys yn cael eu rhyddhau i wneud y gwaith y mae angen iddynt ei wneud, nad ydynt yn gorfod aros cyn trosglwyddo ceifion i adrannau damweiniau ac achosion brys, a'u bod yn gallu darparu'r gwasanaeth rydym am iddynt ei ddarparu. Maent yn darparu gwasanaeth arbennig o hyd. Yn ardal fwyaf de-orllewinol Cymru, yn ardal Hywel Dda, caiff dros draean o gleifion eu gweld o fewn pedair munud i'r orsaf ambiwlans dderbyn yr alwad. Yn yr amser y bydd yn ei gymryd i ateb y cwestiwn hwn, bydd traean o'r holl alwadau a geir yn yr ardal honno wedi cael eu hateb a bydd triniaeth wedi dechrau.

14:05

## Bethan Jenkins Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We do not need to rehearse the argument about Morriston, but my question is about the south Wales reconfiguration programme. What work have you done on looking at hospitals such as Morriston, which may have more pressure placed on them as a result of the closure, downgrading or however you want to spin it, of the other hospitals in the area? This is vital, because we are seeing too many people arrive at Morriston currently, and it is a worry for constituents in Neath Port Talbot, Swansea and the surrounding areas.

Nid oes angen inni ailadrodd y ddadl am Dreforys, ond mae fy nghwestiwn yn ymwneud â rhaglen ad-drefnu de Cymru. Pa waith rydych wedi'i wneud o ran edrych ar ysbytai fel Treforys, a all fod yn wynebu mwy o bwysau o ganlyniad i gau, israddio neu beth bynnag rydych am ei alw, yr ysbytai eraill yn yr ardal? Mae hyn yn hanfodol, oherwydd rydym yn gweld gormod o bobl yn cyrraedd Treforys ar hyn o bryd, ac mae'n peri pryder i etholwyr yng Nghastell-nedd Port Talbot, Abertawe a'r ardaloedd cyfagos.

14:05

## Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Member raises a perfectly proper question about patient flows within the south Wales programme proposals. They are the health boards' proposals, and I have to be careful about how much I say about them, but I think that it is fair for me to say that the issue of patient flows was carefully considered within the planning of that programme and that the figures used were validated by the mathematics department at Cardiff University. However, the points that the Member raises are entirely the sort of points that need to be pursued as part of the consultation. That is what the consultation is there for: to test exactly these issues. I hope that she and other people who have the sort of concerns that she has raised will ask those questions. The ambulance service has been a regular participant in all the public meetings that have been held with regard to the programme. The questions can be put to it, tested and the consultation exercise will help to resolve them.

Cyfyd yr Aelod gwestiwn cwbl briodol ynghylch llif cleifion yng nghynigion rhaglen y de. Cynigion y byrddau iechyd ydynt, a rhaid imi fod yn ofalus o ran faint y byddaf yn ei ddweud amdanynt, ond credaf ei bod yn deg imi ddweud bod llif cleifion wedi cael ei ystyried yn ofalus wrth gynllunio'r rhaglen honno, a bod y ffigurau a ddefnyddiwyd wedi cael eu dilysu gan yr adran fathemateg ym Mhrifysgol Caerdydd. Fodd bynnag, y pwyntiau a godir gan y Aelod yw'r union bwyntiau o'r fath y mae angen mynd i'r afael â hwy fel rhan o'r ymgynghoriad. Dyna ddiben yr ymgynghoriad: profi'r union faterion hyn. Gobeithiaf y bydd hi a phobl eraill sydd â phryderon o'r fath a godwyd ganddi yn gofyn y cwestiynau hynny. Mae'r gwasanaeth ambiwlans wedi cymryd rhan yn rheolaidd yn yr holl gyfarfodydd cyhoeddus a gynhaliwyd mewn perthynas â'r rhaglen. Gellir cyflwyno'r cwestiynau iddo, eu profi a bydd yr ymarfer ymgynghori yn helpu i'w datrys.

## Cyffuriau Amddifad ac Amddifad Iawn

## Orphan and Ultra-Orphan Drugs

14:06 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*8. Pwy fydd yn gallu gwneud cyflwyniadau i'r adolygiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar o gymeradwyo cyffuriau amddifad ac amddifad iawn? OAQ(4)0289(HSS)*

*8. Who will be able to make submissions to the recently announced review of approving orphan and ultra-orphan drugs? OAQ(4)0289(HSS)*

14:06 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Gall unrhyw unigolyn neu grŵp sydd â diddordeb yn y gwaith gyflwyno sylwadau i'r grŵp adolygu. Nodais gylch gorchwyl ac aelodaeth graidd y grŵp mewn llythyr at Aelodau'r Cynulliad ar 31 Mai. Bydd y grŵp yn gwrando ar dystiolaeth lafar am y tro cyntaf ar 24 Mehefin a bydd Rare Diseases UK ymysg y rhai a fydd yn bresennol.

Any individual or group with an interest in the work will be able to make submissions to the review group. I set out the terms of reference of the group and its core membership in a letter to Assembly Members on 31 May. The group will take oral evidence for the first time on 24 June, when those present will include Rare Diseases UK.

14:07 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch am yr ateb hwnnw ac rwy'n falch bod cymdeithasau fel Rare Diseases UK yn rhan o'r broses honno. Fodd bynnag, rwyf wedi siarad gyda phobl o'r Ymddiredolaeth Cystic Fibrosis sydd yn poeni, gan fod pobl ifanc yn cael eu cynnwys o fewn y broses hon, y bydd gwahaniaethu yn eu herbyn, oherwydd mai'r broblem yw cost y cyffur. Byddant yn byw yn hirach ac felly bydd costau cyffuriau ar gyfer y bobl hynny yn fwy oherwydd pa mor hir y byddant yn byw o'i gymharu ag oedolion. A fydd y grŵp hwn yn edrych i mewn i'r mater sylweddol hwn y mae nifer o grwpiau wedi ei godi gyda mi?

Thank you for that response and I am pleased that organisations such as Rare Diseases UK are part of that process. However, I have spoken to people from the Cystic Fibrosis Trust who are concerned that, because young people are included within this process, they will be discriminated against, because the issue is the cost of the drug. They will live longer and therefore the cost of drugs for those people will be greater given how long they will live compared to adults. Will this group look into this important matter that a number of groups have raised with me?

14:07 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am sure that the review group will be able and willing to take account of the points that she has made. I would not be prepared to tolerate age discrimination of the sort that she described. Those points are very properly to be raised with the review group. For people who are unable to attend in person to give oral evidence, there is a facility for written evidence to be provided to the group, and I know that it is very keen to hear from anybody who has views that they wish to pass to it.

Rwy'n siŵr y bydd y grŵp adolygu yn gallu ystyried y pwyntiau a godwyd ganddi ac yn barod i wneud hynny. Ni fyddwn yn barod i oddef gwahaniaethu ar sail oedran o'r fath a ddisgrifiwyd ganddi. Caiff y pwyntiau hynny, yn briodol ddigon, eu codi gyda'r grŵp adolygu. I bobl na allant fod yn bresennol yn bersonol i roi tystiolaeth lafar, mae cyfleuster ar gael i ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig i'r grŵp, a gwn ei fod yn awyddus iawn i glywed gan unrhyw un sydd â safbwyntiau y maent yn dymuno eu cyflwyno iddo.

14:08 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Bethan Jenkins makes a valid point, Minister. I welcome the process and the review that is under way. We know full well that part of the problem with funding these drugs for rarer conditions is that, by their very nature, they cost more, because fewer people suffer from rare conditions. Nevertheless, they can make, as you know, a very important difference to those people's lives. Will you undertake to implement the findings of the review as quickly as possible to make sure that people in Wales suffering from rarer conditions have access to the drugs that they desperately need?

Mae Bethan Jenkins yn gwneud pwynt dilys, Weinidog. Croesawaf y broses a'r adolygiad sy'n mynd rhagddo. Gwyddom yn dda iawn mai rhan o'r broblem o ran ariannu'r cyffuriau hyn ar gyfer cyflyrau mwy prin yw eu bod, oherwydd eu natur, yn costio mwy, gan fod llai o bobl yn dioddef o gyflyrau prin. Serch hynny, gallant, fel y gwyddoch, wneud gwahaniaeth pwysig iawn i fywydau'r bobl hynny. A wnewch chi ymrwymo i weithredu canfyddiadau'r adolygiad cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau bod pobl yng Nghymru sy'n dioddef o gyflyrau prin yn gallu cael gafael ar y cyffuriau sydd eu hangen arnynt yn ddirfawr?

14:08 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The purpose of the review was to address exactly the issues that the Member has raised. It has meetings already arranged for this month, July, August and September. It hopes to provide its report to me in October, and I will consider it very carefully as soon as it is received.

Diben yr adolygiad oedd mynd i'r afael â'r union faterion a godwyd gan yr Aelod. Mae cyfarfodydd eisoes wedi'u trefnu ar gyfer y mis hwn, mis Gorffennaf, mis Awst a mis Medi. Mae'n gobeithio darparu ei adroddiad imi ym mis Hydref, a byddaf yn ei ystyried yn ofalus iawn cyn gynted ag y caiff ei dderbyn.

## Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus

## National Framework for NHS Continuing Healthcare

14:09 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*9. A wnaiff y Gweinidog roi manylion am sut y bydd y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG yn cyd-fynd ag integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol? OAQ(4)0301(HSS)*

*9. Will the Minister detail how the National Framework for NHS Continuing Healthcare is aligned to the integration of health and social care? OAQ(4)0301(HSS)*

14:09 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The integration of health and social services is a key priority for this Government, as I have already said this afternoon. The national framework for continuing NHS healthcare requires the NHS and social services to work together to deliver alternative packages of care, such as NHS-funded nursing care, for those ineligible for continuing healthcare.

Mae integreiddio gwasanaethau iechyd a chymdeithasol yn flaenoriaeth allweddol i'r Llywodraeth hon, fel yr wyf eisoes wedi dweud y prynhawn yma. Mae'r fframwaith cenedlaethol ar gyfer gofal iechyd parhaus y GIG yn gofyn i'r GIG a gwasanaethau cymdeithasol weithio gyda'i gilydd i ddarparu pecynnau gofal amgen, megis gofal nyrsio a ariennir gan y GIG, i'r rhai nad ydynt yn gymwys ar gyfer gofal iechyd parhaus.

14:09 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Wales Audit Office report published last week indicates that the number of people receiving continuing healthcare has gone down, while, at the same time, the number of cases referred to the public health ombudsman has gone up; there is quite a difficult pattern of inconsistency across health boards. The WAO recommends that there should be much greater consistency in how we apply continuing healthcare, for both consistency and fairness, across all health boards. Some seem to have good arrangements in place, such as Aneurin Bevan Local Health Board, and others still have the protocols in draft form. How does this fit with the Government's long-term aim to integrate the delivery of healthcare and social services from the perspective of the patient?

Noda adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf fod nifer y bobl sy'n derbyn gofal iechyd parhaus wedi gostwng tra, ar yr un pryd, fod nifer yr achosion a gyfeiriwyd at ombwdsmon iechyd y cyhoedd wedi cynyddu; mae patrwm eithaf anodd o anghysondeb ar draws byrddau iechyd. Mae SAC yn argymell y dylai fod llawer mwy o gysondeb yn y ffordd rydym yn darparu gofal iechyd parhaus, er cysondeb a thegwch, ar draws pob bwrdd iechyd. Ymddengys fod gan rai drefniadau da ar waith, fel Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan, tra bod protocolau rhai eraill ar eu ffurf drafft o hyd. Sut mae hyn yn cyd-fynd â nod hirdymor y Llywodraeth i integreiddio'r modd y caiff gwasanaethau gofal iechyd a chymdeithasol eu darparu o safbwynt y claf?

14:10 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I welcome the comprehensive report by the Wales Audit Office on continuing healthcare in Wales. The guidance that we have put in place has led to improvements—as the report states—in the provision of continuing healthcare, but we will consider the WAO's recommendations as part of our own review of the framework to look critically at how that can be strengthened. We are committed to that review and, indeed, it has started. We recognise that there is a need to strengthen strategic leadership arrangements regarding the provision of continuing healthcare services. We have started preliminary work on this, such as the establishment of task groups to address, for example, joint packages of funding—as you mentioned—national policies and protocols, with links to social care frameworks. To do this, we will be working with the WAO, the public service ombudsman for Wales, and other stakeholders to ensure that future guidance is inclusive and robust, and that arrangements are fit for purpose.

Croesawaf adroddiad cynhwysfawr Swyddfa Archwilio Cymru ar ofal iechyd parhaus yng Nghymru. Mae'r canllawiau rydym wedi'u rhoi ar waith wedi arwain at welliannau—fel y mae'r adroddiad yn nodi—o ran darparu gofal iechyd parhaus, ond byddwn yn ystyried argymhellion SAC fel rhan o'n hadolygiad ein hunain o'r fframwaith er mwyn ystyried yn feirniadol sut y gellir atgyfnerthu hynny. Rydym yn ymrwymedig i gynnal yr adolygiad hwnnw ac, yn wir, mae wedi dechrau. Cydnabyddwn fod angen atgyfnerthu trefniadau arweinyddiaeth strategol o ran darparu gwasanaethau gofal iechyd parhaus. Rydym wedi dechrau gwaith rhagarweiniol ar hyn, megis sefydlu tasgluoedd i fynd i'r afael, er enghraifft, â chyd-becynnau ariannu—fel y crybwyllwyd gennych—polisïau a phrotocolau cenedlaethol, gyda chysylltiadau â fframweithiau gofal cymdeithasol. Er mwyn gwneud hyn, byddwn yn gweithio gyda SAC, yr ombwdsmon gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, a rhanddeiliaid eraill i sicrhau bod canllawiau yn y dyfodol yn gynhwysol ac yn gadarn, a bod trefniadau yn addas at y diben.

14:11 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am really glad that this question is being asked in this Chamber because there are serious concerns out there about people with quite chronic medical conditions, such as dementia. I think that it is also fair to say that a framework is only as good as its interpretation, and that the system of identifying need for continuing healthcare appears to be complex. We know of examples of where people have fallen through the net, and I think that we are all aware of many cases across Wales where families have had to pick up the tab, basically, for what should have been funded as continuing healthcare. Deputy Minister, how do you work with the Minister for Health and Social Services to ensure that those people who genuinely qualify for continuing healthcare actually receive it?

Rwy'n falch iawn bod y cwestiwn hwn yn cael ei ofyn yn y Siambr hon oherwydd mae pryderon difrifol yn bodoli am bobl sydd â chyflyrau meddygol eithaf cronig, fel dementia. Teg yw dweud hefyd, rwy'n credu, nad yw fframwaith ond cystal â'r modd y caiff ei ddehongli, ac ymddengys fod y system ar gyfer nodi'r angen am ofal iechyd parhaus yn gymhleth. Gwyddom am enghreifftiau lle mae pobl wedi disgyn drwy'r rhwyd, a chredaf ein bod i gyd yn ymwybodol o nifer o achosion ledled Cymru lle mae teuluoedd wedi gorfod talu am rhywbeth a ddylai, yn y bôn, fod wedi'i ariannu fel gofal iechyd parhaus. Ddirprwy Weinidog, sut rydych yn gweithio gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i sicrhau bod y bobl hynny sy'n wirioneddol gymwys i gael gofal iechyd parhaus yn ei gael mewn gwirionedd?

14:12 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I recognise that there are some individuals who are assessed as not being entitled to continuing healthcare—as you mentioned, some people with dementia—but who have identified needs that cannot be met through a local authority. The framework is clear that health boards must work in partnership with the local authority to agree their respective responsibilities in joint care packages. Of course, where it is agreed that continuing healthcare should be the way forward, that must happen. It is recognised that the present arrangements surrounding continuing healthcare need to be revisited. The Minister will review the continuing healthcare framework and address outstanding issues related to it. Officials will undertake this review shortly, taking into account the auditor general's review, as I have already mentioned. They will also work closely with the auditor general, as I have said. This, we know, will require a focused and inclusive process in developing revised continuing healthcare guidance.

Cydnabyddaf fod rhai unigolion sy'n cael eu hasesu fel rhai nad ydynt yn gymwys i gael gofal iechyd parhaus—fel y soniasoch, rhai pobl â dementia—ond sydd ag anghenion a nodwyd na ellir eu diwallu drwy awdurdod lleol. Mae'r fframwaith yn glir bod yn rhaid i fyrddau iechyd weithio mewn partneriaeth â'r awdurdod lleol i gytuno ar eu priod gyfrifoldebau mewn cydbecynnau gofal. Wrth gwrs, lle y cytunir ar ofal iechyd parhaus fel y ffordd ymlaen, rhaid i hynny ddigwydd. Cydnabyddir bod angen ailystyried y trefniadau presennol mewn perthynas â gofal iechyd parhaus. Bydd y Gweinidog yn adolygu'r fframwaith gofal iechyd parhaus ac yn mynd i'r afael â materion sy'n weddill yn ymwneud ag ef. Bydd swyddogion yn cynnal yr adolygiad hwn yn fuan, gan ystyried adolygiad yr archwilydd cyffredinol, fel yr wyf eisoes wedi ei grybwyll. Byddant hefyd yn gweithio'n agos gyda'r archwilydd cyffredinol, fel y dywedais. Bydd hyn, fel y gwyddom, yn gofyn am broses benodol a chynhwysol o ddatblygu canllawiau iechyd parhaus diwygiedig.

14:14 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Deputy Minister, there have been court cases where decisions have had to be made about whether health or social services should provide the care. When a person is assessed as needing a joint package of continuing care, what is the rationale for local health boards to provide free healthcare, of which I approve, while the local authority will charge for the so-called social care? Do you agree that this nonsense would be avoided if health and social services were the responsibility of just one board?

Ddirprwy Weinidog, bu achosion llys lle bu'n rhaid penderfynu a ddylai gwasanaethau iechyd neu gymdeithasol ddarparu'r gofal. Pan asesir bod angen cydbecyn o ofal parhaus ar unigolyn, beth yw sail resymegol byrddau iechyd lleol dros ddarparu gofal iechyd am ddim, yr wyf yn ei gymeradwyo, tra bo'r awdurdod lleol yn codi tâl am ofal cymdeithasol, fel y'i gelwir. A gytunwch y gellid osgoi'r nonsens hwn pe bai un bwrdd yn unig yn gyfrifol am wasanaethau iechyd a chymdeithasol?

14:14 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

As I said in my response to Ieuan Wyn Jones, there is no evidence from Northern Ireland to show that the system there, which has united the services, is working any better than the system elsewhere in the UK. I refer you to Professor Geoffrey Pearson's report, in which he was strongly of the view that that was not the way forward. However, that is not to say that people do not deserve a care package that they understand, that meets their needs and that they and their carers have been involved in developing. The Social Services and Well-being (Wales) Bill deals clearly with that, and section 147 of the Bill includes strengthened powers aimed at promoting collaboration and integrated services. These will enable Welsh Ministers to make regulations that specify partnership arrangements and will allow, where necessary, Ministers to direct not only the form of the service-led partnerships, but also the range of supporting, operational and management arrangements.

Fel y dywedais yn fy ymateb i Ieuan Wyn Jones, nid oes unrhyw dystiolaeth o Ogledd Iwerddon i ddangos bod y system yno, sydd wedi uno'r gwasanaethau, yn gweithio'n well na'r system mewn mannau eraill yn y DU. Fe'ch cyfeiriaf at adroddiad yr Athro Geoffrey Pearson, lle roedd yn gryf o'r farn nad hynny oedd y ffordd ymlaen. Fodd bynnag, nid yw hynny'n golygu nad yw pobl yn haeddu pecyn gofal y maent yn ei ddeall, sy'n diwallu eu hanghenion ac y maent hwy a'u gofalwyr wedi bod yn rhan o'r gwaith o'i ddatblygu. Mae'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn ymwneud yn glir â hynny, ac mae adran 147 o'r Bil yn cynnwys pwerau a atgyfnerthwyd sydd â'r nod o hyrwyddo cydweithredu a gwasanaethau integredig. Bydd y rhain yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n nodi trefniadau partneriaeth a bydd yn caniatáu, lle y bo angen, i Weinidogion lywio nid yn unig y math o bartneriaethau a arweinir gan wasanaeth, ond hefyd yr amrywiaeth o drefniadau ategol, gweithredol a rheoli.

## Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol

## Questions to the Counsel General

### Llyfr Statud Ar-lein

### Online Statue Book

14:15 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*1. Pa gamau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi eu cymryd i sicrhau bod yna lyfr statud ar-lein? OAQ(4)0047(CG)*

*1. What steps has the Counsel General taken to secure an online statute book? OAQ(4)0047(CG)*

14:16 **Theodore Huckle**

Senedd.tv Fideo Video

*Y Cwnsler Cyffredinol / The Counsel General*

Good afternoon, everyone. It is good to be back.

Prynhawn da, bawb. Mae'n dda cael bod nôl.

It is important that we are clear about what exactly we are talking about when referring to an online statute book. All legislation passed by the National Assembly and made by the Welsh Ministers is already published online on the legislation.gov.uk website, in both English and Welsh. This has always been the case. A number of initiatives are ongoing to improve the way in which this legislation is published, most notably to publish legislation in its updated format, and to make the website itself is available in Welsh.

Mae'n bwysig ein bod yn glir o ran beth yn union rydym yn sôn amdano wrth gyfeirio at lyfr statud ar-lein. Mae'r holl ddeddfwriaeth a basiwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol ac a wnaed gan Weinidogion Cymru eisoes wedi'i chyhoeddi ar-lein ar wefan legislation.gov.uk, yn Gymraeg a Saesneg. Mae hyn wedi bod yn wir erioed. Mae nifer o fentrau yn mynd rhagddynt i wella'r ffordd y caiff y ddeddfwriaeth hon ei chyhoeddi, yn fwyaf nodedig i gyhoeddi deddfwriaeth ar ei ffurf gyfredol, a sicrhau bod y wefan ei hun ar gael yn Gymraeg.

14:16 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Gwnsler Cyffredinol. Byddwn yn sicrhau eich bod yn cael digon o gyfle i ddod yn ôl yma sawl gwaith yn y dyfodol.

Thank you, Counsel General. We will ensure that you have plenty of opportunities to return here in the future.

Mae gennyf fwy o ddiddordeb yn ail ran yr ateb yr ydych wedi'i amlinellu, sef yr ymgais i sicrhau bod y llyfr statud yn cael ei ddiweddaru'n gyson, ei fod ar gael yn y Gymraeg, a bod—ochr yn ochr â hynny—sylwebaeth synhwyrol ar y llyfr statud hwnnw. A allwch chi ein diweddaru ar y cynnydd yn hynny o beth? Rwyf yn ymwybodol eich bod wedi sôn yn y gorffennol am wanwyn hwyr—a bydd cyhydnos yr haf yn digwydd cyn hir—a wnaed cynnydd sylweddol yn y cyswllt hwnnw?

I am more interested in the second part of the response that you outlined, namely the effort to ensure that the statute book is regularly updated, that it is available through the medium of Welsh, and that—alongside that—there is sensible commentary on that statute book. Can you give us an update on any progress in that regard? I am aware that you have mentioned a late spring in the past—and the summer solstice will be here before too long—has any significant progress been made in that regard?

14:17

## Theodore Huckle

Senedd.tv
Fideo Video

It is the summer solstice on Friday, I think. There are two separate aspects that I have tried to make clear in the statements that I have already given to the Assembly. First, there is the question of legislation and its publication. That is the area in which we have been working with the National Archives, which is responsible for legislation.gov.uk. Frankly, we have been trying to sort out the Welsh legislation end of that. It is not a problem that is confined to Wales. There have been lots of problems with legislation.gov.uk not being up to date and so on. It has been working with a number of interested third-party groups, if I can call them that, to sort out different parts of the site. We have become involved directly because of our concern about the Welsh legislation aspect. Officials have been working for the National Archives in updating the site. I know that the Member asked the First Minister about this a little while ago, and there was some talk of 'spring springing'. However, the position is that we are all but ready to announce the launch of a new, fully bilingual site, arranged and worked out with the National Archives. We are hoping that there will be an opportunity to have some kind of launch event, and I am hoping that the Member will obtain his invitation in due course. To be serious, we hope to be looking at a launch during the course of next month.

Bydd yn hirddydd haf ddydd Gwener, rwy'n credu. Mae dwy agwedd ar wahân yr wyf wedi ceisio eu hegluro yn y datganiadau yr wyf eisoes wedi'u rhoi i'r Cynulliad. Yn gyntaf, mae'r mater yn ymwneud â deddfwriaeth a'i chyhoeddi. Dyna'r maes lle rydym wedi bod yn gweithio gyda'r Archifau Cenedlaethol, sy'n gyfrifol am legislation.gov.uk. A dweud y gwir, rydym wedi bod yn ceisio datrys yr agwedd ar hynny sy'n ymwneud â deddfwriaeth Cymru. Nid yw'n broblem sydd wedi'i chyfyngu i Gymru. Bu llawer o broblemau o ran y ffaith nad oedd legislation.gov.uk yn gyfredol ac ati. Mae wedi bod yn gweithio gyda nifer o grwpiau trydydd parti â diddordeb, os gallaf eu galw'n hynny, er mwyn datrys rhannau gwahanol o'r wefan. Rydym wedi chwarae rhan uniongyrchol oherwydd ein pryder ynghylch yr agwedd ar ddeddfwriaeth Cymru. Mae swyddogion wedi bod yn gweithio ar ran yr Archifau Cenedlaethol i ddiweddaru'r wefan. Gwn fod yr Aelod wedi gofyn i'r Prif Weinidog am hyn beth amser yn ôl, ac roedd rhywfaint o sôn am 'egino'r gwanwyn'. Fodd bynnag, y sefyllfa yw ein bod yn barod i lansio gwefan newydd, gwbl ddwyieithog, wedi'i threfnu gan yr Archifau Cenedlaethol. Gobeithiwn y bydd cyfle i gynnal rhyw fath o ddigwyddiad lansio, a gobeithiaf y caiff yr Aelod ei wahoddiad maes o law. O ddifrif, gobeithiwn ei lansio yn ystod y mis nesaf.

I wish to add one more point. I do not want to avoid the other aspect of the Member's question, which was in relation to commentary—what we are calling the online encyclopedia. That is a separate matter, which we are working with Westlaw to create. We are in a similar postion of working out the technical aspects of launching a website, based in Wales, which will be populated with content from the company's general site, directed to devolution and related legal issues. We also hope that that will come to fruition in the next few months.

Hoffwn ychwanegu un pwynt arall. Nid wyf am osgoi'r agwedd arall ar gwestiwn yr Aelod, a oedd yn ymwneud â sylwebaeth—yr hyn yr ydym yn ei alw'n wyddoniadur ar-lein. Mae hynny'n fater ar wahân, yr ydym yn gweithio gyda Westlaw yn ei gylch. Rydym mewn sefyllfa debyg wrth inni geisio gweithio allan yr agweddau technegol ar lansio gwefan, yng Nghymru, a fydd yn cynnwys testun o wefan gyffredinol y cwmni, wedi'i gyfeirio at ddatganoli a materion cyfreithiol cysylltiedig. Gobeithiwn hefyd y bydd hynny'n dwyn ffrwyth yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf.

14:19

## Julie Morgan Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Does the Counsel General think that we will ever reach a point where all of the law in the devolved areas will be found in a Welsh statute book, bearing in mind that the Assmebly will probably continue to consent to the UK Parliament legislating in areas that are within the Assembly's competence, which seems to me to make it very complicated? Does he therefore think that we will reach that situation?

A yw'r Cwnsler Cyffredinol o'r farn y byddwn byth yn cyrraedd pwynt lle bydd yr holl gyfraith yn y meysydd datganoledig ar gael mewn llyfr statud i Gymru, o gofio ei bod yn debygol y bydd y Cynulliad yn parhau i gydsynio i Senedd y DU ddeddfu mewn meysydd sydd o fewn cymhwysedd y Cynulliad, sydd yn fy marn i'n gwneud pethau'n gymhleth iawn? A yw, felly, o'r farn y byddwn yn cyrraedd y sefyllfa honno?

14:20

## Theodore Huckle

Senedd.tv
[Fideo] [Video]

That is actually quite a difficult question to answer, because it is, of course, very complicated. It remains the case that Parliament, notwithstanding that the Assembly has competency in relation to devolved matters, retains power to legislate in appropriate circumstances, even in relation to devolved matters—usually subject to consent and so on. Nevertheless, that is the position. So, we do have two legislatures creating law that applies territorially in Wales as things currently stand. While that remains the case, it is difficult to see how we could have a totally separate statute book.

Mae hwnnw'n gwestiwn eithaf anodd i'w ateb mewn gwirionedd am ei bod, wrth gwrs, yn sefyllfa gymhleth iawn. Y Senedd o hyd, er gwaethaf y ffaith bod gan y Cynulliad gymhwysedd mewn perthynas â materion datganoledig, sydd â'r pŵer i ddeddfu mewn amgylchiadau priodol, hyd yn oed mewn perthynas â materion datganoledig—fel arfer yn amodol ar ganiatâd ac ati. Serch hynny, dyna'r sefyllfa. Felly, mae gennym ddwy ddeddfwrfa yn creu cyfraith sy'n gymwys yn diriogaethol yng Nghymru fel y mae pethau ar hyn o bryd. Er bod hynny'n dal yn wir, mae'n anodd gweld sut y gallem gael llyfr statud cwbl ar wahân.

### Cyfarfodydd â'r Farnwriaeth ac Aelodau o'r Proffesiwn Cyfreithiol

### Meetings with the Judiciary and Members of the Legal Profession

14:20

## Simon Thomas [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv
[Fideo] [Video]

*2. Faint o gyfarfodydd y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi eu cael gyda'r farnwriaeth ac aelodau o'r proffesiwn cyfreithiol yn ystod y chwe mis diwethaf? OAQ(4)0048(CG)*

*2. How many meetings has the Counsel General had with the judiciary and members of the legal profession during the last six months? OAQ(4)0048(CG)*

14:21

## Theodore Huckle

Senedd.tv
[Fideo] [Video]

I regularly have discussions with the judiciary and members of the legal profession.

Rwy'n cael trafodaethau gyda'r farnwriaeth ac aelodau o'r proffesiwn cyfreithiol yn rheolaidd.

14:21

## Simon Thomas [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv
[Fideo] [Video]

Well, if you have those regular discussions, Counsel General, I am sure that the matter of legal aid changes has arisen, and I am sure that you have been lobbied by the judiciary—perhaps not so much by the judiciary, but certainly by the legal profession regarding the changes in legal aid. The First Minister has confirmed that the Welsh Government has written a submission to Chris Grayling, the Minister, on his legal aid proposals. Are you in a position to detail anything that was said in that submission, or at least to publish the submission so that Members can see what the Welsh Government has said? Specifically, have you or the Welsh Government raised the matter of access to justice through the Welsh language under these proposals?

Wel, os ydych yn cael y trafodaethau rheolaidd hynny, Gwnsler Cyffredinol, rwy'n siŵr bod y mater yn ymwneud â newidiadau mewn cymorth cyfreithiol wedi codi, ac rwy'n siŵr eich bod wedi cael eich lobïo gan y farnwriaeth—nid yn gymaint efallai gan y farnwriaeth, ond yn sicr gan y proffesiwn cyfreithiol ynghylch y newidiadau mewn cymorth cyfreithiol. Mae'r Prif Weinidog wedi cadarnhau bod Llywodraeth Cymru wedi ysgrifennu cyflwyniad i Chris Grayling, y Gweinidog, ynghylch ei gynigion o ran cymorth cyfreithiol. A ydych mewn sefyllfa i fanylu ar unrhyw beth a ddywedwyd yn y cyflwyniad hwnnw, neu o leiaf i gyhoeddi'r cyflwyniad fel y gall Aelodau weld beth y mae Llywodraeth Cymru wedi ei ddweud? Yn benodol, a ydych chi neu Llywodraeth Cymru wedi codi'r mater yn ymwneud â mynediad at gyfiawnder drwy gyfrwng y Gymraeg o dan y cynigion hyn?

14:21

## Theodore Huckle

Senedd.tv
[Fideo] [Video]

I never thought I would be able to say this, but I am very happy to be able to announce—. [Laughter.] As you rightly say, the position is that an undertaking was given by the First Minister to publish the response, and, as I understand it, that has now been done, in the last day or so. It should be on the Welsh Government's website. If I am wrong about that, I will be appropriately criticised in due course. However, I am instructed that that has been done. Certainly, as you would expect, it deals with Welsh language issues.

Ni chredais fyth y gallwn ddweud hyn, ond rwy'n falch iawn o allu cyhoeddi—. [Chwerthin.] Fel y dywedwch yn briodol, y sefyllfa yw bod ymrwymiad wedi'i roi gan y Prif Weinidog i gyhoeddi'r ymateb, ac, fel y deallaf, mae hynny bellach wedi'i wneud, yn ystod y dyddiau diwethaf. Dylai fod ar wefan Llywodraeth Cymru. Os wyf yn anghywir am hynny, caf fy meirniadu'n briodol maes o law. Fodd bynnag, deallaf fod hynny wedi cael ei wneud. Yn sicr, fel y byddech yn disgwyl, mae'n delio â materion yn ymwneud â'r Gymraeg.

May I just add something by way of clarification? I was lobbied. I think that I am at liberty to say that. The position is this, however: though I am not a Minister, I am subject to the ministerial code, and therefore subject to collective responsibility. It follows that a decision will be made in any given case as to who is the appropriate person, either a Minister or me, to make representations or responses on behalf of the Welsh Government. In this case, in relation to the criminal legal aid issues, although I was, and continue to be, involved in discussions about the Welsh Government's position in the matter, it was not I who was asked to be the Minister to make the response. The contrast, for example, is with the changes to the county court jurisdictions, where, if I can put it this way, the concerns were more technical in nature and rather less acute. For those reasons, I got that job.

A gaf ychwanegu rhywbeth er mwyn egluro? Cefais fy lobïo. Credaf fy mod yn rhydd i ddweud hynny. Y sefyllfa yw hyn, fodd bynnag: er nad wyf yn Weinidog, rwy'n ddarostyngedig i'r cod gweinidogol, ac felly'n ddarostyngedig i gyfrifoldeb ar y cyd. Yn sgil hynny, penderfynir mewn unrhyw achos penodol pwy yw'r person priodol, naill ai Weinidog neu minnau, i wneud sylwadau neu ymatebion ar ran Llywodraeth Cymru. Yn yr achos hwn, mewn perthynas â'r materion cymorth cyfreithiol troseddol, er imi fod yn rhan o drafodaethau am safbwynt Llywodraeth Cymru ar y mater, ac rwy'n parhau i wneud hynny, ni ofynnwyd imi fod yn Weinidog at ddibenion ymateb. Mae'n cyferbynnu, er enghraifft, â'r newidiadau i awdurdodaethau'r llysoedd sirol, lle, os gallaf ei roi fel hyn, roedd y pryderon yn fwy technegol eu natur ac yn hytrach yn llai difrifol. Am y rhesymau hynny, cefais y swydd honno.

### Sylwadau ar Faterion sy'n Effeithio ar Gymru

### Representations on Matters Affecting Wales

14:23 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*3. A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol roi'r wybodaeth ddiweddaraf am sylwadau y mae wedi eu gwneud ar faterion sy'n effeithio ar Gymru? OAQ(4)0046(CG)*

*3. Will the Counsel General provide an update on representations he has made on matters affecting Wales? OAQ(4)0046(CG)*

14:23 **Theodore Huckle**

Senedd.tv Fideo Video

I have just touched on this issue. I have made representations to the Secretary of State for Justice about the proposed arrangements for county courts in Wales. I have also been involved in other representations made by the Welsh Government.

Rwyf newydd gyffwrdd â'r mater hwn. Rwyf wedi gwneud sylwadau i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder ynghylch y trefniadau arfaethedig ar gyfer llysoedd sirol yng Nghymru. Rwyf hefyd wedi bod yn rhan o sylwadau eraill a wnaed gan Lywodraeth Cymru.

14:23 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Gwnsler Cyffredinol, am eich ateb. Fel chi, rwyf wedi cael fy lobïo gan aelodau o'r proffesiwn cyfreithiol ynglŷn â'r newidiadau hyn i gymorth cyfreithiol yn eu gwaith troseddol, ac rwy'n edrych ymlaen at weld ymateb y Llywodraeth yn enw'r Gweinidog perthnasol. A allwch gadarnhau i mi a oes gennych chi, y Cwnsler Cyffredinol, a'r Llywodraeth, gonsyrn bod perygl y gall y newidiadau hyn gan Lywodraeth y Deyrnas Gyfunol gau allan nifer o gwmnïau cyfreithiol yn fy etholaeth i, sef Ceredigion, o'r gwaith troseddol, ac mai effaith posibl hynny fyddai gwanhau eu busnesau cyfreithiol, gydag effaith ar y cyngor a'r gwasanaeth cyfreithiol sydd ar gael ar lefel lawer ehangach i gymunedau yng Nghymru?

Thank you, Counsel General, for your response. Like you, I have been lobbied by members of the legal profession in relation to changes to legal aid in their criminal work, and I look forward to seeing the Government's response in the name of the relevant Minister. Can you confirm whether you, as Counsel General, and the Government have concerns that there is a danger that these changes by the UK Government could exclude a number of legal companies in my constituency, Ceredigion, from this criminal work, and that the possible effect of that would be to weaken their legal businesses, with an effect on the legal advice and service that are available on a wider context to communities in Wales?

14:24 **Theodore Huckle**

Senedd.tv Fideo Video

Absolutely, and, if I may put it this way, it is the view of the Welsh Government that these changes have the capacity to cause acute—I use that word again—problems for people and communities. They will have a disproportionate effect on the socioeconomically disadvantaged members of our communities and citizens in Wales. The response is in accordingly firm terms.

Yn sicr, ac, os caf ei roi fel hyn, cred Llywodraeth Cymru y gall y newidiadau hyn achosi problemau difrifol—defnyddiaf y gair hwnnw eto—i bobl a chymunedau. Byddant yn cael effaith anghymesur ar yr aelodau o'r cymunedau hynny a dinasyddion yng Nghymru sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae'r ymateb felly yn gadarn.

## Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi

## Questions to the Minister for Communities and Tackling Poverty

### Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol

### Communities Facilities and Activities Programme

14:25 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*1. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y rhaglen newydd yn lle'r 'Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol'? OAQ(4)0050(CTP)*

*1. Will the Minister make a statement on the replacement for the 'Communities Facilities and Activities Programme'? OAQ(4)0050(CTP)*

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

14:25 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty*

My officials are currently in the process of developing options for my consideration of the future of capital funding for community projects. I will make an announcement on the matter once a decision is reached.

Mae fy swyddogion wrthi ar hyn o bryd yn datblygu opsiynau imi eu hystyried o ran dyfodol cyllid cyfalaf ar gyfer prosiectau cymunedol. Gwnaf gyhoeddiad ar y mater unwaith y gwneir penderfyniad.

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

14:25 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We welcome and look forward to seeing that statement. This is a programme that has made significant contributions in many communities—many welfare halls, social halls and community facilities would never have been developed without your support. Can you confirm, Minister, that when you come up with new programmes, you will be looking specifically at areas that may not have had the benefits of investment in the past?

Croesawn y datganiad hwnnw ac edrychwn ymlaen ato. Mae'r rhaglen hon wedi gwneud cyfraniadau sylweddol mewn sawl cymuned—ni fyddai llawer o neuaddau lles, neuaddau cymdeithasol na chyfleusterau cymunedol wedi cael eu datblygu heb eich cymorth. A allwch gadarnhau, Weinidog, pan fyddwch yn cyflwyno rhaglenni newydd, y byddwch yn edrych yn benodol ar ardaloedd o bosibl na fuddsoddwyd ynddynt eisoes yn y gorffennol?

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

14:26 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am afraid that I cannot give the Member for Pontypridd any such assurance at present. It is appropriate in the current financial climate that I must consider all the options with regard to the future of capital funding for communities. It will be in my mind that we need to prioritise community resilience within that decision-making process. At present, no decisions have been reached, but the decisions that we will come to will have to go through a tough process of prioritisation before I am able to make announcements.

Yn anffodus, ni allaf roi sicrwydd o'r fath i'r Aelod dros Bontypridd ar hyn o bryd. Yn yr hinsawdd ariannol bresennol sydd ohoni, mae'n briodol bod yn rhaid imi ystyried yr holl opsiynau o ran dyfodol cyllid cyfalaf i gymunedau. Byddaf yn ymwybodol bod angen inni roi blaenoriaeth i wydnwch cymunedol yn y broses gwneud penderfyniadau honno. Ar hyn o bryd, ni wnaed unrhyw benderfyniadau, ond bydd yn rhaid i'r penderfyniadau a wnawn fod yn destun proses flaenoriaethu lem cyn y gallaf wneud cyhoeddiadau.

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

14:26 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I pressed you on this issue back in April. At that point, no decision had been reached on how the programme was to develop. I want to raise again the concern expressed to me by the Powys Association of Voluntary Organisations, which is concerned about losing out under the new programme. Are you now in a position to allay its concerns by outlining what new arrangements will be in place for Powys as a region and how organisations there will be able to apply for this grant funding?

Weinidog, pwysais arnoch mewn perthynas â'r mater hwn ym mis Ebrill. Bryd hynny, nid oedd unrhyw benderfyniad wedi'i wneud o ran sut y câi'r rhaglen ei datblygu. Hoffwn godi'r pryder, unwaith eto, a fynegwyd gan Gymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Powys, sy'n pryderu y bydd ar ei cholled o dan y rhaglen newydd. A ydych bellach mewn sefyllfa i dawelu ofnau'r gymdeithas drwy amlinellu pa drefniadau newydd fydd ar waith i Bowys fel rhanbarth a sut y bydd sefydliadau yn yr ardal honno yn gallu gwneud cais am y cyllid grant hwn?

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

14:27 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

No, I am not. As I say, I am not in a position as yet to make an announcement outlining my decision making on capital for communities. However, I can assure Russell George that there will be no special difficulties for Powys compared with anywhere else in Wales. The whole of Wales is facing a problem with regard to funding resources and issues such as this, particularly when it comes to capital spend.

Nac ydw. Fel y dywedais, nid wyf mewn sefyllfa ar hyn o bryd i wneud cyhoeddiad yn amlinellu fy mhenderfyniadau o ran cyfalaf i gymunedau. Fodd bynnag, gallaf sicrhau Russell George na fydd unrhyw anawsterau arbennig i Bowys o gymharu ag unrhyw le arall yng Nghymru. Mae Cymru gyfan yn wynebu problem o ran adnoddau ariannol a phroblemau o'r fath, yn enwedig o ran gwariant cyfalaf.

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

14:28 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I have listened intently to what you have said but, as the Minister for tackling poverty, I am a bit worried about the words that I am hearing from you. People in many communities across Wales and in my area have benefited substantially from this programme, but many have not benefited at all in deprived areas and I am continuously fighting for them to get support. Could I ask you to go back to the table to see what is possible for the future so that the new areas that are currently in poverty are protected and supported?

Weinidog, gwrandewais yn astud ar yr hyn a ddywedasoch ond, fel y Gweinidog Trechu Tlodi, rwy'n pryderu braidd am y geiriau a glywaf gennych. Mae pobl mewn sawl cymuned ledled Cymru ac yn fy ardal i wedi cael budd sylweddol o'r rhaglen hon, ond mae llawer o bobl mewn ardaloedd difreintiedig nad ydynt wedi cael unrhyw fudd ac rwy'n brwydro o hyd iddynt gael cymorth. A allwn ofyn ichi ailfeddwl er mwyn gweld beth sy'n bosibl ar gyfer y dyfodol er mwyn sicrhau y caiff yr ardaloedd newydd sy'n dioddef tlodi ar hyn o bryd eu diogelu a'u cefnogi?

14:28 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am currently engaged in that decision-making process. These are very difficult decisions to make. As Bethan Jenkins has said, there are many communities in great need and I must be clear about our priorities to make fair decisions in that regard.

Rwy'n ymgymryd â'r broses gwneud penderfyniadau honno ar hyn o bryd. Mae'r penderfyniadau hyn yn anodd iawn. Fel y dywedodd Bethan Jenkins, mae llawer o gymunedau mewn angen mawr a rhaid imi fod yn glir ynghylch ein blaenoriaethau er mwyn gwneud penderfyniadau teg yn hynny o beth.

## Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yng Nghasnewydd

## Gypsy and Travellers Sites in Newport

14:28 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*2. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarparu safleoedd sipsiwn a theithwyr yng Nghasnewydd? OAQ(4)0040(CTP)*

*2. Will the Minister make a statement on the provision of gypsy and travellers sites in Newport? OAQ(4)0040(CTP)*

14:29 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Gypsy and Traveller framework for action, 'Travelling to a Better Future', highlights that we expect local authorities to deliver new sites where the need has been clearly established. We are committed to working with local authorities to ensure that the accommodation needs of Gypsy and Traveller communities are met.

Mae'r fframwaith gweithredu ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr, 'Teithio at Ddyfodol Gwell', yn nodi ein bod yn disgwyl i awdurdodau lleol ddarparu safleoedd newydd lle y cadarnhawyd bod angen clir. Rydym yn ymrwymedig i weithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau y caiff anghenion llety cymunedau Sipsiwn a Theithwyr eu diwallu.

14:29 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that reply. I have been contacted by businesses on Queensway Meadows industrial estate in Newport, complaining about an illegal Gypsy site that has been set up on Welsh Government land, outside the front gate. I wrote to the Minister responsible for economic development to ask her to take action to remove these illegal occupants, but she refused because there are no formal Gypsy and Traveller facilities available in Newport. Although the site was vacated last Friday, does the Minister agree that her refusal to act sent out the wrong signal, namely that the Welsh Government condones illegal Gypsy sites?

Diolch am yr ymateb hwnnw. Mae busnesau ar ystad ddiwydiannol Queensway Meadows yng Nghasnewydd wedi cysylltu â mi, yn cwyno am safle Sipsiwn anghyfreithlon a sefydlwyd ar dir Llywodraeth Cymru, y tu allan i'r giât blaen. Ysgrifennais at y Gweinidog sy'n gyfrifol am ddatblygu economaidd yn gofyn iddi gymryd camau i gael gwared ar y preswylwyr anghyfreithlon hyn, ond gwrthododd wneud hynny oherwydd nad oes unrhyw gyfleusterau ffurfiol ar gael i Sipsiwn a Theithwyr yng Nghasnewydd. Er iddynt adael y safle ddydd Gwener diwethaf, a yw'r Gweinidog yn cytuno bod y ffaith ei bod wedi gwrthod gweithredu yn cyfleu'r neges anghywir, sef bod Llywodraeth Cymru yn goddef safleoedd Sipsiwn anghyfreithlon?

14:30 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Of course not. That is quite a perverse reading of the situation as regards the Queensway Meadows industrial site, as anyone with a fair judgment of the facts will agree. The Welsh Government is considering including a duty regarding the provision of new sites in the housing Bill, which was consulted on in the 'Homes for Wales' White Paper back in 2012. The Welsh Government will launch a consultation process shortly on revised guidance for managing unauthorised camping. Furthermore, the Welsh Government offers funding to local authorities in Wales to refurbish existing local authority sites, as well as funding towards the building of new sites. That funding is offered at 100%. During 2012-13, just over £1.7 million has been committed to refurbishment projects across Wales.

Wrth gwrs nad wyf yn cytuno â hynny. Mae hynny'n ddehongliad gwrthnysig iawn o'r sefyllfa o ran ystad ddiwydiannol Queensway Meadows, fel y bydd unrhyw un sy'n ymwybodol o'r ffeithiau yn cytuno. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried cynnwys dyletswydd o ran darparu safleoedd newydd yn y Bil tai, yr ymgynghorwyd arni yn y Papur Gwyn 'Cartrefi i Gymru' nôl yn 2012. Bydd Llywodraeth Cymru yn lansio proses ymgynghori maes o law ar ganllawiau diwygiedig ar gyfer rheoli gwersylloedd anawdurdodedig. At hynny, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig arian i awdurdodau lleol yng Nghymru adnewyddu safleoedd presennol sy'n eiddo i'r awdurdodau hynny, yn ogystal ag arian tuag at adeiladu safleoedd newydd. Cynigir yr arian hwnnw ar lefel o 100%. Yn ystod 2012-13, neilltuwyd ychydig dros £1.7 miliwn i brosiectau adnewyddu ledled Cymru.

There are no sites in Newport at present. Therefore, logic dictates that it should be a pressing matter for Newport City Council to seek a way through this situation, which means that illegal, or unauthorised, camping of any kind should not be a feature of what happens in the Newport area. The identification, the recommendation, and the approval of any proposed new Gypsy and Traveller site is a matter for the local authority; it is not appropriate for the Welsh Government to comment on individual proposals such as this one.

Nid oes unrhyw safleoedd yng Nghasnewydd ar hyn o bryd. Felly, wrth reswm, dylai dod o hyd i ateb i'r sefyllfa hon fod yn fater o flaenoriaeth i Gyngor Dinas Casnewydd, sy'n golygu na ddylai gwersylloedd anghyfreithlon nac anawdurdodedig o unrhyw fath fod yn nodwedd o'r hyn sy'n digwydd yn ardal Casnewydd. Cyfrifoldeb awdurdodau lleol yw nodi, argymell a chymeradwyo unrhyw safle newydd arfaethedig i Sipsiwn a Theithwyr; nid yw'n briodol i Lywodraeth Cymru wneud sylwadau ar gynigion unigol fel y cynnig hwn.

14:31 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

This is the second time that businesses at the Queensway Meadows industrial site have had to put up with the problems that are associated with the Gypsies that are illegally occupying that particular site, such as litter, human waste and damage to their property, to trees and to hedges. Newport City Council is currently in the process of allocating sites for Gypsy and Traveller facilities, which is causing considerable public concern and opposition. Does the Minister agree that unauthorised and illegal Traveller sites, such as this one, which can cause considerable nuisance to local people and businesses, set back the equality agenda in Wales and should not be tolerated?

Dyma'r ail waith i fusnesau ar safle diwydiannol Queensway Meadows orfod dioddef y problemau sy'n gysylltiedig â Sipsiwn yn meddiannu'r safle penodol hwnnw yn anghyfreithlon, megis sbwriel, gwastraff dynol a difrod i'w heiddo, i goed ac i wrychoedd. Mae Cyngor Dinas Casnewydd wrthi ar hyn o bryd yn dyrannu safleoedd ar gyfer cyfleusterau Sipsiwn a Theithwyr, sy'n achosi cryn bryder a gwrthwynebiad o du'r cyhoedd. A yw'r Gweinidog yn cytuno bod safleoedd Teithwyr anawdurdodedig ac anghyfreithlon, fel y safle hwn, a all achosi cryn niwsans i bobl a busnesau lleol, yn atal yr agenda cydraddoldeb yng Nghymru ac na ddylid eu goddef?

14:32 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am not going to answer this question in terms of whether things should be tolerated or not. There is a question here about decent provision being made for all the citizens of Wales. The Welsh Government provides 100% financial backing for local authorities that can get their act together in this regard. In that regard, the stance of the Welsh Government is clear on this matter. I look forward to a resolution in the Newport city area of the problem of a lack of provision.

Ni fwriadaf ateb y cwestiwn hwn o ran pa un a ddylid goddef pethau ai peidio. Y flaenoriaeth yw sicrhau bod darpariaeth foddhaol ar gael i holl ddinasyddion Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi cymorth ariannol 100% i awdurdodau lleol sy'n barod i weithredu yn hyn o beth. I'r perwyl hwnnw, mae safbwynt Llywodraeth Cymru yn glir ar y mater hwn. Edrychaf ymlaen at weld y diffyg darpariaeth yn ninas Casnewydd yn cael ei ddatrys.

14:33 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Next week, I will be pleased to take part in the Gypsy, Roma and Traveller national symposium, which is organised by Isaac Blake of the Romani Cultural and Arts Company. This looks at the long history and culture of Gypsies and Travellers in Wales, and worldwide. Does the Minister agree that such events are important to dispel the negative stereotypes that exist about Gypsies and Travellers, which results in the sorts of problems that we have heard about today?

Yr wythnos nesaf, bydd yn bleser gennyf gymryd rhan yn y symposiwm Sipsiwn, Roma a Theithwyr cenedlaethol, a gaiff ei drefnu gan Isaac Blake o'r Romani Cultural and Arts Company. Bydd yn ystyried hanes a diwylliant maith Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru, a ledled y byd. A yw'r Gweinidog yn cytuno bod digwyddiadau o'r fath yn bwysig er mwyn chwalu'r stereoteipiau negyddol sy'n bodoli am Sipsiwn a Theithwyr, sy'n arwain at y math o broblemau y clywsom amdanynt heddiw?

14:33 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes. I thank Julie Morgan very much for rebalancing this debate somewhat in terms of perceptions around this issue, which are very important. Events like the symposium are critical, as they assist in dispelling negative myths and stereotypes about Gypsies and Travellers. I understand that the cross-party group on Gypsies and Travellers, which Julie Morgan chairs, has recently discussed stigma issues, and I believe that there was a very positive and interactive discussion around some of the daily issues that are faced by the Gypsy and Traveller communities in Wales. In addition, I will be launching a consultation on a hate crime framework for action on 11 July, and I am keen that Gypsies and Travellers participate fully in that. Objective 1 of the framework will focus on effective prevention to tackle hate crime, including the challenging of stereotypes and negative attitudes.

Ydw. Diolch yn fawr iawn i Julie Morgan am ailgydbwyso'r ddadl hon rywfaint o ran canfyddiadau ynghylch y mater hwn, sy'n bwysig iawn. Mae digwyddiadau fel y symposiwm yn hollbwysig, gan eu bod yn helpu i chwalu mythau a stereoteipiau negyddol am Sipsiwn a Theithwyr. Deallaf fod y grŵp trawsbleidiol ar Sipsiwn a Theithwyr, y mae Julie Morgan yn gadeirydd arno, wedi trafod materion yn ymwneud â stigma yn ddiweddar, a chredaf iddynt gael trafodaeth gadarnhaol a rhyngweithiol iawn am rai o'r problemau beunyddiol a wynebir gan gymunedau Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru. Yn ogystal, byddaf yn lansio ymgynghoriad ar fframwaith gweithredu ar gyfer troseddau casineb ar 11 Gorffennaf, ac rwy'n awyddus i Sipsiwn a Theithwyr gymryd rhan lawn yn y broses honno. Bydd amcan 1 y fframwaith yn canolbwyntio ar waith atal effeithiol i fynd i'r afael â throseddau casineb, gan gynnwys herio stereoteipiau ac agweddau negyddol.

14:35 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, we are all aware of the shameful and prejudicial views of some politicians, both in Newport and Swansea, who make frightful, naïve and inaccurate comments about Gypsy and Traveller families. What is the Welsh Government doing to educate the political class so that local leaders, which is what they are, are not the ones stirring up fear and hatred towards this vulnerable group that needs our care, help and protection?

Weinidog, mae pob un ohonom yn ymwybodol o farn gywilyddus a rhagfarnllyd rhai gwleidyddion, yng Nghasnewydd ac yn Abertawe, sy'n gwneud sylwadau echrydus, naïf ac anghywir am deuluoedd Sipsiwn a Theithwyr. Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i addysgu'r dosbarth gwleidyddol er mwyn sicrhau nad arweinwyr lleol, gan mai dyna ydynt, yw'r rhai sy'n corddi'r dyfroedd gan achosi ofn a chasineb tuag at y grŵp bregus hwn y mae angen ein gofal, ein cymorth a'n hamddiffyniad arno?

14:35 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I would be forming far too high an opinion of myself if I saw myself as an educator of the political class within Wales. However, we all have a duty here, and I know that the spirit of Lindsay Whittle's question is sincere and quite correct. For my own part, I have recently met with the Wrexham forum for young Gypsies and Travellers—a remarkable group of young people who explained to me the difficulties they face from young people in particular from the settled community. All members of the Welsh political class would benefit from such a conversation. It was quite an eye opener for me to realise that a lot of the negative attitudes and stereotyping that their community had faced for many generations was now migrating onto the internet, and as young people, they were being exposed to these attitudes from a wholly new direction. It was an eye-opener for me, and I recommend that any Member here who has a Gypsy and Traveller community within their constituency spends some time having a conversation like that one.

Byddai gennyf farn lawer rhy uchel ohonof fi fy hun pe bawn yn ystyried fy mod yn un o addysgwyr y dosbarth gwleidyddol yng Nghymru. Fodd bynnag, mae dyletswydd ar bob un ohonom, a gwn fod ysbryd cwestiwn Lindsay Whittle yn ddiffuant ac yn gwbl briodol. O'm rhan i, cyfarfûm yn ddiweddar â fforwm Sipsiwn a Theithwyr ifanc Wrecsam—grŵp arbennig o bobl ifanc a eglurodd yr anawsterau y maent yn eu hwynebu gan bobl ifanc yn arbennig o'r gymuned sefydlog. Byddai sgwrs o'r fath o fudd i bob aelod o'r dosbarth gwleidyddol yng Nghymru. Roedd yn agoriad llygad go iawn imi sylweddoli fod llawer o'r agweddau a'r stereoteipiau negyddol y bu eu cymuned yn eu hwynebu ers sawl cenhedlaeth bellach wedi trosglwyddo i'r rhyngrwyd, ac fel pobl ifanc, eu bod yn cael eu hamlygu i'r agweddau hyn o gyfeiriad cwbl newydd. Roedd yn agoriad llygad imi, a byddwn yn argymell y dylai unrhyw Aelod yma â chymuned Sipsiwn a Theithwyr yn ei etholaeth dreulio rhywfaint o amser yn cael sgwrs o'r fath.

14:36 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Question 3, OAQ(4)0044(CTP), has been withdrawn.

Tynnwyd cwestiwn 3, OAQ(4)0044(CTP), yn ôl.

### Cymunedau yn Gyntaf

### Communities First

14:36 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*4. Sut y mae Cymunedau yn Gyntaf yn cyflawni atebion cymunedol i broblemau cymunedol? OAQ(4)0054(CTP)*

*4. How is Communities First delivering community solutions to community problems? OAQ(4)0054(CTP)*

14:36 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Communities First provides resources in the most deprived communities to enable local people and their partners to tackle issues related to poverty. Clusters are now implementing their community involvement plans to ensure that their work reflects local needs and that projects and activities are shaped by the community.

Mae Cymunedau yn Gyntaf yn darparu adnoddau yn y cymunedau mwyaf difreintiedig i alluogi pobl leol a'u partneriaid i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â thlodi. Mae clystyrau bellach yn rhoi eu cynlluniau cynnwys y gymuned ar waith er mwyn sicrhau bod eu gwaith yn adlewyrchu anghenion lleol ac y caiff prosiectau a gweithgareddau eu llywio gan y gymuned.

14:37 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

As you are aware, the 'Communities First—The Future' document produced in 2011 by the Welsh Government talked about Communities First being all about community solutions to community problems. I have raised previously with you a concern that the Wales Council for Voluntary Action call for a move from Government dependency to community ownership was rejected and, instead, that responsibility was given for safeguarding the community-focused nature of the programme to the lead delivery bodies of Communities First clusters, which are primarily involved with corporate governance, human resource, and finance, and are primarily local authorities that are not based in those communities. What role do you feel that organisations such as the Caia Park partnership—which I believe your colleague, Jeff Cuthbert, the Deputy Minister for Skills and Technology, is visiting tomorrow—as a social enterprise based in the community, from before devolution, can play in helping to tackle the root causes of poverty and deal with its effects on the basis of community involvement?

Fel y byddwch yn ymwybodol, cyfeiriodd y ddogfen 'Cymunedau yn Gyntaf—Y Dyfodol' a gynhyrchwyd yn 2011 gan Lywodraeth Cymru at y ffaith mai nod Cymunedau yn Gyntaf oedd rhoi atebion cymunedol i broblemau cymunedol. Codais yn flaenorol bryder bod cais gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru i symud o fod yn ddibynnol ar y Llywodraeth i statws perchenogaeth gymunedol wedi'i wrthod, ac, yn lle hynny, bod cyfrifoldeb dros ddiogelu natur gymunedol y rhaglen wedi'i roi i gyrff cyflenwi arweiniol clystyrau Cymunedau yn Gyntaf, sy'n ymwneud yn bennaf â llywodraethu corfforaethol, adnoddau dynol a chyllid, ac sydd, ar y cyfan, yn awdurdodau lleol nad ydynt wedi'u lleoli yn y cymunedau hynny. Yn eich barn chi, pa rôl y gall sefydliadau fel partneriaeth Parc Caia—y mae eich cyd-Aelod, Jeff Cuthbert, y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg yn ymweld â hi yfory, fe gredaf—fel menter gymdeithasol sydd wedi'i lleoli yn y gymuned, ers cyn datganoli, ei chwarae i helpu i fynd i'r afael â'r ffactorau sylfaenol sy'n achosi tlodi ac ymdrin â'i effeithiau drwy gynnwys y gymuned?

14:38 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

That was quite an involved question; I am not quite sure if I can get to the nub of this question overly quickly, Presiding Officer.

Roedd sawl elfen i'r cwestiwn hwnnw; nid wyf yn hollol siŵr a allaf fynd at graidd y cwestiwn hwn yn ddigon cyflym, Lywydd.

14:38 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

If you could try; it would be very helpful if you could [Laughter.]

Os gallech roi cynnig arni; byddai'n ddefnyddiol iawn pe gallech [Chwerthin.]

14:38 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

As I always do. Clusters will have to demonstrate how they are engaging with communities, particularly with the most vulnerable people in each community, and those who have not previously been involved in the programme. That is also stipulated in terms of this new form of Communities First. They have to ensure that new challenges, which are specific to that community, as well as existing problems, are being identified and tackled. We will be monitoring, with an evidence base, how each Communities First cluster gets to grips with that agenda.

Fel y gwnaf bob amser. Bydd yn rhaid i glystyrau ddangos sut y maent yn ymgysylltu â chymunedau, yn enwedig gyda'r bobl fwyaf agored i niwed ymhob cymuned, a'r rhai na chawsant eu cynnwys yn flaenorol yn y rhaglen. Nodir hynny hefyd o ran Cymunedau yn Gyntaf ar ei newydd wedd. Rhaid iddynt sicrhau bod heriau newydd, sy'n benodol i'r gymuned honno, yn ogystal â phroblemau sy'n bodoli eisoes, yn cael eu nodi a'u datrys. Byddwn yn monitro, gyda sylfaen dystiolaeth, sut y mae pob clwstwr Cymunedau yn Gyntaf yn mynd i'r afael â'r agenda honno.

14:39 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I was very pleased to welcome you to Ysgol y Fron Primary School in Hollywell in my constituency recently, where we saw a Communities First-funded financial education workshop. It was exciting and innovative, and I think that we both enjoyed it as much as the year 6 pupils. They were taught really good skills about money management and how to avoid loan sharks and pay-day loans. Would you agree with me that this was a first-class example of the many ways in which Communities First across Wales is delivering community solutions to community problems?

Roeddwn yn falch iawn o'ch croesawu i Ysgol Gynradd y Fron yn Nhreffynnon yn fy etholaeth yn ddiweddar, lle gwelsom weithdy addysg ariannol wedi'i ariannu gan Gymunedau yn Gyntaf. Roedd yn gyffrous ac yn arloesol, a chredaf ein bod ni'n dau wedi'i fwynhau llawn cymaint â'r disgyblion blwyddyn 6. Addysgwyd sgiliau da iawn iddynt o ran rheoli arian a sut i osgoi benthycwyr arian didrwydded a benthyciadau diwrnod cyflog. A fyddech yn cytuno â mi fod hon yn enghraifft eithriadol o'r gwahanol ffyrdd y mae Cymunedau yn Gyntaf ledled Cymru yn cynnig atebion cymunedol i broblemau cymunedol?

14:39 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I wholeheartedly agree with Sandy Mewies on that point. The delightful—and I use that word advisedly—couple of hours that we spent at the financial literacy workshop in Ysgol y Fron. It was a tremendous example of Communities First working alongside the local school, and addressing an increasingly important issue—the education of children from an early age in financial literacy, getting to grips with issues like interest rates, fairness and unfairness in financial products, and so on. To see the level of enthused engagement from those young people, working alongside Communities First in this instance, was a tremendous boost for me. They are a fantastic bunch of pupils and a fantastic bunch of Communities First activists.

Cytunaf yn llwyr â Sandy Mewies ar y pwynt hwnnw. Gwnaethom dreulio ychydig o oriau hyfryd—a gochelaf wrth ddefnyddio'r gair hwnnw—yn y gweithdy sgiliau ariannol yn Ysgol y Fron. Roedd yn enghraifft ardderchog o Gymunedau yn Gyntaf yn cydweithio â'r ysgol leol, gan fynd i'r afael â mater cynyddol bwysig—sef addysgu sgiliau ariannol i blant o oedran cynnar, mynd i'r afael â materion fel cyfraddau llog, tegwch ac annhegwch o fewn cynhyrchion ariannol, ac ati. Roedd gweld brwdfrydedd y bobl ifanc hynny, a oedd yn gweithio ochr yn ochr â Chymunedau yn Gyntaf yn yr achos hwn, yn hwb aruthrol imi. Maent yn griw ardderchog o ddisgyblion ac yn griw ardderchog o ymgyrchwyr Cymunedau yn Gyntaf.

14:40 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Weinidog, mae'n flaenoriaeth gan y Llywodraeth yn gyffredinol i dorri'r cyswllt rhwng ardaloedd difreintiedig, megis ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf, a'r diffyg cyrhaeddiad addysgiadol. Yn benodol, mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau yn dynodi arian ychwanegol ar gyfer y pwrpas hwn yn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf. Ym mha ffordd mae gweddill gweithgareddau Cymunedau'n Gyntaf yn hyrwyddo'r amcan hwn o wireddu cyrhaeddiad llawn holl blant Cymru, yn enwedig y plant yn yr ardaloedd mwyaf tlawd yng Nghymru?

Minister, it is a general priority of this Government to break the link between disadvantaged areas, such as Communities First areas, and problems with educational achievement. Specifically, the Minister for Education and Skills is allocating additional funds to this end in Communities First areas. How, therefore, do all other Communities First activities promote this objective of ensuring that all children in Wales achieve their full potential, particularly those children in the poorest parts of our country?

14:41 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The new framework for Communities First, in terms of the cluster make-up that we are embarking upon at present, contains at its heart three simple priorities for all 52 of them to concentrate upon. It is about the prosperity of that community, the education and skills level of that community, and the health of that community. Rigorous focus will be something that I will be looking for in terms of our monitoring of the Communities First programme as it evolves from this point onwards. Links with schools are of course an essential part of the educational and skills element of that tripartite emphasis on Communities First activity.

Wrth wraidd y fframwaith newydd ar gyfer Cymunedau yn Gyntaf, o ran cyfansoddiad y clystyrau yr ydym yn dechrau eu cyflwyno ar hyn o bryd, ceir tair blaenoriaeth syml i bob un o'r 52 ohonynt ganolbwyntio arnynt. Mae a wnelo â ffyniant y gymuned honno, addysg a lefel sgiliau'r gymuned honno ac iechyd y gymuned honno. Byddaf yn anelu at ffocws trwyadl o ran ein gwaith o fonitro'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf wrth iddi esblygu o hyn ymlaen. Wrth gwrs, mae cysylltiadau ag ysgolion yn rhan hanfodol o elfen addysg a sgiliau y pwyslais teiran hwnnw ar weithgarwch Cymunedau yn Gyntaf.

14:42 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

At the recent Communities, Equality and Local Government Committee meeting, you helpfully confirmed that you will be publishing annual monitoring reports on Communities First along the three strands that you just outlined to Simon Thomas. You said that they would be measurable and public so that you could measure progress over time. When do you anticipate making the first publication of those indicators?

Yng nghyfarfod diweddar y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, buoch cystal â chadarnhau y byddwch yn cyhoeddi adroddiadau monitro blynyddol ar Cymunedau yn Gyntaf gan ganolbwyntio ar y tri maes yr ydych newydd eu hamlinellu i Simon Thomas. Dywedasoch y byddent yn fesuradwy ac yn gyhoeddus er mwyn ichi allu mesur cynnydd dros amser. Pryd y rhagwelwch y caiff y dangosyddion hynny eu cyhoeddi am y tro cyntaf?

14:42 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Those indicators will be available very shortly. I am hoping that, before we leave for our summer break, Members will have further details of that monitoring structure as to how it is going to work and what will be made publicly available in terms of the monitoring of Communities First.

Bydd y dangosyddion hynny ar gael yn fuan iawn. Gobeithio, cyn inni adael ar gyfer gwyliau'r haf, y bydd gan yr Aelodau ragor o fanylion am y strwythur monitro hwnnw o ran sut y caiff ei weithredu a beth a gaiff ei gyhoeddi o ran monitro Cymunedau yn Gyntaf.

14:43 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

That is one step further than your announcement at committee, and I very much welcome that indication that you will be able to publish something in July. What baseline will you be using to measure progress in terms of these indicators? Communities First has of course been in place for over 10 years, and although you have only been in charge of it for a matter of months, clearly there must be some way of measuring how it has progressed over that period of time.

Mae hynny'n mynd gam ymhellach o gymharu â'ch cyhoeddiad yn y pwyllgor, a chroesawaf yr awgrym y byddwch yn gallu cyhoeddi rhywbeth ym mis Gorffennaf. Pa linell sylfaen y byddwch yn ei defnyddio i fesur cynnydd o ran y dangosyddion hyn? Bu Cymunedau yn Gyntaf, wrth gwrs, ar waith ers dros 10 mlynedd, ac er mai dim ond ers ychydig fisoedd y buoch yn gyfrifol am y rhaglen, yn amlwg rhaid bod rhyw ffordd o fesur cynnydd dros y cyfnod hwnnw.

14:43 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am glad that Peter Black recognises that measuring the progress of Communities First is slightly more complicated than, for instance, measuring the progress of a Minister like myself. The baseline for my performance in the job starts the day I am appointed, and our programme for government makes clear exactly what I should be measured against. Communities First consists of 52 different partnerships, all in different places—geographically, but also in terms of development, and where they began in terms of the level of deprivation and the character of the deprivation within that community. The measurement of Communities First and its progress must be more subtle, more bespoke to the community and slightly more complex in its make-up. That is only right and fair.

Rwy'n falch bod Peter Black yn cydnabod bod mesur cynnydd Cymunedau yn Gyntaf ychydig yn fwy cymhleth, er enghraifft, na mesur cynnydd Gweinidog fel fi fy hun. Mae'r llinell sylfaen ar gyfer fy mherfformiad yn y swydd yn dechrau ar y diwrnod y caf fy mhenodi, ac mae ein rhaglen lywodraethu yn egluro'n union beth y dylid fy mesur yn ei erbyn. Mae Cymunedau yn Gyntaf yn cynnwys 52 o bartneriaethau gwahanol, a phob un mewn mannau gwahanol—yn ddaearyddol, ond hefyd o ran datblygiad, a'u man cychwyn o ran lefel yr amddifadedd a'r math o amddifadedd yn y gymuned honno. Rhaid mesur Cymunedau yn Gyntaf a'i chynnydd mewn ffordd fwy cynnil, gan ddefnyddio dulliau wedi'u teilwra'n fwy penodol ar gyfer y gymuned dan sylw ac ychydig yn fwy cymhleth o ran cyfansoddiad. Mae hynny ond yn briodol ac yn deg.

### Trydydd Sector

### Third Sector

14:44 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*5. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei waith gyda'r Trydydd Sector yng Nghymru? OAQ(4)0049(CTP)*

*5. Will the Minister provide an update on his work with the Third Sector in Wales? OAQ(4)0049(CTP*

14:44 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for South Wales Central for that question. I have held meetings with a number of third sector representatives since taking up my new portfolio, chaired a meeting of the third sector partnership council, and launched a consultation designed to stimulate and inform a refresh of the relationship between the Welsh Government and the third sector in Wales. That will involve tough prioritisation for future funding decisions.

Diolch i'r Aelod dros Ganol De Cymru am y cwestiwn hwnnw. Cynhaliais gyfarfodydd gyda nifer o gynrychiolwyr y trydydd sector ers imi ymgymryd â'm portffolio newydd, cadeiriais gyfarfod cyngor partneriaeth y trydydd sector, a lansiais ymgynghoriad a gynlluniwyd i ysgogi a llywio gwaith i adnewyddu'r gydberthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r trydydd sector yng Nghymru. Bydd hynny'n golygu proses flaenoriaethu anodd ar gyfer penderfyniadau ariannu yn y dyfodol.

14:45 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

In that case, I am sure that you will be aware of the concerns raised with us today, when I hosted an event for charities and the third sector about the potential impact of changes to the business rate regime and to rate relief for charities. Can you give us an idea of what representations you have made to the Minister for Economy, Science and Transport on the subject? What assessment have you made of the impact that these changes could have on service delivery?

Yn yr achos hwnnw, rwy'n siŵr y byddwch yn ymwybodol o'r pryderon a godwyd gyda ni heddiw, pan gynhaliais ddigwyddiad ar gyfer elusennau a'r trydydd sector ynghylch effaith bosibl newidiadau i'r drefn ardrethi busnes a'r rhyddhad ardrethi ar gyfer elusennau. A allwch roi syniad o'r hyn yr ydych wedi'i ddweud wrth Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ar y pwnc? Pa asesiad a wnaed gennych o'r effaith y gallai'r newidiadau hyn ei chael ar y broses o ddarparu gwasanaethau?

14:45 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have also received representations from various parts of the third sector on concerns around the business rates review. This is a matter for the Minister for EST, who has extended a consultation to take in the views of the third sector as regards the potential impact of changes to local business rates, particularly on charity shops. That consultation ends shortly, on 28 June, so it would not be appropriate for me to comment further at present.

Cefais hefyd sylwadau gan amrywiol rannau o'r trydydd sector ar bryderon ynghylch yr adolygiad o ardrethi busnes. Mater i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yw'r mater hwn, ac mae wedi ymestyn ymgynghoriad er mwyn ystyried safbwyntiau'r trydydd sector o ran effaith bosibl newidiadau i'r ardrethi busnes lleol, yn enwedig ar siopau elusennol. Daw'r ymgynghoriad hwnnw i ben yn fuan, ar 28 Mehefin, felly ni fyddai'n briodol imi wneud sylwadau pellach ar hyn o bryd.

14:46 **Joyce Watson** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Do you agree, Minister, that the double whammy of Tory cuts and welfare reforms are placing a huge demand on third sector advice services, in particular, and that there is a danger that rural communities are put to the back of the queue when resources are tight? The reality is that face-to-face services are even more vital for out-of-the-way communities. [Interruption.] Can you tell me, therefore, as part of the ongoing consultation on the Welsh Government's relationship with the third sector, whether the mapping of advice providers has identified any significant gaps in the current advice network?

A gytunwch, Weinidog, fod yr ergyd ddwbl yn sgil toriadau'r Torïaid a'r diwygiadau lles yn arwain at alw eithriadol ar wasanaethau cyngor y trydydd sector, yn arbennig, a bod perygl nad yw cymunedau gwledig yn cael blaenoriaeth pan fydd adnoddau yn dynn? Y gwirionedd yw bod gwasanaethau wyneb-yn-wyneb hyd yn oed yn fwy hanfodol i gymunedau pellennig. [Torri ar draws.] A allwch ddweud wrthyf, felly, fel rhan o'r ymgynghoriad parhaus ar gydberthynas Llywodraeth Cymru â'r trydydd sector, a yw'r gwaith o fapio darparwyr cyngor wedi nodi unrhyw fylchau sylweddol yn y rhwydwaith cyngor presennol?

14:47 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

As Joyce Watson so ably underlines, there is a crisis facing Welsh advisory services, upon which our communities rely, even though there are some on the benches opposite who may laugh at the issue. I have attempted to pull back that situation as best as I am able, in resource terms, by making available additional revenue of just over £1.8 million for the rest of this financial year to provide immediate support to the sector during an extremely difficult time and to allow it to undertake any additional work that it deems necessary to help the sector plan its response to the recommendations of the advice services review. This is a critical point in time for the family of advisory services in Wales. The Welsh Government is standing by them, but there is a big ask for them on the table. We must have, by the turn of the next financial year, a new model of delivery of advisory services across Wales that will be robust and sustainable through very difficult times.

Fel y pwysleisiodd Joyce Watson mor fedrus, mae gwasanaethau cynghori yng Nghymru, y mae ein cymunedau yn dibynnu arnynt, yn wynebu argyfwng, er bod rhai o aelodau'r meinciau gyferbyn yn gwawdio'r mater. Ceisiais wella'r sefyllfa honno cystal â phosibl, o ran adnoddau, drwy ryddhau ychydig dros £1.8 miliwn o refeniw ychwanegol ar gyfer gweddill y flwyddyn ariannol hon er mwyn rhoi cymorth uniongyrchol i'r sector yn ystod cyfnod hynod anodd a'i alluogi i ymgymryd ag unrhyw waith ychwanegol y cred sydd ei angen er mwyn helpu'r sector i gynllunio ei ymateb i argymhellion yr adolygiad o'r gwasanaethau cynghori. Mae'n gyfnod tyngedfennol i'r gwasanaethau cynghori yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru yn eu cefnogi, ond mae gofyn mawr arnynt. Erbyn dechrau'r flwyddyn ariannol nesaf, rhaid inni roi model newydd ar waith ar gyfer darparu gwasanaethau cynghori ledled Cymru, a fydd yn gadarn ac yn gynaliadwy yn ystod cyfnod anodd iawn.

14:48 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, do you recognise the huge contribution that faith communities and faith groups play in Wales? What work are you doing with them, as part of the third sector, to encourage them to continue to expand their provision of support for Welsh society—very often without Government funding or financial support of any kind, totally funded by the faith communities themselves?

Weinidog, a ydych yn cydnabod y cyfraniad aruthrol y mae cymunedau ffydd a grwpiau ffydd yn ei wneud yng Nghymru? Pa waith yr ydych yn ei wneud gyda hwy, fel rhan o'r trydydd sector, i'w hannog i barhau i ehangu'r cymorth a ddarperir ganddynt i gymdeithas yng Nghymru—yn aml heb unrhyw arian gan y Llywodraeth na chymorth ariannol o unrhyw fath, wedi'i ariannu'n llwyr gan y cymunedau ffydd eu hunain?

14:48 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, of course I recognise that contribution. I recently met with the Trussell Trust, which looks after so many of the faith-based organisations that are running food banks up and down Wales—now a new feature of the landscape of our communities—and I will shortly be meeting with the Muslim Council of Wales to discuss various issues. Their community work is very much an element, and will be an ongoing theme, of my conversations with faith groups. As far as possible, we should link up the efforts of various social partners within each community, so that everyone is aware that any duplication is eliminated and that organisations are able to lean upon each other in very difficult times.

Rwyf, wrth gwrs, yn cydnabod y cyfraniad hwnnw. Cyfarfûm yn ddiweddar ag Ymddiriedolaeth Trussell, sy'n gofalu am gymaint o'r sefydliadau ffydd sy'n rhedeg banciau bwyd ar hyd a lled Cymru—sydd bellach yn nodwedd newydd o dirwedd ein cymunedau—a, maes o law, byddaf yn cyfarfod â Chyngor Mwslimiaid Cymru i drafod amrywiol faterion. Mae eu gwaith cymunedol yn elfen amlwg o'm sgyrsiau gyda grwpiau ffydd, a bydd yn thema barhaus. Cyn belled ag y bo'n bosibl, dylem gysylltu ymdrechion amrywiol bartneriaid cymdeithasol o fewn pob cymuned, fel bod pawb yn ymwybodol y caiff unrhyw achosion o ddyblygu eu dileu ac y gall sefydliadau ddibynnu ar ei gilydd mewn cyfnod anodd iawn.

14:49 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I know that you have supported calls by the third sector to curb the spread of payday loans. I wonder if you would support what has happened in Scotland, where Dundee City Council has forbidden access to payday loan websites from public computers, such as those found in libraries. I recently wrote to Bridgend County Borough Council, which said that this is not possible. However, I have spoken to experts in the field of computing who say that it is possible. Therefore, will you commit to looking at this, Minister?

Weinidog, gwn eich bod wedi cefnogi ceisiadau gan y trydydd sector i atal cynnydd yn nifer y benthyciadau diwrnod cyflog. Tybed a fyddech o blaid yr hyn sydd wedi digwydd yn yr Alban, lle mae Cyngor Dinas Dundee wedi gwahardd mynediad i wefannau benthyciadau diwrnod cyflog o gyfrifiaduron cyhoeddus, megis y rhai a geir mewn llyfrgelloedd. Ysgrifennais yn ddiweddar at Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, a ddywedodd nad yw hyn yn bosibl. Fodd bynnag, rwyf wedi siarad ag arbenigwyr cyfrifiadureg sy'n dweud ei bod yn bosibl. Felly, a ymrwymwch i ystyried hyn, Weinidog?

14:50 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank you for the question. My officials are already looking at the practicalities of this question. We are also under the impression that it is perfectly possible to block websites. This is an issue that might not just involve local authorities in Wales, but other public bodies too, such as the Welsh Government as well as our sponsored bodies, universities, further education colleges and so on. There is a debate to be had here. I accept that this kind of initiative is, in essence, symbolic. The advertising of payday loan companies is so insidious and so readily available on television and through other means, that blocking websites within public organisations is a largely symbolic act. However, that matters, as it sends out a message to the public that there is definitely something dodgy about organisations that wish to charge you 4,000% on a loan.

Diolch ichi am y cwestiwn. Mae fy swyddogion eisoes yn ymchwilio i agweddau ymarferol y cwestiwn hwn. Rydym hefyd o dan yr argraff ei bod yn gwbl bosibl atal gwefannau. Gallai'r mater hwn fod yn berthnasol i gyrff cyhoeddus eraill, yn ogystal ag awdurdodau lleol yng Nghymru, megis Llywodraeth Cymru yn ogystal â'r cyrff a noddir gennym, prifysgolion, colegau addysg bellach ac ati. Mae angen trafod y mater. Derbyniaf fod y math hwn o weithredu, yn ei hanfod, yn symbolaidd. Mae'r ffordd y caiff cwmnïau benthyciadau diwrnod cyflog eu hysbysebu mor llechwraidd ac mor amlwg ar y teledu a thrwy ddulliau eraill, fel mai gweithred symbolaidd i raddau helaeth fyddai atal gwefannau o fewn sefydliadau cyhoeddus. Fodd bynnag, mae hynny'n bwysig, gan ei fod yn cyfleu neges i'r cyhoedd fod rhywbeth cwbl amheus am sefydliadau sydd am godi tâl o 4,000% arnoch am fenthyciad.

14:51 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister; I hope that we will see progress on that.

Diolch, Weinidog; gobeithio y gwelwn gynnydd ar hynny.

I want to turn to the third sector in relation to the arts. Given the pivotal role that the third sector has played in areas such as Porthcawl, with the new maritime centre regeneration project, can you tell me whether you have had any talks with third sector arts organisations about how they can play a wider role in regenerating our communities, especially with regard to the tackling poverty agenda? We saw, earlier today, young people from Merthyr who came to the Assembly to talk about how they were taking part in poetry and the poetry manifesto, which is an excellent way of tackling poverty and giving people the chance to be creative. What more can we do to help the people of Wales in this regard?

Hoffwn droi at y trydydd sector mewn perthynas â'r celfyddydau. O ystyried y rôl ganolog y mae'r trydydd sector wedi'i chwarae mewn ardaloedd fel Porthcawl, gyda'r prosiect adfywio'r ganolfan forwrol newydd, a allwch ddweud wrthyf a ydych wedi cael unrhyw drafodaethau gyda sefydliadau celfyddydol yn y trydydd sector am sut y gallant chwarae rhan ehangach i adfywio ein cymunedau, yn enwedig o ran yr agenda trechu tlodi? Yn gynharach heddiw, gwelsom bobl ifanc o Ferthyr a ddaeth i'r Cynulliad i sôn am sut y maent yn cymryd rhan mewn barddoniaeth a'r maniffesto barddoniaeth, sy'n ffordd wych o drechu tlodi a rhoi'r cyfle i bobl fod yn greadigol. Beth arall y gallwn ei wneud i helpu pobl Cymru yn hyn o beth?

14:52 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I cannot, as yet, point to specific conversations with third sector arts organisations on this agenda, but I can assure the Member that I am very alive to the importance of arts and cultural organisations remaining active within our communities; the fact that they are finding things very difficult at present; and that, because communities that are suffering from deprivation are finding it particularly tough, that is no reason why people, and particularly young people, should be locked out from artistic and cultural experiences.

Hyd yma, ni allaf gyfeirio at sgyrsiau penodol gyda sefydliadau celfyddydol yn y trydydd sector mewn perthynas â'r agenda hon, ond gallaf sicrhau'r Aelod fy mod yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd sicrhau bod sefydliadau diwylliannol yn parhau'n weithgar yn ein cymunedau; y ffaith eu bod yn ei chael hi'n anodd iawn ar hyn o bryd; ac oherwydd bod cymunedau sy'n dioddef amddifadedd yn ei chael hi'n arbennig o anodd, nad oes unrhyw reswm pam na ddylai pobl, a phobl ifanc yn arbennig, gael cyfleoedd i ymgymryd â phrofiadau artistig a diwylliannol.

14:52 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I would like to get through as many questions as I can, so slightly more concise answers would be helpful.

Weinidog, hoffwn ymateb i gymaint o gwestiynau â phosibl, felly byddai atebion ychydig yn fwy cryno yn ddefnyddiol.

### Dechrau'n Deg

### Flying Start

14:52 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*6. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am raglen flaenllaw Dechrau'n Deg Llywodraeth Cymru? OAQ(4)0043(CTP)*

*6. Will the Minister provide an update on the Welsh Government's flagship Flying Start programme? OAQ(4)0043(CTP)*

14:52 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We are rolling out the expansion of Flying Start to meet our commitment to reach the target of 36,000 children under the age of four and their families benefiting from the programme by 2016.

Rydym yn ehangu Dechrau'n Deg er mwyn cyflawni ein hymrwymiad i gyrraedd y targed o sicrhau bod y rhaglen o fudd i 36,000 o blant o dan bedair oed a'u teuluoedd erbyn 2016.

14:53 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister, for that response. I very much welcome the expansion. It is the most important measure to deal with disadvantage. It cannot be right that the development of some children starting school at three is two years behind that of their peers. However, I am disappointed that my own constituency, which is an area where 62% of children are on free school meals, is excluded. Will the Minister look at using council tax band A as a less crude and more targeted indicator than that of the lower super output area, which tends to lump areas together and can include some of the most advantaged?

Diolch, Weinidog, am yr ymateb hwnnw. Croesawaf y ffaith bod y rhaglen yn cael ei hehangu yn fawr. Dyma'r mesur pwysicaf i ymdrin ag anfantais. Nid yw'n briodol bod datblygiad rhai plant sy'n dechrau'r ysgol yn dair oed ddwy flynedd islaw datblygiad eu cyd-ddisgyblion. Fodd bynnag, rwy'n siomedig na chafodd fy etholaeth i, sef ardal lle y mae 62% o'r plant yn cael prydau bwyd ysgol am ddim, ei chynnwys. A wnaiff y Gweinidog ystyried defnyddio band treth gyngor A fel dangosydd llai amrwd wedi'i dargedu'n well nag ardaloedd cynnyrch ehangach haen is, sy'n tueddu i gyfuno ardaloedd ac a all gynnwys rhai o'r ardaloedd mwyaf breintiedig?

14:53 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I know that Mike Hedges is very concerned about what he sees as anomalies in Flying Start provision within his constituency, and I can understand his concerns. With an area-based programme like this, there will always have to be a boundary around the area that is provided for. Of course, the people on the other side of that boundary, who may be facing very similar challenges in terms of level of deprivation, will question the fairness of where that boundary happens to lie. I am always happy to keep the door open in terms of discussing better ways of being more accurate in terms of where we target programmes like Flying Start and I would be very happy for my officials to meet Mike Hedges to discuss any good ideas that he may have.

Gwn fod Mike Hedges yn bryderus iawn am yr hyn a wêl fel anghysondebau yn y ddarpariaeth o Dechrau'n Deg yn ei etholaeth, a gallaf ddeall ei bryderon. Gyda rhaglen sy'n seiliedig ar ardaloedd o'r fath, bydd yn rhaid pennu ffin bob amser o amgylch yr ardal y darperir ar ei chyfer. Wrth gwrs, bydd y bobl ar yr ochr arall i'r ffin honno, a all fod yn wynebu heriau tebyg iawn o ran lefel amddifadedd, yn amau tegwch y ffin honno. Mae'r drws ar agor bob amser o ran trafod ffyrdd gwell o fod yn fwy cywir o ran targedu rhaglenni fel Dechrau'n Deg a byddwn yn fwy na pharod i'm swyddogion gyfarfod â Mike Hedges i drafod unrhyw syniadau da a allai fod ganddo.

14:54 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Minister will know that this is a very splendid scheme that has been supported by the Welsh Conservatives since its inception. However, in 2010, the Conservative-led Newport City Council was instructed by the Welsh Government to reduce the number of families supported by Flying Start from 1,600 to 1,100, although it was delivering an effective and sustainable service at a cost 30% below what the Government predicted due to low central costs. Minister, what lessons have you learned from this?

Bydd y Gweinidog yn gwybod bod hwn yn gynllun gwych a gefnogwyd gan y Ceidwadwyr Cymreig ers ei sefydlu. Fodd bynnag, yn 2010, cafodd Cyngor Dinas Casnewydd o dan arweiniad y Ceidwadwyr gyfarwyddyd gan Lywodraeth Cymru i leihau nifer y teuluoedd a gefnogwyd gan Dechrau'n Deg o 1,600 i 1,100, er ei fod yn darparu gwasanaeth effeithiol a chynaliadwy am gost a oedd 30% yn is na rhagfynegiadau'r Llywodraeth oherwydd costau canolog is. Weinidog, pa wersi yr ydych wedi'u dysgu o hyn?

14:55 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

William will be aware that the long and protracted discussions between the Welsh Government and, as he says, at the time, the Conservative-led Newport City Council over the quality of provision of Flying Start were too involved for me to provide a proper answer here today. However, I am now content that, across Wales—from one end of Wales to the other—in the Flying Start programme, we have embarked upon a high-quality early years programme for Wales's youngest and most vulnerable citizens that will become the envy of the UK.

Bydd William yn ymwybodol bod y trafodaethau hirfaith rhwng Llywodraeth Cymru ac, fel y dywed, ar y pryd, Cyngor Dinas Casnewydd o dan arweiniad y Ceidwadwyr am ansawdd darpariaeth Dechrau'n Deg yn rhy fanwl imi roi ateb priodol yma heddiw. Fodd bynnag, rwyf bellach yn fodlon, ledled Cymru—o un pen o'r wlad i'r llall—drwy raglen Dechrau'n Deg, ein bod wedi dechrau ar raglen blynyddoedd cynnar o ansawdd uchel i ddinasyddion ifancaf, mwyaf agored i niwed Cymru a gaiff ei hedmygu drwy'r DU.

14:55 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I also welcome the expansion of the programme. Can you assure us that parents will be given a real choice in obtaining services in their language of choice? Will Welsh-language services be available to every family that want them?

Weinidog, croesawaf hefyd y ffaith bod y rhaglen wedi'i hehangu. A allwch roi sicrwydd inni y bydd rhieni yn cael dewis go iawn o ran cael gwasanaethau yn eu dewis iaith? A fydd gwasanaethau Cymraeg ar gael i bob teulu sydd am eu cael?

14:56 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am sensitive to this issue. I would be happy to supply in writing to the Member the statistics relating to parental requests and requests fulfilled for Welsh-language provision, which run into some hundreds. The statistics, when last I looked, which was just a few days ago, show a strong correlation between provision and requests for Welsh-language services in Flying Start. Therefore, things seem to be running well at the moment. However, we need to keep a close eye on how that develops.

Rwy'n sensitif i'r mater hwn. Byddwn yn fwy na pharod ysgrifennu at yr Aelod i gyflwyno'r ystadegau o ran ceisiadau gan rieni a cheisiadau a fodlonwyd ar gyfer darpariaeth Gymraeg, y mae cannoedd ohonynt. Pan edrychais ddiwethaf, ychydig ddiwrnodau yn ôl, dengys yr ystadegau gydberthynas gref rhwng darpariaeth a cheisiadau am wasanaethau Cymraeg o fewn Dechrau'n Deg. Felly, ymddengys fod pethau'n mynd rhagddynt yn dda ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae angen inni gadw llygad barcud ar sut y bydd hynny'n datblygu.

## Bil Datblygu Cynaliadwy

## Sustainable Development Bill

14:56 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*7. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y Bil Datblygu Cynaliadwy arfaethedig? OAQ(4)0053(CTP)*

*7. Will the Minister make a statement on the proposed Sustainable Development Bill? OAQ(4)0053(CTP)*

14:56 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Sustainable development is at the heart of the Government's work. Stakeholders have provided constructive comments on how the upcoming legislation should work. Following the White Paper consultation, careful consideration is being given to the responses and how they inform our way forward.

Mae datblygu cynaliadwy wrth wraidd gwaith y Llywodraeth. Mae rhanddeiliaid wedi cynnig sylwadau adeiladol ar sut y dylai'r ddeddfwriaeth arfaethedig weithio. Yn dilyn yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn, caiff yr ymatebion a'r ffordd y byddant yn llywio'r camau nesaf eu hystyried yn ofalus.

14:57 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch i chi am yr ateb hwnnw. Un pwnc, neu'r un maes sydd wedi denu'r nifer mwyaf o ymatebion i'r ymgynghoriad hwnnw, wrth gwrs, yw'r alwad i gynnwys y Gymraeg fel rhan o ddiffiniad datblygu cynaliadwy. Nid yw hyn yn unig yn dod o gyfeiriad mudiadau iaith ond hefyd gyrff fel WWF Cymru, Cyfeillion y Ddaear a llu o gyrff a sefydliadau eraill. Dywedodd Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy Cymru, Peter Davies, yn ddiweddar

Thank you for that response. One issue, or the one area that has attracted the most responses to the consultation is, of course, the demand for Welsh to be included as part of the definition of sustainable development. This does not only come from language organisations but also from bodies such as WWF Cymru, Friends of the Earth and a number of other bodies and organisations. Peter Davies, Wales's Commissioner for Sustainable Futures, recently said:

'I have no doubt that in any definition of sustainable development ... the Welsh language and culture is critical.'

Nid oes gennyf unrhyw amheuaeth, o fewn unrhyw ddiffiniad o ddatblygu cynaliadwy ... bod yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymru yn hanfodol.

A ydych yn cytuno?

Do you agree?

14:57 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

No doors are as yet closed for the inclusion of the Welsh language specifically in things such as the duties of Welsh Ministers to consider or have due regard to—as we have been discussing in the actual phrasing of the Bill. Therefore, no doors are closed. There are other issues that also need to be considered in terms of the volume of response that has come back from the White Paper consultation that relate to the wider social and economic policies. There is a heavy preponderance in the consultation responses of people and organisations concerned with purely environmental matters, which, of course, are important, but do not give us a full picture of sustainable development as it should be. Therefore, we have to get through those responses. At the moment, it is best and most accurate for me to say that the Welsh language is a part of that consideration as we look at the White Paper consultation responses.

Nid oes unrhyw ddrysau ar gau eto o ran cynnwys y Gymraeg yn benodol fel rhan o bethau fel dyletswyddau Gweinidogion Cymru i ystyried neu roi sylw dyledus i—fel y buom yn trafod o ran geiriad gwirioneddol y Bil. Felly, nid oes unrhyw ddrysau ar gau. Mae materion eraill i'w hystyried hefyd o ran faint o ymatebion a gafwyd mewn perthynas â'r Papur Gwyn sy'n ymwneud â'r polisïau cymdeithasol ac economaidd ehangach. Mae'r mwyafrif helaeth o'r bobl a'r sefydliadau a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn cyfeirio at faterion cwbl amgylcheddol, sydd, wrth gwrs, yn bwysig, ond nid ydynt yn rhoi darlun llawn inni o ddatblygu cynaliadwy fel y dylai fod. Felly, rhaid inni ystyried yr ymatebion hynny. Ar hyn o bryd, y peth gorau a'r peth mwyaf cywir imi ei ddweud yw bod y Gymraeg yn rhan o'r broses ystyried honno wrth inni edrych ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn.

14:58 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, you will be aware, because of the large number of responses that you have had to the consultation, that a lot of public bodies are going to be affected by the sustainable development Bill. They have expressed reservations about exactly what they are going to be required to do, particularly around the definition of sustainability and how the competing duties will be balanced when they are in conflict. As well as the opportunities to act in terms of environmental, social and economic development, there is the possibility that one of those things may conflict with others. Given those concerns and, in particular, because public bodies need to know how to apply sustainability, is it now your intention to publish the draft Bill so that proper scrutiny of the legal implications can be considered and so that we can look at how those duties will be balanced?

Weinidog, byddwch yn ymwybodol, oherwydd y nifer fawr o ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad, y bydd y Bil datblygu cynaliadwy yn effeithio ar lawer o gyrff cyhoeddus. Maent wedi mynegi amheuon ynghylch yn union beth y bydd gofyn iddynt ei wneud, yn arbennig o ran y diffiniad o gynaliadwyedd a sut y caiff y dyletswyddau croes eu cydbwyso pan fyddant yn gwrthdaro. Yn ogystal â'r cyfleoedd i weithredu o ran datblygiad amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd, mae'n bosibl y gallai un o'r pethau hynny wrthdaro â phethau eraill. O ystyried y pryderon hynny ac, yn arbennig, oherwydd bod angen i gyrff cyhoeddus wybod sut i roi cynaliadwyedd ar waith, a ydych bellach yn bwriadu cyhoeddi'r Bil drafft fel y gellir ystyried sut i graffu'n briodol ar y goblygiadau cyfreithiol ac fel y gallwn ystyried sut y caiff y dyletswyddau hynny eu cydbwyso?

15:00 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Member is quite right on two very important counts. This is an important Bill in that it will set out fundamental values in terms of the way that public bodies operate way into the future in Wales. She also mentions the importance of the word 'balance'. Sustainable development, in my mind, is about finding that balance—about being able to work towards a prosperous Wales that is also a Wales that has a mind to social justice and environmental justice. Finding where those three priorities meet is about resolving conflict, in some cases, and it is about finding the balance. Therefore, we are engaged in a fundamental and rather complicated body of work. However, I understand the need for Wales to continue making its way in the world, and economic prosperity has to be a part of the balance that we strike in order to be sustainable in the future.

Mae'r Aelod yn llygad ei le ar ddau gyfrif pwysig iawn. Mae hwn yn Fil pwysig gan y bydd yn nodi gwerthoedd sylfaenol o ran y ffordd y mae cyrff cyhoeddus yn gweithredu ymhell i'r dyfodol yng Nghymru. Cyfeiria hefyd at bwysigrwydd y gair 'cydbwysedd'. Mae a wnelo datblygu cynaliadwy, yn fy marn i, â dod o hyd i'r cydbwysedd hwnnw—â gallu gweithio tuag at Gymru ffyniannus sydd hefyd yn Gymru sy'n ystyried cyfiawnder cymdeithasol a chyfiawnder amgylcheddol. Er mwyn dod o hyd i ble y mae'r tair blaenoriaeth hyn yn cwrdd, mae angen datrys anghydfod, mewn rhai achosion, a tharo'r cydbwysedd iawn. Felly, rydym yn ymgymryd â gwaith hollbwysig a chymhleth braidd. Fodd bynnag, deallaf yr angen i Gymru barhau i wneud ei ffordd yn y byd, a rhaid i ffyniant economaidd fod yn rhan o'r cydbwysedd a sicrheir gennym er mwyn bod yn gynaliadwy yn y dyfodol.

15:01 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, tomorrow marks the first anniversary of Rio+20, where your predecessor committed the Welsh Government to a series of actions by signing two declarations, namely 'Clean Revolution and the Green Economy' and 'New Paradigm for Sustainable Development and Poverty Eradication'. Will you update this Chamber on the progress that has been made during the course of the last year on the delivery of these objectives?

Weinidog, yfory, bydd blwyddyn union wedi mynd heibio ers Rio+20, lle yr ymrwymodd Llywodraeth Cymru o dan eich rhagflaenydd i gyfres o gamau gweithredu drwy lofnodi dau ddatganiad, sef 'Chwyldro Glân a'r Economi Werdd' a 'Patrwm Newydd ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dileu Tlodi'. A wnewch roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Siambr hon ar y cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn ddiwethaf o ran cyflawni'r amcanion hyn?

15:01 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

That is such a wide agenda of some years standing that it is best if I undertake to write to the Member with a comprehensive response.

Mae hynny'n agenda mor eang a fu'n weithredol ers sawl blwyddyn felly mae'n well imi gytuno i ysgrifennu at yr Aelod gydag ymateb cynhwysfawr.

Senedd.tv Fideo Video

15:01 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Perhaps you can put a copy in the Library as well so that other Members can see it.

Efallai y gallwch roi copi yn y Llyfrgell hefyd fel y gall Aelodau eraill ei weld.

Senedd.tv Fideo Video

15:01 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Yes, of course I could.

Gallaf, wrth gwrs.

Senedd.tv Fideo Video

**Cymunedau yn Gyntaf**

**Communities First**

15:01 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

*8. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sefydlu ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf newydd ar draws Gogledd Cymru? OAQ(4)0052(CTP)*

*8. Will the Minister make a statement on establishing new Communities First areas across North Wales? OAQ(4)0052(CTP)*

Senedd.tv Fideo Video

15:02 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Eight Communities First clusters have been established in north Wales. These cover all the communities eligible for inclusion in the programme. The majority are up and running, with staff working with communities and partners to implement their delivery plans and to keep local people involved in all aspects of the programme.

Sefydlwyd wyth clwstwr Cymunedau yn Gyntaf yn y gogledd. Maent yn cwmpasu'r holl gymunedau sy'n gymwys i'w cynnwys yn y rhaglen. Mae'r mwyafrif eisoes ar waith, gyda staff yn gweithio gyda chymunedau a phartneriaid i roi eu cynlluniau cyflenwi ar waith ac i sicrhau y caiff pobl leol eu cynnwys ymhob agwedd ar y rhaglen.

Senedd.tv Fideo Video

15:02 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Minister, I acknowledge that it is a complex matter, but some of these areas in north Wales have been Communities First areas for a considerable time. You will be aware of difficulties within some of those areas in the past, and criticisms of the Welsh Government's monitoring. Are you satisfied that your department's current monitoring arrangements are robust enough, given that I understand that, in the Wrexham area, a contract has been awarded to the county borough council even though no outcomes have been agreed? In one of the cluster areas, half of the board's positions remain vacant, with little or no representation from the community?

Weinidog, rwy'n cydnabod bod y mater yn gymhleth, ond mae rhai o'r ardaloedd hyn yn y gogledd wedi bod yn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf ers cryn amser. Byddwch yn ymwybodol o anawsterau o fewn rhai o'r ardaloedd hynny yn y gorffennol, a beirniadaeth o ddulliau monitro Llywodraeth Cymru. A ydych yn fodlon bod trefniadau monitro cyfredol eich adran yn ddigon cadarn, o ystyried fy mod ar ddeall, yn ardal Wrecsam, bod contract wedi'i ddyfarnu i'r cyngor bwrdeistref sirol er na chytunwyd ar unrhyw ganlyniadau? Yn un o'r ardaloedd clwstwr, mae hanner swyddi'r bwrdd yn parhau'n wag, a phrin yw'r gynrychiolaeth o'r gymuned, os o gwbl?

Senedd.tv Fideo Video

15:03 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

The Member will be aware that the monitoring arrangements around Communities First have been almost completely remodelled and remade. I would be concerned if there were specific instances of any kinds of problems such as the ones that he mentions in Wrexham and elsewhere. If the Member were to write to me with specifics about those issues, I will take a personal interest in getting them resolved rapidly.

Bydd yr Aelod yn ymwybodol bod y trefniadau monitro ar gyfer Cymunedau yn Gyntaf fwy neu lai wedi'u hailfodelu a'u hail-lunio'n llwyr. Byddwn yn pryderu pe bai enghreifftiau penodol o unrhyw fathau o broblemau fel y rhai y cyfeiria atynt yn Wrecsam ac mewn mannau eraill. Os gall yr Aelod ysgrifennu ataf gan nodi manylion y problemau hynny, cymeraf ddiddordeb personol yn eu datrys yn gyflym.

Senedd.tv Fideo Video

15:03 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Although Welsh Government guidance on Communities First cluster models initially led Wrexham to consult on a three-cluster model and Flintshire to consult on a two-cluster model, and to recommend those three and two-cluster models on the basis of their consultation, the Welsh Government directed instead that Wrexham should have two and Flintshire one. What, if any, flexibility exists within the scheme for the number of clusters within each area to be reviewed?

Er bod Wrecsam i ddechrau, gan ddilyn canllawiau Llywodraeth Cymru ar fodelau clwstwr Cymunedau yn Gyntaf, wedi ymgynghori ar fodel tri chlwstwr a bod sir y Fflint wedi ymgynghori ar fodel dau glwstwr, ac wedi argymell y modelau tri a dau glwstwr hynny ar sail eu hymgynghoriad, rhoddodd Llywodraeth Cymru gyfarwyddyd amgen y dylai Wrecsam sefydlu dau glwstwr ac y dylai sir y Fflint sefydlu un clwstwr. Pa hyblygrwydd, os o gwbl, sy'n bodoli o fewn y cynllun ar gyfer adolygu nifer y clystyrau ymhob ardal?

15:04 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We have just had that review, and I do not intend to begin my term of office by opening up that debate yet again. We have to give those clusters—the eight, for instance, in north Wales now established—a chance to run with the programme. I have no intention of opening up the debate around boundaries and various different types of clustering at present.

Rydym newydd gael yr adolygiad hwnnw, ac nid wyf yn bwriadu dechrau fy nghyfnod yn y swydd drwy agor y ddadl honno unwaith eto. Rhaid inni roi cyfle i'r clystyrau hynny—yr wyth a sefydlwyd erbyn hyn yn y gogledd, er enghraifft—roi'r rhaglen ar waith. Nid oes gennyf unrhyw fwriad dechrau dadl am ffiniau ac amrywiol fathau gwahanol o glystyrau ar hyn o bryd.

15:04 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Wrth i ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf ddiflannu o ardaloedd mwy gwledig a threfi bychain y gogledd a'r gorllewin, mae gallu'r prifysgolion a'r colegau addysg bellach i annog pobl ifanc o gefndir difreintiedig i aros mewn addysg uwch wedi gwanhau yn ddirfawr. Dyna yw tystiolaeth y prifysgolion a'r colegau eu hunain. Mae'r bobl ifanc hyn, sydd yr un mor ddifreintiedig â phobl sy'n byw o fewn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf, hefyd yn haeddu cyfleoedd addysg bellach ac addysg uwch. Beth mae'r Llywodraeth yn mynd i wneud i gynorthwyo'r bobl ifanc hyn sydd y tu allan i ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf i gario ymlaen gyda'u hastudiaethau?

As Communities First areas disappear from more rural areas and small towns in the north and the west, the ability of the universities and the further education colleges to encourage young people from deprived backgrounds to stay in further education has weakened substantially. That is the evidence of the universities and colleges themselves. These young people, who are just as deprived as people who live in Communities First areas, also deserve further and higher education opportunities. What is the Government going to do to support these young people who are outside Communities First areas to continue with their studies?

15:05 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am not quite clear, Presiding Officer, about the specific link between Communities First in rural areas and university stay-on rates that the Member is trying to make. However, I do understand his point around rural poverty being just as insidious and nasty as poverty is anywhere else. In terms of formulating the tackling poverty action plan, I have had tremendously interesting conversations with my colleague Alun Davies, for instance, in terms of initiatives that the Government could undertake and roll out, specifically looking at the more scattered pattern of deprivation that we see across rural Wales. There will be announcements in this regard in due time.

Nid wyf yn gwbl glir, Lywydd, am y cyswllt penodol y mae'r Aelod yn ceisio'i wneud rhwng Cymunedau yn Gyntaf mewn ardaloedd gwledig a chyfraddau aros yn y brifysgol. Fodd bynnag, deallaf ei bwynt bod tlodi gwledig yr un mor llechwraidd a chas â thlodi unrhyw le arall. O ran llunio'r cynllun gweithredu ar gyfer trechu tlodi, cefais sgyrsiau hynod ddiddorol gyda'm cyd-Aelod Alun Davies, er enghraifft, o ran mentrau y gallai'r Llywodraeth eu cynnal a'u cyflwyno, gan edrych yn benodol ar y patrwm amddifadedd mwy gwasgaredig sydd i'w weld ledled Cymru wledig. Ceir cyhoeddiadau yn hyn o beth maes o law.

## Banciau Bwyd

## Food Banks

15:06 **Gwyn R. Price** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*9. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynnydd yn nifer y bobl sy'n defnyddio banciau bwyd? OAQ(4)0046(CTP)*

*9. Will the Minister make a statement on the rise in numbers of people using food banks? OAQ(4)0046(CTP)*

15:06 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

I am aware of the significant increase in the number of people using food banks to access immediate help. I am keen to see local food banks engage with other community organisations and locally based programmes, working together to support those most in need.

Rwy'n ymwybodol o'r cynnydd sylweddol yn nifer y bobl sy'n defnyddio banciau bwyd i gael cymorth ar unwaith. Rwy'n awyddus i weld banciau bwyd lleol yn ymgysylltu â sefydliadau cymunedol eraill a rhaglenni lleol, gan gydweithio i gefnogi'r rheini â'r anghenion mwyaf.

Senedd.tv Fideo Video

15:06 **Gwyn R. Price** Bywgraffiad Biography

Thank you for that answer. Minister, given the changes to benefits and the fall in income in real terms, are you confident that food banks in Wales can cope with the demand?

Diolch ichi am yr ateb hwnnw. Weinidog, o ystyried y newidiadau i fudd-daliadau a'r gostyngiad mewn incwm mewn termau real, a ydych yn hyderus y gall banciau bwyd yng Nghymru ymdopi â'r galw?

Senedd.tv Fideo Video

15:06 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

That is a tremendously important question that Gwyn Price has asked. For all their brilliant work in the community, food banks, to my mind, cannot and should not be the alternative to a fair state social security system. We are increasingly seeing people who are in work having recourse to food banks to feed their children. The Conservative-led UK Government's policies of cutting back on vital safety nets for the poor, while giving tax cuts to millionaires, are just plain wrong. We are still the seventh richest country in the world and we should not have a Government in Westminster that is happy to watch as children go hungry.

Mae cwestiwn Gwyn Price yn hynod bwysig. Er gwaethaf eu holl waith gwych yn y gymuned, ni all banciau bwyd, yn fy marn i, weithredu fel dewis amgen i system nawdd cymdeithasol gwladol deg, ac ni ddylent wneud hynny. Rydym yn gynyddol yn gweld bod pobl sy'n gweithio yn gorfod troi at fanciau bwyd i fwydo eu plant. Mae polisïau Llywodraeth y DU o dan arweiniad y Ceidwadwyr o gael gwared ar rwydi diogelwch hanfodol i'r tlawd, tra'n rhoi gostyngiadau treth i filiwnyddion, yn gwbl anghywir. Ni yw'r seithfed wlad fwyaf cyfoethog yn y byd o hyd ac ni ddylai fod gennym Lywodraeth yn San Steffan sy'n barod i laesu dwylo wrth i blant lwgu.

Senedd.tv Fideo Video

15:07 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Interestingly, the first food bank was set up in 2000; I do not think that it was the UK coalition Government that was running things then, was it? Minister, I was lucky enough to help out at the Chepstow food bank back last Christmas. I was overwhelmed and taken aback by the generosity of shoppers, some of whom were donating whole trolley-loads of food to the food bank. It is clearly a popular and accepted means of donating to people in poverty. Do you have information on the number of people using food banks long term vis-à-vis those who are using them for irregular short periods of time? I think that in co-ordinating future food banks, that information would be useful.

Yn ddiddorol ddigon, sefydlwyd y banc bwyd cyntaf yn 2000; ni chredaf mai Llywodraeth glymblaid y DU oedd mewn grym bryd hynny, nage? Weinidog, roeddwn yn ddigon ffodus cael helpu ym manc bwyd Cas-gwent adeg y Nadolig y llynedd. Gwnaeth haelioni eithriadol siopwyr, yr oedd rhai ohonynt yn rhoi llond trolis o fwyd i'r banc bwyd, gryn argraff arnaf. Mae'n amlwg yn ffordd boblogaidd a derbyniol o roi i bobl mewn tlodi. A oes gennych wybodaeth am nifer y bobl sy'n defnyddio banciau bwyd am gyfnodau hir o gymharu â'r rheini sy'n eu defnyddio am gyfnodau byr ac achlysurol. Credaf wrth gydgysylltu banciau bwyd yn y dyfodol, y byddai'r wybodaeth honno yn ddefnyddiol.

Senedd.tv Fideo Video

15:08 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

We have heard this mealy-mouthed stuff before about the first food bank going back to the year 2000. Anyone who has not seen the sudden explosion in numbers in terms of food banks out there, and the explosion in numbers of people that they are catering for, does not know their own constituency and is turning a blind eye to the distress of families and communities that they are charged with representing. I have no doubt that the people of Wales are generous when it comes to the donations of food. In fact, every food bank volunteer that I have spoken to has said that the provision of food is the least of their problems; the difficulties are around distribution and the storage of food.

Rydym wedi clywed y siarad ffuantus hwn o'r blaen am y ffaith bod y banc bwyd cyntaf wedi'i agor yn y flwyddyn 2000. Os oes unrhyw un nad yw wedi gweld y cynnydd sydyn o ran nifer y banciau bwyd sydd ar waith, a'r cynnydd o ran nifer y bobl y maent yn darparu ar eu cyfer, nid yw'n adnabod ei etholaeth ac mae'n anwybyddu trallod teuluoedd a chymunedau y mae'n gyfrifol am eu cynrychioli. Nid oes gennyf unrhyw amheuaeth bod pobl Cymru yn hael o ran rhoi bwyd. Yn wir, dywed pob gwirfoddolwr banc bwyd y siaradais ag ef mai sicrhau cyflenwad bwyd yw'r broblem leiaf sydd ganddynt; dosbarthu a storio bwyd sy'n peri anawsterau iddynt.

Senedd.tv Fideo Video

Where I part company with the Member opposite is that we should somehow come to accept that the very existence of food banks is something that we should look forward to as a long-running feature of Welsh social provision into the future. There is a dysfunction in our society if we have to run things along these lines. Although these fantastic volunteers have stepped up to fulfil a need, this, in many elements, is a provision of charity straight out of the pages of Dickens. That is not the Wales that I was elected to work for in this Assembly, even if it is what you would like to see. [Interruption.]

Ond nid wyf yn cytuno â'r Aelod gyferbyn y dylem rywffordd ddod i dderbyn bod bodolaeth banciau bwyd yn rhywbeth y dylem ei goleddu fel nodwedd hirsefydledig o fewn darpariaeth gymdeithasol Cymru yn y dyfodol. Nid yw ein cymdeithas yn gweithredu'n briodol os mai dyma sut y caiff pethau eu rhedeg. Er bod y gwirfoddolwyr ardderchog hyn wedi camu i'r adwy i ddiwallu angen, i raddau helaeth, mae'r ddarpariaeth elusennol hon yn perthyn i dudalennau Dickens. Nid hon yw'r Gymru y cefais fy ethol i weithio ar ei rhan yn y Cynulliad hwn, hyd yn oed os mai dyna yr hoffech ei weld. [Torri ar draws.]

15:09

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Order. Thank you Minister.

Trefn. Diolch, Weinidog.

# Dadl yn Ceisio Cytundeb y Cynulliad i Gyflwyno Bil Arfaethedig Aelod ynghylch Meysydd Carafanau Gwyliau (Cymru)

# Debate Seeking the Assembly's Agreement to Introduce a Member Proposed Bill on Holiday Caravan Park (Wales)

Cynnig NNDM5258 Darren Millar
Motion NNDM5258 Darren Millar

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.91:

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 26.91:

Yn cytuno y caiff Darren Millar gyflwyno Bil er mwyn gweithredu'r wybodaeth cyn y balot a gyflwynwyd ar 18 Ebrill 2013 o dan Reol Sefydlog 26.90.

Agrees that Darren Millar may introduce a Bill to give effect to the pre-ballot information tabled on 18 April 2013 under Standing Order 26.90.

15:09

## Darren Millar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

I was delighted to have been drawn in this ballot—the third time that I have been drawn in a legislative ballot in the Assembly. I was tempted to predict the lottery numbers on the weekend following the ballot, but I thought better of it. On a serious note, I am pleased to be able to bring forward this debate today and to seek the agreement of the Assembly to introduce a holiday caravan park (Wales) Bill.

Roeddwn wrth fy modd fy mod wedi ennill y balot hwn—y trydydd tro i'm henw gael ei dynnu mewn balot deddfwriaethol yn y Cynulliad. Cefais fy nhemtio i ragfynegi rhifau'r loteri ar y penwythnos yn dilyn y balot, ond penderfynais y byddai'n well peidio. Ar nodyn difrifol, rwy'n falch o allu cyflwyno'r ddadl hon heddiw, a cheisio cytundeb y Cynulliad i gyflwyno Bil meysydd carafannau gwyliau (Cymru).

The holiday caravan industry is of huge importance to the Welsh economy. A study by Visit Wales and the British Holiday and Home Parks Association—or the BH&HPA as it likes to be known—found that in 2011 there were over 70,000 pitches in Wales; the total turnover and visitor expenditure as a result of the Welsh holiday park industry was £727 million per annum; and the industry was supporting over 10,000 direct and indirect jobs across the country. Holiday parks, at that time, were attracting 2.9 million visitors per year, who were spending 24.8 million visitor days in Wales. So, the benefits of the industry are enormous, but they do not stop at economic benefits. Many parks help to support local charities, they help to maintain environmental projects such as wetlands, woodlands and nature reserves, and, in short, they are critically important in terms of what Wales has to offer visitors who come to stay in our country. We have to do everything that we can, as an Assembly, to support the industry in the future. That is what my proposed Bill will be designed to deliver, namely an improved legislative framework for the holiday caravan industry, to ensure that it can continue to thrive and flourish for decades and years to come.

Mae'r diwydiant carafannau gwyliau o bwys aruthrol i economi Cymru. Canfu astudiaeth gan Croeso Cymru a Chymdeithas Parciau Gwyliau a Pharciau Cartrefi Prydain—neu'r BH&HPA fel yr hoffa gael ei galw—yn 2011, fod dros 70,000 o leiniau yng Nghymru; cafwyd cyfanswm trosiant a gwariant gan ymwelwyr o £727 miliwn y flwyddyn o ganlyniad i ddiwydiant parciau gwyliau Cymru; ac roedd y diwydiant yn cynnal dros 10,000 o swyddi uniongyrchol ac anuniongyrchol ledled y wlad. Roedd parciau gwyliau, ar y pryd, yn denu 2.9 miliwn o ymwelwyr y flwyddyn, a oedd yn treulio 24.8 miliwn o ddiwrnodau ymwelwyr yng Nghymru. Felly, mae manteision economaidd y diwydiant yn enfawr, ond ceir manteision eraill hefyd. Mae llawer o barciau yn helpu i gefnogi elusennau lleol, maent yn helpu i gynnal prosiectau amgylcheddol megis gwlyptiroedd, coetiroedd a gwarchodfeydd natur, ac, yn gryno, maent yn hanfodol bwysig o ran yr hyn sydd gan Gymru i'w gynnig i ymwelwyr sy'n dod i aros yn ein gwlad. Rhaid inni wneud popeth a allwn, fel Cynulliad, i gefnogi'r diwydiant yn y dyfodol. Dyna beth fydd nod fy Mil arfaethedig, sef darparu fframwaith deddfwriaethol gwell ar gyfer y diwydiant carafannau gwyliau, er mwyn sicrhau y gall barhau i ffynnu am ddegawdau a blynyddoedd i ddod.

I am proud to serve a constituency that is home to some of the very best holiday parks in the country—holiday parks that provide fun, safe and popular family holidays for thousands of tourists each year. Just this week, I visited the Ty Mawr Holiday Park in Towyn with the National Caravan Council. The park is one of 39 that are run by Park Resorts, the largest chain of caravan park resorts in the United Kingdom. That park is an example of a very well-run holiday park, and it deserves the Park Resorts slogan of 'Creating amazing memories' for the visitors that it hosts each and every year. Regrettably, not all holiday caravan parks are as well managed as Ty Mawr.

Rwy'n falch o wasanaethu etholaeth sy'n gartref i rai o'r parciau gwyliau gorau yn y wlad—parciau gwyliau sy'n cynnig gwyliau diogel, poblogaidd a llawn hwyl i deuluoedd a miloedd o ymwelwyr bob blwyddyn. Dim ond yr wythnos hon, ymwelais â Pharc Gwyliau Tŷ Mawr yn Nhywyn yng nghwmni'r Cyngor Carafannau Cenedlaethol. Mae'n un o 39 o barciau sy'n cael eu rhedeg gan Park Resorts, sef y gadwyn fwyaf o gyrchfannau meysydd carafannau yn y Deyrnas Unedig. Mae'r parc hwnnw yn enghraifft o barc gwyliau sy'n cael ei redeg yn dda iawn, ac sy'n haeddu slogan Park Resorts 'Creu atgofion rhyfeddol' i'r ymwelwyr sy'n aros yno bob blwyddyn. Yn anffodus, nid yw pob parc carafannau gwyliau yn cael ei reoli cystal â Tŷ Mawr.

While the overwhelming majority of holiday park owners manage their sites completely without complaint, unfortunately, there are some rogue operators who are less than scrupulous. Sadly, many of the abuses that have been identified in the park home sector are also an issue in parts of the holiday caravan industry. These are issues such as unjustifiable increases in annual site fees, the blocking of private caravan sales, the failure to deliver promised site improvements, poor site maintenance and the harassment of caravan owners. Unfortunately, they have featured in my constituency postbag over the past few years.

Er bod y mwyafrif llethol o berchenogion parciau gwyliau yn rheoli eu safleoedd heb yr un gŵyn, yn anffodus, mae rhai gweithredwyr nad ydynt yr un mor egwyddorol. Yn anffodus, mae llawer o'r achosion o gamymddwyn a nodwyd yn y sector cartrefi mewn parciau yn broblem mewn rhannau o'r diwydiant carafannau gwyliau hefyd. Y problemau hyn yw problemau megis cynnydd na ellir ei gyfiawnhau mewn ffioedd blynyddol ar y safle, atal gwerthu carafannau preifat, y methiant i sicrhau gwelliannau i'r safle a addawyd, cynnal a chadw safleoedd yn wael ac aflonyddu ar berchenogion carafannau. Yn anffodus, maent wedi ymddangos yn fy mag post etholaethol yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf.

However, perhaps the most worrying problem identified at some parks is the phenomenon of people inappropriately using holiday caravans as their main home, sometimes without the knowledge of the park owner, but sometimes, unfortunately, with the knowledge of the holiday park owner. The extent of this problem is difficult to gauge, but data collected by Consumer Focus Wales, based on the 2011 census, suggest that approximately 2,600 households could be living in holiday caravans. However, census data is almost certain to under-record those using caravans as their main home, because most individual caravans do not have specific addresses. Research by Sheffield Hallam University suggests that up to 6% of holiday caravans are homes to people living in caravans full time. This means that, in Wales, there could be more than 3,000 households in holiday caravan parks.

Fodd bynnag, efallai mai'r broblem sy'n achosi'r pryder mwyaf a nodwyd mewn rhai parciau yw ffenomen pobl yn defnyddio carafannau gwyliau yn amhriodol fel eu prif gartref, weithiau heb yn wybod i berchennog y parc, ond weithiau, yn anffodus, lle mae'n hysbys i berchennog y parc gwyliau. Mae'n anodd mesur maint y broblem hon, ond mae data a gasglwyd gan Llais Defnyddwyr Cymru, yn seiliedig ar gyfrifiad 2011, yn awgrymu y gallai tua 2,600 o aelwydydd fod yn byw mewn carafannau gwyliau. Fodd bynnag, mae data'r cyfrifiad bron yn sicr o dangofnodi'r rhai sy'n defnyddio carafannau fel eu prif gartref, gan nad oes gan y rhan fwyaf o garafannau unigol gyfeiriadau penodol. Awgryma ymchwil gan Brifysgol Sheffield Hallam fod hyd at 6% o garafannau gwyliau yn gartref i bobl sy'n byw mewn carafannau llawn amser. Golyga hyn, yng Nghymru, y gallai fod mwy na 3,000 o aelwydydd mewn meysydd carafannau gwyliau.

Work undertaken by Conwy County Borough Council in 2008 found that in Towyn and Kimmel Bay alone, people at holiday caravan park addresses were claiming housing benefits and unemployment benefits, and that more than 107 people were claiming free bus passes under the concessionary fare scheme. The council's social services department has also been found to be providing services to people in holiday caravans and school buses are collecting children from some of the caravan parks in order to take them to school. North Wales Police has also expressed concerns at the increasing occupation of holiday caravans as people's main homes, with hundreds of recorded crimes in which holiday caravans are cited as home addresses. GP registrations by people in holiday caravan parks are also an issue. In 2008, there was an unexplained difference between the number of people registered with GPs in the Conway area and the Office of National Statistics population figures of 3,919. There could be a range of explanations for that, of course, but Public Health Wales has also speculated that, given the high concentration of caravan sites on the north Wales coast, there are likely to be substantial numbers of long-term residents who are accessing local health services. The challenge that this presents to the industry is huge. When people use a holiday caravan as a main home it changes the nature of a holiday park and has a detrimental impact on the industry as a whole. The drift towards 12-month site licences for holiday parks in some parts of Wales will make this issue even more difficult for local authorities to police in the future.

Canfu gwaith a wnaed gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn 2008 fod pobl mewn cyfeiriadau meysydd carafannau gwyliau yn Nhywyn a Bae Cinmel yn unig yn hawlio budd-daliadau tai a budd-daliadau diweithdra, a bod mwy na 107 o bobl yn hawlio tocynnau bws am ddim o dan y cynllun teithio rhatach. Canfuwyd hefyd fod adran gwasanaethau cymdeithasol y cyngor yn darparu gwasanaethau i bobl mewn carafannau gwyliau a bod bysiau ysgol yn casglu plant o rai o'r meysydd carafannau er mwyn mynd â hwy i'r ysgol. Mae Heddlu Gogledd Cymru hefyd wedi mynegi pryderon ynglŷn â'r cynnydd yn nifer y bobl sy'n byw mewn carafannau gwyliau fel eu prif gartref, gan nodi cannoedd o droseddau lle y cofnodwyd carafannau gwyliau fel cyfeiriadau cartref. Mae cofrestriadau meddygon teulu gan bobl mewn meysydd carafannau gwyliau yn broblem hefyd. Yn 2008, roedd gwahaniaeth anesboniadwy o 3,919 rhwng nifer y bobl a oedd wedi'u cofrestru â meddygon teulu yn ardal Conwy a ffigurau poblogaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Gallai fod nifer o esboniadau am hynny, wrth gwrs, ond mae Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd wedi dyfalu, o ystyried y nifer uchel o safleoedd carafannau ar arfordir y gogledd, mai'r tebyg yw bod nifer sylweddol o drigolion hirdymor sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd lleol. Mae'r her a achosir i'r diwydiant yn enfawr. Pan fydd pobl yn defnyddio carafannau gwyliau fel prif gartref mae'n newid natur y parc gwyliau ac yn cael effaith andwyol ar y diwydiant yn ei gyfanrwydd. Bydd tuedd tuag at drwyddedau safle am 12 mis ar gyfer parciau gwyliau mewn rhai rhannau o Gymru yn ei gwneud hyd yn oed yn fwy anodd i awdurdodau lleol blismona'r mater yn y dyfodol.

I wish to put on record that I have no problem with people living in mobile park homes that are designated and built to the proper specifications for permanent residential use; there are some excellent park home sites operating in my constituency. However, problems arise when permanent homes are made from units and on sites that are designated for holiday use. Clearly, the problems associated with people using holiday caravans as their main home—if that goes unchecked—have the potential to place further pressure on the delivery of public services, and to have a detrimental impact on the industry.

Hoffwn gofnodi nad oes gennyf broblem gyda'r syniad o bobl yn byw mewn cartrefi symudol mewn parciau sydd wedi'u dynodi ac wedi'u hadeiladu yn unol â'r manylebau priodol ar gyfer defnydd preswyl parhaol; mae rhai safleoedd cartrefi mewn parciau ardderchog yn gweithredu yn fy etholaeth. Fodd bynnag, mae problemau yn codi pan fydd unedau yn cael eu troi'n gartrefi parhaol ac ar safleoedd sydd wedi'u dynodi ar gyfer defnydd gwyliau. Yn amlwg, gallai'r problemau sy'n gysylltiedig â phobl yn defnyddio carafannau gwyliau fel eu prif gartref—os na chaiff ei reoli—arwain at fwy o bwysau ar ddarpariaeth gwasanaethau cyhoeddus, a gallent gael effaith andwyol ar y diwydiant.

To be fair, the industry has recognised the need to tackle this issue. The National Caravan Council and the British Holiday & Home Parks Association have developed model licence agreements and a code of practice for operators. The National Caravan Council recently launched its own NCC-approved scheme to promote best practice among holiday park operators. The scheme is robust, and it includes aspects of enforcement, compliance and redress for holiday caravan owners in those parks that participate in it. However, it is a voluntary scheme, and only one third of the NCC members currently subscribe to it. That is why we need to modernise the regulation of the industry and bring the outdated legislation that it currently operates under up to date.

A bod yn deg, mae'r diwydiant wedi cydnabod bod angen mynd i'r afael â'r mater hwn. Mae'r Cyngor Carafannau Cenedlaethol a Chymdeithas Parciau Gwyliau a Pharciau Cartrefi Prydain wedi datblygu cytundebau trwydded enghreifftiol a chod ymarfer i weithredwyr. Yn ddiweddar, lansiodd y Cyngor Carafannau Cenedlaethol ei gynllun ei hun i hyrwyddo arfer gorau ymhlith gweithredwyr parciau gwyliau. Mae'r cynllun yn gadarn, ac mae'n cynnwys agweddau ar orfodi, cydymffurfio a gwneud iawn i berchenogion carafannau gwyliau yn y parciau hynny sy'n cymryd rhan ynddo. Fodd bynnag, cynllun gwirfoddol ydyw, a dim ond un o bob tri aelod o'r Cyngor Carafannau Cenedlaethol sy'n tanysgrifio iddo ar hyn o bryd. Dyna pam mae angen inni foderneiddio'r ffordd y caiff y diwydiant ei reoleiddio a diweddaru'r hen ddeddfwriaeth y mae'n gweithredu yn unol â hi ar hyn o bryd.

The existing legislative framework for the caravan industry goes back to the Caravan Sites and Control of Development Act 1960, but this affords only limited powers to local authorities to address problematic holiday caravan sites. In the words of Conwy County Borough Council, the 1960 Act may have been fit for purpose when it was introduced, but it is now outdated, and the control that it allows does not fit the modern-day usage of holiday caravan sites.

Mae'r fframwaith deddfwriaethol presennol ar gyfer y diwydiant carafannau yn dyddio yn ôl i Ddeddf Safleoedd Carafannau a Rheoli Datblygu 1960, ond dim ond pwerau cyfyngedig a rydd i awdurdodau lleol i fynd i'r afael â safleoedd carafannau gwyliau sy'n achos problem. Yng ngeiriau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, efallai fod Deddf 1960 yn addas at y diben pan gafodd ei chyflwyno, ond erbyn hyn mae wedi dyddio, ac nid yw'r rheolaeth a ganiateir yn addas ar gyfer y defnydd modern o safleoedd carafannau gwyliau.

Under the existing legislation, for example, local authorities cannot charge a fee for processing and issuing a licence, they have limited powers to refuse or grant a licence, they have no duty to take any enforcement action or carry out periodic inspections, and they have no power to serve enforcement notices. Councils do have powers to prosecute for licence breaches, but the maximum fine that can be imposed is a paltry £2,500, which is less than the annual pitch fee in many holiday parks.

O dan y ddeddfwriaeth bresennol, er enghraifft, ni all awdurdodau lleol godi ffi am brosesu a chyhoeddi trwydded, mae ganddynt bwerau cyfyngedig i wrthod neu ganiatáu trwydded, nid oes ganddynt ddyletswydd i gymryd unrhyw gamau gorfodi na chynnal arolygiadau cyfnodol, ac nid oes ganddynt unrhyw bŵer i gyflwyno hysbysiadau gorfodi. Mae gan gynghorau bwerau i ddwyn achos am dorri amodau trwydded, ond y ddirwy fwyaf y gellir ei rhoi yw'r swm pitw o £2,500, sy'n llai na'r ffi llain flynyddol mewn llawer o barciau gwyliau.

So, the legislative framework for licensing caravans has remained largely unchanged for over 50 years. In my opinion, it is time for modernisation. I do not wish to stifle business, and it goes without saying that any responsible holiday caravan park owner should have nothing to fear from improved regulation in this area. That is why, if I secure the agreement of the Assembly to introduce a Bill today, I will want to continue to work closely with NCC and the BH&HPA and with any other industry expert to develop my ideas. I have already held positive discussions with the NCC and the BH&HPA, and I thank them for the positive way in which they are engaging on this issue.

Felly, mae'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer trwyddedu carafannau wedi aros yn ddigyfnewid i raddau helaeth ers dros 50 mlynedd. Yn fy marn i, mae'n bryd moderneiddio. Nid wyf am lyffetheirio busnes, ac yn sicr ni ddylai rheoleiddio gwell yn y maes hwn achosi unrhyw bryder i berchennog parc carafannau gwyliau cyfrifol. Dyna pam, os byddaf yn sicrhau cytundeb y Cynulliad i gyflwyno Bil heddiw, byddaf yn awyddus i barhau i weithio'n agos gyda'r Cyngor Carafannau Cenedlaethol a'r BH&HPA ac unrhyw arbenigwyr eraill yn y diwydiant i ddatblygu fy syniadau. Rwyf eisoes wedi cynnal trafodaethau cadarnhaol gyda'r Cyngor Carafannau Cenedlaethol a'r BH&HPA, a hoffwn ddiolch iddynt am y ffordd gadarnhaol y maent yn cyfrannu at y mater hwn.

I hope that Assembly Members will give me leave to introduce a Bill as a result of today's debate, and, in closing the speech, I wish to put on record my thanks to the Minister and his officials for the helpful discussions that I have had with him and them over the past few weeks, and, indeed, to Peter Black for his work on the park home sector, which has helped to develop my ideas in this area. Finally, I wish to thank Stephen George and Jonathan Baxter of the Assembly staff for their support and advice in helping me to bring this debate forward. Diolch yn fawr iawn. I look forward to the debate.

Gobeithiaf y bydd Aelodau'r Cynulliad yn rhoi caniatâd imi gyflwyno Bil o ganlyniad i'r ddadl heddiw, ac, wrth gloi'r araith, hoffwn gofnodi fy niolch i'r Gweinidog a'i swyddogion am y trafodaethau defnyddiol yr wyf wedi'u cael gydag ef a hwy dros yr ychydig wythnosau diwethaf, ac, yn wir, i Peter Black am ei waith ar y sector cartrefi mewn parciau, sydd wedi helpu i ddatblygu fy syniadau yn y maes hwn. Yn olaf, hoffwn ddiolch i Stephen George a Jonathan Baxter o staff y Cynulliad am eu cymorth a'u cyngor wrth fy helpu i gyflwyno'r ddadl hon. Diolch yn fawr iawn. Edrychaf ymlaen at y ddadl.

15:19 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Tai ac Adfywio / The Minister for Housing and Regeneration*

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Presiding Officer for the opportunity to take part in this debate. I will briefly point out the provision of the Welsh Government in support of this proposal.

Diolchaf i'r Llywydd am y cyfle i gymryd rhan yn y ddadl hon. Nodaf yn sydyn ddarpariaeth Llywodraeth Cymru i gefnogi'r cynnig hwn.

As Darren Millar has said, we have met to discuss this on several occasions, and I am grateful for the information that he has provided to my team in terms of his relationship with the industry already. There is a lot of anecdotal evidence around the provision and proposals, as suggested by the Member, in terms of what is happening on caravan sites, and, of course, we have to have clear evidence on that. It is also clearly the case that the majority of sites are well run and regulated by the industry itself. I am very interested to ensure that we do not overburden the industry, given the very welcome holiday park turnover in the Welsh tourism industry of some £727 million a year. In conclusion, the Welsh Government is happy not to oppose this Bill today. Subject to the will of the Assembly, we will certainly seek to give the Member leave to take this forward and provide further evidence in terms of further consultation with the industry. I am therefore happy for the Welsh Government to support the Bill today.

Fel y dywedodd Darren Millar, rydym wedi cyfarfod i drafod hyn ar sawl achlysur, ac rwy'n ddiolchgar am y wybodaeth y mae wedi'i rhoi i'm tîm o ran y berthynas sydd ganddo â'r diwydiant eisoes. Mae llawer o dystiolaeth anecdotaidd o ran y ddarpariaeth a'r cynigion, fel yr awgrymodd yr Aelod, o ran yr hyn sy'n digwydd ar safleoedd carafannau, ac, wrth gwrs, rhaid inni gael tystiolaeth glir am hynny. Mae hefyd yn amlwg bod y rhan fwyaf o'r safleoedd yn cael eu rhedeg a'u rheoleiddio'n dda gan y diwydiant ei hun. Rwy'n awyddus iawn i sicrhau nad ydym yn rhoi gormod o faich ar y diwydiant, o ystyried trosiant parciau gwyliau o tua £727 miliwn y flwyddyn yn y diwydiant twristiaeth yng Nghymru, sydd i'w groesawu'r fawr. I gloi, mae Llywodraeth Cymru yn barod i beidio â gwrthwynebu'r Bil hwn heddiw. Yn amodol ar ewyllys y Cynulliad, byddwn yn sicr yn ceisio rhoi caniatâd i'r Aelod fwrw ymlaen â hyn a darparu tystiolaeth bellach o ran ymgynghori ymhellach â'r diwydiant. Rwyf felly'n fodlon i Lywodraeth Cymru gefnogi'r Bil heddiw.

15:20 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Presiding Officer, I ought to place on record the fact that I own a caravan on the west Wales coast, but I do not think that that prevents me from taking part in this debate; I know a little bit about caravans perhaps and can give an insight from my own experience.

Lywydd, dylwn gofnodi'r ffaith fy mod yn berchen ar garafán ar arfordir y gorllewin, ond ni chredaf fod hynny'n fy atal rhag cymryd rhan yn y ddadl hon; gwn ychydig am garafannau o bosibl a gallaf gynnig ychydig o sylwadau o'm profiad fy hun.

I welcome Darren's proposed legislation, and I am glad to have the opportunity to support the principles that he has outlined. He was right to identify a growing demand for 12-month licences on holiday caravan sites, and a gradual move away from licences limiting occupancy to the spring to autumn period. This clearly raises issues that might blur the lines between holiday caravan sites and residential use sites. The principles in this Bill seek to address this trend and to place safeguards that recognise the challenges that that will pose, particularly for public services. It is worth keeping in mind, especially in the week that a new tourism strategy has been launched, that maintaining the high standards of holiday caravan parks is very important to our national image as a tourist destination, and to our local economies, particularly those in coastal areas. Holiday parks clearly should be used for holidays and are not suitable for residential purposes. Members will recall that, when I served as Deputy Minister for housing in the previous Government, I took an interest in caravan parks, and I was pleased to visit a number of those in Members' constituencies, including Darren Millar's constituency. I saw at first hand some of the challenges faced by site owners and caravan owners. I am of the view that, as well as placing fair obligations on site owners and the owners of caravans, it is also fair that we recognise the position of the communities in which the sites exist.

Croesawaf ddeddfwriaeth arfaethedig Darren, ac rwy'n falch o gael cyfle i gefnogi'r egwyddorion a amlinellwyd ganddo. Roedd yn llygad ei le i nodi galw cynyddol am drwyddedau 12 mis ar safleoedd carafannau gwyliau, a'r newid graddol oddi wrth drwyddedau sy'n cyfyngu ar ddeiliadaeth i'r cyfnod rhwng y gwanwyn a'r hydref. Mae hyn yn amlwg yn codi materion a allai gymylu'r gwahaniaeth rhwng safleoedd carafannau gwyliau a safleoedd defnydd preswyl. Mae'r egwyddorion yn y Bil hwn yn ceisio mynd i'r afael â'r duedd hon a gosod mesurau diogelwch sy'n cydnabod yr heriau y bydd hynny'n eu hachosi, yn enwedig o ran gwasanaethau cyhoeddus. Mae'n werth cofio, yn enwedig yn yr wythnos y lansiwyd strategaeth dwristiaeth newydd, fod cynnal safonau uchel parciau carafannau gwyliau yn bwysig iawn i'n delwedd genedlaethol fel cyrchfan i dwristiaid, ac i'n heconomïau lleol, yn enwedig y rhai mewn ardaloedd arfordirol. Yn amlwg, dylai parciau gwyliau gael eu defnyddio ar gyfer gwyliau ac nid ydynt yn addas at ddibenion preswyl. Bydd yr Aelodau'n cofio, pan oeddwn yn gwasanaethu fel y Dirprwy Weinidog dros dai yn y Llywodraeth flaenorol, imi gymryd diddordeb mewn parciau carafannau, ac roeddwn yn falch o ymweld â nifer o'r rhai yn etholaethau Aelodau, gan gynnwys etholaeth Darren Millar. Gwelais drosof fy hun rai o'r heriau a wynebir gan berchenogion safleoedd a pherchenogion carafannau. Rwyf o'r farn, yn ogystal â gosod rhwymedigaethau teg ar berchenogion safleoedd a pherchenogion carafannau, ei bod hefyd yn deg ein bod yn cydnabod sefyllfa'r cymunedau lle mae'r safleoedd yn bodoli.

Darren Millar's legislation gives us an opportunity to explore those rights and challenges. It seems to me that the industry itself is generally supportive of improved regulation. The owners of well-run sites do not want people living there permanently and will require adequate proof that you have a main residence elsewhere. Perhaps this legislation can explore what 'adequate proof' means in this regard. All caravan owners should be made aware of their rights and responsibilities, and the limitations of their rights in owning a caravan.

Mae deddfwriaeth Darren Millar yn rhoi cyfle inni ystyried yr hawliau a'r heriau hynny. Ymddengys imi fod y diwydiant ei hun yn cefnogi gwell rheoleiddio ar y cyfan. Nid yw perchenogion safleoedd a gynhelir yn dda am weld pobl yn byw yno yn barhaol a bydd angen prawf digonol bod gennych brif gartref rywle arall. Efallai y gall y ddeddfwriaeth hon ystyried beth yw ystyr 'prawf digonol' yn hyn o beth. Dylai pob perchennog carafán fod yn ymwybodol o'i hawliau a'i gyfrifoldebau, a'r cyfyngiadau ar ei hawliau mewn perthynas â bod yn berchen ar garafán.

Closing sites for some months in the winter may not be the solution that it might appear to be at first glance. A modern caravan is well insulated, and, in a mild winter, it is probably capable of providing suitable accommodation, and the tourism opportunities that we offer are no longer limited to the traditional summer holiday season. It seems to me that the purpose of the Bill would be to prevent holiday caravan sites from being used as permanent housing resources. I hope that, during the further stages of the Bill, we would be able to create a reasonable response to what is a complex situation. I wonder whether some of the problems could be dealt with by stricter enforcement of current licences and by the planning regime perhaps. After all, as Darren Millar has pointed out, local authorities will be an important player in this. I am curious as to why a local authority licenses a site for holiday use only on the one hand, and then, on the other hand, processes housing benefit claims—I have also seen disabled adaptations on some caravan sites—and issues bus passes to people living on those sites and transports children to school from those very same sites. Therefore, authorities set the rules and then facilitate the breaking of them.

Efallai nad cau safleoedd ar gyfer rhai misoedd yn y gaeaf yw'r ateb amlwg y gallai ei gynnig ar yr olwg gyntaf. Mae carafán fodern wedi'i hinswleiddio'n dda, ac, yn ystod gaeaf mwynaidd, mae'n debyg y gall gynnig llety addas, ac nid yw'r cyfleoedd twristiaeth a gynigiwn yn gyfyngedig i'r tymor traddodiadol yn ystod gwyliau haf mwyach. Ymddengys imi mai diben y Bil fyddai atal safleoedd carafannau gwyliau rhag cael eu defnyddio fel adnoddau tai parhaol. Gobeithiaf, yn ystod cyfnodau pellach y Bil, y byddem yn gallu creu ymateb rhesymol i'r hyn sy'n sefyllfa gymhleth. Tybed a ellid ymdrin â rhai o'r problemau drwy orfodi'r trwyddedau presennol yn llymach a chan y gyfundrefn gynllunio, o bosibl. Wedi'r cyfan, fel y nododd Darren Millar, bydd awdurdodau lleol yn chwarae rhan bwysig yn hyn o beth. Rwy'n chwilfrydig ynghylch pam mae awdurdod lleol yn trwyddedu safle ar gyfer defnydd gwyliau yn unig ar y naill law, ac yna, ar y llaw arall, yn prosesu hawliadau am fudd-dal tai—rwyf hefyd wedi gweld addasiadau ar gyfer pobl anabl ar rai safleoedd carafannau —ac yn rhoi tocynnau bws i bobl sy'n byw ar y safleoedd hynny ac yn cludo plant i'r ysgol o'r union safleoedd hynny. Felly, mae awdurdodau yn gosod y rheolau ac yna'n hwyluso eu torri.

New legislation is not always the solution that we hope that it will be. However, I have a word of caution: let us not set out to vilify and stigmatise those who have nowhere else to go. Let us be clear: for some, this is not a lifestyle choice or an attempt to evade paying council tax bills on their main residence. For some, this is about desperation and limited choices. Not many people would choose to bring up a family in a caravan if they had somewhere else to go. I am happy to support this Bill going forward for further scrutiny and I will be voting for the proposal today.

Nid yw deddfwriaeth newydd bob amser yn cynnig yr ateb yr ydym yn gobeithio y bydd yn ei gynnig. Fodd bynnag, mae gennyf air o rybudd: gadewch inni beidio â mynd ati i ddilorni na gwaradwyddo'r rhai nad oes ganddynt unrhyw le arall i fynd. Gadewch inni fod yn glir: i rai, nid dewis ffordd o fyw nac ymgais i osgoi talu biliau'r dreth gyngor ar eu prif breswylfa ydyw. I rai, mae a wnelo ag anobaith a diffyg dewis. Ni fyddai llawer o bobl yn dewis magu teulu mewn carafán os oedd ganddynt rywle arall i fynd. Rwy'n barod i gefnogi anfon y Bil hwn i graffu arno ymhellach a byddaf yn pleidleisio o blaid y cynnig heddiw.

15:25

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Throughout the course of my Member-proposed Bill on residential mobile homes, the Mobile Homes (Wales) Bill, I have received a lot of correspondence, and, indeed, many complaints from residents that my Bill does not cover holiday caravans. In fact, I have had quite a few complaints from Darren Millar about that as well.

Drwy gydol hynt fy Mil a gynigwyd gan Aelod ynglŷn â chartrefi symudol preswyl, y Bil Cartrefi Symudol (Cymru), rwyf wedi cael llawer o ohebiaeth, ac, yn wir, lawer o gwynion gan drigolion nad yw fy Mil yn cynnwys carafannau gwyliau. Yn wir, rwyf wedi cael cryn nifer o gwynion gan Darren Millar am hynny hefyd.

As is the case with permanent residential sites, there are, unfortunately, unscrupulous holiday caravan park site owners who use the site to make money and have no consideration for the site users. The consultations and survey carried out in preparation for my Bill highlighted the problems and harassment that holiday site users encounter. However, it is also important to note that there are many excellent site owners who give residents no concerns whatsoever. Those site owners who manage their sites well have nothing to fear from this legislation. As is the case with my Bill, this legislation will, hopefully, cement the good work that they are doing.

Fel yn achos safleoedd preswyl parhaol, yn anffodus, mae perchenogion parciau carafannau gwyliau diegwyddor sy'n defnyddio'r safle i wneud arian ac nad ydynt yn ystyried defnyddwyr y safle o gwbl. Tynnodd ymgynghoriadau a'r arolwg a gynhaliwyd wrth baratoi ar gyfer fy Mil sylw at y problemau a'r achosion o aflonyddu y mae defnyddwyr safleoedd gwyliau yn eu hwynebu. Fodd bynnag, mae hefyd yn bwysig nodi bod llawer o berchenogion safleoedd ardderchog nad ydynt yn achosi unrhyw bryderon o gwbl i breswylwyr. Nid oes dim yn y ddeddfwriaeth hon a ddylai beri ofn i'r perchenogion safleoedd hynny sy'n rheoli eu safleoedd yn dda. Fel yn achos fy Mil, bydd y ddeddfwriaeth hon, gobeithio, yn atgyfnerthu'r gwaith da y maent yn ei wneud.

There are 415 park sites in Wales owned or managed by the British Holiday & Home Parks Association membership, providing nearly 53,000 pitches for caravans, holiday homes and lodges, touring caravans, motor homes, tents and residential park homes. Of these, 27 are exclusively residential parks with no holiday or touring pitches, and 377 are holiday-only parks, providing for static caravans and/or touring caravans, with no residential pitches. Clearly, my Bill applies to around 92 sites in Wales, and this is a much bigger ask in terms of legislation. When putting together the legislation, I think that Darren Millar will require the patience of Job to get the right path on this.

Mae 415 o safleoedd parciau yng Nghymru o dan berchenogaeth aelodau Cymdeithas Parciau Gwyliau a Pharciau Cartrefi Prydain neu sy'n cael eu rheoli ganddynt, gan ddarparu bron 53,000 o leiniau ar gyfer carafannau, cartrefi a llety gwyliau, carafannau teithiol, cartrefi symudol, pebyll a chartrefi mewn parciau preswyl. O'r rhain, mae 27 yn barciau preswyl yn unig heb unrhyw leiniau gwyliau na theithio, ac mae 377 yn barciau gwyliau yn unig, sy'n darparu ar gyfer carafannau sefydlog a/neu garafannau teithiol, heb unrhyw leiniau preswyl. Yn amlwg, mae fy Mil yn gymwys i tua 92 o safleoedd yng Nghymru, ac mae hyn yn gofyn llawer mwy o ran deddfwriaeth. Wrth lunio'r ddeddfwriaeth, credaf y bydd angen amynedd Job ar Darren Millar i ddod o hyd i'r llwybr cywir yn hyn o beth.

We do need to take note of some of the comments made by Jocelyn Davies about the enforcement of existing planning permissions and licensing provisions to try to tackle some of these issues. However, I think that my Bill, which was rewritten through the very good offices of the Minister and his officials, and which will, hopefully, come before this Assembly on 10 July, will provide a very good base for Darren's legislation and will, hopefully, assist with that job. Not only will we have stand-alone Wales-only legislation relating to residential caravans and Gypsy and Traveller sites, we will also be able to add the holiday caravan trade to that.

Mae angen inni roi sylw i rai o'r sylwadau a wnaed gan Jocelyn Davies am orfodi caniatadau cynllunio a darpariaethau trwyddedu presennol er mwyn ceisio mynd i'r afael â rhai o'r materion hyn. Fodd bynnag, credaf y bydd fy Mil, a gafodd ei ailysgrifennu drwy gymwynasgarwch y Gweinidog a'i swyddogion, a fydd, gobeithio, yn dod gerbron y Cynulliad hwn ar 10 Gorffennaf, yn rhoi sylfaen dda iawn ar gyfer deddfwriaeth Darren ac y bydd, gobeithio, yn cynorthwyo gyda'r gwaith hwnnw. Nid yn unig y bydd gennym ddeddfwriaeth ar wahân i Gymru sy'n ymwneud â charafannau preswyl a safleoedd Sipsiwn a Theithwyr, byddwn hefyd yn gallu ychwanegu'r fasnach carafannau gwyliau i hynny.

Briefly, in terms of the consultation responses that I had when I first set out to do my Bill, I had 47 responses from holiday caravan park operators, and a further five from operators of mixed sites. The respondents varied from site operators who were individuals and families running a small business to larger corporations with multiple park sites. We also had responses from the British Holiday & Home Parks Association and the National Caravan Council that touched on the issues facing holiday caravan parks. Even though my Mobile Homes (Wales) Bill will have no effect on holiday caravan parks, many of the respondents commented that they were concerned that my Bill might impose a one-size-fits-all approach on them. This Bill offers an opportunity to ensure that legislation is produced that fits the needs of holiday caravan parks exactly.

Yn gryno, o ran yr ymatebion i'r ymgynghoriad a gefais pan gychwynnais ar y gwaith o baratoi fy Mil, cefais 47 o ymatebion gan weithredwyr parciau carafannau gwyliau, a phump arall gan weithredwyr safleoedd cymysg. Roedd yr ymatebwyr yn amrywio o weithredwyr safleoedd a oedd yn unigolion ac yn deuluoedd a oedd yn rhedeg busnes bach i gorfforaethau mwy â nifer o safleoedd. Cawsom ymatebion hefyd gan Gymdeithas Parciau Gwyliau a Pharciau Cartrefi Prydain a'r Cyngor Carafannau Cenedlaethol a soniodd am y problemau a wynebir gan barciau carafannau gwyliau. Er na fydd y Bil Cartrefi Symudol (Cymru) a gyflwynir gennyf yn cael unrhyw effaith ar barciau carafannau gwyliau, nododd llawer o'r ymatebwyr eu bod yn pryderu y gallai fy Mil fwrw ati drwy roi un ateb i bawb. Mae'r Bil hwn yn cynnig cyfle i sicrhau bod deddfwriaeth yn cael ei llunio sy'n diwallu anghenion parciau carafannau gwyliau yn union.

This has also highlighted how many holiday sites operate as residential sites. Although residents are meant to vacate the site for two or three months of the year, not all of them do so. Those holiday parks do need licensing and regulation as much as permanent residential sites do. I think the holiday park users can look to this new legislation to provide licensing and to ensure enforcement that will provide the safety and security that they need in their homes and caravans. I certainly hope that, when we come to scrutinise this Bill, we will be able to look at that in more detail.

Mae hyn hefyd wedi tynnu sylw at faint o safleoedd gwyliau sy'n gweithredu fel safleoedd preswyl. Er y dylai preswylwyr adael y safle am ddau neu dri mis o'r flwyddyn, nid yw pob un ohonynt yn gwneud hynny. Mae angen trwyddedu a rheoleiddio'r parciau gwyliau hynny cymaint â safleoedd preswyl parhaol. Credaf y gall defnyddwyr parciau gwyliau ddisgwyl i'r ddeddfwriaeth newydd hon gynnig trefn drwyddedu a sicrhau gorfodaeth a fydd yn rhoi'r diogelwch sydd ei angen arnynt yn eu cartrefi a'u carafannau. Gobeithio'n wir, pan ddechreuwn graffu ar y Bil hwn, y byddwn yn gallu edrych ar hynny'n fanylach.

As a parting shot, Presiding Officer, we should also remember that holiday caravan parks are an important part of the Welsh economy, providing jobs and bringing money into Wales. It is essential that we, in legislating, do what we can to ensure that this industry works effectively for Wales, as well as protecting the park home owners and users who will be affected by this licensing. That is the balance that I am looking forward to seeing in Darren's Bill when it comes before us, assuming that this motion is agreed today.

Fel sylw olaf, Lywydd, dylem hefyd gofio bod parciau carafannau gwyliau yn rhan bwysig o economi Cymru, gan ddarparu swyddi a dod ag arian i Gymru. Mae'n hanfodol ein bod ni, wrth ddeddfu, yn gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau bod y diwydiant hwn yn gweithio'n effeithiol i Gymru, yn ogystal â diogelu'r perchenogion cartrefi mewn parciau a defnyddwyr y bydd y drefn drwyddedu hon yn effeithio arnynt. Dyna'r cydbwysedd yr wyf yn edrych ymlaen at ei weld ym Mil Darren pan ddaw ger ein bron, gan dybio y derbynnir y cynnig hwn heddiw.

15:29

## Mark Isherwood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Darren referred to the 2011 economic impact assessment of the holiday park industry in Wales by the British Holiday & Home Parks Association and Visit Wales. He gave us a number of statistics. One that I do not think he mentioned is that the total economic impact to Wales has been calculated at a gross value-added of £317 million per annum, with 1.95 million people staying in privately owned static caravans, 500,000 in rented static caravans, and 450,000 in tourers, and 24.8 million visitor days between them each year. Holiday park representatives in north Wales advise that the holiday caravan park (Wales) Bill proposal is a significant opportunity to safeguard essential businesses, and to ensure the enforcement of regulation, protecting the industry's reputation and market. However, they say that, in the absence of detail on the proposals, industry opinion is divided, and many have concerns. The industry would seek to engage to ensure that any legislation is appropriate and effective, and I know that Darren is engaging already.

Cyfeiriodd Darren at asesiad o effaith economaidd y diwydiant parciau gwyliau yng Nghymru yn 2011 gan Gymdeithas Parciau Gwyliau a Pharciau Cartrefi Prydain a Croeso Cymru. Rhoddodd nifer o ystadegau. Un nad wyf yn credu iddo ei grybwyll yw bod cyfanswm yr effaith economaidd i Gymru wedi cael ei gyfrifo fel gwerth ychwanegol crynswth o £317 miliwn y flwyddyn, gydag 1.95 miliwn o bobl yn aros mewn carafannau sefydlog sy'n eiddo preifat, 500,000 mewn carafannau sefydlog ar rent, a 450,000 mewn carafannau teithiol, a 24.8 miliwn o ddiwrnodau ymwelwyr gyda'i gilydd bob blwyddyn. Mae cynrychiolwyr parciau gwyliau yn y gogledd yn dweud bod y cynnig i gyflwyno Bil meysydd carafannau gwyliau (Cymru) yn gyfle pwysig i ddiogelu busnesau hanfodol, a sicrhau y caiff rheoliadau eu gorfodi, diogelu enw da'r diwydiant a'r farchnad. Fodd bynnag, maent yn dweud, oherwydd prinder manylion ynglŷn â'r cynigion, bod gwahaniaeth barn o fewn y diwydiant, a bod gan lawer bryderon. Byddai'r diwydiant yn ceisio ymgysylltu i sicrhau bod unrhyw ddeddfwriaeth yn briodol ac yn effeithiol, a gwn fod Darren yn ymgysylltu â hwy eisoes.

The industry states that, if inappropriately drafted, legislation would give rise to the increased cost and red-tape burden on an industry that is a mainstay of Welsh tourism, at a time of an extremely hard market. The weather of recent summers, coupled with weak consumer confidence, has been making trading conditions difficult. The industry wants to see abuses in holiday parks eradicated. However, it says that local authorities already have the powers to enforce. The industry says that the history of poor enforcement could be best addressed through giving local authorities a duty to enforce. However, the issues that are highlighted by the Bill's proposal address the planning and site licensing of a park business, and, since the position for each park will be different in both these respects, they say that it is essential that enforcement is addressed on a case-by-case basis. It is essential in order to guard against the law of unintended consequences, and great care will be necessary, given that the proposal could impact on over 10,600 jobs in Wales.

Noda'r diwydiant, os caiff y ddeddfwriaeth ei drafftio'n amhriodol, y byddai'n arwain at gostau cynyddol a baich biwrocratiaeth ar ddiwydiant sy'n un o gonglfeini twristiaeth Cymru, a hynny ar adeg hynod anodd i'r farchnad. Mae'r tywydd yn ystod hafau diweddar, ynghyd â hyder gwan ymhlith defnyddwyr, wedi arwain at amodau masnachu anodd. Mae'r diwydiant am weld achosion o dor-rheol mewn parciau gwyliau yn cael eu dileu. Fodd bynnag, mae'n dweud bod gan awdurdodau lleol y pwerau i orfodi eisoes. Mae'r diwydiant yn dweud mai'r ffordd orau o fynd i'r afael â'r hanes gwael o ran gorfodi yw drwy osod dyletswydd ar awdurdodau lleol i orfodi. Fodd bynnag, mae'r materion a amlygwyd gan gynnig y Bil yn ymdrin â chynllunio a thrwyddedu safle busnes parc, a, gan y bydd sefyllfa pob parc yn wahanol o ran y ddau beth hyn, maent yn dweud ei bod yn hanfodol bod camau gorfodi yn eu hystyried ar sail unigol. Mae'n hanfodol er mwyn gochel rhag canlyniadau anfwriadol, a bydd angen gofal mawr, o gofio y gallai'r cynnig effeithio ar dros 10,600 o swyddi yng Nghymru.

The advice for caravan owners, which has been produced jointly by the British Holiday and Home Parks Association, and the National Caravan Council, states that, if you were to live permanently in your holiday home, this would be in breach of the planning permission or site licence, with serious legal consequences. In addition, a caravan holiday home is not designed to be a permanent residence. The terms of Tree Tops caravan park state that the park is not a residential caravan park, and that neither Flintshire County Council, nor the park directors will allow customers to make their mobile holiday home their permanent home. This means that you will need to be able to prove that you are using your caravan holiday home within the terms of the park licence.

Noda'r cyngor i berchenogion carafannau, sydd wedi cael ei baratoi ar y cyd gan Gymdeithas Parciau Gwyliau a Pharciau Cartrefi Prydain, a'r Cyngor Carafannau Cenedlaethol, pe baech yn byw yn barhaol yn eich cartref gwyliau, y byddai hyn yn groes i'r caniatâd cynllunio neu drwydded y safle, ac y bydd goblygiadau cyfreithiol difrifol. Yn ogystal, nid yw cartref gwyliau carafán wedi ei gynllunio i fod yn breswylfa barhaol. Noda telerau parc carafannau Tree Tops nad yw'r parc yn un i garafannau preswyl, ac na fydd Cyngor Sir y Fflint, na chyfarwyddwyr y parc yn caniatáu i gwsmeriaid fyw yn eu cartref gwyliau symudol fel eu cartref parhaol. Mae hyn yn golygu y bydd angen ichi allu profi eich bod yn defnyddio eich cartref gwyliau sy'n garafán yn unol â thelerau trwydded y parc.

However, my amendment at Stage 2 of the Mobile Homes (Wales) Bill last week, which calls on local authorities to make checks to ascertain that an applicant is not seeking to circumvent the home park legislation by applying to license a home park site as a holiday site was defeated. I therefore ask Darren Millar to confirm that his Bill would address this issue.

Fodd bynnag, cafodd fy ngwelliant yn ystod Cyfnod 2 o Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) yr wythnos diwethaf, sy'n galw ar awdurdodau lleol i gadarnhau nad yw ymgeisydd yn ceisio osgoi'r ddeddfwriaeth ynglŷn â pharciau cartrefi drwy wneud cais i drwyddedu safle parc cartrefi fel safle gwyliau ei wrthod. Felly, gofynnaf i Darren Millar gadarnhau y byddai ei Fil yn mynd i'r afael â'r mater hwn.

Some years ago, the unscrupulous owner of Pant Gwyn Farm caravan park in Abersoch was able to evict me on false allegations against my family, and then profit from the new mobile home that was sited. Subsequently, the 2005 guidance on unfair terms in holiday caravan agreements recognised that a term in a licence is open to challenge if it is drafted so widely that it could be relied on in a way that harms consumers. It added that broader protection was absent, and that caravan owners had complained that park owners used terms and conditions that allowed park owners to treat them arbitrarily. Furthermore, caravan owners who are in dispute with park owners may be reluctant to take action on their own account in case of reprisals. Caravans are of little benefit to caravan owners without the right to station them on pitches, and they fear losing their licences, and being unable to find another pitch. The holiday caravan arbitration scheme, which is provided by the BH&HPA, does not apply when caravan owners are threatened with eviction, and relates only to financial recompense. I therefore ask Darren to address this issue in his Bill also.

Rai blynyddoedd yn ôl, roedd perchennog diegwyddor maes carafannau Fferm Pant Gwyn yn Abersoch yn gallu fy nhroi allan ar sail honiadau ffug yn erbyn fy nheulu, ac yna wneud elw o'r cartref symudol newydd a gafodd ei leoli yno wedyn. Yn dilyn hynny, cydnabu canllawiau 2005 ar delerau annheg yng nghytundebau carafannau gwyliau fod amod mewn trwydded yn agored i'w herio os yw'n cael ei ddrafftio mor eang y gellid dibynnu arno mewn ffordd sy'n niweidio defnyddwyr. Ychwanegodd nad oedd diogelwch ehangach, a bod perchenogion carafannau wedi cwyno bod perchenogion parciau yn defnyddio telerau ac amodau a oedd yn caniatáu i berchenogion parciau eu trin yn fympwyol. Ar ben hynny, gall perchenogion carafannau sydd mewn anghydfod â pherchenogion parciau fod yn amharod i weithredu ar eu cyfrif eu hunain rhag ofn y bydd dial arnynt. Nid yw carafannau fawr o fudd i berchenogion carafannau heb yr hawl i'w gosod ar leiniau, ac maent yn ofni y byddent yn colli eu trwyddedau, ac yn methu dod o hyd i lain arall. Nid yw'r cynllun cyflafareddu carafannau gwyliau, a ddarperir gan y BH&HPA, yn berthnasol pan fydd bygythiad o droi allan berchenogion carafannau, a dim ond ymwneud ag iawndal ariannol y mae. Felly, gofynnaf i Darren fynd i'r afael â'r mater hwn yn ei Fil hefyd.

15:34

## Alun Ffred Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Hoffwn siarad yn fyr o blaid Bil Darren Millar. Rwyf hefyd yn cefnogi'r sylwadau a wnaeth Darren ynglŷn â phwysigrwydd y diwydiant i dwristiaeth yng Nghymru. Rwyf hefyd yn cydnabod ac yn cefnogi sylwadau Jocelyn Davies ynglŷn â'r angen i fod yn ofalus wrth lunio unrhyw ddeddfwriaeth bellach.

I would like to speak briefly in favour of Darren Millar's proposed Bill. I, too, support the comments that Darren made in relation to the importance of the industry to tourism in Wales. I also acknowledge and support Jocelyn Davies's comments in relation to the need to be careful in creating any further legislation.

Credaf fod rhan o'r broblem yn deillio o benderfyniad lled ddiweddar mewn achos yn sir y Fflint, lle apeliodd perchennog maes carafannau yn erbyn yr amod hwnnw a oedd yn cyfyngu ar allu pobl i aros yn y carafanau. Roedd cyfnod o chwe wythnos lle nad oedd unrhyw un yn gallu mynd ar y maes carafanau hwnnw. Roedd hwnnw'n amod cyffredin iawn trwy Gymru a gafodd ei ddefnyddio ers degawdau i sicrhau, neu i geisio sicrhau, nad oedd unrhyw un yn defnyddio'r carafanau fel llefydd preswyl parhaol. Am ryw reswm, penderfynodd yr arolygydd yn yr achos hwnnw i ganiatáu'r apêl, ac yn sydyn iawn, agorwyd y llifddorau. Nid oes amod ar y safleoedd hynny bellach. Roedd hwnnw'n benderfyniad annisgwyl ac roedd hefyd yn benderfyniad a ddychrynodd llawer o awdurdodau lleol, gan nad oedd ganddynt ffordd bellach o fonitro'r meysydd carafanau hynny. Mae hyn yn ddiddorol iawn.

I believe that part of the problem stems from the decision in a relatively recent case in Flintshire, where a park owner appealed against the condition that restricted the ability of people to remain in their caravans. There was a period of six weeks when people could not enter that caravan site. That was a very common condition throughout Wales that had been used for decades to ensure, or to try to ensure, that people were not using caravans as permanent residences. For some reason, the inspector in that case decided to allow an appeal, and all of a sudden, the floodgates were opened. There is no condition on those sites now. That was an unexpected decision and it was also a decision that frightened a great many local authorities, because they did not then have a means of monitoring those caravan sites. This is very interesting.

Rwyf wedi gweld copïau o lythyron gan swyddogion cynllunio yn y gogledd sy'n bryderus iawn am y penderfyniad hwnnw gan yr arolygydd. Maent i gyd yn dweud nad oes ganddynt ffordd o fonitro, ac felly rydym bellach mewn sefyllfa bellach lle mae gan feysydd carfanau oes drwyddedu ond dim monitro. Er na fydd hynny, yn achos y rhan fwyaf o feysydd carfanau, yn achosi problem o fath yn y byd, mae'r math hwnnw o sefyllfa yn annerbyniol. Nid wyf yn credu y gall y Llywodraeth barhau â'r sefyllfa honno, lle rydych, mewn gwirionedd, yn gofyn i berchnogion meysydd carfanau fod yn blismyn ar drwyddedu heb i'r awdurdod lleol fod â gallu yn y byd i wneud unrhyw beth.

I have seen copies of letters from planning officers in north Wales who are very concerned about that decision by the inspector. They all say that they do not have a method of monitoring, and therefore we now have a situation where caravan sites do have licences but no monitoring. Even though that will not cause any problems, in the majority of caravan sites, that kind of situation is unacceptable. I do not think that the Government can continue with that situation, where you are in reality asking the owners of caravan sites to police the situation in terms of licences without the local authority being able to do anything about it.

Fel y dywedais, rwyf wedi gweld llythyron gan swyddogion cynllunio'r gogledd i gyd yn mynegi pryder am y sefyllfa bresennol. Mae rhai yn credu y dylid herio'r arolygydd; dyna yw'r sefyllfa. Y cwestiwn y byddwn wedi hoffi gofyn i'r Gweinidog, ac efallai y caf gyfle eto, yw a oedd yr arolygydd hwnnw yn gweithredu o'i ben a'i bastwn ei hun, neu a oedd yn adlewyrchu meddylfryd y Llywodraeth ei hun a'r Gweinidog ei hun? Nid oes modd i ni na neb arall herio'r arolygydd, felly mae angen i'r Llywodraeth esbonio'n union lle mae'n sefyll ar y mater pwysig hwn o beidio â chael unrhyw fonitro o'r sefyllfa. Mae'n tanseilio hygrededd y drefn gynllunio, ac fe allai arwain mewn rhai sefyllfaoedd at greu meysydd carafanau sy'n rhyw fath o 'trailer parks', fel sydd wedi digwydd yn America ac wedi tanseilio ansawdd byw llawer o drefi bach Americanaidd.

As I said, I have seen letters from planning officers in north Wales, all of whom expressing concerns about the current situation. Some believe that the inspector should be challenged; that is the situation. The question that I wanted to ask the Minister, and perhaps I will have another opportunity to do so, is this: was that inspector working independently, or was he reflecting the Government and the Minister's thinking? We cannot challenge the inspector, nor can anyone else, so the Government needs to explain exactly where it stands on this important matter of not having any monitoring of the situation. That undermines the credibility of the planning regime, and it could lead in some situations to the creation of caravan sites that are some sort of trailer parks, as has happened in America and has undermined the quality of life of many small American towns.

Rwy'n gryf o blaid bwriadau'r Bil hwn. Rhaid dod â'r meysydd hyn o fewn cwmpawd trefn gynllunio a fydd yn sicrhau monitro cadarn. Fel arall, bydd y Llywodraeth yn gyfrifol am greu sefyllfa anarchaidd a allai'n hawdd danseilio hyder y cyhoedd. Hefyd, mae elfen arall yn yr ardaloedd Cymraeg, oherwydd gallech, wrth barhau â drefn hon, annog mewnlifiad pellach a fyddai'n tanseilio'r iaith fel iaith gymunedol. Mynegwyd y pryder hwnnw yn ddiweddar mewn achos yng Ngwynedd. Mae angen Bil o'r math hwn yn wyneb y gwendidau y mae Darren Millar wedi'u nodi ac oherwydd y peryglon a'r methiannau o fewn y drefn gynllunio sydd wedi datblygu yn ddiweddar.

I am strongly in favour of the aims of the Bill. We need to bring these parks within the scope of a planning regime that ensures robust monitoring. Otherwise, the Government will be responsible for creating an anarchic situation that could easily undermine the public's confidence. Also, there is another element in the Welsh-speaking areas, given that you could, by continuing with this regime, encourage further influx that would undermine the Welsh language as a community language. That concern was recently expressed in relation to a case in Gwynedd. There is a need for this kind of Bill because of the weaknesses that Darren Millar has outlined and because of the dangers and the failures that have recently developed in the planning regime.

15:38 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I am pleased to be able to contribute to this debate. It is fair to say that Darren Millar in his previous life as a county councillor worked considerably hard on this matter, because he was well aware of the implications of the problems for us as a local authority, and when he left me on the council, I had to carry on the battle. It is fair to say, therefore, that we both have good experience of where this is blighting an area. Before I move on, I would like to pay tribute to Peter Black for the meticulous way in which he has driven the Mobile Homes (Wales) Bill forward. With respect to you and to the committee, I have been enamoured with the support that you have received from Government officials, committee staff, and legislative staff as well. I feel confident that should Darren Millar's Bill be successful, he, too, will receive that support. I, for one, look forward to working with him and other Members as this Bill progresses.

Rwy'n falch o gael cyfrannu at y ddadl hon. Mae'n deg dweud bod Darren Millar yn ei fywyd blaenorol fel cynghorydd sir wedi gweithio'n galed iawn ar y mater hwn, oherwydd ei fod yn ymwybodol iawn o oblygiadau'r problemau inni fel awdurdod lleol, a phan wnaeth fy ngadael ar y cyngor, bu'n rhaid imi barhau â'r frwydr. Mae'n deg dweud, felly, bod gan y ddau ohonom brofiad da o ble mae hyn yn difetha ardal. Cyn imi symud ymlaen, hoffwn dalu teyrnged i Peter Black am y ffordd drylwyr y mae wedi arwain y Bil Cartrefi Symudol (Cymru). O'ch rhan chi a'r pwyllgor, rwyf wedi hoffi gweld y cymorth yr ydych wedi ei gael gan swyddogion y Llywodraeth, staff y pwyllgor, a'r staff deddfwriaethol hefyd. Rwy'n teimlo'n hyderus pe bai Bil Darren Millar yn llwyddiannus, y bydd yntau hefyd yn cael y cymorth hwnnw. Gallaf ddweud yn bersonol fy mod yn edrych ymlaen at weithio gydag ef ac Aelodau eraill wrth i'r Bil hwn fynd yn ei flaen.

Darren has pointed out the benefits that holiday park owners bring to our communities, as well as the economic benefits from tourism. This is not about criticising the tourists who use holiday park homes; they are really a valid and vital part of our economy.

Mae Darren wedi tynnu sylw at y manteision y mae perchenogion parciau gwyliau yn eu cynnig i'n cymunedau, yn ogystal â'r manteision economaidd oherwydd twristiaeth. Nid yw hyn yn ymwneud â beirniadu'r twristiaid sy'n defnyddio cartrefi mewn parciau gwyliau; maent yn wir yn rhan ddilys a hanfodol o'n heconomi.

Many of the problems have been touched on, but there are some things that I would like to add. For instance, when we undertook the work looking at the transient population group—which the Minister will be very familiar with—in Conwy county, we were astounded to find that there were some 4,000 people who are technically classed as being transient, and yet, they were all drawing on our services. In financial terms, that equates to £1 million annually that our local authority is potentially losing out on, and yet, our councillors and our officers are striving to deliver public services across the board to everybody in a fair way. In fact, because of some of the work that we did, we know that this is not an isolated problem; we know that other areas are blighted. Alun Ffred Jones AM mentioned the point about the dilution and erosion of the Welsh language, and that is also a significant factor in why I think we should be driving this Bill forward.

Mae llawer o'r problemau wedi cael eu crybwyll, ond mae rhai pethau yr hoffwn eu hychwanegu. Er enghraifft, pan ymgymerwyd â'r gwaith o edrych ar y boblogaeth o drigolion dros dro gennym—y bydd y Gweinidog yn gyfarwydd iawn ag ef—yn sir Conwy, cawsom ein syfrdanu i ddarganfod bod tua 4,000 o bobl sy'n cael eu dosbarthu'n drigolion dros dro, ac eto, maent i gyd yn defnyddio ein gwasanaethau. Mewn termau ariannol, mae hynny'n cyfateb i swm o £1 filiwn bob blwyddyn y mae ein hawdurdod lleol yn ei golli o bosibl, ac eto, mae ein cynghorwyr a'n swyddogion yn ymdrechu i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yn gyffredinol i bawb mewn ffordd deg. Mewn gwirionedd, oherwydd rhywfaint o'r gwaith a wnaethom, gwyddom nad yw hyn yn broblem inni yn unig; gwyddom fod ardaloedd eraill yn cael eu difetha. Soniodd Alun Ffred Jones AC am wanhau a thanseilio'r Gymraeg, ac mae hynny hefyd yn ffactor pwysig o ran pam y dylem fwrw ymlaen â'r Bil hwn yn fy marn i.

It is about local authorities being given the necessary powers to work with the operators of caravan parks, to strengthen the industry. We want to ensure that we strengthen the role of the local authorities, so that they can enforce licenses, so that they have the resources, and so that they can actually address unlawful occupation and use.

Mae a wnelo â rhoi'r pwerau angenrheidiol i awdurdodau lleol weithio gyda gweithredwyr parciau carafannau, i gryfhau'r diwydiant. Rydym yn awyddus i sicrhau ein bod yn cryfhau rôl yr awdurdodau lleol, fel y gallant orfodi trwyddedau, fel bod ganddynt yr adnoddau, ac fel y gallant fynd i'r afael â meddiannaeth a defnydd anghyfreithlon mewn gwirionedd.

I think that it will address the fit and proper test, which I know has been quite a complex issue as we have gone forward with the mobile park homes issue. Also, Darren quite rightly mentioned earlier the abuse by some caravan park owners—the less reputable ones—and the impact that they have on people who want to come to Wales to enjoy their holiday experiences here. Really, there is nothing more that I can add to this, other than that I hope that all Members will support this Bill. I look forward to the day when the Mobile Homes (Wales) Bill and this Bill have gone through, so that we can address both of these really serious issues in a really strategic and governmental way.

Credaf y bydd yn mynd i'r afael â'r prawf addas a phriodol, a gwn fod hwn wedi bod yn fater eithaf cymhleth wrth inni symud ymlaen â mater cartrefi symudol mewn parciau. Hefyd, soniodd Darren yn gwbl briodol yn gynharach am gamymddwyn gan rai perchenogion parciau carafannau—y rhai heb enw da—a'r effaith y maent yn ei chael ar bobl sydd am ddod i Gymru i fwynhau eu gwyliau yma. Yn wir, nid oes dim byd mwy y gallaf ei ychwanegu at hyn, heblaw fy mod yn gobeithio y bydd pob Aelod yn cefnogi'r Bil hwn. Edrychaf ymlaen at weld y Bil Cartrefi Symudol (Cymru) a'r Bil hwn yn cael eu pasio, fel y gallwn fynd i'r afael â'r ddau fater difrifol iawn hyn mewn ffordd wirioneddol strategol a llywodraethol.

15:42

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Darren Miller to reply to the debate.

Galwaf ar Darren Miller i ymateb i'r ddadl.

15:42

## Darren Millar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am really pleased with the debate that we have had today, and I am grateful for the support of Members from all parties for the aims of this Bill, once it has been developed. I am very grateful to the Minister for confirming the support of the Government to allow this to proceed in the legislative process—indeed, a number of Members and the Minister have acknowledged the economic impact of the holiday caravan industry, which is why it is so critical that we bring the regulatory regime for holiday caravan parks up to date.

Rwy'n falch iawn o'r ddadl a gawsom heddiw, ac rwy'n ddiolchgar am gefnogaeth Aelodau o bob plaid i amcanion y Bil hwn, unwaith y bydd wedi cael ei ddatblygu. Rwy'n ddiolchgar iawn i'r Gweinidog am gadarnhau cefnogaeth y Llywodraeth i ganiatáu i hyn fynd yn ei flaen yn y broses ddeddfwriaethol—yn wir, mae nifer o Aelodau a'r Gweinidog wedi cydnabod effaith economaidd y diwydiant carafannau gwyliau, a dyna pam y mae mor hanfodol ein bod yn diweddaru'r drefn reoleiddio ar gyfer parciau carafannau gwyliau.

I was interested to listen to the personal experiences of Jocelyn Davies. I remember very fondly your visit to the Whitehouse leisure park in Towyn. Again, it is another excellent holiday park that provides a very welcome place for people to stay when they visit north Wales. However, as Mark Isherwood quite rightly said, not all parks are run in a proper way, and his own experiences in Abersoch bear that out.

Roedd yn ddiddorol gwrando ar brofiadau personol Jocelyn Davies. Mae gennyf atgofion melys o'ch ymweliad â pharc hamdden Whitehouse yn Nhywyn. Unwaith eto, mae'n barc gwyliau ardderchog arall sy'n cynnig man llawn croeso i bobl aros pan fyddant yn ymweld â'r gogledd. Fodd bynnag, fel y dywedodd Mark Isherwood, a hynny'n hollol gywir, nid yw pob parc yn cael ei redeg mewn ffordd briodol, ac mae ei brofiadau ei hun yn Abersoch yn brawf o hynny.

Peter touched on the issue of the difficulties in extending some of the provisions in his Bill to holiday caravan parks, but he then quite rightly pointed out that this is an opportunity to deliver something quite different that is better placed to deal with some of the issues that arise on holiday caravan parks, and to deal with them in perhaps a similar yet different way that is distinctive in order to meet the needs of the industry. Nobody wants to overburden such an important industry in Wales; we have to get the approach right in the future, and that is why I am looking forward to an extensive consultation with key stakeholders, to make sure that we get the balance right.

Soniodd Peter am yr anawsterau i ymestyn rhai o'r darpariaethau yn ei Fil i barciau carafannau gwyliau, ond yna dywedodd yn gwbl briodol bod hwn yn gyfle i gyflwyno rhywbeth hollol wahanol sydd mewn sefyllfa well i ymdrin â rhai o'r materion sy'n codi ar barciau carafannau gwyliau, ac i ymdrin â hwy mewn ffordd debyg ond gwahanol o bosibl sy'n unigryw er mwyn diwallu anghenion y diwydiant. Nid oes neb am roi gormod o faich ar ddiwydiant mor bwysig yng Nghymru; rhaid inni weithredu yn y ffordd gywir yn y dyfodol, a dyna pam rwy'n edrych ymlaen at ymgynghoriad helaeth gyda rhanddeiliaid allweddol, i wneud yn siŵr ein bod yn cael y cydbwysedd yn iawn.

Peter, you said that I needed the wisdom of Job; I am just glad that we do not have Job's, comforters in the Chamber today, because there has been an encouraging note to the debate.

Peter, dywedasoch y bydd angen doethineb Job arnaf; rwy'n falch nad oes gennym unrhyw gysurwyr Job yn y Siambr heddiw, oherwydd bu nodyn calonogol i'r ddadl.

Mark Isherwood also touched on self-regulation. We know that self-regulation can be an extremely effective way of dealing with problems in the industry, but we also know that the self-regulation that is currently out there is not working, and that not all holiday parks are engaged in that self-regulatory process. We can explore that in some detail, I think, during the consultation period and, I hope, come up with some ideas in the legislation as we go forward.

Cyfeiriodd Mark Isherwood at hunanreoleiddio hefyd. Gwyddom y gall hunanreoleiddio fod yn ffordd hynod effeithiol o ymdrin â phroblemau yn y diwydiant, ond gwyddom hefyd nad yw'r drefn hunanreoleiddio sydd ar gael ar hyn o bryd yn gweithio, ac nad yw pob parc gwyliau yn cymryd rhan yn y broses hunanreoleiddio. Gallwn edrych ar hynny yn fanwl, fe gredaf, yn ystod y cyfnod ymgynghori a, gobeithio, gynnig rhai syniadau yn y ddeddfwriaeth wrth inni symud ymlaen.

Alun Ffred Jones made reference to some of the specific issues that he has encountered in Gwynedd and the ineffectiveness of the current planning regime in dealing with some of the concerns that he and his constituents have. The fact that there is no duty on local authorities to undertake site inspections or to even take enforcement forward when a problem is identified is problematic and I very much hope that my Bill will be able to address that.

Gwnaeth Alun Ffred Jones gyfeirio at rai o'r materion penodol y mae wedi dod ar eu traws yng Ngwynedd ac aneffeithiolrwydd y gyfundrefn gynllunio ar hyn o bryd wrth ddelio â rhai o'r pryderon sydd ganddo ef a'i etholwyr. Mae'r ffaith nad oes dyletswydd ar awdurdodau lleol i gynnal archwiliadau safle, na hyd yn oed gymryd camau gorfodi pan fydd problem yn cael ei nodi yn broblem a mawr obeithiaf y bydd fy Mil yn gallu mynd i'r afael â hynny.

Janet, I am grateful to you for reminding me of my time on Conwy County Borough Council. I very much enjoyed my time there as a member. You are right to say that Conwy has significant concerns about the current state of affairs as regards the way in which it is able to regulate the holiday caravan industry in its own area. We know that Conwy is the No. 1 caravan destination in Wales, and it is important that local authorities have the tools to be able to deliver the high-quality management of caravan parks that people expect. Of course, the hidden population that arises in local authority areas as a result of people living in caravans all year round without being registered properly anywhere is an issue. It is a drain on public services and there needs to be some way of recognising that through the funding formula used by local authorities, the NHS, the police service et cetera. I am grateful for Members' contributions to the debate today and I am very much looking forward to engaging with people on all sides of the Chamber as the legislative process moves forward.

Janet, rwy'n ddiolchgar ichi am fy atgoffa o'm hamser ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Mwynheais fy amser yno fel aelod yn fawr iawn. Rydych yn llygad eich lle i ddweud bod gan gyngor Conwy bryderon mawr ynghylch y sefyllfa sydd ohoni o ran y ffordd y mae'n gallu rheoleiddio'r diwydiant carafannau gwyliau yn ei ardal ei hun. Gwyddom mai Conwy yw'r prif gyrchfan carafannau yng Nghymru, ac mae'n bwysig bod gan awdurdodau lleol yr arfau i allu sicrhau'r rheolaeth o safon uchel dros barciau carafannau y mae pobl yn ei disgwyl. Wrth gwrs, mae'r boblogaeth gudd sy'n codi mewn ardaloedd awdurdodau lleol o ganlyniad i bobl yn byw mewn carafannau drwy gydol y flwyddyn heb gael eu cofrestru'n briodol unrhyw le yn broblem. Mae'n dreth ar wasanaethau cyhoeddus ac mae angen rhyw ffordd o gydnabod hynny drwy'r fformiwla ariannu a ddefnyddir gan awdurdodau lleol, y GIG, yr heddlu ac ati. Rwy'n ddiolchgar am gyfraniadau Aelodau at y ddadl heddiw ac edrychaf ymlaen yn fawr at ymgysylltu â phobl ar bob ochr i'r Siambr wrth i'r broses ddeddfwriaethol symud yn ei blaen.

15:46

### Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? There are no objections, so the motion is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

Y cynnig yw y dylid derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad, felly caiff y cynnig ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig.*

*Motion agreed.*

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 3.47 p.m.*

*The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 3.47 p.m.*

## Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Hedfan yng Nghymru

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1 a 3 yn enw Elin Jones, a gwelliannau 2, 4 a 5 yn enw Aled Roberts. Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliant 2 ei ddad-dethol.*

## Welsh Conservatives Debate: Aviation in Wales

*The following amendments have been selected: amendments 1, 2 and 3 in the name of Aled Roberts. If amendment 1 is agreed, amendment 2 will be de-selected.*

Cynnig NDM5268 William Graham

Motion NDM5268 William Graham

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn cydnabod yr angen am strategaeth hedfan gynhwysfawr a chydlynol yng Nghymru.

2. Yn cydnabod ymhellach gynigion Ceidwadwyr Cymru ar gyfer Maes Awyr Caerdydd, a amlinellir yn y cyhoeddiad, 'Glasbrint ar gyfer Maes Awyr Caerdydd'.

1. Recognises the need for a comprehensive and cohesive strategy for aviation in Wales.

2. Further recognises Welsh Conservative proposals for Cardiff Airport, outlined in the publication, 'A Blueprint for Cardiff Airport'.

15:47

## Byron Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

I am delighted to move the motion on behalf of the Welsh Conservatives. I hope that the debate will concentrate on the huge responsibility that we have as an institution to make Cardiff Airport work for Wales.

Rwy'n falch iawn o gynnig y cynnig ar ran y Ceidwadwyr Cymreig. Gobeithio y bydd y ddadl yn canolbwyntio ar y cyfrifoldeb enfawr sydd arnom fel sefydliad i sicrhau bod Maes Awyr Caerdydd yn gweithio i Gymru.

I will deal with the amendments before I start. We will not be supporting amendment 1, tabled in the name of Elin Jones. We will not be supporting amendment 2, tabled in the name of Aled Roberts. We will support amendment 3, tabled in the name of Elin Jones. We will support amendments 4 and 5, tabled in the name of Aled Roberts. The reasons why will become clear in my contribution.

Ymdriniaf â'r gwelliannau cyn imi ddechrau. Ni fyddwn yn cefnogi gwelliant 1, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones. Ni fyddwn yn cefnogi gwelliant 2, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts. Byddwn yn cefnogi gwelliant 3, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones. Byddwn yn cefnogi gwelliannau 4 a 5, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts. Bydd y rhesymau dros hynny yn dod yn amlwg yn fy nghyfraniad.

I am hoping that my contribution will set the scene for a mature debate about the future of Cardiff Airport and the role of the Welsh Government and the National Assembly in supporting our aviation industry. It is a key industry for any developed country and it is an industry and international airport that have great potential, which must be realised. Our position is quite clear: we do not think that spending £52 million on buying Cardiff Airport was a good use of taxpayers' money. That is why we want to return that money, and possibly more, to the taxpayer. However, it is now owned by the taxpayer and it is important that we address the world as it is, not as we would wish it to be. We think that this is a mature way to approach the issue and I hope that it is respected as such.

Gobeithiaf y bydd fy nghyfraniad yn paratoi'r ffordd ar gyfer trafodaeth aeddfed am ddyfodol Maes Awyr Caerdydd a rôl Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol i gefnogi ein diwydiant hedfan. Mae'n ddiwydiant allweddol i unrhyw wlad ddatblygedig ac mae'n ddiwydiant ac yn faes awyr rhyngwladol sydd â photensial mawr, y mae'n rhaid ei wireddu. Mae ein safbwynt yn hollol glir: ni chredwn fod gwario £52 miliwn ar brynu Maes Awyr Caerdydd yn ddefnydd da o arian trethdalwyr. Dyna pam rydym am ddychwelyd yr arian hwnnw, a mwy o bosibl, i'r trethdalwr. Fodd bynnag, mae o dan berchenogaeth trethdalwyr bellach, ac mae'n bwysig ein bod yn wynebu'r byd fel y mae, nid fel y byddem yn dymuno iddo fod. Credwn fod hyn yn ffordd aeddfed o ymdrin â'r mater a gobeithio y caiff ei pharchu fel y cyfryw.

In preparing this document, we have engaged positively with the airport, airlines, companies based at the airport, public transport providers and other comparable regional airports to put together a comprehensive, evidence-based document that could be implemented today. You will find the document highlighted within the motion that is before you 'A Blueprint for Cardiff Airport'. I also want to recognise a few positive steps taken so far to underline a mature approach to the debate. We commend the introduction of the new Dusseldorf weekly route and the development of Spanish flights. These are a good starting point, but we must also be realistic. The Dusseldorf flights are currently 40% under load capacity. These developments cannot and will not solely turn the airport around. That is why we want to build on them with our blueprint.

Wrth baratoi'r ddogfen hon, rydym wedi ymgysylltu'n gadarnhaol â'r maes awyr, cwmnïau hedfan, cwmnïau sydd wedi'u lleoli yn y maes awyr, darparwyr trafnidiaeth gyhoeddus a meysydd awyr rhanbarthol tebyg eraill er mwyn llunio dogfen gynhwysfawr, sy'n seiliedig ar dystiolaeth y gellid ei rhoi ar waith heddiw. Mae'r ddogfen wedi'i nodi yn y cynnig sydd ger eich bron 'Glasbrint ar gyfer Maes Awyr Caerdydd'. Rwyf hefyd am gydnabod rhai camau cadarnhaol a gymerwyd hyd yma i danlinellu agwedd aeddfed tuag at y ddadl. Rydym yn cymeradwyo'r llwybr wythnosol newydd i Dusseldorf a gyflwynwyd a'r teithiau hedfan i Sbaen sy'n cael eu datblygu. Mae'r rhain yn fan cychwyn da, ond rhaid inni hefyd fod yn realistig. Mae 40% o leoedd gwag ar y teithiau i Dusseldorf ar hyn o bryd. Ni all y datblygiadau hyn ac ni fydd y datblygiadau hyn ar eu pen eu hunain yn adfer y maes awyr. Dyna pam rydym yn awyddus i adeiladu arnynt drwy ein glasbrint.

To be able to compete with airports such as Bristol and to have any potential in going forward, Cardiff Airport must attract flights that have a demonstrable impact on its passenger numbers. The current dramatic leakage of passengers to England will not be fully addressed by these additions, and if you claim that they can, then we would like to see the evidence to support this.

Er mwyn gallu cystadlu â meysydd awyr fel Bryste a bod â photensial yn y dyfodol, rhaid i Faes Awyr Caerdydd ddenu teithiau hedfan sy'n cael effaith amlwg ar nifer y teithwyr. Ni fydd yr ychwanegiadau hyn yn mynd i'r afael yn llawn â'r llif dramatig o deithwyr i Loegr a welir ar hyn o bryd, ac os ydych yn hawlio y gallant, yna hoffem weld y dystiolaeth i gefnogi hyn.

Talking of strategy, I believe that after the significant investment by the Welsh taxpayer, the onus is on this institution—and not just opposition Members, but all Assembly Members—to ask the Welsh Government to outline its plans for Cardiff Airport, as we are still no clearer, despite its purchase taking place some three months ago. Having committed to Government intervention, it is essential that a clear and comprehensive strategy for the airport should be implemented as soon as possible. We cannot continue to trundle along without a clear plan. The old adage that failing to plan is planning to fail is simple and true.

A sôn am strategaeth, credaf, ar ôl y buddsoddiad sylweddol gan drethdalwyr Cymru, fod cyfrifoldeb ar y sefydliad hwn—ac nid dim ond Aelodau'r gwrthbleidiau, ond pob Aelod o'r Cynulliad—i ofyn i Lywodraeth Cymru amlinellu ei chynlluniau ar gyfer Maes Awyr Caerdydd, gan nad ydym damaid yn gallach, er iddo gael ei brynu tua thri mis yn ôl. Ar ôl ymrwymo i ymyrraeth gan y Llywodraeth, mae'n hanfodol bod strategaeth glir a chynhwysfawr ar gyfer y maes awyr yn cael ei roi ar waith cyn gynted ag y bo modd. Ni allwn barhau i rygnu ymlaen heb gynllun clir. Mae'r hen ddywediad bod methu â chynllunio yn gynllunio i fethu yn syml ac yn wir.

This, however, must be set within a broader framework of support, which can only be realised within an aviation strategy for Wales. The intra-Wales service from Cardiff to Anglesey is subsidised by the Welsh Government to the tune of almost £1.3 million to deliver quicker links between the south of Wales and the north. However, there are concurrent problems with the timetable of these routes not being practical to encourage business links. In fact, looking at the May monthly statistics, the flights are at best operating at half capacity, and there is anecdotal evidence that hints at it not being unusual to have four or five people on a flight. This is symptomatic of a general failure to create a broader and effective aviation strategy for Wales. There is no wish here to denude north Wales of an air link, but the question must be asked: does it operate to and from the right location?

Fodd bynnag, rhaid gosod hyn o fewn fframwaith ehangach o gefnogaeth, na ellir ond ei gwireddu o fewn strategaeth hedfan i Gymru. Mae'r gwasanaeth oddi mewn i Gymru o Gaerdydd i Ynys Môn yn cael cymhorthdal o bron i £1.3 miliwn gan Lywodraeth Cymru i ddarparu cysylltiadau cyflymach rhwng y de a'r gogledd. Fodd bynnag, mae problemau cyfredol o ran y ffaith nad yw amserlen y llwybrau hyn yn ymarferol i annog cysylltiadau busnes. Yn wir, o edrych ar ystadegau mis Mai, mae'r teithiau yn hanner llawn ar y gorau, a cheir tystiolaeth anecdotaidd sy'n awgrymu nad yw'n anarferol i bedwar neu bump o bobl fod ar y daith hedfan. Mae hyn yn arwydd o fethiant cyffredinol i greu strategaeth hedfan ehangach ac effeithiol i Gymru. Nid oes dymuniad i amddifadu'r gogledd o gyswllt hedfan, ond rhaid gofyn y cwestiwn: a yw'n gweithredu i'r lleoliad iawn ac o'r lleoliad iawn?

15:51

## Ieuan Wyn Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

May I intervene? If it is not to operate from the current location, where should it be located?

A gaf ymyrryd? Os na ddylai weithredu o'r lleoliad presennol, ble y dylid ei leoli?

15:51

## Byron Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I could suggest that it might operate from Hawarden, where there is a great business community. That is a possibility. I hope that that answers your question.

Gallwn awgrymu y gallai weithredu o Benarlâg, lle mae cymuned fusnes fawr. Mae hynny'n bosibilrwydd. Gobeithio bod hynny'n ateb eich cwestiwn.

If you look at the subsidy needed for the Anglesey route, compared with the support needed to link with New York, there is not much in it. A plane carrying roughly 210 passengers from Cardiff to New York versus a plane carrying 19 to Anglesey—which of these routes really puts Wales on the international map?

Os edrychwch ar y cymhorthdal sydd ei angen ar gyfer llwybr Ynys Môn, o'i gymharu â'r cymorth sydd ei angen i gysylltu ag Efrog Newydd, nid oes llawer o wahaniaeth. Awyren sy'n cludo tua 210 o deithwyr o Gaerdydd i Efrog Newydd ynteu awyren sy'n cludo 19 i Ynys Môn—pa un o'r llwybrau hyn ry'n rhoi Cymru ar y map rhyngwladol mewn gwirionedd?

The need for an aviation strategy is also emphasised by the shocking lack of financial accountability in the £21 million investment in Parc Aberporth. Of the five units that were meant to create a national aeronautical centre, sadly, only one is occupied with an aviation link. In fact, the Welsh Government has conceded defeat, because the aviation hub is now being advertised to anyone and everyone. You have effectively washed your hands of the project, probably in shame. The scale of the disappointment in investment is terrifying: £21 million to attract 1,000 jobs, and in the end, only 40 have been secured. It is not rocket science; you need a clear vision, strategy and performance indicators before investing. When will this be accepted by Government?

Pwysleisir yr angen am strategaeth hedfan hefyd gan y diffyg atebolrwydd ariannol syfrdanol o ran buddsoddiad o £21 miliwn ym Mharc Aberporth. O'r pum uned y bwriadwyd iddynt greu canolfan genedlaethol i'r diwydiant hedfan, yn anffodus, dim ond un uned a ddefnyddir gan gwmni sy'n gysylltiedig â'r diwydiant hedfan. Yn wir, mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod y methiant, am fod y ganolfan i'r diwydiant hedfan bellach yn cael ei hysbysebu i bawb. Rydych wedi cefnu ar y prosiect i bob diben, mewn cywilydd yn ôl pob tebyg. Mae maint y siom mewn buddsoddiad yn frawychus: £21 miliwn i ddenu 1,000 o swyddi, ac yn y pen draw, dim ond 40 sydd wedi eu sicrhau. Nid yw'n anodd, mae angen gweledigaeth, strategaeth a dangosyddion perfformiad clir cyn buddsoddi. Pryd y bydd hyn yn cael ei dderbyn gan y Llywodraeth?

We want two things from this debate today, the first of which is recognition that we need a comprehensive and cohesive strategy for aviation in Wales. It is not controversial, and should be accepted by any Member in this Chamber. I accept that my next request may stretch goodwill on the Government benches, but as a constructive opposition with ideas and policies—which I invite you to plagiarise—I submit our 'Blueprint for Cardiff Airport' for your digestion and consideration. It includes details such as the growing importance of the Chinese tourism market, which was completely omitted from your tourism strategy yesterday. Despite an increase in spending from Chinese overseas visitors from £7 million in 2011 to £21 million in 2012, your tourism strategy does not mention China once. Our document outlines our intention to develop a marketing strategy to capitalise on the burgeoning eastern market, including targeted branding, and advertising Wales itself and Cardiff Airport as the gateway to this. We would target marketing in the seven regions flown to and from Cardiff Airport via its most popular route, which is Schiphol airport in Amsterdam. On that note, I hope that Ministers are using our most loyal aviation partners, KLM, on their trade missions. I would be particularly interested to know where the Minister for the economy flew through this week on her return from Japan.

Rydym am sicrhau dau beth yn sgil y ddadl hon heddiw, y cyntaf yw cydnabyddiaeth bod angen strategaeth gynhwysfawr a chydlynol arnom ar gyfer y diwydiant hedfan yng Nghymru. Nid yw'n ddadleuol, a dylai gael ei dderbyn gan unrhyw Aelod yn y Siambr hon. Derbyniaf y bydd fy nghais nesaf yn dreth o bosibl ar ewyllys da meinciau'r Llywodraeth, ond fel gwrthblaid adeiladol gyda syniadau a pholisïau—yr wyf yn eich gwahodd i'w dwyn—cyflwynaf ein 'Glasbrint ar gyfer Maes Awyr Caerdydd' i'ch ystyriaeth. Mae'n cynnwys manylion megis pwysigrwydd cynyddol y farchnad dwristiaeth o Tsieina a gafodd ei hepgor yn llwyr o'ch strategaeth dwristiaeth ddoe. Er gwaethaf cynnydd o £7 miliwn mewn gwariant gan ymwelwyr tramor o Tsieina yn 2011 i £21 miliwn yn 2012, nid oes yr un sôn am Tsieina yn eich strategaeth dwristiaeth. Mae ein dogfen yn amlinellu ein bwriad i ddatblygu strategaeth farchnata i fanteisio ar y farchnad ddwyreiniol gynyddol, gan gynnwys brandio wedi'i dargedu, a hysbysebu Cymru ei hun a Maes Awyr Caerdydd fel porth i hyn. Byddem yn targedu ymgyrch farchnata yn y saith rhanbarth sy'n hedfan i ac o Faes Awyr Caerdydd drwy ei lwybr mwyaf poblogaidd, sef maes awyr Schiphol yn Amsterdam. Ar y nodyn hwnnw, gobeithio bod Gweinidogion yn defnyddio ein partneriaid hedfan mwyaf teyrngar, KLM, ar eu teithiau masnach. Byddai gennyf ddiddordeb arbennig mewn cael gwybod pa lwybr hedfan a ddefnyddiwyd gan y Gweinidog economi yr wythnos hon wrth iddi ddychwelyd o Japan.

Finally, I want Cardiff Airport to succeed and Wales to have a thriving aviation industry. I know it is possible, but it requires openness and honesty with Assembly Members and the public. This is where I cannot hide my grave concerns, and it would be wrong of me to not air them here. There is currently no public plan, three months after the purchase of the airport. You must have a plan, I hope, but why do you fail to publish it even in general terms? Last week, in questions to the First Minister, he stated that the role of airline director had already been completed; however, the communiqués published by the Welsh Government on Cardiff Airport show no representation from the airlines in the airport's taskforce. Involving the airlines in a transparent fashion is a fundamental way to restore passenger confidence in the airport while developing new route options and attracting airlines.

Yn olaf, rwyf am i Faes Awyr Caerdydd lwyddo ac i Gymru ddatblygu diwydiant hedfan ffyniannus. Gwn fod hynny'n bosibl, ond mae angen bod yn agored ac yn onest gydag Aelodau'r Cynulliad a'r cyhoedd. Dyma lle na allaf gelu fy mhryderon mawr, a byddai'n anghywir imi beidio â'u gwyntyllu yma. Nid oes unrhyw gynllun cyhoeddus ar hyn o bryd, dri mis ar ôl i'r maes awyr gael ei brynu. Rhaid bod cynllun gennych, gobeithio, ond pam nad ydych wedi'i gyhoeddi hyd yn oed yn gyffredinol? Yr wythnos diwethaf, yn ystod y cwestiynau i'r Prif Weinidog, dywedodd fod rôl y cyfarwyddwr cwmnïau hedfan eisoes wedi ei phennu; ond nid yw'r datganiadau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru am Faes Awyr Caerdydd yn dangos unrhyw gynrychiolaeth gan gwmnïau hedfan yng nhasglu'r maes awyr. Mae cynnwys y cwmnïau hedfan mewn modd tryloyw yn ffordd sylfaenol o adfer hyder teithwyr yn y maes awyr wrth ddatblygu opsiynau llwybrau newydd a denu cwmnïau hedfan.

Another note of caution is that we were told on numerous occasions during the research of the policy that the Welsh Government had paid too much for Cardiff Airport. Bristol International Airport claimed the purchase price was above value. That is really concerning and an issue that may haunt future Governments.

Rhywbeth arall sy'n achosi pryder yw'r ffaith inni glywed ar sawl achlysur yn ystod yr ymchwil i'r polisi fod Llywodraeth Cymru wedi talu gormod am Faes Awyr Caerdydd. Honnodd Maes Awyr Rhyngwladol Bryste fod y pris prynu yn uwch na'r gwerth. Mae hynny'n achos pryder gwirioneddol ac yn fater a allai fod yn ofid i Lywodraethau yn y dyfodol.

We are also failing on short-term solutions, emphasised by failing to support access to the airport. It was announced on 9 June that the X91 service operated by Cardiff Bus that serves Cardiff Airport and the Vale of Glamorgan is due to end its Sunday service on 21 July. While the Government has announced a new service to the airport starting from August, there is little public information about that service and what it will involve. I fear that it is a knee-jerk reaction. Where was your ongoing dialogue with Cardiff Bus—after all, it is publicly owned? Why did you not prevent this PR disaster?

Rydym hefyd yn methu o ran atebion byrdymor, a phwysleisiwyd hynny gan y methiant i gefnogi mynediad i'r maes awyr. Cyhoeddwyd ar 9 Mehefin y bydd gwasanaeth X91 ar y Sul a weithredir gan Bws Caerdydd sy'n gwasanaethu Maes Awyr Caerdydd a Bro Morgannwg yn dod i ben ar 21 Gorffennaf. Er bod y Llywodraeth wedi cyhoeddi gwasanaeth newydd i'r maes awyr sy'n dechrau o fis Awst, nid oes fawr ddim gwybodaeth i'r cyhoedd am y gwasanaeth hwnnw a'r hyn a olyga. Ofnaf mai adwaith difeddwl ydyw. Beth am eich deialog parhaus â Bws Caerdydd—wedi'r cyfan, mae o dan berchenogaeth gyhoeddus? Pam na wnaethoch atal y trychineb hwn o ran cysylltiadau cyhoeddus?

I want to emphasise the work needed ahead. You cannot currently book a train to or from Cardiff Airport. Train companies do not recognise a train station at the airport. You have to book to or from Rhoose. How many tourists will know that? How many business investors from abroad will know that?

Hoffwn bwysleisio'r gwaith y bydd angen ei wneud yn y dyfodol. Ni allwch archebu lle ar drên i Faes Awyr Caerdydd nac oddi yno ar hyn o bryd. Nid yw'r cwmnïau trên yn cydnabod gorsaf drên yn y maes awyr. Rhaid ichi archebu lle i'r Rhws neu o'r Rhws. Faint o dwristiaid a fydd yn gwybod hynny? Faint o fuddsoddwyr busnes o dramor a fydd yn gwybod hynny?

The First Minister seems to be very taken with the word 'vanity'. Time and again, we have heard him try to take me to task over my use of the word 'vanity' in describing his current plans. In a nutshell, we have a terminal that can accommodate three million passengers a year, so let us worry about vanity projects after we have reached that number again, which means more flights, attractive prices and an accessible airport. I would happily join him down there to give the place a lick of paint, but, aside from that, do not waste your time and energy. We need airlines and destinations.

Ymddengys fod y Prif Weinidog yn hoff iawn o'r ymadrodd 'porthi balchder'. Dro ar ôl tro, rydym wedi ei glywed yn ceisio fy nwrdio am ddefnyddio'r ymadrodd 'porthi balchder' wrth ddisgrifio ei gynlluniau ar hyn o bryd. Yn gryno, mae gennym derfynfa a all ymdopi â thair miliwn o deithwyr y flwyddyn, felly gadewch inni boeni am brosiectau porthi balchder ar ôl inni gyrraedd y niferoedd hynny unwaith eto, sy'n golygu mwy o deithiau, prisiau deniadol a maes awyr hygyrch. Byddwn yn fwy na pharod i ymuno ag ef yno a rhoi help llaw i beintio'r lle, ond, ar wahân i hynny, peidiwch â gwastraffu eich amser. Cwmnïau hedfan a chyrchfannau sydd eu hangen arnom.

There is a lot of work to do. It could start today with our blueprint. I hope that you all approach this debate in the spirit we intended it. We want to shine a light on this subject not generate heat.

Mae llawer o waith i'w wneud. Gallai ddechrau heddiw gyda'n glasbrint. Gobeithiaf y byddwch i gyd yn cymryd rhan yn y ddadl hon yn yr ysbryd a fwriadwyd gennym. Rydym am daflu goleuni ar y pwnc hwn nid cynhyrchu gwres.

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

I have selected the five amendments to the motion. If amendment 1 is agreed, amendment 2 will be deselected. I call on Ieuan Wyn Jones to move amendments 1 and 3, tabled in the name of Elin Jones.

Rwyf wedi dewis y pum gwelliant i'r cynnig. Os derbynnir gwelliant 1, bydd gwelliant 2 yn cael ei ddad-ddethol. Galwaf ar Ieuan Wyn Jones i gynnig gwelliannau 1 a 3, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones.

*Gwelliant 1—Elin Jones*

*Amendment 1—Elin Jones*

*Dileu pwynt 2 a rhoi yn ei le:*

*Delete point 2 and replace with:*

*Yn cefnogi'r datblygiadau i Faes Awyr Caerdydd sydd wedi'u hwyluso gan y sector cyhoeddus.*

*Supports the public sector facilitated development of Cardiff Airport.*

*Gwelliant 3—Elin Jones*

*Amendment 3—Elin Jones*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw am ddatganoli cyfraddau'r Doll Teithwyr Awyr ar gyfer teithiau pell i Gymru, fel yr argymhellwyd yn rhan 1 Comisiwn Silk, a bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno cynigion ar gyfer cyfraddau Toll Teithwyr Awyr i Gymru er mwyn ategu strategaeth hedfan nesaf Cymru.*

*Calls for the devolution of long-haul rates of Air Passenger Duty to Wales, as recommended in part 1 of the Silk Commission, and for the Welsh Government to bring forward proposals for Welsh rates of Air Passenger Duty to complement the next Welsh aviation strategy.*

15:57

## Ieuan Wyn Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Cynigiaf welliannau 1 a 3 yn enw Elin Jones.

Thank you, Deputy Presiding Officer. I move amendments 1 and 3 in the name of Elin Jones.

Cyn dechrau fy nghyfraniad heddiw, hoffwn ddiolch yn gynnes iawn i Aelodau o bob plaid sydd wedi dymuno'n dda imi yn fy swydd newydd. Rwy'n gwerthfawrogi'r sylwadau y mae pawb wedi'u gwneud. Gobeithiaf y byddaf yn medru cydweithio â chi mewn cyd-destun arall ar nifer o faterion yn ymwneud â'r parc gwyddoniaeth ym Menai.

Before I start my contribution to this debate, I would like to thank the Members of all parties who have wished me well in my new post. I appreciate the comments made by Members, and I hope that I will be collaborating with you in another context on many issues relating to the Menai science park.

Yn fyr iawn, rwyf am sôn am y ddau welliant. Ond, cyn gwneud hynny, cyfeiriaf at fy sylw yn ystod araith Byron Davies, pan ofynnais: os nad ydynt eisiau i'r gwasanaeth awyr redeg rhwng y Fali a Chaerdydd, i ble maen nhw eisiau iddo fynd? Roeddwn yn ymwybodol, wrth ofyn y cwestiwn, fod Darren Millar wedi dweud y dylai'r gwasanaeth ddod o Lerpwl, tra bod Aelodau eraill o'i blaid wedi dweud na ddylai fod gwasanaeth o gwbl. Rŵan, mae Byron Davies yn dweud y dylai hedfan o Benarlâg. Byddai'n braf cael gwybod yn union beth yw polisi'r Blaid Geidwadol ar y gwasanaeth hwn. Rwy'n credu ei fod yn wasanaeth hynod o bwysig sy'n cysylltu'r de a'r gogledd, ac yn arbennig y gogledd-orllewin, lle mae eisiau cryfhau'r economi. Os mai ein bwriad yw cryfhau'r economi, un ffordd o wneud hynny yw sicrhau bod gennym wasanaeth teilwng i deithio rhwng y de a'r gogledd.

I will start by briefly discussing the amendments. However, before doing so, I would like to refer to my intervention during Byron Davies's speech, when I asked: if they do not want the air services to run between Valley and Cardiff, where would they want to see it travelling? I was very aware, in asking the question, that Darren Millar has said that the service should run from Liverpool, while other Members of his party have said that there should be no service whatsoever. Byron Davies is now telling us that the service should run from Hawarden. It would be good to know exactly what the Conservative Party's policy is on this service. I believe that it is an exceptionally important service that links north and south, particularly north-west Wales, where we need to strengthen the economy. If our intention is to strengthen the economy, one way of doing so would be to ensure that we have a proper service between north and south.

15:58

## Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Given the length of time that that air link has been running, what evidence do you have to show that it has strengthened the ecnonomy? Presumably, key performance indicators and measurable targets were put in to see whether that was delivering value for money.

O ystyried faint o amser y mae'r cyswllt awyr wedi bod yn weithredol, pa dystiolaeth sydd gennych i ddangos ei fod wedi cryfhau'r economi? Gellid tybio bod dangosyddion perfformiad allweddol a thargedau mesuradwy wedi'u pennu i weld a oedd yn rhoi gwerth am arian?

15:59

## Ieuan Wyn Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I can tell the Member that the value of the service in tremendous. I remember a certain Member of the Conservative Party saying that the only person who flies on that flight is Ieuan Wyn Jones. I can remember that being said. The truth is that Assembly Members and civil servants do fly on it, but there are also business people flying on it. I can tell you that they fly regularly on it and they tell me that they would not be doing business in north Wales if they did not have that particular flight. It is something that I hope all parties can now embrace in the Chamber.

Gallaf ddweud wrth yr Aelod bod gwerth y gwasanaeth yn aruthrol. Cofiaf un Aelod o'r Blaid Geidwadol yn dweud mai'r unig berson sy'n defnyddio'r gwasanaeth hedfan hwnnw yw Ieuan Wyn Jones. Gallaf gofio hynny'n cael ei ddweud. Y gwir yw bod Aelodau'r Cynulliad a gweision sifil yn ei ddefnyddio, ond mae pobl fusnes yn ei ddefnyddio hefyd. Gallaf ddweud wrthych eu bod yn ei ddefnyddio'n rheolaidd ac maent yn dweud wrthyf na fyddent yn cynnal busnes yn y gogledd oni bai am y gwasanaeth hedfan penodol hwnnw. Mae'n rhywbeth, gobeithio, y gall pob plaid ei groesawu yn y Siambr bellach.

Mae ein gwelliant cyntaf yn cyfeirio at gefnogi datblygiad y maes awyr, sydd wedi cael ei hwyluso gan y sector cyhoeddus. Gadewch inni fod yn hollol glir: roedd Maes Awyr Caerdydd ar ei liniau. Mewn gwirionedd, roedd y niferoedd yn mynd i lawr yn sylweddol ac nid oedd y cwmni a oedd yn rhedeg y gwasanaeth yn buddsoddi ynddo, felly roedd yn rhaid gwneud rhywbeth eithaf dramatig dim ond i gynnal y maes awyr yn y sefyllfa honno. O ganlyniad, yn ein barn ni, nid oedd llawer o ddewis, mewn gwirionedd, ac eithrio i'r Llywodraeth symud i mewn i'w brynu.

Our first amendment refers to supporting the development of the airport, facilitated by the public sector. Let us be completely clear: Cardiff Airport was on its knees. To be honest, numbers were falling significantly and the company that owned the airport was not investing in it, so something fairly dramatic had to be done merely to sustain the airport in that position. As a result, in our view, there was not much choice, to be honest, apart from having the Government move in to buy the place.

Wrth gwrs, mae'r Llywodraeth wedi ei gwneud yn glir y bydd gwasanaethau'r maes awyr yn cael eu rhedeg o hyd braich, ac mae'n hynny'n iawn—pobl broffesiynol sydd â phrofiad yn y maes hwn ddylai redeg y maes awyr. Fodd bynnag, mae'n iawn, o bryd i'w gilydd, bod y Llywodraeth yn ymyrryd ac yn gwneud rhywbeth dramatig fel hyn. Yn awr, o leiaf, mae perchnogaeth ar y safle sy'n golygu y gallwn symud ymlaen i ddatblygu'r gwasanaethau.

Of course, the Government has made it clear that the airport's services will be run at arm's length, which is the right way of doing it—the airport should be run by experienced professional people. However, it is right, from time to time, for the Government to intervene and to take drastic steps, as in this case. There is now, at least, ownership of the site that means that we can move forward to develop the services.

Mae gwelliant 3 yn galw am ddatganoli toll teithwyr awyr teithiau pell i Gymru, yn unol ag argymhellion comisiwn Silk, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno cynigion ar gyfer y cyfraddau i gyd-fynd â'r strategaeth hedfan nesaf. Clywsom yn gynharach drwy'r cyfryngau na fydd ymateb Llywodraeth y Deyrnas Unedig i Silk yn cael ei gyhoeddi yn y gwanwyn, fel roeddem yn disgwyl. Mae dyfalu, felly, ynglŷn â phryd y bydd hynny'n digwydd. Byddai'n dda pe baem yn gallu cael sicrwydd ynglŷn â phryd y bydd yr ymateb hwnnw'n dod, oherwydd byddai datganoli'r pŵer dros y doll honno yn gam sylweddol iawn tuag at wneud y maes awyr yn un llawer iawn mwy proffidiol yn y dyfodol.

Amendment 3 calls for devolution of long-haul air passenger duty to Wales, in line with the Silk commission recommendations, and for the Welsh Government to bring forward proposals for rates of air passenger duty to complement the next aviation strategy. We heard earlier, through the media, that the UK Government's response to Silk will not be published in the spring, as expected. There is speculation, therefore, about when that will happen. It would be good to have some certainty about when that response will be forthcoming, because the devolution of those powers would be a significant step towards making the airport much more profitable in the future.

Hoffwn gyfeirio at un pwynt arall, o un o welliannau'r Democratiaid Rhyddfrydol, sy'n cyfeirio at y gwasanaeth bysiau. Rwy'n cefnogi'r gwelliant hwnnw. Mae'n amser inni gael gwasanaeth bysiau teilwng. Roeddwn wedi hyrwyddo hynny fel Gweinidog, ac roeddwn yn rhyfeddu, yn anffodus, nad oedd modd inni roi hwnnw yn ei le cyn yr etholiad. Mae'r Prif Weinidog wedi rhoi addewid y bydd hynny'n digwydd yn eithaf buan, a gobeithiaf y bydd addewid ar hynny yn cael ei wneud heddiw.

I would like to refer to one further point, from one of the Liberal Democrat amendments, referring to bus services. I support that amendment. It is about time that we had some decent bus services. I promoted that as Minister, and I was surprised that it could not, unfortunately, be implemented before the election. The First Minister has pledged that that will happen fairly swiftly, and I hope that a pledge in that respect will be made today.

16:02

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I regret to say that, not for the first time, the Liberal Democrat group has failed to ensure that the mover of their amendments was here at the start of the debate. Given that we are running fairly early and that the infraction was relatively limited, though not insignificant, I will overlook it on this occasion. However, I remind Members that they run the real risk of not being called, even if they are only slightly late and miss the start of the debate. I call on Eluned Parrott to move amendments 2, 4 and 5 tabled in the name of Aled Roberts.

Mae'n ddrwg gennyf nodi bod grŵp y Democratiaid Rhyddfrydol, nid am y tro cyntaf, wedi methu â sicrhau bod cynigydd eu gwelliannau yma ar ddechrau'r ddadl. Gan fod pethau yn rhedeg yn ôl yr amserlen fwy neu lai a bod y tor-rheol yn gymharol fach, ond nid yn ddibwys, gwnaf ei anwybyddu y tro hwn. Fodd bynnag, hoffwn atgoffa'r Aelodau eu bod yn wynebu'r posibilrwydd gwirioneddol o beidio â chael eu galw, hyd yn oed os ydynt ond ychydig yn hwyr ac yn colli cychwyn y ddadl. Galwaf ar Eluned Parrott i gynnig gwelliannau 2, 4 a 5 a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

*Gwelliant 2—Aled Roberts*

*Amendment 2—Aled Roberts*

*Dileu pwynt 2 a rhoi yn ei le:*

*Delete point 2 and replace with:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi Strategaeth Hedfan i Gymru erbyn diwedd 2013, gan gynnwys amserlen ar gyfer gweithredu.*

*Calls on the Welsh Government to publish an Aviation Strategy for Wales by the end of 2013, including a timetable for implementation.*

*Gwelliant 4—Aled Roberts*

*Amendment 4—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i esbonio rôl a threfn lywodraethu Tasglu Maes Awyr Caerdydd yng ngoleuni'r ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi prynu Maes Awyr Caerdydd yn ddiweddar.*

*Calls on the Welsh Government to clarify the role and governance of the Cardiff Airport Task Force in light of the recent purchase of Cardiff Airport by the Welsh Government.*

*Gwelliant 5—Aled Roberts*

*Amendment 5—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn croesawu'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y gwasanaeth bws cyflym, hirddisgwyliedig, o Gaerdydd i Faes Awyr Caerdydd, a addawyd yn gyntaf gan Lywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2009, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i ailddatgan ei hymrwymiad i gyflwyno'r gwasanaeth hwn ym mis Awst 2013.*

*Welcomes the update on the long-awaited express bus service from Cardiff to Cardiff Airport, which was first promised by the Welsh Government in July 2009, and calls on the Welsh Government to reaffirm its commitment to introduce this service in August 2013.*

16:03

## Eluned Parrott Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendments 2, 4 and 5 in the name of Aled Roberts.

Cynigiaf welliannau 2, 4 a 5 yn enw Aled Roberts.

I apologise to the Chamber for being late on this occasion, and thank you for using your discretion.

Ymddiheuraf i'r Siambr am fod yn hwyr ar yr achlysur hwn, a diolch ichi am arfer eich disgresiwn.

I would like to thank the Welsh Conservatives for bringing forward this debate today and for adding to the policy discussions on a subject that is important to many of us in the Chamber. None of us would argue that Cardiff Airport—and its survival and growth—is not important to Wales. It is not just about the position of the tourism industry in Wales, or the direct jobs that are supported in my own region, but about Wales's economic credibility when we are seeking to bring inward investment to Wales.

Hoffwn ddiolch i'r Ceidwadwyr Cymreig am gyflwyno'r ddadl hon heddiw ac am ychwanegu at y trafodaethau polisi ar bwnc sy'n bwysig i lawer ohonom yn y Siambr. Ni fyddai neb ohonom yn dadlau nad yw Maes Awyr Caerdydd—a'i barhad a'i dwf—yn bwysig i Gymru. Nid oes a wnelo hyn â sefyllfa'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru yn unig, na'r swyddi uniongyrchol a gynhelir yn fy rhanbarth fy hun, ond mae a wnelo â hygrededd economaidd Cymru pan fyddwn yn ceisio denu mewnfuddsoddiad i Gymru.

We need to ensure that Cardiff Airport works. I do not have a dogmatic position on whether public or private ownership is the appropriate vehicle for transport infrastructure, and I recognise that some parties in this Chamber start from a different position, but I do not understand why the drive of this particular policy paper is to find an opportunity to reprivatise the airport in the first instance. What my constituents care about is that the airport is delivering for them, that it is providing them with an opportunity to travel, that it is providing them with access to the wider world, and that businesses are able to use it and use it effectively.

Mae angen inni sicrhau bod Maes Awyr Caerdydd yn gweithio. Nid oes gennyf farn ddogmatig ar ba un ai perchenogaeth gyhoeddus ynteu perchenogaeth breifat yw'r cyfrwng priodol ar gyfer seilwaith trafnidiaeth, a chydnabyddaf fod rhai pleidiau yn y Siambr hon yn arddel safbwynt gwahanol, ond ni ddeallaf pam mai prif fyrdwn y papur polisi penodol hwn yw dod o hyd i gyfle i ailbreifateiddio'r maes awyr yn y lle cyntaf. Yr hyn sy'n bwysig i'm hetholwyr yw bod y maes awyr yn darparu gwasanaeth ar eu cyfer, ei fod yn rhoi cyfle iddynt deithio, ei fod yn rhoi mynediad i'r byd ehangach iddynt, a bod busnesau yn gallu ei ddefnyddio ac yn ei ddefnyddio'n effeithiol.

We would, of course, want to understand much more about how the airport will do this. There is a big gap at the moment with regard to the subject of an aviation policy for Wales—not just for Cardiff Airport, but understanding what Cardiff Airport's position will be in the context of the rest of Wales's aviation industry, too. This is not just for passenger or freight, but passenger, freight and maintenance opportunities as well, all of which are major employers, not only in my region but in other regions of Wales, too.

Wrth gwrs, hoffem gael gwybod llawer mwy am y ffordd y bydd y maes awyr yn gwneud hyn. Mae bwlch mawr ar hyn o bryd o ran pwnc polisi hedfan i Gymru—nid yn unig o ran Maes Awyr Caerdydd, ond o ran deall beth fydd lle Maes Awyr Caerdydd yng nghyd-destun gweddill diwydiant hedfan Cymru, hefyd. Nid oes a wnelo hyn â theithwyr neu nwyddau yn unig, ond cyfleoedd hefyd i deithwyr, nwyddau a gwaith cynnal a chadw, y mae pob un ohonynt yn gyflogwyr mawr, nid yn unig yn fy rhanbarth, ond mewn rhanbarthau eraill o Gymru, hefyd.

I am frustrated by the continued focus on what is, in terms of the measurement of success of any strategy, the very bluntest of instruments available: the number of feet passing through the airport. If we are going to have a credible strategy for aviation, we need to understand the purpose of travel for those passengers as well. If the economic benefit of the airport, in its widest sense, is to be properly understood, we need a better analysis of who those passengers are, where they are going and what kind of business they are doing. We need to ensure that they are not just taking tourism out of Wales, but that they are bringing some value back into Wales, too. For that reason, I think that it is important that an aviation strategy produced by this Welsh Government details those points and sets out what the key performance indicators are for judging the success of this airport.

Mae'r ffocws parhaus ar yr hyn sydd, o ran mesur llwyddiant unrhyw strategaeth, yn arf hynod ddi-awch: sef nifer y bobl sy'n mynd drwy'r maes awyr, yn peri rhwystredigaeth imi. Er mwyn inni gael strategaeth gredadwy ar gyfer y diwydiant hedfan, mae angen inni ddeall diben teithio i'r teithwyr hynny hefyd. Er mwyn deall budd economaidd y maes awyr, yn ei ystyr ehangaf, yn iawn, bydd angen inni gael dadansoddiad gwell o'r teithwyr hynny, ble maent yn mynd a pha fath o fusnes y maent yn ei gynnal. Mae angen inni sicrhau nad ydynt ond yn mynd â thwristiaeth allan o Gymru, ond eu bod yn dod â rhywfaint o werth yn ôl i Gymru, hefyd. Am y rheswm hwnnw, credaf ei bod yn bwysig bod strategaeth hedfan a lunnir gan Lywodraeth Cymru yn manylu ar y pwyntiau hynny ac yn nodi beth fydd y dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer mesur llwyddiant y maes awyr hwn.

On 29 May last year, the First Minister told me in this Chamber:

Ar 29 Mai y llynedd, dywedodd y Prif Weinidog wrthyf yn y Siambr hon:

'when I was asking the owners what their plans were for the airport, there were far too many shrugs of the shoulders and far too many answers along the lines of, 'There is nothing we can do; it is inevitable that it will go into decline'.

'pan oeddwn yn gofyn i'r perchenogion beth oedd eu cynlluniau ar gyfer y maes awyr, roedd llawer gormod o godi ysgwyddau a llawer gormod o atebion ar hyd y llinellau, 'Nid oes unrhyw beth y gallwn ei wneud; mae'n anochel y bydd yn dirywio'.

None of us would want to see that situation continue, but I think that, seven months after the purchase of the airport, we still feel that there are a few too many shrugs of the shoulders. We want to see more detail. We want to see what the strategy is and how we are going to take things forward. I will give you an example of some of those shrugs of the shoulders. Last week, Minister, I wrote to you with eight written questions asking for details about the new bus link that is to be established—how is it to be paid for, how often will it run, will it run on bank holidays and weekends, who is going to be operating the service, what is the franchising process? All of these are credible questions, I would think, Minister, but I got a one-sentence reply to all eight questions together, saying that you were assessing options following the production of the metro strategy earlier in the year. Given that the First Minister has given me a specific indication that that bus will start running in August, those questions are pertinent. I would ask you whether you are able today to answer some of those questions in a little more detail, because my constituents are concerned.

Ni fyddai yr un ohonom am weld y sefyllfa honno yn parhau, ond credaf, saith mis ar ôl i'r maes awyr gael ei brynu, ein bod yn dal i deimlo bod ychydig gormod o godi ysgwyddau. Rydym am weld mwy o fanylion. Rydym am weld beth yw'r strategaeth a sut y byddwn yn bwrw ymlaen â phethau. Rhoddaf enghraifft o'r achosion hynny o godi ysgwyddau. Yr wythnos diwethaf, Weinidog, ysgrifennais atoch gydag wyth cwestiwn ysgrifenedig yn gofyn am fanylion am y cyswllt bws newydd a fydd yn cael ei sefydlu—sut y telir amdano, pa mor aml y bydd yn rhedeg, a fydd yn rhedeg ar wyliau banc a thros y penwythnos, pwy fydd yn gweithredu'r gwasanaeth, beth yw'r broses fasnachfreinio? Mae'r rhain i gyd yn gwestiynau credadwy, fe dybiwn i, Weinidog, ond cefais ateb un frawddeg i'r wyth cwestiwn gyda'i gilydd, gan ddweud eich bod yn asesu dewisiadau ar ôl paratoi'r strategaeth fetro yn gynharach eleni. O gofio bod y Prif Weinidog wedi rhoi awgrym penodol imi y bydd y gwasanaeth yn dechrau rhedeg ym mis Awst, mae'r cwestiynau hynny yn berthnasol. Gofynnaf ichi a ydych yn gallu ateb rhai o'r cwestiynau hynny mewn ychydig mwy o fanylder heddiw, oherwydd mae fy etholwyr yn pryderu.

Finally, turning to the airport taskforce, I would like to understand how its role has changed since the purchase of the airport and how the governance will be managed, now that this is a public asset. We would expect there to be a formal reporting structure so that this Chamber can properly scrutinise its work and the work of the other organisations working to secure the future of the airport.

Yn olaf, gan droi at dasglu'r maes awyr, hoffwn ddeall sut y mae ei swyddogaeth wedi newid ers prynu'r maes awyr a sut y bydd y broses lywodraethu yn cael ei rheoli, gan ei fod yn ased cyhoeddus erbyn hyn. Byddem yn disgwyl bod strwythur adrodd ffurfiol ar waith fel y gall y Siambr hon graffu'n briodol ar ei waith a gwaith y sefydliadau eraill sy'n gweithio i sicrhau dyfodol y maes awyr.

16:07

## Mohammad Asghar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am grateful for the opportunity to speak this afternoon on our blueprint for Cardiff Airport. As a trained pilot, it is a pleasure to contribute to this debate after another trained pilot, my colleague Byron Davies. Therefore, I hope that the Welsh Government will recognise our strong commitment to making Cardiff Airport a thriving international airport—a category 1 airport on the global stage. Airports are the gateway to the world. They are vital for business activities, family and leisure travel. Therefore, if an airport fails to meet its full potential, it has a damaging effect on our local and regional economy.

Rwy'n ddiolchgar am y cyfle i siarad y prynhawn yma ynglŷn â'n glasbrint ar gyfer Maes Awyr Caerdydd. Fel peilot hyfforddedig, mae'n bleser cael cyfrannu at y ddadl hon ar ôl peilot hyfforddedig arall, fy nghyd-Aelod Byron Davies. Felly, gobeithio y bydd Llywodraeth Cymru yn cydnabod ein hymrwymiad cryf i sicrhau bod Maes Awyr Caerdydd yn faes awyr rhyngwladol ffyniannus—maes awyr categori 1 ar y llwyfan byd-eang. Meysydd awyr yw'r porth i'r byd. Maent yn hanfodol ar gyfer gweithgareddau busnes, teulu a theithio hamdden. Felly, os bydd maes awyr yn methu â chyflawni ei lawn botensial, mae'n cael effaith niweidiol ar ein heconomi leol a rhanbarthol.

We all know the problems that have beset Cardiff Airport. Passenger numbers have fallen from over 2 million in 2007 to just over 1 million in 2012. This is in stark contrast to Bristol Airport, where annual passenger numbers remain over the 6 million mark. When surveyed by the Civil Aviation Authority on why they used other airports, 40% of passengers within the Cardiff Airport catchment area quoted choice of destinations as their main reason. Accessibility remains a problem. Nearly three quarters of passengers access Cardiff Airport by car, with only 9% doing so by coaches or buses. Greyhound UK Ltd buses, which run between Swansea and Cardiff, have recently extended their route to provide a service to Newport and to Bristol Airport. It is clear that a cohesive strategy is required to address the problems faced by Cardiff Airport and enable it to reach its full potential to benefit the Welsh economy.

Rydym i gyd yn ymwybodol o'r problemau y mae Maes Awyr Caerdydd wedi'u hwynebu. Mae nifer y teithwyr wedi lleihau o dros 2 filiwn yn 2007 i ychydig dros filiwn yn 2012. Mae hyn mewn gwrthgyferbyniad llwyr â Maes Awyr Bryste, a ddefnyddir gan fwy na 6 miliwn o deithwyr o hyd bob blwyddyn. Pan gawsant eu harolygu gan yr Awdurdod Hedfan Sifil ynghylch pam eu bod yn defnyddio meysydd awyr eraill, cyfeiriodd 40% o deithwyr yn nalgylch Maes Awyr Caerdydd at y dewis o gyrchfannau fel eu prif reswm. Erys hygyrchedd yn broblem. Mae bron tri chwarter y teithwyr sy'n defnyddio Maes Awyr Caerdydd yn ei gyrraedd mewn car, gyda dim ond 9% yn gwneud hynny ar goets neu fws. Yn ddiweddar, mae cwmni bysiau Greyhound UK Ltd,, sy'n gweithredu rhwng Abertawe a Chaerdydd, wedi ymestyn ei lwybr i ddarparu gwasanaeth i Gasnewydd ac i Faes Awyr Bryste. Mae'n amlwg bod angen strategaeth gydlynol i fynd i'r afael â'r problemau a wynebir gan Faes Awyr Caerdydd a'i alluogi i gyrraedd ei lawn botensial er budd economi Cymru.

The Welsh Government decided to make up for its failure to produce an aviation strategy by nationalising the airport at a cost of £52 million. Three months after the purchase, we are still no nearer to seeing a Welsh Government aviation strategy.

Penderfynodd Llywodraeth Cymru wneud iawn am ei methiant i lunio strategaeth hedfan drwy wladoli'r maes awyr am gost o £52 miliwn. Dri mis ar ôl ei brynu, nid ydym damaid yn nes at weld strategaeth hedfan Llywodraeth Cymru.

Welsh Conservatives have outlined a five point plan to return Cardiff Airport to profit on the principle of delivering the taxpayer an economic dividend.

Mae'r Ceidwadwyr Cymreig wedi amlinellu cynllun pum pwynt i gael Maes Awyr Caerdydd i wneud elw unwaith eto ar yr egwyddor o roi difidend economaidd i'r trethdalwr.

Minister, to set up an airport, we need highly professional people to make it work. To turn it into a category 1 airport, we need Civil Aviation Authority officials, Department for Transport officials, Confederation of British Industry officials, and, to a certain extent, the involvement of trade unions to ensure that the airport grows profitably. We accept this, because it is not an airport that is owned by the Labour Party—it belongs to the entire Welsh nation, and we want to make it the best in the world.

Weinidog, er mwyn sefydlu maes awyr, mae angen pobl broffesiynol iawn i wneud iddo weithio. Er mwyn ei droi'n faes awyr categori 1, bydd angen swyddogion yr Awdurdod Hedfan Sifil, swyddogion yr Adran Drafnidiaeth, swyddogion Cydffederasiwn Diwydiant Prydain, ac, i ryw raddau, ymwneud undebau llafur i sicrhau bod y maes awyr yn tyfu'n broffidiol. Derbyniwn hyn, gan nad yw'n faes awyr sy'n eiddo i'r Blaid Lafur—mae'n eiddo i'r genedl gyfan, ac rydym am sicrhau mai Caerdydd yw'r maes awyr gorau yn y byd.

Not long ago, we saw other regional airports in the world making a great impact on global transportation, but Wales, sadly, is in reverse gear. We need trade centres near the airport. We need five star hotels near the airport. We need international community traveller facilities there. We need them to come over and stay in proper places with office facilities and accommodation. We also need tourism industry offices there. We need 'made in Wales' items to be displayed in the airport. It is not only a travel hub—it is also a hub that introduces a nation to the global village. We are lagging behind, Minister. You have come back from Japan, and you will know how advanced that nation is. Our nation can do better in all aspects of life, but at the moment we are not doing it. We need to compete with the rest of the world for international and domestic travellers, of whom there are around 250 million in the United Kingdom. Our share for all five airports in Wales and the west of England is less than 15 million, with 1 million to Cardiff Airport. It is a shame, Minister. We need to get things done, and our document is the answer to it.

Yn ddiweddar, gwelsom feysydd awyr rhanbarthol eraill yn y byd yn cael effaith fawr ar gludiant byd-eang, ond mae Cymru, yn anffodus, yn symud yn ôl. Mae angen canolfannau masnach ger y maes awyr. Mae angen gwestai pum seren ger y maes awyr. Mae angen cyfleusterau teithwyr y gymuned ryngwladol yno. Mae angen iddynt ddod draw ac aros mewn mannau priodol â chyfleusterau swyddfa a llety. Mae angen swyddfeydd y diwydiant twristiaeth yno. Mae angen i eitemau 'gwnaed yng Nghymru' gael eu harddangos yn y maes awyr. Nid dim ond man teithio ydyw—mae hefyd yn fan sy'n cyflwyno gwlad i'r pentref byd-eang. Rydym ar ei hôl hi, Weinidog. Rydych wedi dychwelyd o Japan, ac fe wyddoch pa mor ddatblygedig yw'r wlad honno. Gall ein gwlad wneud yn well ym mhob agwedd ar fywyd, ond ar hyn o bryd nid ydym yn gwneud hynny. Mae angen inni gystadlu â gweddill y byd am deithwyr rhyngwladol a domestig, ac mae tua 250 miliwn ohonynt yn y Deyrnas Unedig. Mae ein cyfran ar gyfer pob un o'r pum maes awyr yng Nghymru a gorllewin Lloegr yn llai na 15 miliwn, gyda miliwn i Faes Awyr Caerdydd. Mae'n drueni, Weinidog. Mae angen inni gyflawni pethau, a'n dogfen yw'r ateb i hynny.

16:12

## Mick Antoniw Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I appreciate this debate being brought forward. I have read the document with interest and I have a few comments to make. The report begins by saying that the Government's purchase is questionable. No, it is not—the only people questioning it are the Tory party. Businesses, CBI, Federation of Small Businesses, trade unions and businesses in my constituency have welcomed with open arms that we have purchased the airport, and that there is an opportunity—

Rwy'n ddiolchgar bod y ddadl hon yn cael ei chyflwyno. Rwyf wedi darllen y ddogfen gyda diddordeb ac mae gennyf ychydig o sylwadau i'w gwneud. Mae'r adroddiad yn dechrau drwy ddweud bod penderfyniad y Llywodraeth i'w brynu yn amheus. Nac ydyw—yr unig bobl sy'n ei amau yw'r blaid Dorïaidd. Mae busnesau, Cydffederasiwn Diwydiant Prydain, y Ffederasiwn Busnesau Bach, undebau llafur a busnesau yn fy etholaeth wedi croesawu'n wresog ein penderfyniad i brynu'r maes awyr, a bod cyfle—

16:13

## Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am grateful to you for taking an intervention on that point. How does it benefit businesses in north Wales, because a large number of people have written to me complaining about the purchase of Cardiff Airport?

Rwy'n ddiolchgar ichi am dderbyn ymyriad ar y pwynt hwnnw. Sut mae o fudd i fusnesau yn y gogledd, gan fod nifer fawr o bobl wedi ysgrifennu ataf yn cwyno am y penderfyniad i brynu Maes Awyr Caerdydd?

16:13

## Mick Antoniw Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I apologise for the fact that Cardiff Airport is in south Wales, but it is where it is and I have no control over that. I know that that is a great disappointment to you. You said that the Government's purchase of the airport was questionable, but the only people who seem to be taking a position against it, for whatever reason, are the Tory party. Everyone else, including the people who work there and the people who live in the area and so on, have welcomed that something is being done at long last.

Rwy'n ymddiheuro am y ffaith bod Maes Awyr Caerdydd yn y de, ond dyna ble mae wedi'i leoli ac nid oes gennyf unrhyw reolaeth dros hynny. Gwn fod hynny yn siom mawr ichi. Dywedasoch fod penderfyniad y Llywodraeth i brynu'r maes awyr yn un amheus, ond yr unig bobl sy'n arddel y farn hon yn ôl pob golwg, am ba reswm bynnag, yw'r blaid Dorïaidd. Mae pawb arall, gan gynnwys y bobl sy'n gweithio yno a'r bobl sy'n byw yn yr ardal ac yn y blaen, wedi croesawu'r ffaith bod rhywbeth yn cael ei wneud o'r diwedd.

The Conservative leader, Andrew R.T. Davies, added that this package of measures is unashamedly ambitious for Cardiff Airport, ambitious for our economy and ambitious for Wales. Parts of it are ambitious, because it is an endorsement of things that are already happening. Leaving the privatisation bit to one side for the moment, it is endorsing everything that is happening on the part of the Welsh Government at the moment. Look at the main demands that are being made in it, such as air passenger duty. How many times has the First Minister had to call for that to be devolved, and say that it is a Silk recommendation? The Minister for business has also asked for it.

Ychwanegodd Arweinydd y Ceidwadwyr, Andrew R.T. Davies, fod y pecyn hwn o fesurau yn uchelgeisiol tu hwnt dros Faes Awyr Caerdydd, yn uchelgeisiol dros ein heconomi ac yn uchelgeisiol dros Gymru. Mae rhannau ohono yn uchelgeisiol, am ei fod yn cymeradwyo pethau sydd eisoes yn digwydd. Gan anghofio am y darn am breifateiddio am y tro, mae'n cymeradwyo popeth sy'n digwydd ar ran Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd. Edrychwch ar y prif bethau y mae'n eu ceisio, megis toll teithwyr awyr. Sawl gwaith y mae'r Prif Weinidog wedi galw am i hynny gael ei ddatganoli, a nodi mai un o argymhellion Silk ydyw? Mae'r Gweinidog busnes hefyd wedi gofyn am hynny.

16:14 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

I am grateful to the Member for taking an intervention. One of the comments in the document is from Flybe, the biggest operator out of the airport, which points to specific actions that need to be taken to support the airlines themselves. They are saying that that action has not taken place. If they are saying it, it cannot be happening.

Rwy'n ddiolchgar i'r Aelod am dderbyn ymyriad. Mae un o'r sylwadau yn y ddogfen wedi'i wneud gan Flybe, y gweithredwr mwyaf sy'n darparu gwasanaethau allan o'r maes awyr, sy'n cyfeirio at gamau gweithredu penodol y mae angen eu cymryd er mwyn cefnogi'r cwmnïau hedfan eu hunain. Maent yn dweud nad yw'r camau gweithredu hynny wedi cael eu cymryd. Os mai hwy sy'n dweud hynny, rhaid nad yw'n digwydd.

16:15 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am taking the key points and recommendations that are in your report. The other point you make is around marketing, which is very much in hand at the moment. The bus service is a matter that the First Minister commented on; he has said that it will commence in August. On freight, I have asked the Minister for the economy about this matter a number of times and it is very much contained within her answers that freight is an important issue. We know that a number of businesses around south Wales regard the maintenance and development of the airport and the development of freight as extremely important. Again, there is a new airlines director. In fact, it is the director who was operating the airport at the very time that it was operating most successfully with the highest ever number of passengers, at 2.1 million. There is now a certain amount of investment within it.

Rwy'n ymdrin â'r pwyntiau allweddol a'r argymhellion sydd yn eich adroddiad. Y pwynt arall a wnewch yw pwynt ynglŷn â marchnata, sydd yn sicr yn cael sylw ar hyn o bryd. Mae'r gwasanaeth bws yn fater y mae'r Prif Weinidog wedi gwneud sylwadau arno; dywedodd y bydd yn dechrau ym mis Awst. O ran cludo nwyddau, rwyf wedi holi'r Gweinidog economi ynglŷn â'r mater hwn sawl gwaith ac mae wedi'i gwmpasu i raddau helaeth yn ei hatebion bod cludo nwyddau yn fater pwysig. Gwyddom fod nifer o fusnesau yn y de yn ystyried bod cynnal a chadw a datblygu'r maes awyr a datblygu busnes cludo nwyddau yn hynod bwysig. Unwaith eto, ceir cyfarwyddwr cwmnïau hedfan newydd. Yn wir, y cyfarwyddwr a oedd yn gweithredu'r maes awyr ar yr union adeg yr oedd yn gweithredu'n llwyddiannus iawn gyda'r nifer fwyaf erioed o deithwyr, sef 2.1 miliwn. Erbyn hyn, mae rhywfaint o fuddsoddiad ynddo.

I think that the Tory party has got rather obsessed with the Vale of Glamorgan backwoodsmen who basically regard anything to do with public ownership as being somehow bad. Unfortunately, that leads you to this bizarre position where the whole basis of your report is around saying, 'Now that it has been rescued, let's work out how to hand it back to the people to run it down again'. Aviation expert Martin Evans, visiting fellow at the University of South Wales, commented on this. He said that the idea of reselling the airport into private ownership ran the risk of having an owner without Wales's best interests at heart. He said:

Credaf fod y blaid Dorïaidd wedi datblygu obsesiwn braidd gyda dynion cefn gwlad Bro Morgannwg sydd yn y bôn yn ystyried bod unrhyw beth sy'n ymwneud â pherchenogaeth gyhoeddus yn ddrwg rywsut. Yn anffodus, mae hynny yn eich arwain at y sefyllfa ryfedd hon lle mae eich adroddiad yn gwbl seiliedig ar y dybiaeth, 'Gan ei fod wedi ei achub bellach, gadewch inni bennu sut y gallwn ei roi yn ôl i'r bobl ei ddifrodi eto'. Gwnaeth yr arbenigwr hedfan Martin Evans, cymrawd gwadd ym Mhrifysgol De Cymru, sylw am hyn. Dywedodd fod y syniad o ailwerthu'r maes awyr i berchenogion preifat yn peri'r risg o gael perchennog nad oedd yn poeni am fuddiannau Cymru. Dywedodd:

'You then are at the mercy of international investment decisions…With government control, the government has a wider interest in economic development of Wales and it would take a greater interest than a private owner.'

Wedyn byddwch ar drugaredd penderfyniadau buddsoddi rhyngwladol ... Gyda rheolaeth y llywodraeth, mae gan y llywodraeth ddiddordeb ehangach ym maes datblygu economaidd Cymru a byddai'n cymryd mwy o ddiddordeb na pherchennog preifat.

I have to say, and with the greatest of respect to the paper, quite frankly, the idea of re-privatising then having a divvy-up of a certain amount of money to everybody throughout Wales is absolutely bonkers; it is not the way that business operates. It is interesting that, first of all, you say that the airport cannot possibly be privatised as it is such a disaster. Listen to the things that you said. Byron, you said that this is an airport that is currently in debt to the tune of £20 million. It is not. You also said that purchasing an airport at the current time demonstrates a complete lack of foresight and a waste of public money. So, you talk about it being a waste of public money, but then you are talking about how we start divvying up the profits that it is going to make as a result of the fact that we have taken it on board. This was written on the back of a fag packet, it is the economics of 'Steptoe and Son' and, quite frankly, it is bizarre. So, I will not take it seriously.

Rhaid imi ddweud, a chyda phob parch i'r papur, a dweud y gwir, mae'r syniad o ailbreifateiddio ac yna rannu rhyw swm o arian i bawb ledled Cymru yn gwbl hurt; nid felly y mae busnes yn gweithredu. Mae'n ddiddorol eich bod yn dweud, yn gyntaf oll, nad oes gobaith yn y byd y gellir preifateiddio'r maes awyr gan ei fod mewn cyflwr mor drychinebus. Gwrandewch ar y pethau yr ydych yn eu dweud. Byron, dywedasoch fod hwn yn faes awyr sydd eisoes â dyled o tua £20 miliwn. Nid yw hynny'n wir. Dywedasoch hefyd fod prynu maes awyr ar hyn o bryd yn dangos diffyg rhagwelediad llwyr a'i fod yn wastraff arian cyhoeddus. Felly, rydych yn dweud ei fod yn wastraff arian cyhoeddus, ond yna rydych yn sôn am sut y byddwn yn dechrau rhannu'r elw a wna o ganlyniad i'r ffaith ein bod wedi mynd yn berchen arno. Ysgrifennwyd hynny ar gefn pecyn sigaréts, economeg 'Steptoe and Son' ydyw ac, a dweud y gwir, mae'n rhyfedd. Felly, ni fyddaf yn ei gymryd o ddifrif.

There is an important point about the airport, and that is where it is—not comparing it with Bristol, but comparing it with Heathrow and looking at it within the overall airport strategy within the whole of the United Kingdom. Even if you take the 1 million people who use Bristol, that will not solve the airport's problems. We have to look at it as an economic institution and part of an economic strategy.

Mae pwynt pwysig yn codi ynglŷn â'r maes awyr, sef ei leoliad—nid ei gymharu â Bryste, ond ei gymharu â Heathrow ac edrych arno o fewn y strategaeth gyffredinol ar gyfer meysydd awyr drwy'r Deyrnas Unedig gyfan. Hyd yn oed os ydych yn denu'r un filiwn o bobl sy'n defnyddio Bryste, ni fydd hynny'n datrys problemau'r maes awyr. Rhaid inni edrych arno fel sefydliad economaidd ac fel rhan o strategaeth economaidd.

16:18 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I welcome the opportunity to contribute to this debate and to offer a north Wales perspective. Aviation is hugely important to the region: Airbus in Broughton employs more than 6,000 people directly and thousands more in the supply chain. It is responsible for assembling the wings of all of Airbus's civil aircraft. Only yesterday, in the week of the Paris Air Show, there was news of a £13 billion deal for EasyJet to buy 135 of its aircraft. Airbus is the leading edge of aircraft design, delivering aircraft that are ever-more efficient and reliable. Having recently travelled on an Airbus A380, I can say first-hand what an amazing experience that was.

Croesawaf y cyfle i gyfrannu at y ddadl hon ac i gynnig safbwynt gogleddol. Mae'r diwydiant hedfan yn hynod bwysig i'r rhanbarth: mae Airbus ym Mrychdyn yn cyflogi dros 6,000 o bobl yn uniongyrchol a miloedd eraill yn y gadwyn gyflenwi. Mae'n gyfrifol am gydosod adenydd holl awyrennau sifil Airbus. Dim ond ddoe, yn ystod wythnos Sioe Awyr Paris, cafwyd y newyddion ynglŷn â chytundeb gwerth 13 biliwn ag Easyjet i brynu 135 o'i awyrennau. Mae Airbus ar flaen y gad o ran dylunio awyrennau, gan ddarparu awyrennau sy'n fwyfwy effeithlon a dibynadwy. Ar ôl teithio'n ddiweddar ar Airbus A380, gallaf ddweud o brofiad uniongyrchol pa mor anhygoel oedd y profiad hwnnw.

Despite the importance of aviation to the north Wales economy, aviation is not even listed as a key sector in the Welsh Government's plan. It is, I admit, a sub-sector, but it is not a key sector. Aviation history has a long and proud history in north Wales and the aviation strategy would do well, Minister, to recognise the supply sector that exists in north Wales in relation to Airbus.

Er gwaethaf pwysigrwydd y diwydiant hedfan i economi'r gogledd, nid yw hedfan hyd yn oed wedi'i restru'n sector allweddol yng nghynllun Llywodraeth Cymru. Mae wedi'i nodi'n is-sector, rhaid cyfaddef, ond nid yw'n sector allweddol. Mae gan y diwydiant hedfan hanes hir a balch yn y gogledd a byddai'n dda gennyf, Weinidog, pe bai'r strategaeth hedfan yn cydnabod y sector cyflenwi sy'n bodoli yn y gogledd mewn perthynas ag Airbus.

There has been a great deal of concern about the Welsh Government's decision to spend £52 million of taxpayers' money to nationalise Cardiff Airport, completely ignoring what happens in the aviation sector in north Wales. This has been described as a national airport—

Bu cryn bryder ynghylch penderfyniad Llywodraeth Cymru i wario £52 miliwn o arian trethdalwyr i wladoli Maes Awyr Caerdydd, gan anwybyddu'n llwyr yr hyn sy'n digwydd yn y sector hedfan yn y gogledd. Mae wedi cael ei ddisgrifio fel maes awyr cenedlaethol—

16:19 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

16:19 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

No, I am afraid I will not.

Na, mae arnaf ofn na wnaf hynny.

This has been described as a national airport for all of Wales, yet the Presiding Officer at the time would not let me question the Minister on the day that she made her statement on the basis that I do not have—

Mae wedi cael ei ddisgrifio fel maes awyr cenedlaethol i Gymru gyfan, ac eto nid oedd y Llywydd ar y pryd yn gadael imi holi'r Gweinidog ar y diwrnod y gwnaeth ei datganiad ar y sail nad oes gennyf—

16:20

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Order. Sit down. I will not allow you to undermine a ruling by the Presiding Officer. It is quite improper to refer to what you think is a breach in calling Members in that manner. If you want to take it up, you should do it in private. I call Antoinette Sandbach.

Trefn. Eisteddwch i lawr. Ni chaniatâf ichi danseilio dyfarniad gan y Llywydd. Mae'n gwbl amhriodol cyfeirio at yr hyn yr ydych yn credu sy'n dor-rheol o ran galw Aelodau yn y modd hwnnw. Os ydych am godi'r mater, dylech wneud hynny yn breifat. Galwaf ar Antoinette Sandbach—

16:20

## Antoinette Sandbach [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I apologise if that is how you feel, Deputy Presiding Officer, and I certainly have taken it up.

Ymddiheuraf os mai felly yr ydych yn teimlo, Ddirprwy Lywydd, ac rwyf yn sicr wedi codi'r mater.

However, it has been described as a national airport for all of Wales, and yet that is patently not true. From north Wales, this is an absurd argument for the Welsh Government to be making. Members of the public might, quite rightly, ask what economic benefits north Wales will gain from the £52 million of Welsh taxpayers' money that has been spent. If there was a broader and genuinely national strategy for aviation in Wales, smaller airports like Chester Hawarden in my region and, indeed, Anglesey could have been given the best opportunity to thrive. As it is, many of the people whom I have spoken with in north Wales see this as a hugely expensive vanity project for south-east Wales, something that is made all the worse when members of the industry claim that the Welsh Government paid over the odds for the airport. I will take an intervention.

Fodd bynnag, mae wedi cael ei ddisgrifio fel maes awyr cenedlaethol i Gymru gyfan, ac eto, yn amlwg, nid yw hynny'n wir. O safbwynt y gogledd, mae hon yn ddadl hurt i Lywodraeth Cymru ei chyflwyno. Gallai aelodau o'r cyhoedd, yn gwbl briodol, ofyn beth fydd y manteision economaidd i'r gogledd yn sgil gwario £52 miliwn o arian trethdalwyr Cymru. Pe bai strategaeth ehangach ac un wirioneddol genedlaethol ar gyfer y diwydiant hedfan yng Nghymru, gallai meysydd awyr llai fel Penarlâg Caer yn fy rhanbarth ac, yn wir, Ynys Môn fod wedi cael y cyfle gorau i ffynnu. Fel y mae, mae llawer o'r bobl yr wyf wedi siarad â hwy yn y gogledd o'r farn bod hwn yn brosiect hynod gostus i borthi balchder yn y de-ddwyrain, rhywbeth sy'n mynd yn waeth byth pan fydd aelodau o'r diwydiant yn honni i Lywodraeth Cymru dalu gormod am y maes awyr. Derbyniaf ymyriad.

16:21

## Bethan Jenkins [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Earlier, Mohammad Asghar was talking about Wales as a nation and how important it was for Cardiff to have an airport, and now you seem to be suggesting that having an airport in our capital city is something negative. Surely, if we had flights from Anglesey down to south Wales, that would sort out the problem that we currently have.

Yn gynharach, roedd Mohammad Asghar yn sôn am Gymru fel cenedl a pha mor bwysig ydoedd bod gan Gaerdydd faes awyr, ac erbyn hyn ymddengys eich bod yn awgrymu bod cael maes awyr yn ein prifddinas yn rhywbeth negyddol. Yn sicr, pe bai teithiau hedfan o Ynys Môn i'r de, byddai hynny'n datrys y broblem sydd gennym ar hyn o bryd.

16:21

## Antoinette Sandbach [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

First, the timetable does not permit that to happen and, secondly, there are questions about the cost. That would add an extra £50 or more to the cost for somebody trying to get a flight out of Cardiff. The north-south transport links are rubbish—

Yn gyntaf, nid yw'r amserlen yn caniatáu i hynny ddigwydd ac, yn ail, cyfyd cwestiynau ynglŷn â'r gost. Byddai hynny yn ychwanegu £50 neu fwy at y gost i rywun sy'n ceisio hedfan o Gaerdydd. Mae'r cysylltiadau trafnidiaeth rhwng y gogledd a'r de yn warthus—

16:22

## Alun Ffred Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

They are better now.

Maent yn well erbyn hyn.

16:22

## Antoinette Sandbach [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Not really. If you want to add four and a half hours to your journey by taking the train to try to get to Cardiff to get to the airport, that is one thing, but the reality—

Ddim mewn gwirionedd. Os ydych am ychwanegu pedair awr a hanner at eich taith drwy fynd ar y trên i geisio cyrraedd Caerdydd er mwyn cyrraedd y maes awyr, dyna un peth, ond y gwir—

*Mick Antoniw a gododd—*

*Mick Antoniw rose—*

16:22 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

No, I am afraid I will not take an intervention from Mick.

Na, ni dderbyniaf ymyriad gan Mick, mae arnaf ofn.

The reality is that there has been a consistent and persistent failure by the Welsh Government to improve the infrastructure links to Cardiff Airport in the first place. It is no wonder that the footfall has declined. If you do not have a bus service or a train service there, effectively, people can only drive there. Only 9% of passengers use the coach or the bus and only 2% use the train. You could have made massive infrastructure improvements that could have helped that airport, and they would have probably cost you a lot less than the £52 million that it has to buy it.

Y gwir amdani yw bod methiant cyson a pharhaus wedi bod ar ran Llywodraeth Cymru i wella'r cysylltiadau seilwaith i Faes Awyr Caerdydd yn y lle cyntaf. Nid yw'n syndod bod nifer yr ymwelwyr wedi lleihau. Os nad oes gennych wasanaeth bws na gwasanaeth trên yno, dim ond gyrru yno y gall pobl ei wneud i bob diben. Dim ond 9% o deithwyr sy'n mynd ar goets neu fws a dim ond 2% sy'n defnyddio'r trên. Gallech fod wedi gwneud gwelliannau seilwaith enfawr a allai fod wedi helpu'r maes awyr, ac mae'n debyg y byddent wedi costio llawer llai na'r £52 miliwn y bu'n rhaid ei wario i'w brynu.

Welsh Conservatives have set out ambitious plans to make the best of the Welsh Government's decision to nationalise the airport. I do not agree with it, but the chief executive of Birmingham Airport said that the only way that the Welsh public will see a return on its investment is if the Welsh Government, having rebuilt the business, puts it back into the private sector.

Mae'r Ceidwadwyr Cymreig wedi nodi cynlluniau uchelgeisiol i wneud y mwyaf o benderfyniad Llywodraeth Cymru i wladoli'r maes awyr. Ni chytunaf ag ef, ond dywedodd prif weithredwr Maes Awyr Birmingham mai'r unig ffordd y bydd y cyhoedd yng Nghymru yn cael enillion o'i fuddsoddiad yw pe bai Llywodraeth Cymru, ar ôl ailadeiladu'r busnes, yn ei ddychwelyd i'r sector preifat.

16:23 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Conclude with this, please.

Gorffennwch gyda hyn, os gwelwch yn dda.

16:23 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We want to attract new airlines and rebuild passenger numbers to prepare for it to be sold back to the private sector.

Rydym yn awyddus i ddenu cwmnïau hedfan newydd ac ailadeiladu nifer y teithwyr er mwyn ei baratoi i gael ei ailwerthu i'r sector preifat.

16:23 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I welcome an opportunity to speak in this debate as the airport is in the neighbouring constituency to my own. We have rehearsed, on many occasions in the past, the fact that there are many successful airports in the UK that are already in the public sector: Manchester, East Midlands and Bournemouth are examples. Of course, across Europe, many successful regional centres are in the public sector.

Croesawaf y cyfle i siarad yn y ddadl hon gan fod y maes awyr yn etholaeth gyfagos imi. Rydym wedi trafod, ar sawl achlysur yn y gorffennol, y ffaith bod llawer o feysydd awyr llwyddiannus yn y DU sydd eisoes yn y sector cyhoeddus: Mae Manceinion, Dwyrain Canolbarth Lloegr a Bournemouth yn enghreifftiau. Wrth gwrs, ledled Ewrop, mae llawer o ganolfannau rhanbarthol llwyddiannus yn y sector cyhoeddus.

I welcome the most recent u-turn by the Conservatives: having said that the purchase of the airport would be a failure, they now say, effectively, that they welcome the strategy of the Welsh Government, apart from the eventual desire to re-privatise the airport. It is always good to have a repentant sinner among us. I am not at all surprised that they changed their point of view, because they were swimming against the tide of public opinion and of business opinion. There were very few people who thought that leaving the airport to its own devices was the right thing to do for the airport and for Wales.

Croesawaf y tro pedol mwyaf diweddar gan y Ceidwadwyr: ar ôl dweud y byddai prynu'r maes awyr yn fethiant, maent bellach yn dweud, i bob pwrpas, eu bod yn croesawu strategaeth Llywodraeth Cymru, ar wahân i'r awydd yn y pen draw i ailbreifateiddio'r maes awyr. Mae bob amser yn braf cael pechadur edifeiriol yn ein plith. Nid wyf yn synnu o gwbl eu bod wedi newid eu barn, oherwydd roeddent yn nofio yn erbyn llif barn y cyhoedd a barn busnes. Ychydig iawn o bobl oedd yn credu mai gadael i'r maes awyr wneud fel y mynno oedd y peth iawn i'r maes awyr ac i Gymru.

We have all heard Byron referring to it on previous occasions as a socialist vanity project. We heard Alun Cairns saying that there was no need to buy the airport, and he would rather have stuck to his ideological perspective and seen that airport fail than see a successful intervention. The Tories are, of course, in favour of giving public money to the private sector. Much of what they want to do is provide money to the private sector for it to do what it wishes to do, rather than see an effective intervention.

Rydym i gyd wedi clywed Byron yn cyfeirio ato fel prosiect sosialaidd i borthi balchder o'r blaen. Clywsom Alun Cairns yn dweud nad oedd angen prynu'r maes awyr, ac y byddai'n well ganddo gadw at ei safbwynt ideolegol a gweld y maes awyr yn methu na gweld ymyriad llwyddiannus. Wrth gwrs, mae'r Torïaid o blaid rhoi arian cyhoeddus i'r sector preifat. Mae llawer o'r hyn y maent am ei wneud yn ymwneud â rhoi arian i'r sector preifat er mwyn iddo wneud yr hyn a fynno, yn hytrach na gweld ymyriad effeithiol.

Much of their demand for action in the document that they have produced is either what the Government is doing or what the operator could do itself. I was very interested to hear Mohammad Asghar's speech, to which I listened with great interest—as I always do—and I heard his demand for a five-star hotel to be built near the airport. I have not quite read that in the document that you produced, and I would welcome seeing where that money would come from to provide this hotel that you are now demanding.

Mae llawer o'r camau gweithredu y galwant amdanynt yn y ddogfen a baratowyd ganddynt naill ai'n cael eu cymryd gan y Llywodraeth neu maent yn bethau y gallai'r gweithredwr ei hun eu gwneud. Roedd gennyf ddiddordeb mawr yn araith Mohammad Asghar a gwrandewais arno gyda diddordeb mawr—fel bob amser—a chlywais ef yn galw am godi gwesty pum seren ger y maes awyr. Nid wyf yn cofio darllen am hynny yn y ddogfen a baratowyd gennych, a byddwn yn croesawu cael gwybod o ble y deuai'r arian i godi'r gwesty hwn yr ydych yn gofyn amdano yn awr.

16:25

## Mick Antoniw Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We pay for it and they stay in it.

Ni sy'n talu amdano a hwy sy'n aros ynddo.

16:25

## Vaughan Gething Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It is worth reflecting that the ideological demand that the airport be turned back to profit, then re-sold off, does not apply to every significant infrastructure project. Their spiritual leader in Parliament, of course, has been demanding that the Severn bridge is nationalised. It was a great pleasure to hear David Davies's ideological conversion yesterday on one particular issue.

Mae'n werth ystyried nad yw'r alwad ideolegol y dylai'r maes awyr gael ei droi'n un sy'n gwneud elw eto ac yna ei ailwerthu, yn berthnasol i bob prosiect seilwaith pwysig. Mae eu harweinydd ysbrydol yn San Steffan, wrth gwrs, wedi bod yn mynnu bod pont Hafren yn cael ei gwladoli. Roedd yn bleser mawr clywed tröedigaeth ideolegol David Davies ddoe ar un mater penodol.

16:26

## Mick Antoniw Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Monmouth Soviet.

Sofiet Trefynwy.

16:26

## Vaughan Gething Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It is worth reflecting back to some of the points that are being made about air passenger duty and route development, because one of the things that would make the airport more successful is having more effective routes. No-one disagrees with that. However, the Tories want there to be effectively a slush fund—a fund to provide some sort of route development, rather than a more effective way to deliver greater long-haul operators into Cardiff in particular.

Mae'n werth ailystyried rhai o'r pwyntiau sy'n cael eu gwneud am doll teithwyr awyr a datblygu llwybrau, oherwydd un o'r pethau a fyddai'n gwneud y maes awyr yn fwy llwyddiannus yw llwybrau mwy effeithiol. Nid oes neb yn anghytuno â hynny. Fodd bynnag, mae'r Torïaid yn galw am gronfa gil-dwrn i bob diben— cronfa i helpu i ddatblygu llwybrau, yn hytrach na ffordd fwy effeithiol o ddenu mwy o weithredwyr teithiau hedfan hir i Gaerdydd yn arbennig.

16:26

## Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

16:26 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Let me finish this point. That is why there has been a consistent call from our party to see air passenger duty devolved. We welcome the Tory conversion and support for air passenger duty to be devolved, however, it would be helpful if the Secretary of State made clear his position. It is a matter of regret to all of us that the Secretary of State for Wales is going to miss his own deadline for the response to Silk. I will take the intervention from Andrew R.T. Davies.

Gadewch imi orffen y pwynt hwn. Dyna pam mae ein plaid wedi galw'n gyson am i toll teithwyr awyr gael ei datganoli. Rydym yn croesawu tröedigaeth y Torïaid a'u cefnogaeth i ddatganoli toll teithwyr awyr, fodd bynnag, byddai o gymorth pe bai'r Ysgrifennydd Gwladol yn egluro beth yw ei safbwynt. Mae'n destun gofid i bob un ohonom y bydd Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn colli ei ddyddiad cau ei hun i ymateb i Silk. Derbyniaf yr ymyriad gan Andrew R.T. Davies.

16:27 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am grateful to the Member for Cardiff South and Penarth for taking an intervention. You talk about a route development plan. If your Government had been proactive in the early 2000s, we would have had Emirates flying from Cardiff Airport.

Rwy'n ddiolchgar i'r Aelod dros Dde Caerdydd a Phenarth am dderbyn ymyriad. Rydych yn sôn am gynllun datblygu llwybrau. Pe bai eich Llywodraeth wedi bod yn rhagweithiol yn ystod blynyddoedd cynnar y ganrif hon, byddem wedi llwyddo i ddenu Emirates i hedfan o Faes Awyr Caerdydd.

16:27 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

No, we would not.

Na fyddem.

16:27 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It is because that you would not put route development money in there that they went to Newcastle in 2007 and Delta did not open their North American link in 2010. Those are facts. It is your Government that bled the airport dry.

Y rheswm y penderfynwyd mynd i Newcasle yn 2007 ac nad agorodd Delta ei gyswllt â Gogledd America yn 2010 oedd oherwydd na fyddech yn fodlon rhoi arian datblygu llwybrau. Dyna'r ffeithiau. Eich Llywodraeth chi a flingodd y maes awyr.

16:27 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I do not accept that those are facts at all. There is an argument that we keep on having about the future of the airport. The Tories know where they were. The Tories did not want public support to see the airport continue. People around this Chamber know that and the people who watch this Chamber know exactly where you are coming from.

Ni dderbyniaf o gwbl mai dyna'r ffeithiau. Mae dadl yr ydym yn parhau i'w chael ynglŷn â dyfodol y maes awyr. Mae'r Torïaid yn gwybod ble roeddent yn sefyll. Nid oedd y Torïaid am roi cymorth cyhoeddus i sicrhau bod y maes awyr yn parhau. Mae pobl yn y Siambr hon yn gwybod hynny ac mae'r bobl sy'n gwylio'r Siambr hon yn gwybod yn union beth yw eich safbwynt.

I have one point to make before closing; it is the point about the importance of the aviation sector. We all know that it is an important sector within Wales, but I have to say that I was stunned by the arrant rubbish that came out about Airbus, and about the support for the aviation industry in north Wales. There could not be a greater example of co-operation and working with the private sector successfully than the Welsh Government's relationship with Airbus. I know this from my own background, interest and contacts within that employer. It is a huge success and Airbus is grateful for the continued engagement with this Government. It is a shame that Conservative Members in this Chamber seek to make points regardless of facts, simply driven by ideology. That is why you are in the position that you are in: on the wrong side of this debate and on the wrong side of the right course for Cardiff Airport. [Assembly Members: 'Hear, hear'.]

Mae gennyf un pwynt i'w wneud cyn cloi; sef pwysigrwydd y sector hedfan. Gwyddom oll ei fod yn sector pwysig yng Nghymru, ond rhaid imi ddweud fy mod yn syfrdanu o glywed y nonsens llwyr am Airbus, ac am y cymorth i'r diwydiant hedfan yn y gogledd. Ni ellid meddwl am well enghraifft o gydweithredu a gweithio'n llwyddiannus gyda'r sector preifat na pherthynas Llywodraeth Cymru ag Airbus. Rwy'n gwybod hyn oherwydd fy nghefndir, diddordeb personol a'm cysylltiadau o fewn y cwmni hwnnw. Mae'n llwyddiant ysgubol ac mae Airbus yn ddiolchgar am yr ymwneud parhaus â'r Llywodraeth hon. Mae'n drueni bod Aelodau Ceidwadol yn y Siambr hon yn ceisio gwneud pwyntiau ni waeth beth fo'r ffeithiau, a hwythau wedi'u hysgogi gan ideoleg yn unig. Dyna pam rydych yn eich sefyllfa bresennol: ar ochr anghywir y ddadl hon, ac ar ochr anghywir y trywydd iawn i Faes Awyr Caerdydd. [Aelodau'r Cynulliad: 'Clywch, clywch']

16:28 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Good grief. I always enjoy Vaughan Gething's contributions. They are spirited, but—[Interruption.]

Mawredd mawr. Rwyf bob amser yn mwynhau cyfraniadau Vaughan Gething. Maent yn llawn ysbryd, ond— [Torri ar draws.]

Do you want to intervene? I have only just started. If not, I will continue. I always enjoy Vaughan Gething's contributions. Only you could turn a thoughtful and developed document like this into a slush fund. All that we want is for the airport to be a success. We have made that quite clear. The party opposite might not like it and we may well have disagreed with the purchase of Cardiff Airport—that is well-documented—but there is no point in talking about it in terms of u-turns, as the fact is that the airport has been purchased. The Government has done that. We did not think that that should have happened, but it did, and we now need to see a comprehensive and cohesive strategy for aviation. That is what our motion says, Vaughan. I do not think that it is too controversial a thing to call for. How on earth can you say that a motion that recognises the need for a cohesive strategy for aviation is putting us on the wrong side of the argument? Perhaps the Labour Party needs to look closely at what side of the argument it is on if it is against that.

A ydych am ymyrryd? Newydd ddechrau yr wyf. Os nad ydych am ymyrryd, byddaf yn parhau. Rwyf bob amser yn mwynhau cyfraniadau Vaughan Gething. Dim ond chi a allai droi dogfen ystyriol a datblygedig fel hon yn gronfa gil-dwrn. Y cyfan yr ydym am ei weld yw llwyddiant y maes awyr. Rydym wedi gwneud hynny'n gwbl glir. Efallai na fydd y blaid gyferbyn yn hoffi hynny ac efallai inni anghytuno â'r penderfyniad i brynu Maes Awyr Caerdydd—mae hynny ar goedd—ond nid oes diben sôn am y peth fel tro pedol, oherwydd y ffaith amdani yw bod y maes awyr wedi ei brynu. Mae'r Llywodraeth wedi gwneud hynny. Yn ein barn ni, ni ddylai hynny fod wedi digwydd, ond digwyddodd, ac erbyn hyn mae angen inni weld strategaeth gynhwysfawr a chydlynol ar gyfer y diwydiant hedfan. Dyna'r hyn a ddywed ein cynnig, Vaughan. Ni chredaf fod hynny'n beth dadleuol iawn i alw amdano. Sut ar y ddaear y gallwch ddweud bod cynnig sy'n cydnabod yr angen am strategaeth gydlynol ar gyfer y diwydiant hedfan yn golygu ein bod ar ochr anghywir y ddadl? Efallai fod angen i'r Blaid Lafur edrych yn fanwl ar ba ochr o'r ddadl y mae os yw'n gwrthwynebu hynny.

We believe that Cardiff Airport has the potential to boost the Welsh economy through tourism, business and inward investment. However, this potential will only be realised if the current situation can be turned around. The problems are well documented: falling passenger numbers, poor infrastructure and a shortage of flights going to where people want to go, which is key to this. These are crucial issues that need to be addressed in order to make the airport a successful venture.

Credwn fod gan Faes Awyr Caerdydd y potensial i roi hwb i economi Cymru drwy dwristiaeth, busnes a mewnfuddsoddi. Fodd bynnag, dim ond os gellir unioni'r sefyllfa bresennol y bydd modd gwireddu'r potensial hwn. Mae'r problemau yn hysbys iawn: niferoedd y teithwyr yn lleihau, seilwaith gwael a phrinder teithiau hedfan yn mynd i'r cyrchfannau y mae pobl am fynd iddynt, sy'n allweddol i hyn. Mae'r rhain yn faterion hollbwysig y mae angen mynd i'r afael â hwy er mwyn gwneud y maes awyr yn fenter lwyddiannus.

Some Members in the Chamber talk about this issue as though the ownership of the airport and an aviation strategy are somehow incompatible and distinct things, which, of course, they are not. The ownership issue has been settled, and I know that many Members on the opposite side of the Chamber are happy with the way that it has been settled. That has happened, but we now need to see a publicised and comprehensive strategy detailing how Cardiff Airport fits into a broader aviation strategy across the whole of Wales. We have heard differences of opinion on what that strategy should look like, but I think everyone in this Chamber agrees that we need to have an aviation strategy as soon as possible.

Mae rhai Aelodau yn y Siambr yn sôn am y mater hwn fel petai perchenogaeth o'r maes awyr a strategaeth hedfan yn bethau anghydnaws ac ar wahân rywsut, nad yw'n wir, wrth gwrs. Mae mater perchenogaeth wedi cael ei setlo, a gwn fod llawer o Aelodau ar ochr arall y Siambr yn fodlon ar y ffordd y mae wedi cael ei setlo. Mae hynny wedi digwydd, ond erbyn hyn mae angen inni weld strategaeth gynhwysfawr sy'n cael cyhoeddusrwydd ac sy'n manylu ar y ffordd y bydd Maes Awyr Caerdydd yn cydblethu â strategaeth hedfan ehangach ledled Cymru. Rydym wedi clywed safbwyntiau gwahanol ynglŷn â ffurf arfaethedig y strategaeth honno, ond credaf fod pawb yn y Siambr hon yn cytuno bod angen inni lunio strategaeth hedfan cyn gynted ag y bo modd.

16:30

## Mick Antoniw Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Do you agree with what I thought was a suggestion from your colleague Antoinette Sandbach that the problem seems to be not that we have nationalised one airport in south Wales, but that we have not nationalised one in north Wales?

A ydych yn cytuno â'r hyn a awgrymodd eich cyd-Aelod Antoinette Sandbach, fe gredaf, sef mai'r broblem, mae'n debyg, yw nid y ffaith bod gennym faes awyr gwladol yn y de, ond nad oes gennym faes awyr gwladol yn y gogledd?

16:31

## Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I know that you want to talk constantly about ownership, Mick; I know that you are passionate about it. I think that you have made more interventions in this debate than people have made speeches. That is some going. We do not want to talk about ownership: you do; we do not. We want to talk about the future of the airport, and about putting services into that airport that go to places that people want to go to.

Gwn eich bod am sôn drwy'r amser am berchenogaeth, Mick; gwn eich bod yn frwdfrydig iawn dros hynny. Credaf ichi wneud mwy o ymyriadau yn y ddadl hon nag y mae pobl wedi gwneud areithiau. Mae hynny'n dipyn o gamp. Nid ydym am sôn am berchenogaeth: chi sy'n mynnu gwneud hynny, nid ydym am wneud hynny. Rydym am sôn am ddyfodol y maes awyr, ac am gyflwyno gwasanaethau yn y maes awyr hwnnw sy'n mynd i leoedd y mae pobl am fynd iddynt.

Eluned Parrott made an excellent point in her contribution when she said that this about delivering services for the airport in the future. She spoke about the differences between us and said that she would not have focused on problems with the ownership initially. However, we are singing from the same hymn sheet in that we all want that airport to be a success: of course we do, and, of course, the people of Wales do as well. However, my experience differs from hers, given the number of people who came up to me and said that they thought that the ownership issue was all-important.

Gwnaeth Eluned Parrott bwynt ardderchog yn ei chyfraniad pan ddywedodd fod hyn yn ymwneud â darparu gwasanaethau ar gyfer y maes awyr yn y dyfodol. Soniodd am y gwahaniaeth barn rhyngom a dywedodd na fyddai wedi canolbwyntio ar broblemau gyda pherchenogaeth i ddechrau. Fodd bynnag, rydym yn canu o'r un llyfr emynau yn yr ystyr bod pob un ohonom yn awyddus i weld y maes awyr yn llwyddo: wrth gwrs rydym am weld hynny, ac, wrth gwrs, mae pobl Cymru am weld hynny hefyd. Fodd bynnag, mae fy mhrofiad yn wahanol i'w phrofiad hithau, o ystyried nifer y bobl a ddaeth i siarad â mi a dweud eu bod yn credu bod perchenogaeth yn fater holl bwysig.

People would like to see better ways of getting to the airport and better services from it. In our blueprint, we have put forward suggestions. I hope that the Welsh Government will look at some of what we have suggested; I fail to see how it could disagree with much of it. An effective marketing strategy is clearly key, but we know that there have been issues over the last few years with regard to an effective brand for Wales itself. That is something that all Assembly Members and all parties here have recognised. That is an issue, because, if you cannot get the brand of Wales right, how can you get the brand of the airport right? It can be done, but we have to start somewhere and we have to start now.

Hoffai pobl weld gwell ffyrdd o gyrraedd y maes awyr a gwell gwasanaethau ganddo. Yn ein glasbrint, rydym wedi cynnig awgrymiadau. Gobeithio y bydd Llywodraeth Cymru yn edrych ar rai o'r pethau yr ydym wedi'u hawgrymu; ni allaf weld sut y gallai anghytuno â llawer o hynny. Mae strategaeth farchnata effeithiol yn amlwg yn allweddol, ond gwyddom fod problemau wedi bod yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf o ran brand effeithiol i Gymru ei hun. Mae hynny'n rhywbeth y mae pob Aelod Cynulliad a phob plaid yma wedi ei gydnabod. Mae hynny'n broblem, oherwydd, os na allwch gael brand cywir i Gymru, sut y gallwch gael brand cywir i'r maes awyr? Gellir ei wneud, ond rhaid inni ddechrau yn rhywle a rhaid inni ddechrau yn awr.

The Enterprise and Business Committee, in its report on ports and airports, recommended the devolution of air passenger duty. I think that there is consensus across the Chamber that that would provide a really important and valuable opportunity for us to try to make the airport more competitive. We certainly supported the Silk commission on the devolution of air passenger duty, and I know that we agree on this. We sometimes like to pretend that we have these huge differences of opinion, but we do agree on certain things.

Argymhellodd y Pwyllgor Menter a Busnes, yn ei adroddiad ar borthladdoedd a meysydd awyr, y dylid datganoli toll teithwyr awyr. Credaf fod consensws yn y Siambr y byddai hynny'n rhoi cyfle gwirioneddol bwysig a gwerthfawr inni geisio gwneud y maes awyr yn fwy cystadleuol. Rydym yn sicr wedi cefnogi comisiwn Silk ynglŷn â datganoli toll teithwyr awyr, a gwn ein bod yn cytuno ar hyn. Weithiau rydym yn hoffi esgus bod gwahaniaeth barn enfawr rhyngom, ond rydym yn cytuno ar rai pethau.

Finally, we really need to move on. I hope that this debate is an opportunity for us all to move on, and I hope that the Government looks at our document. Whether it agrees with it, or disagree with large chunks of it, there are parts that provide a way ahead. I urge the Minister to look at what we are saying, and let us all try to work together to ensure that, in the future, aviation in Wales is more of a success than it has been in the past.

Yn olaf, mae gwir angen inni symud ymlaen. Gobeithio y bydd y ddadl hon yn gyfle inni i gyd symud ymlaen, a gobeithio y bydd y Llywodraeth yn edrych ar ein dogfen. Pa un a yw'n cytuno neu'n anghytuno â darnau mawr ohoni, mae rhannau sy'n cynnig ffordd ymlaen. Rwy'n annog y Gweinidog i edrych ar yr hyn yr ydym yn ei ddweud, a gadewch inni i gyd geisio gweithio gyda'n gilydd i sicrhau bod y diwydiant hedfan yng Nghymru yn fwy o lwyddiant yn y dyfodol nag y bu yn y gorffennol.

16:34

## Edwina Hart Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport*

I am always very interested when people comment on the airport in general, particularly when I hear the views of Birmingham and Bristol airports, which are, of course, competitors at the very least, so we could not really expect a rational or logical response from them to anything that we do in this particular area. Also, as someone from Swansea, I might well be sorry that the capital of Wales is Cardiff. However, it does happen to be Cardiff, and that is where our main airport is located.

Mae gennyf ddiddordeb mawr bob amser pan fydd pobl yn gwneud sylwadau ar y maes awyr yn gyffredinol, yn enwedig pan glywaf farn maes awyr Birmingham a maes awyr Bryste, sydd, wrth gwrs, yn gystadleuwyr o leiaf, felly ni allem yn wir ddisgwyl ymateb rhesymegol ganddynt hwy i unrhyw beth a wnawn yn y maes penodol hwn. Hefyd, fel rhywun o Abertawe, efallai fy mod yn gresynu mai Caerdydd yw prifddinas Cymru. Fodd bynnag, Caerdydd yw'r brifddinas fel mae'n digwydd, a dyna ble mae ein prif faes awyr wedi'i leoli.

Aviation has a crucial role to play in Wales as part of the national infrastructure to support growth and jobs. It is key to ensuring Wales's position as a connected nation in today's global economy. As Mohammad Asghar said, it is a very small world, and we have to connect well with it. The airport is an important economic and social asset, and a key to our economic competitiveness in facilitating inward investment and, of course, trade. It provides a gateway into and out of Wales, and it is also an enabler of tourism. It supports an aerospace sector that employs thousands of highly skilled workers.

Mae gan y diwydiant hedfan rôl allweddol i'w chwarae yng Nghymru fel rhan o'r seilwaith cenedlaethol i gefnogi twf a swyddi. Mae'n allweddol i sicrhau safle Cymru fel gwlad sydd wedi'i chysylltu yn economi fyd-eang heddiw. Fel y dywedodd Mohammad Asghar, byd bach iawn ydyw, a rhaid inni gael cysylltiadau da ag ef. Mae'r maes awyr yn ased economaidd a chymdeithasol pwysig, ac yn allwedd i'n cystadleurwydd economaidd er mwyn hwyluso mewnfuddsoddiad ac, wrth gwrs, fasnach. Mae'n borth i mewn i Gymru ac allan o Gymru, ac mae hefyd yn galluogi twristiaeth. Mae'n cefnogi sector awyrofod sy'n cyflogi miloedd o weithwyr hyfedr.

Like Vaughan Gething, I very much took real offence, I have to say, at Antoinette Sandbach's comments about Airbus. Airbus is a well-loved company that enjoys excellent support from the Welsh Government. Airbus itself commented to me only yesterday on the support that it had had on the skills and training agenda.

Fel Vaughan Gething, cefais fy nghythruddo, rhaid dweud, gan sylwadau Antoinette Sandbach ynghylch Airbus. Mae Airbus yn gwmni poblogaidd iawn sy'n cael cefnogaeth ragorol gan Lywodraeth Cymru. Soniodd Airbus ei hun wrthyf dim ond ddoe am y cymorth y mae wedi ei gael o ran yr agenda sgiliau a hyfforddiant.

*Antoinette Sandbach a gododd—*

*Antoinette Sandbach rose—*

## Edwina Hart Bywgraffiad Biography

I think that the Deputy Minister had an opportunity at the Paris air show to meet Airbus and other companies that say to us at first hand what a good job we are doing in supporting them. Whenever I see Airbus mentioned, I am always proud to say that its wings come from Wales. It is very important that we recognise the skills of our workforce and the fact that, as a Government, we have always very much supported the company.

Credaf i'r Dirprwy Weinidog gael cyfle yn sioe awyr Paris i gwrdd ag Airbus a chwmnïau eraill sy'n dweud wrthym yn uniongyrchol pa mor dda yw'r gefnogaeth a roddwn iddynt. Pryd bynnag y gwelaf sôn am Airbus, rwyf bob amser yn falch o ddweud bod ei adenydd yn dod o Gymru. Mae'n bwysig iawn ein bod yn cydnabod sgiliau ein gweithlu a'r ffaith ein bod ni, fel Llywodraeth, bob amser wedi rhoi cryn dipyn o gefnogaeth i'r cwmni.

16:36

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Are you giving way, Minister?

A ydych yn ildio, Weinidog?

16:36

## Edwina Hart Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

No, I am not, because I do not require any lectures on these issues, I have to say, from the party opposite.

Nac ydw, ni ildiaf, am nad oes angen imi gael pregeth ar y materion hyn, rhaid dweud, gan y blaid gyferbyn.

Earlier this year, we took decisive action to purchase the assets of Cardiff Airport. As the First Minister made clear at the time, our interests are strategic, to secure the future of Cardiff Airport as a vital part of Wales's and the UK's economic infrastructure. The decision demonstrated the strength of our commitment to developing a dynamic and forward-looking airport for businesses, tourists and, of course, the public— the citizens of Wales who want to use it for travel. Tomorrow, the First Minister and I will meet the board of Cardiff Airport to receive an update on recent developments and current issues. This is a board that comes from the private sector. It is chaired by Lord Rowe-Beddoe, whom many people will know from his life in business and from his work for the Welsh Development Agency. It is a board in which we have full confidence in taking proposals for the airport forward. Its members run businesses; they know what business is, and they will be taking matters forward. We believe that the airport is such an important economic driver, as it has a contribution to make to the UK economy and, I have to say, in helping to address some of the current regional imbalances in the UK economy.

Yn gynharach eleni, cymerwyd camau pendant gennym i brynu asedau Maes Awyr Caerdydd. Fel yr eglurodd y Prif Weinidog ar y pryd, mae ein buddiannau yn strategol, er mwyn sicrhau dyfodol Maes Awyr Caerdydd fel rhan hanfodol o seilwaith economaidd Cymru a'r DU. Mae'r penderfyniad yn dangos cryfder ein hymrwymiad i ddatblygu maes awyr ddynamig a blaengar i fusnesau, twristiaid ac, wrth gwrs, y cyhoedd— dinasyddion Cymru sydd am ei ddefnyddio ar gyfer teithio. Yfory, bydd y Prif Weinidog a minnau yn cwrdd â bwrdd Maes Awyr Caerdydd i gael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau diweddar a materion cyfredol. Mae hwn yn fwrdd a ddaw o'r sector preifat. Fe'i cadeirir gan yr Arglwydd Rowe-Beddoe, y bydd llawer o bobl yn ei adnabod drwy ei fywyd ym myd busnes a'i waith dros Awdurdod Datblygu Cymru. Mae'n fwrdd y mae gennym hyder llawn ynddo o ran gweithredu ar gynigion i'r maes awyr. Mae ei aelodau yn rhedeg busnesau; maent yn gwybod beth yw busnes, a byddant yn bwrw ati. Credwn fod y maes awyr yn sbardun economaidd pwysig, gan fod ganddo gyfraniad i'w wneud i economi'r DU a, rhaid dweud, er mwyn helpu i fynd i'r afael â rhywfaint o'r anghydbwysedd rhanFbarthol presennol yn economi'r DU.

Like Vaughan Gething, I welcome the Welsh Conservatives' apparent change of approach to the airport, which we have heard about this afternoon, because, only a few weeks ago, they were referring to the purchase as a vanity project. I understand that the word 'distraction' was used. Now I see that they are envisaging a period of revitalisation and growth under new ownership, and I welcome that.

Fel Vaughan Gething, croesawaf y newid ymddangosiadol yn agwedd y Ceidwadwyr Cymreig tuag at y maes awyr, a glywsom y prynhawn yma, oherwydd, dim ond ychydig wythnosau yn ôl, roeddent yn cyfeirio at y penderfyniad i brynu'r maes awyr fel prosiect i borthi balchder. Caf ddeall i'r ymadrodd 'tynnu sylw' gael ei ddefnyddio. Gwelaf bellach eu bod yn rhagweld cyfnod o adfywio a thwf o dan berchenogaeth newydd, a chroesawaf hynny.

I also very much welcome the contributions today supporting the devolution of air passenger duty. Nick Ramsay confirmed that we are all united on the issue of the devolution of air passenger duty. That has been articulated well in the Chamber today, and we expect to have a positive announcement from the UK Government in this regard, bearing in mind that the four parties in the Chamber support this unanimously.

Croesawaf yn fawr iawn y cyfraniadau heddiw sy'n cefnogi datganoli toll teithwyr awyr. Cadarnhaodd Nick Ramsay ein bod yn unedig ar fater datganoli toll teithwyr awyr. Mae hynny wedi cael ei fynegi'n glir yn y Siambr heddiw, a disgwyliwn gael cyhoeddiad cadarnhaol gan Lywodraeth y DU yn hyn o beth, o gofio bod y pedair plaid yn y Siambr yn cefnogi hyn yn unfrydol.

This is a very real opportunity for Cardiff Airport to make a meaningful contribution to capacity issues and to alleviating congestion at major airports in the south-east of England. We are already engaging with the UK Airports Commission under the chairmanship of Sir Howard Davies —

Mae hwn yn gyfle gwirioneddol i Faes Awyr Caerdydd wneud cyfraniad ystyrlon i broblemau o ran capasiti ac i liniaru tagfeydd mewn meysydd awyr mawr yn ne-ddwyrain Lloegr. Rydym eisoes yn ymgysylltu â Chomisiwn Meysydd Awyr y DU o dan gadeiryddiaeth Syr Howard Davies—

16:38 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am grateful to the Minister for giving way. May I just offer some clarity? We have not changed our view that the purchase of the airport was something that we would not have done, we are just being realistic about it. As one of the few realists in your party, I am sure that you understand that position, Minister.

Rwy'n ddiolchgar i'r Gweinidog am ildio. A gaf egluro ychydig? Nid ydym wedi newid ein barn bod y penderfyniad i brynu'r maes awyr yn rhywbeth na fyddem wedi ei wneud, dim ond bod yn realistig ynglŷn â'r peth. Fel un o'r ychydig realwyr yn eich plaid, rwy'n siŵr eich bod yn deall y sefyllfa honno, Weinidog.

16:38 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, well; I thought that he was starting off with a compliment, but it was rather a backhanded one. I would not have allowed the intervention had I known it was going to be of that nature.

Ie, wel; roeddwn yn meddwl ei fod yn dechrau drwy roi canmoliaeth, ond canmoliaeth braidd yn ddeufiniog ydoedd. Ni fyddwn wedi caniatáu'r ymyriad pe gwyddwn mai ymrwymiad o'r fath fyddai.

Welsh interests have been made known in terms of airport capacity. We believe that the Airports Commission should view Cardiff Airport as an essential component in delivering the UK's future air capacity needs.

Tynnwyd sylw at fuddiannau Cymru o ran capasiti'r maes awyr. Credwn y dylai'r Comisiwn Meysydd Awyr ystyried Maes Awyr Caerdydd fel elfen hanfodol wrth ddiwallu anghenion awyr y DU yn y dyfodol.

Turning to the amendments and the contribution from Ieuan Wyn Jones, obviously, improved connectivity to Wales includes a thriving international airport as a key part of any successful economic and tourism strategy. In the week that we have launched the tourism strategy, we need to consider, where possible and practicable, aligning marketing opportunities with the airport in this regard. We need to react swiftly to specific commercial opportunities that may arise. We have only to look now at the Wales-Catalonia route between Barcelona and Cardiff to see how we can utilise those. There are also issues to do with infrastructure and the terminal building branding, because we are looking at an innovative and creative scheme to improve the inward-bound walkways and public areas of the airport being implemented now. Inbound passengers will see art and multimedia installations that will give a very bright and welcoming approach into the airport, and the content will be refreshed and varied to allow for that.

Gan droi at y gwelliannau a'r cyfraniad gan Ieuan Wyn Jones, yn amlwg, mae gwell cysylltedd â Chymru yn cynnwys maes awyr rhyngwladol ffyniannus fel rhan allweddol o unrhyw strategaeth economaidd a thwristiaeth lwyddiannus. Yn ystod yr wythnos y lansiwyd y strategaeth dwristiaeth gennym, mae angen inni ystyried, lle y bo'n bosibl ac yn ymarferol, gysoni cyfleoedd marchnata â'r maes awyr yn hyn o beth. Mae angen inni ymateb yn gyflym i gyfleoedd masnachol penodol a allai godi. Dim ond edrych ar y llwybr o Gymru i Gatalonia rhwng Barcelona a Chaerdydd y mae angen inni ei wneud er mwyn gweld sut y gallwn ddefnyddio hynny. Cyfyd materion o ran seilwaith a brandio adeilad y derfynfa hefyd, oherwydd rydym yn ystyried cynllun arloesol a chreadigol i wella'r llwybrau cerdded i mewn a mannau cyhoeddus y maes awyr sy'n cael ei roi ar waith ar hyn o bryd. Bydd teithwyr o'r tu allan yn gweld gosodiadau celf ac amlgyfrwng a fydd yn creu mynedfa ddisglair a chroesawgar iawn i'r maes awyr, a bydd y cynnwys yn cael ei adnewyddu a'i amrywio i ganiatáu ar gyfer hynny.

Also, over the past few years—despite some of the comments heard in this Chamber—we have provided £100,000 per annum to help to fund the shuttle service that operates between the airport and Rhoose train station. As you know from the First Minister's answers, we are currently looking at all the other issues around the route.

Hefyd, dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf—er gwaethaf rhai o'r sylwadau a glywyd yn y Siambr hon—rydym wedi darparu £100,000 y flwyddyn i helpu i ariannu'r gwasanaeth gwennol sy'n gweithredu rhwng y maes awyr a gorsaf drenau'r Rhws. Fel y gwyddoch o atebion y Prif Weinidog, rydym wrthi'n ystyried yr holl faterion eraill ynglŷn â'r llwybr.

I will come to the points that were made by Eluned Parrott when I turn to the Welsh Liberal Democrats' amendments. One of the key areas for us is looking at the operational synergies between Cardiff Airport and St Athan.

Dof at y pwyntiau a wnaed gan Eluned Parrott pan drof at welliannau Democratiaid Rhyddfrydol Cymru. Un o'r meysydd allweddol inni yw edrych ar y synergeddau gweithredol rhwng Maes Awyr Caerdydd a Sain Tathan.

I think that I have covered amendment 3 from Plaid Cymru in my comments on air passenger duty.

Credaf fy mod wedi ymdrin â gwelliant 3 gan Blaid Cymru yn fy sylwadau ar toll teithwyr awyr.

In terms of the Liberal Democrat amendments, we will also be supporting those, because I think that it is very important that we should look at some of the issues around them, particularly in terms of the taskforce. The First Minister and I are in close contact with the stakeholders and a decision will be made in the future about the taskforce and the work that will be undertaken.

O ran gwelliannau'r Democratiaid Rhyddfrydol, byddwn hefyd yn cefnogi'r rhain, gan fy mod yn credu ei bod yn bwysig iawn ein bod yn edrych ar rai o'r materion sy'n ymwneud â hwy, yn enwedig o ran y tasglu. Mae'r Prif Weinidog a minnau mewn cysylltiad agos â'r rhanddeiliaid a bydd penderfyniad yn cael ei wneud yn y dyfodol ynghylch y tasglu a'r gwaith a fydd yn cael ei wneud.

In relation to amendment 5, there are obviously issues around the express bus service, which will be there in August. I do not really want to discuss how we are going to deal with this service at this time, given the commercial and confidential nature of those discussions. However, I can assure you that I will make that information known to Members when it can be made available.

O ran gwelliant 5, yn amlwg, cyfyd materion ynglŷn â'r gwasanaeth bws cyflym, a fydd yn weithredol ym mis Awst. Nid wyf am drafod sut y byddwn yn delio â'r gwasanaeth hwn ar hyn o bryd mewn gwirionedd, o ystyried natur fasnachol a chyfrinachol y trafodaethau hynny. Fodd bynnag, gallaf eich sicrhau y byddaf yn rhoi'r wybodaeth i'r Aelodau pan fydd modd ei darparu.

It is important that we should develop an aviation strategy, building upon the strong aerospace support. We need to look at what we need to do. In that context, I was perplexed by some of the comments about the service to north Wales. If that is about anything, it is very much about developing a strategy for aviation: are we going into Ynys Mon, will we look at other airports, and what do we need to do? We should not be frightened by that, because, when you look at the continent, some countries there use air transport links all the time to ensure that there is a connection. Everybody talks about Government subsidies, but, at the end of the day, it is sometimes about nation building and communication. You might not necessarily ever make a profit on a route. It is the same with rail services and Wales's bus services. Sometimes public money needs to be put into them directly to make them viable for the citizens of Wales. On that note, I will conclude by saying that I have welcomed the debate today and we will be supporting all the amendments.

Mae'n bwysig ein bod yn datblygu strategaeth hedfan, gan adeiladu ar y gefnogaeth gref i'r diwydiant awyrofod. Mae angen inni edrych ar yr hyn y mae angen inni ei wneud. Yn y cyd-destun hwnnw, roedd rhai o'r sylwadau am y gwasanaeth i'r gogledd wedi peri dryswch imi. Os yw hynny'n ymwneud ag unrhyw beth, mae'n ymwneud â datblygu strategaeth ar gyfer y diwydiant hedfan: a ydym yn mynd i mewn i Ynys Môn, a fyddwn yn ystyried meysydd awyr eraill, a beth sydd angen inni ei wneud? Ni ddylai hynny ein dychryn, oherwydd, os edrychwch ar y cyfandir, mae rhai gwledydd yno yn defnyddio cysylltiadau trafnidiaeth awyr drwy'r amser er mwyn sicrhau bod cysylltiad. Mae pawb yn sôn am gymorthdaliadau'r Llywodraeth, ond, yn y pen draw, mae'n ymwneud weithiau â chreu cenedl a chyfathrebu. Efallai na fydd llwybr o reidrwydd byth yn gwneud elw. Mae'r un peth yn wir am wasanaethau rheilffyrdd a gwasanaethau bysiau Cymru. Weithiau mae angen rhoi arian cyhoeddus yn uniongyrchol iddynt i'w gwneud yn hyfyw i ddinasyddion Cymru. Ar y nodyn hwnnw, dof i ben drwy ddweud fy mod wedi croesawu'r ddadl heddiw a byddwn yn cefnogi'r holl welliannau.

16:42

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I call Andrew R.T. Davies to reply to the debate.

Galwaf ar Andrew R.T. Davies i ymateb i'r ddadl.

16:42 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank everyone who has contributed to this afternoon's debate. It has been quite a lively discussion on the two-point motion that is before the Chamber. The amendments have been dealt with by my colleague Byron Davies in his opening remarks. I am a little disappointed that Members' contributions from around the Chamber did not focus more on the aviation part of the debate, as I do think that that is a huge area on which we could be focusing. When you look at the amount of small airports that there are around Wales, there is huge potential for growth in tourism and for harnessing that network. By that, I do not just mean jets flying in with piles of tourists but using it for all sorts of aviation-related holidays. The potential for growth is phenomenal and nobody really has touched on that and, because we do not have a proper aviation strategy, that part of the aviation market is not being looked at.

Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu at y ddadl y prynhawn yma. Bu'n ddadl eithaf bywiog ar y cynnig dau bwynt sydd gerbron y Siambr. Ymdriniwyd â'r gwelliannau gan fy nghyd-Aelod, Byron Davies yn ei sylwadau agoriadol. Rwyf ychydig yn siomedig nad oedd cyfraniadau'r Aelodau o gwmpas y Siambr wedi canolbwyntio mwy ar y rhan o'r ddadl a oedd yn ymwneud â'r diwydiant hedfan, gan fy mod yn credu bod hwnnw'n faes enfawr y gallem fod yn canolbwyntio arno. Pan edrychwch ar faint o feysydd awyr bach sydd o amgylch Cymru, mae potensial mawr ar gyfer twf mewn twristiaeth ac i harneisio'r rhwydwaith hwnnw. Wrth hynny, nid wyf yn golygu awyrennau cyflym yn hedfan i mewn gyda llwythi o dwristiaid ond ei ddefnyddio ar gyfer pob math o wyliau sy'n gysylltiedig â hedfan. Mae'r potensial ar gyfer twf yn anhygoel ac nid oes neb wir wedi cyffwrdd â hynny ac, oherwydd nad oes gennym strategaeth hedfan briodol, mae'r rhan honno o'r farchnad hedfan yn cael ei diystyru.

Eluned Parrott touched on the point about the opposition's ability to look at the purchase of the airport and question the Minister. I have to concur with her remarks: it has been difficult to elicit answers from the Government as to exactly what the long, medium and short-term strategy for the airport is. Ultimately, when £52 million of taxpayers' money has been used, it is not unreasonable for the opposition and, indeed, the Government's own AMs to question whether that was a sound use of public money and what exactly is going to happen in the short to medium term, in particular with regard to the demands that that will place on the budget of the Welsh Government to develop the airport, which is money that has not been made available historically, and the impact that will have on other parts of Wales. Antoinette Sandbach touched on north Wales in particular, but many colleagues in mid and west Wales have raised that very issue.

Cyfeiriodd Eluned Parrott at y pwynt ynghylch gallu'r gwrthbleidiau i edrych ar y penderfyniad i brynu'r maes awyr a holi'r Gweinidog. Rhaid imi gytuno â'i sylwadau: bu'n anodd cael atebion gan y Llywodraeth ynghylch beth yn union yw'r strategaeth yn yr hirdymor, y tymor canolig a'r byrdymor i'r maes awyr. Yn y pen draw, pan fydd £52 miliwn o arian trethdalwyr wedi cael ei ddefnyddio, nid yw'n afresymol i'r gwrthbleidiau ac, yn wir, ACau y Llywodraeth ei hun holi a oedd hynny'n ddefnydd da o arian cyhoeddus a beth yn union a fydd yn digwydd yn y byrdymor a'r tymor canolig, yn arbennig o ran y galwadau ar y gyllideb gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu'r maes awyr, sef arian nad yw wedi'i ddarparu'n hanesyddol, a'r effaith a gaiff hynny ar rannau eraill o Gymru. Cyfeiriodd Antoinette Sandbach at y gogledd yn benodol, ond mae llawer o gyd-Aelodau yn y canolbarth a'r gorllewin wedi codi'r union fater hwnnw.

I paid tribute to the contribution of the Member for Anglesey in questions to the First Minister yesterday, so forgive me if I do not use my time to reiterate those remarks today, Ieuan. However, sadly, over the years, the north-south air link has not grown to fill the potential that the people who thought of it in the first place would perhaps have liked it to do. It consumes a huge amount of public money. On weekends, for example, at RAF Valley, there is no service because it is an RAF base and is shut. That is a crying shame, given the tourist potential of the weekend market. I was not here when the initial discussions were had on this, because I think that that was in the second Assembly, but, for the life of me, I cannot work out why a civilian airport in the middle of the airport was not considered or looked at. I presume we could have had seven days' flying for that link, and hopefully greater use and less public subsidy.

Talaf deyrnged i gyfraniad yr Aelod dros Ynys Môn yn ystod y cwestiynau i'r Prif Weinidog ddoe, felly maddeuwch imi os na fyddaf yn defnyddio fy amser i ailadrodd y sylwadau hynny heddiw, Ieuan. Fodd bynnag, yn anffodus, dros y blynyddoedd, nid yw'r cyswllt awyr rhwng y gogledd a'r de wedi tyfu i wireddu'r potensial y byddai pobl a oedd wedi ei awgrymu yn y lle cyntaf o bosibl wedi hoffi ei weld yn ei wneud. Mae'n mynd â llawer iawn o arian cyhoeddus. Ar benwythnosau, er enghraifft, yn RAF Fali, nid oes gwasanaeth am mai canolfan RAF ydyw ac mae ar gau. Mae hynny'n drueni mawr, o ystyried potensial y farchnad ar y penwythnos o ran twristiaeth. Nid oeddwn yma pan gafwyd y trafodaethau cychwynnol ar hyn, oherwydd credaf i hynny ddigwydd yn yr ail Gynulliad, ond, yn fy myw, ni allaf ddeall pam na chafodd maes awyr sifil yng nghanol y maes awyr ei ystyried. Tybiaf y gallai'r gwasanaeth hwnnw fod wedi hedfan saith diwrnod yr wythnos, a gobeithio wedi cael mwy o ddefnydd a llai o gymhorthdal cyhoeddus.

The other points that were raised by the Thompson twins over there were about the Conservatives doing u-turns and going back on their word as regards public support. This, at the end of the day, is a document in response to the Government's action. We do not believe that it was a sensible use of public money in austere times to purchase an airport. What we do believe—and I have said time and again, and you can check the Record from the third Assembly, before either of you were here, and the fourth Assembly—is that the airport does require support. The route development grant was a critical component in attracting Emirates to Newcastle in 2007-08; no such support was offered to Emirates to come to Cardiff, even though it was in the bidding mix. Delta wanted to establish a North American link, and again, no support was offered, yet £52 million can be found to purchase the airport.

Roedd y pwyntiau eraill a godwyd gan efeilliaid Thompson draw acw yn ymwneud â'r Ceidwadwyr yn gwneud tro pedol a mynd yn ôl ar eu gair o ran cymorth cyhoeddus. Mae hon, wedi'r cyfan, yn ddogfen mewn ymateb i gam weithredu'r Llywodraeth. Ni chredwn fod prynu maes awyr yn ddefnydd synhwyrol o arian cyhoeddus mewn cyfnod llym. Yr hyn yr ydym yn ei gredu—ac yr wyf wedi ei ddweud dro ar ôl tro, a gallwch edrych ar y Cofnod o'r trydydd Cynulliad, cyn amser y naill neu'r llall ohonoch yma, a'r pedwerydd y Cynulliad—yw bod angen cymorth ar y maes awyr. Roedd y grant datblygu llwybrau yn elfen hollbwysig i ddenu Emirates i Newcastle yn 2007-08; ni chynigiwyd y fath gymorth i Emirates i ddod i faes awyr Caerdydd, er ei fod wedi ymgeisio. Road Delta yn awyddus i sefydlu cyswllt â Gogledd America, ac unwaith eto, ni chynigiwyd cymorth, ond gellir dod o hyd i £52 miliwn i brynu'r maes awyr.

I will gladly take your intervention.

Byddaf yn falch o dderbyn eich ymyriad.

16:46

## Mick Antoniw Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for taking the intervention. Surely you will agree that the proposal for reprivatisation is a little bit bonkers.

Diolch ichi am dderbyn yr ymyriad. Oni chytunwch fod y cynnig ar gyfer ailbreifateiddio ychydig yn hurt.

16:46

## Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Not at all; that is the ideological divide between your side and my side. I do not believe that Governments should be running airports. What should happen is that the money that is available to the Welsh Government, or indeed any treasury, should be spent on key public services, and that the peripheral issues are dealt with by the private and independent sector. I passionately believe that, and many people across Wales, and indeed South Wales Central, believe that as well, because I have heard that point being made time and again. As I live so close to the airport, I think that you are misleading people when you say that many in the locality support the purchase. I have to tell you that they do not support the purchase. What they supported was greater support for the airport to attract airlines to create new routes that create more passenger opportunities.

Dim o gwbl; dyna'r rhaniad ideolegol rhwng eich ochr chi a'm hochr i. Ni chredaf y dylai Llywodraethau redeg meysydd awyr. Yr hyn a ddylai ddigwydd yw y dylai'r arian sydd ar gael i Lywodraeth Cymru, neu yn wir unrhyw drysorlys, gael ei wario ar wasanaethau cyhoeddus allweddol, ac y dylai'r materion ymylol gael eu trin gan y sector preifat a'r sector annibynnol. Credaf hynny yn gryf, fel y cred llawer o bobl ledled Cymru, ac yn wir, Canol De Cymru hefyd, oherwydd rwyf wedi clywed y pwynt yn cael ei wneud dro ar ôl tro. Gan fy mod yn byw mor agos i'r maes awyr, credaf eich bod yn camarwain pobl pan ddywedwch fod llawer yn yr ardal leol yn cefnogi'r penderfyniad i'w brynu. Rhaid imi ddweud wrthych nad ydynt yn cefnogi'r penderfyniad. Yr hyn yr oeddent yn ei gefnogi oedd mwy o gymorth i'r maes awyr er mwyn denu cwmnïau hedfan i greu llwybrau newydd sy'n creu mwy o gyfleoedd i deithwyr.

The successful model for that airport will be the one to attract the airlines that will bring the passengers, and to do that you need to work with the airlines. The Member for Pontypridd touched on the fact that an airlines director has been appointed. That is not the case. A new director of the airport has been appointed—Jon Horne, who lives about 700 yd from me, so I know the man very well, to be honest with you. I feel somewhat awkward saying that, because I am sure that the mafia will suddenly clobber him now. Ultimately, what has to be reflected on here is that Wales needs—we accept this, and we have argued this for many years—an international gateway that can project a positive image of this country. That can be done by working collaboratively with the private sector, not by tying up a huge amount of public money.

Y model llwyddiannus i'r maes awyr hwnnw fydd yr un sy'n denu cwmnïau hedfan a fydd yn dod â'r teithwyr, ac er mwyn gwneud hynny mae angen ichi weithio gyda'r cwmnïau hedfan. Cyfeiriodd yr Aelod dros Bontypridd at y ffaith bod cyfarwyddwr cwmnïau hedfan wedi cael ei benodi. Nid yw hynny'n wir. Cyfarwyddwr newydd i'r maes awyr sydd wedi cael ei benodi—Jon Horne, sy'n byw tua 700 llath oddi wrthyf, felly rwy'n adnabod y dyn yn dda iawn, a dweud y gwir. Teimlaf braidd yn chwithig yn dweud hynny, oherwydd rwy'n siŵr y bydd y maffia yn sydyn yn dechrau lladd arno. Yn y pen draw, yr hyn y mae'n rhaid ei ystyried yma yw bod angen porth rhyngwladol ar Gymru—derbyniwn hyn, ac rydym wedi dadlau o blaid hyn ers nifer o flynyddoedd—a all gyfleu delwedd gadarnhaol o'r wlad hon. Gellir gwneud hynny drwy weithio ar y cyd â'r sector preifat, nid drwy wario swm enfawr o arian cyhoeddus.

I commend this document to the house today. We would grow that airport and return value to the taxpayer. The taxpayers themselves are the ones who are best able to spend their money. I commend this motion to the house.

Cymeradwyaf y ddogfen hon i'r Siambr heddiw. Byddem yn datblygu'r maes awyr ac yn rhoi gwerth yn ôl i'r trethdalwr. Y trethdalwyr eu hunain yw'r rhai sy'n gallu gwario eu harian orau. Cymeradwyaf y cynnig hwn i'r Siambr.

16:48 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? There are objections, and so I defer all voting under this item until voting time.

Y cynnig yw y dylid cytuno ar y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiadau, ac felly gohiriaf yr holl bleidleisio o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

16:48 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

May I make a point, Deputy Presiding Officer? I would be grateful if you could check the Record regarding the leader of the Welsh Conservatives' remarks about the mafia and clobbering in relation to Jon Horne. I am not sure what the purpose of that remark was, or what it was in relation to, but I did not feel that it was necessarily appropriate to this debate, and I would be grateful if you could take a look at that remark later.

A gaf wneud pwynt, Ddirprwy Lywydd? Byddwn yn ddiolchgar pe gallech edrych ar y Cofnod ynglŷn â sylwadau arweinydd y Ceidwadwyr Cymreig am y maffia a lladd ar Jon Horne. Nid wyf yn siŵr beth oedd byrdwn y sylw, neu at beth roedd yn cyfeirio, ond nid oeddwn yn teimlo ei fod yn briodol o reidrwydd i'r ddadl hon, a byddwn yn ddiolchgar pe gallech edrych ar y sylw hwnnw yn nes ymlaen.

16:48 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

If I may respond, I will gladly withdraw the remark, which was made in a light-hearted spirit. I accept that it was probably taken out of context, so I withdraw that remark.

Os caf ymateb, byddaf yn falch o dynnu'r sylw yn ôl, a wnaed yn ysgafn. Derbyniaf ei fod yn amhriodol i'r cyd-destun fwy na thebyg, felly rwyf am dynnu'r sylw hwnnw yn ôl.

16:48 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

That concludes the matter. Thank you, Andrew.

Dyna ddiwedd y mater. Diolch yn fawr, Andrew.

## Dadl Plaid Cymru: Y System Gynllunio yng Nghymru

## Plaid Cymru Debate: The Planning System in Wales

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1, 3, 4 a 5 yn enw William Graham, gwelliannau 2, 6 a 7 yn enw Aled Roberts.*

*The following amendments have been selected: amendments I, 3, 4 and 5 in the name of William Graham, amendments 2 and amendments 2, 6 and 7 in the name of Aled Roberts.*

Cynnig NDM5269 Elin Jones

Motion NDM5269 Elin Jones

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn nodi rôl allweddol y system gynllunio o ran cyfrannu tuag at gynaliadwyedd economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol; a

1. Notes the key role of the planning system in contributing towards economic, environmental and social sustainability; and

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddiwygio'r system gynllunio fel ei bod yn adlewyrchu'n well egwyddorion datblygu cynaliadwy, yn arbennig:

2. Calls on the Welsh Government to reform the planning system so that it better respects the principles of sustainable development, in particular that:

a) bod Cynlluniau Datblygu Lleol yn adlewyrchu anghenion tai lleol yn well;

a) Local Development Plans better reflect local housing needs;

b) bod yr iaith Gymraeg yn dod yn ystyriaeth gynllunio fwy ystyrlon; ac

b) the Welsh language becomes a more meaningful planning consideration; and

c) bod y system gynllunio'n hwyluso twf gwyrdd yn well.

c) the planning system better facilitates green growth.

16:49 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Cynigiaf y cynnig.

I move the motion.

Mae'n bleser gennyf agor y ddadl hon a dod â'r cynnig gerbron yn enw Elin Jones. Nid oes amheuaeth bod maes polisi cynllunio yn un o'r meysydd polisi mwyaf pellgyrhaeddol ei effaith a'r mwyaf dylanwadol i rym. Polisi, o'i gael yn iawn, sy'n gallu agor pob math o gyfleoedd i wireddu potensial economaidd Cymru mewn modd sy'n parchu terfynau ein hadnoddau naturiol a'n cymunedau.

It is my pleasure to open this debate and bring the motion forward in the name of Elin Jones. There is no doubt that the planning policy area is one of the most far-reaching policy areas in its impact and one of the most influential in its power. It is a policy, which if got right, can open up all sorts of opportunities to achieve Wales's economic potential in a way that respects the limits of our natural resources and our communities.

Wrth alw ar y drefn gynllunio yng Nghymru i adlewyrchu yn well egwyddorion datblygu cynaliadwy, mae'n werth i ni dreulio munud fach yn cyfeirio at y drafodaeth fyw sy'n digwydd ar hyn o bryd o gwmpas y Bil datblygu cynaliadwy. Mae llawer o'r ymatebion i'r Papur Gwyn yn mynegi gofid am y diffiniad o ddatblygu cynaliadwy sy'n cael ei ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru—yn enwedig y defnydd cynyddol o'r term 'lles', neu 'wellbeing'. Byddwn yn pwyso ar y Gweinidog â chyfrifoldeb am ddatblygu cynaliadwy, gan ei fod yma yn y Siambr, am ddiffiniad llawer cliriach a chyson ac am fwy o eglurder ynglŷn â beth yw'r gwahaniaeth rhwng datblygu cynaliadwy a'r defnydd mae'r Llywodraeth yn ei wneud o'r term 'lles'.

In calling for the planning system in Wales to better reflect the principles of sustainable development, it is worth spending a few minutes referring to the very lively debate that is going on at present around the sustainable development Bill. Many of the responses to the White Paper express concern about the definition of sustainable development that is used by the Welsh Government—particularly the increasing use of the term 'wellbeing'. I urge the Minister with responsibility for sustainable development, given that he is in the Chamber, to bring forward a far more clear and consistent definition and far more clarity on the difference between sustainable development and the use that the Government makes of the term 'wellbeing'.

Mae cynllun datblygu cynaliadwy Cymru, sef 'Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned', yn disgrifio diffiniad presennol Llywodraeth Cymru o ddatblygu cynaliadwy fel

Wales's sustainable development scheme, 'One Wales: One Planet', describes the current Welsh Government definition of sustainable development as

'gwella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol pobl a chymunedau ... ‡mewn ffyrdd sy'n hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol a chyfle cyfartal; mewn ffyrdd sy'n gwella'r amgylchedd naturiol a diwylliannol ac yn parchu ei derfynau'—

'enhancing the economic, social and environmental wellbeing of people and communities … in ways which promote social justice and equality of opportunity; and in ways which enhance the natural and cultural environment and respect its limits'—

ac mae hynny'n berthnasol iawn i'n dadl heddiw—

and that is very relevant to our debate today—

'gan ddefnyddio dim ond ein cyfran deg o adnoddau'r ddaear a chynnal in hetifeddiaeth ddiwylliannol.'

'using only our fair share of the earth's resources and sustaining our cultural legacy.'

Mae 'gwella'r amgylchedd naturiol a diwylliannol ac yn parchu ei derfynau' yn rhywbeth, yn fy marn i, nad yw'n cael ei wireddu o dan y drefn gynllunio sydd ohoni.

In my opinion, I do not think that we are currently achieving the aim of enhancing 'the natural and cultural environment' and respecting its limits under the current planning system.

Dyna pam rwy'n croesawu'r ffaith bod Bil cynllunio newydd yn yr arfaeth. Mae'n gyfle i drawsnewid y tirlun cynllunio yng Nghymru mewn ffordd a fydd yn gwneud datblygiad cynaliadwy yn ganolog iddo. Bydd y Bil cynllunio, gobeithio, yn mynd i'r afael â rhai o wendidau'r drefn bresennol o greu cynlluniau datblygu lleol, sydd wedi ennyn cymaint o adwaith mewn cymunedau ar draws Cymru. Gobeithio y bydd y polisïau cynllunio yn sgîl hynny yn rhoi llawer mwy o amddiffyniad i gymunedau Cymraeg i hyrwyddo uchelgais Llywodraeth Cymru o ran yr iaith ac nid ei thanseilio, fel sy'n digwydd o dan y drefn bresennol.

That is why I welcome the fact that a new planning Bill is in the pipeline. It is a chance to transform the planning landscape in Wales in a way that will place sustainable development at its heart. A planning Bill will hopefully tackle some of the deficiencies in the current system of creating local development plans, which have caused so much reaction in communities the length and breadth of Wales. The planning policies as a result of that will hopefully provide far greater protection to Welsh-speaking communities in order to promote the Welsh Government's ambition in terms of the Welsh language, rather than undermine it, as currently happens under the current regime.

Mae'n werth nodi, o'r holl faterion a godwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y Papur Gwyn ar y Bil datblygu cynaliadwy, mai'r mater a ddenodd y mwyaf o ymatebion oedd yr angen i gynnwys, yn ddiamwys, cynaliadwyedd yr iaith Gymraeg o fewn y diffiniad o ddatblygu cynaliadwy yng Nghymru.

It is worth noting that of all the issues raised in response to the public consultation on the White Paper on the sustainable development Bill, the one issue that attracted most responses was the need to include, unambiguously, the sustainability of the Welsh language in the definition of sustainable development in Wales.

Dyfynnais Gomisiynydd Dyfodol Cynaliadwy Cymru, Peter Davies, yn gynharach y prynhawn yma, ac fe wnaf hynny eto. Dywedodd ef:

‘I have no doubt that in any definition of sustainable development, if you are looking at it in terms of the long-term future and the legacy that we are leaving for future generations, the Welsh language and culture is critical. What is important to us is that it is part of the legacy that we want to leave positively for future generations.’

Gadewch inni droi at y cymalau penodol yn y cynnig. Byddaf yn canolbwyntio yn fy nghyfraniad ar yr elfen gyntaf, sef yr angen i sicrhau bod cynlluniau datblygu lleol yn adlewyrchu anghenion tai lleol yn well.

Mae ‘Polisi Cynllunio Cymru’ yn amlinellu’r ystod o ffactorau sy’n rhaid i awdurdodau lleol eu hystyried wrth ddatblygu cynlluniau datblygu lleol. Yn eu plith mae: amcanestyniadau diweddaraf Llywodraeth Cymru o aelwydydd; y gofynion lleol o ran tai; anghenion yr economi; ystyriaethau cymdeithasol; goblygiadau amgylcheddol; a gallu’r ardal—o ran y ffactorau cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol, gan gynnwys y Gymraeg—i ymdopi â mwy o dai.

Os yw awdurdodau cynllunio lleol am wyro oddi wrth yr amcanestyniadau hynny a defnyddio eu hamcanestyniadau eu hunain ar sail polisi, mae’n rhaid iddynt egluro’r rhesymeg y tu ôl i hynny, yn seiliedig ar y materion rwyf newydd eu rhestru. Mae amcanestyniadau’r Llywodraeth, wrth gwrs, wedi’u seilio ar newidiadau poblogaeth yn y gorffennol. Felly, os bu twf sylweddol yn nifer y bobl yng Nghymru dros y ddegawd ddiwethaf, bydd yr amcanestyniadau yn adlewyrchu hynny i’r dyfodol.

Er enghraifft, dros y ddegawd ddiwethaf gwelwyd ‘boom’ tai anghynaliadwy yng Nghymru, mewnlifiad sylweddol o rannau eraill o’r Deyrnas Unedig ac o ddwyrain Ewrop a datblygiad a thwf sylweddol yn ein prifysgolion. Dyna pan ddylai amcangyfrifon yn seiliedig ar bolisi gywiro’r amcanestyniadau sy’n dod gan y Llywodraeth, i greu darlun tipyn mwy gonest o’r sefyllfa.

Fodd bynnag, mae gwendidau yn y drefn hon. Nid oes amheuaeth fod yr amcanestyniadau sydd wedi dod o Lywodraeth Cymru yn y gorffennol wedi bod yn llawer rhy uchel yn y lle cyntaf, gan fethu adlewyrchu’n ddigon cywir yr angen gwirioneddol am dai yn ein cymunedau.

Rwy’n byw yn sir Ddinbych, sir lle’r oedd yr amcanestyniadau’n dweud y byddai angen 44,664 o dai erbyn 2011. Fodd bynnag, yn ôl y cyfrifiad diwethaf, dim ond 40,500 oedd yr angen gwirioneddol yn y sir. Mae hynny dros 4,000 yn llai na’r hyn y dywedodd y Llywodraeth yr oedd eu hangen. Mae’r stori’n debyg ar draws y wlad. Roedd 2,300 yn ormod yn Wrecsam a 2,000 yn sir y Fflint. Ar draws siroedd y gogledd yn unig, mae’r amcanestyniadau wedi bod tua 10,500 o dai allan ohoni.

I quoted the Commissioner for Sustainable Futures, Peter Davies, earlier this afternoon, and I will do so again. He said:

Nid oes gennyf unrhyw amheuaeth, mewn unrhyw ddiffiniad o ddatblygu cynaliadwy, os ydych yn edrych arno o ran y dyfodol hirdymor a’r etifeddiaeth yr ydym yn ei gadael i genedlaethau’r dyfodol, mae’r Gymraeg a diwylliant Cymru yn hanfodol. Yr hyn sy’n bwysig inni yw ei fod yn rhan o’r etifeddiaeth yr ydym am ei gadael yn gadarnhaol i genedlaethau’r dyfodol.

Let us turn to the specific clauses of the motion. I will be concentrating my contribution on the first element, which is the need to ensure that local development plans reflect local housing needs more effectively and efficiently.

‘Planning Policy Wales’ outlines the range of factors that local authorities have to take into account in developing local development plans. Among those are: latest Welsh Government projections on the number of homes; local housing needs; economic needs; social considerations; environmental implications; and the area’s ability—in terms of social, environmental and cultural factors, including the Welsh language—to cope with more houses.

If local planning authorities want to deviate from those projections and use their own projections, based on policy, they have to explain the rationale behind that, based on the issues that I have just outlined. The Government projections are based, of course, on population changes in the past. So, if there has been significant growth in the number of people in Wales over the past decade, the projections reflect that into the future.

For example, over the past decade, we have seen an unsustainable housing boom in Wales, significant in-migration from other parts of the UK and from eastern Europe and significant development and growth in our universities. That is when projections based on policy should correct the Government’s projections, creating a much more honest picture of the situation.

However, there are weaknesses in this system. There is no doubt that the projections emerging from the Welsh Government in the past have been much too high in the first place, failing to accurately reflect the real need for housing in our communities.

I live in Denbighshire, a county where the projections stated that there would be a need for 44,664 homes by 2011. However, according to the most recent census, the real need in the county was only 40,500. That is over 4,000 fewer homes than the Government had said was needed. The story is similar across the country. There were 2,300 too many in Wrexham and 2,000 in Flintshire. Across the counties of north Wales alone, the projections have been for 10,500 homes too many.

Os gofynnwch i awdurdodau cynllunio pam fod y ffigurau mor uchel, byddent yn dweud bod Llywodraeth Cymru yn eu gorfodi arnynt. Fodd bynnag, os gofynnwch i'r Llywodraeth, bydd yn dweud bod rhwydd hynt i'r awdurdodau lleol osod eu ffigur eu hunain, dim ond iddynt allu cyfiawnhau hynny. Dyna ni'n rhoi bys ar wendid arall o fewn y drefn sydd ohoni.

If you ask the planning authorities why the figures are so high, they will say that the Welsh Government forced those projections on them. However, if you ask the Government, it will say that the local authorities are free to set their own figures, as long as they can justify that. That is putting our finger on another weakness within the current planning system.

Wrth fyd ati i wyro oddi wrth yr amcanestyniadau swyddogol, mae'n rhaid i awdurdodau cynllunio gyflwyno tystiolaeth gref a chredadwy i gyfiawnhau hynny—'robust and credible evidence' yw'r term sy'n cael ei ddefnyddio—gyda'r arolygydd cynllunio wedyn yn dyfarnu a yw hynny wedi ei gyflawni ai peidio. Fodd bynnag, mae'r ddealltwriaeth o beth yw 'tystiolaeth gref a chredadwy' yn rhywbeth sy'n achosi penbleth, tensiynau ac anghydweld. Daeth tystiolaeth glir o hyn yn amlwg wrth i Bwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd y Cynulliad edrych ar y mater yn ddiweddar. Yn eu tystiolaeth i'r pwyllgor, dywedodd swyddogion Llywodraeth Cymru

As we divert from the official projections, planning authorities have to present strong and credible evidence to justify that—'robust and credible evidence' is the term used—with the planning inspector then deciding whether that has been achieved or not. However, the understanding of what constitutes 'robust and credible' is something that causes confusion, tensions and disagreements. There was clear evidence of this as the Assembly's Environment and Sustainability Committee looked at the issue recently. In its evidence to the committee, Welsh Government officials said,

'Roedd CDLl Wrecsam yn cynnig y dylid gwyro oddi wrth amcanestyniadau diweddaraf Llywodraeth Cymru drwy ddarparu tua 3,500 yn llai o dai ond nid oedd unrhyw dystiolaeth o gwbl i ategu hyn. Yn dilyn tri diwrnod o graffu cyhoeddus ymddangosai na allai'r cyngor roi unrhyw dystiolaeth i gyfiawnhau'r ddarpariaeth roedd yn ei cheisio ... Oherwydd y diffyg tystiolaeth llwyr ... daethpwyd i'r casgliad nad oedd y cynllun yn gadarn.'

'Wrexham's LDP was proposing to deviate by approximately 3,500 below the latest Welsh Government projections but this was not supported by any evidence whatsoever. Following three days of public scrutiny it appeared that the council could provide no evidence to justify the provision it was seeking … This complete absence of evidence … resulted in the plan being found "unsound".'

Holais Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam am ei farn ynglŷn â'r datganiad hwn a gwadodd hynny'n llwyr, wrth gwrs, ac roedd yn flin iawn gyda'r honiad. Yn wir, roedd yn meddwl ei fod wedi cyflwyno achos cryf ac yn flin na chododd y Llywodraeth unrhyw gonsyrn am lefel nac ansawdd y dystiolaeth yn ystod y broses. Mae'r enghraifft hon yn destun gofid difrifol i mi am y drefn bresennol, oherwydd mae'n amlygu pa mor wahanol yw diffiniad Llywodraeth Cymru o 'dystiolaeth gref a chredadwy' o'i gymharu â chanfyddiad yr awdurdodau cynllunio lleol.

I asked Wrexham County Borough Council for its opinion about this statement and it denied that outright, of course, and was very angry with the accusation. Indeed, in its opinion it had presented a strong case and it was angry that the Government did not raise any concern about the level or quality of the evidence during that process. This example causes me serious concern about the current system, because it highlights just how different the Welsh Government's definition of what constitutes 'robust and credible evidence' is as compared with the opinion of the local planning authorities.

Fodd bynnag, y gwir amdani yw bod miloedd yn fwy o dai nag y'u dymunir yn cael eu gorfodi ar awdurdodau cynllunio lleol ar draws Cymru. Wrth gwrs bod lle i wneud yn siŵr bod pob rhan o Gymru yn ysgwyddo'r baich o ran ateb yr angen am dai yng Nghymru. Mae lle hefyd i anelu'n uwch na dim ond diwallu anghenion lleol yn y sefyllfaoedd hynny pan mai rhesymau economaidd a demograffig sydd yn mynnu hynny. Gwendid y drefn fel y mae yw bod lefel y gorddatblygiad yr ydym yn ei weld yn aml iawn y tu hwnt i bob rheswm. Yr hyn sydd gennym, wrth gwrs, yw lefelau o ddatblygiad nad ydynt—os cofiwn y diffiniad o ddatblygu cynaliadwy ar y dechrau—yn parchu terfynau amgylchedd naturiol a diwylliannol ein cymunedau. Mae'r drefn bresennol, yn fy marn i, yn anghynaliadwy.

However, the truth is that thousands more homes than are required are forced on local planning authorities across Wales. Of course, there is scope to ensure that every part of Wales shoulders its share of the burden in responding to the need for housing in Wales. There is scope to aim higher than simply meeting local needs in those areas where there are strong economic and demographic reasons for doing just that. The problem with the system as it exists is that the level of overdevelopment that we are seeing very often goes beyond all reason. What we have, of course, are levels of development—if we bear in mind the definition of sustainable development that I gave at the outset—that do not respect the boundaries relating to the natural environment and culture within our communities. The current system is not sustainable.

Sut all Llywodraeth Cymru gyfiawnhau trefn gynllunio lle bydd dros 7,500 o dai ychwanegol yn cael eu hadeiladu yn sir Ddinbych dros y blynyddoedd nesaf, pan mai dim ond cynnydd o 600 a welwyd yn y boblogaeth yno dros y 10 mlynedd diwethaf? Sut all y system fynnu 45,000 o dai newydd yng Nghaerdydd, sy'n golygu gorfod adeiladu mwy o dai bob blwyddyn am y 10 mlynedd nesaf nag yr adeiladwyd yn unrhyw un o'r 10 mlynedd diwethaf—cyfnod a welodd un o'r 'booms' tai mwyaf, wrth gwrs?

How can the Welsh Government justify a planning system where an additional 7,500 homes will be built in Denbighshire over the next few years, when there has been an increase of only 600 in the population in the last 10 years? How can the system insist that 45,000 new homes should be built in Cardiff, which means building more homes every year for the next 10 years than were built in any single year of the past 10 years—a period that saw one of the greatest housing booms, of course?

Os adiwch amcanestyniadau ddim ond y chwe sir yng ngogledd Cymru at ei gilydd, byddai'n golygu adeiladu gwerth sir cyfan newydd o dai dros y 10 mlynedd nesaf. Nid datblygu cynaliadwy yw hynny. I roi halen ar y briw, nid yn unig nad yw'r awdurdodau lleol yn cael sicrhau nifer y tai y maent yn barnu y mae eu hangen, nid ydynt ychwaith yn cael sicrhau'r math o dai sydd eu hangen. Dymuniad Cyngor Sir Ddinbych oedd sicrhau bod 30% o'i dai newydd dros y blynyddoedd nesaf yn dai fforddiadwy—rhywbeth a fyddai'n mynd rhywfaint o'r ffordd i ddiwallu'r galw sylweddol sydd am dai i deuluoedd ifanc, i brynwyr tro cyntaf ac yn y blaen. Bellach, mae'r drefn gynllunio sydd ohoni wedi gorfodi'r ffigur hwnnw i lawr o 30% i ddim ond 10%, a hynny am na fyddai'n ddigon atyniadol i gwmnïau adeiladu. Mae rhywun yn gweld y rhesymeg, wrth gwrs, ond rhaid gofyn y cwestiwn: cynlluniau datblygu i bwy yw'r rhain?

If you add the projections of just the six north Wales counties together, it will mean building a whole county-worth of housing of the next 10 years. That does not constitute sustainable development. To rub salt into the wound, not only are local authorities not able to decide on the number of homes that they believe are needed, they cannot even decide on the sort of homes that are required. Denbighshire County Council wanted to ensure that 30% of new homes over the next few years would be affordable houses—something that would go some of the way to meeting the significant demand for homes for young families, first-time buyers and so on. Our planning system has forced that number down from 30% to 10% simply because it would not be attractive enough to construction companies. One can see the rationale, of course, but we have to ask the question: whose local development plans are these?

Bydd fy nghyd-Aelodau yn ymhelaethu ar elfennau eraill y cynnig, ond o ran y gwelliannau sydd wedi cael eu cyflwyno, rydym yn hapus i gefnogi gwelliannau 2, 3, 4, 5 a 6. Mae amser yn prinhau, ond mae'n bosibl y caf gyfle i ymhelaethu ymhellach wrth gloi.

My colleagues will highlight other elements of the motion, but, in terms of the amendments tabled, we are happy to support amendments 2, 3, 4, 5 and 6. Time is against me now, so perhaps I will have time to expand further on these points in responding to the debate.

*Gwelliant 1—William Graham*

*Amendment 1—William Graham*

*Cynnwys pwynt 1 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:*

*Insert new point 1 and renumber accordingly:*

*Yn gresynu at oedi Llywodraeth Cymru wrth gyflwyno Bil Cynllunio i Gymru.*

*Regrets the Welsh Government's delay in bringing forward a Wales Planning Bill.*

*Gwelliant 3—William Graham*

*Amendment 3—William Graham*

*Cynnwys is-bwyntiau newydd ar ddiwedd pwynt 2a):*

*Insert as new sub-points at end of point 2a):*

*i. drwy ddisodli'r targedau adeiladu tai a osodwyd gan Lywodraeth Cymru ag asesiad o anghenion tai lleol; a*

*i. by replacing house building targets set by Welsh Government with local assessment of housing need; and*

*ii. drwy gamau gweithredu gan Lywodraeth Cymru i gynyddu nifer y cartrefi i ddiwallu anghenion poblogaeth gynyddol a phoblogaeth sy'n heneiddio;*

*ii. through Welsh Government action to increase the supply of homes to meet the needs of a growing and ageing population;*

*Gwelliant 4—William Graham*

*Amendment 4—William Graham*

*Cynnwys is-bwynt 2b) newydd ac ailrifo yn unol â hynny:*

*Insert a new sub-point 2b) and renumber accordingly:*

*Rhaid i awdurdodau lleol gymryd rhan mewn ymgynghoriadau ystyrlon sy'n galluogi cymunedau i gael eu grymuso er mwyn llunio eu dyfodol.*

*Local authorities must engage in meaningful consultations which allow communities to be empowered to shape their futures.*

*Gwelliant 5—William Graham*

*Amendment 5—William Graham*

*Cynnwys is-bwynt 2b) newydd ac ailrifo yn unol â hynny:*

*Insert a new sub-point 2b) and renumber accordingly:*

*Yn cyflwyno canllawiau cynllunio ychwanegol ar gyfer gwaith datblygu ac adnewyddu mewn ardaloedd cadwraeth.*

*Issues further planning guidance for developments and renovations within conservation areas.*

16:59

## Russell George Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendments 1, 3, 4 and 5 in the name of William Graham.

Cynigiaf welliannau 1, 3, 4 a 5 yn enw William Graham.

Before I go on, I have to say that I agree with much of what has been said by the Member opposite.

Cyn imi fynd ymlaen, rhaid imi ddweud fy mod yn cytuno â llawer o'r hyn a ddywedwyd gan yr Aelod gyferbyn.

Having the power to legislate on planning has been one of the most powerful levers of change that this institution has possessed since it was established, but I believe that the Government has done very little to utilise that power. It is only now, in the fourth Assembly, that the Welsh Government is prepared to get to grips with reforming the Welsh planning system to ensure that it delivers on a range of policies around the three principal pillars of economic renewal, environmental sustainability and social wellbeing. Given the focus of the previous Government's economic renewal programme at the end of the last Assembly term, I would have expected that the first major piece of legislation for this new term would have been a radical and reforming planning Bill for Wales. I am sure that Plaid Members would say that, if they were still in power, that would be the case.

Mae'r pŵer i ddeddfu ym maes cynllunio wedi bod yn un o'r dulliau mwyaf pwerus o sicrhau newid yn nwylo'r sefydliad hwn ers ei sefydlu, ond, yn fy marn i, nid yw'r Llywodraeth wedi gwneud llawer iawn i ddefnyddio'r pŵer hwnnw. Dim ond yn awr, yn y Pedwerydd Cynulliad, y mae Llywodraeth Cymru yn barod i fynd i'r afael â diwygio'r system gynllunio yng Nghymru er mwyn sicrhau ei bod yn cyflawni o ran ystod o bolisïau sy'n ymwneud â thair prif biler adnewyddu'r economi, cynaliadwyedd amgylcheddol a lles cymdeithasol. O ystyried ffocws rhaglen adnewyddu'r economi y Llywodraeth flaenorol ar ddiwedd tymor diwethaf y Cynulliad, byddwn wedi disgwyl mai Bil cynllunio radical a diwygiol i Gymru fyddai'r darn mawr cyntaf o ddeddfwriaeth ar gyfer y tymor newydd. Rwy'n siŵr y byddai Aelodau Plaid Cymru yn dweud, pe baent yn dal i fod mewn grym, mai felly y byddai.

It makes perfect policy sense to centre the Government's drive for economic growth and delivery across all departments on an enabling, streamlined and, most importantly, simplified piece of planning legislation, which, coupled with its sustainable development Bill would be just as enabling and transforming not just for our environment but for communities across Wales.

Mae'n gwneud synnwyr perffaith o ran polisi i ganolbwyntio ymgyrch y Llywodraeth i sicrhau twf economaidd a chyflawni ym mhob adran ar ddarn galluogi, syml ac, yn bwysicaf oll, wedi'i symleiddio o ddeddfwriaeth ym maes cynllunio, a fyddai, ynghyd â'i Bil ar ddatblygu cynaliadwy yr un mor bwysig o ran galluogi a thrawsnewid nid yn unig i'n hamgylchedd ond i gymunedau ledled Cymru.

Many other Government pieces of legislation hinge on the planning Bill, such as the housing Bill, the transport Bill, the heritage Bill and the environment Bill. The Government is currently consulting on Technical Advice Note 23, another piece of planning guidance for economic development, but, as Lord Elis-Thomas said last week, you could bring forward a piece of streamlined legislation that could do away completely with the reams of additional technical guidance.

Mae llawer o ddarnau eraill o ddeddfwriaeth y Llywodraeth yn dibynnu ar y Bil cynllunio, megis y Bil tai, y Bil trafnidiaeth, y Bil treftadaeth a'r Bil ar yr amgylchedd. Ar hyn o bryd mae'r Llywodraeth yn ymgynghori ar Nodyn Cyngor Technegol 23, darn arall o arweiniad cynllunio ym maes datblygu economaidd, ond, fel y dywedodd yr Arglwydd Elis-Thomas yr wythnos diwethaf, gallech gyflwyno darn o ddeddfwriaeth symlach a allai gael gwared yn llwyr â'r pentwr o ganllawiau technegol ychwanegol.

However, instead of introducing an early piece of legislation, the Government's pledge in its legislative programme in 2011 was to not bring forward a planning Bill until 2014, with a White Paper to be delivered at the end of 2012. That is cause for regret. We can see from the Government Minister's original target dates that its timetable has already slipped. We will not get the White Paper until the end of this year, and the timetable published on the website says that the Bill is not due to come before the Assembly until 2015-16. However, I was intrigued to hear the Minister say in response to a question raised by Lord Elis-Thomas last week that he expected to bring a Bill to the Assembly before the summer recess next year. The current information available to the public on the Welsh Government's website does not reflect that timetable, and I would welcome some clarity on that point when he responds.

Fodd bynnag, yn hytrach na chyflwyno darn cynnar o ddeddfwriaeth, addewid y Llywodraeth yn ei rhaglen ddeddfwriaethol yn 2011 oedd peidio â chyflwyno Bil cynllunio tan 2014, gyda Phapur Gwyn i'w gyflwyno ddiwedd 2012. Rhaid gresynu at hynny. Gallwn weld o ddyddiadau targed gwreiddiol Gweinidog y Llywodraeth fod ei amserlen eisoes wedi llithro. Ni chawn y Papur Gwyn tan ddiwedd y flwyddyn hon, ac mae'r amserlen a gyhoeddwyd ar y wefan yn dweud na ddaw'r Bil gerbron y Cynulliad tan 2015-16. Fodd bynnag, roedd yn ddiddorol clywed y Gweinidog yn dweud mewn ymateb i gwestiwn a godwyd gan yr Arglwydd Elis-Thomas yr wythnos diwethaf ei fod yn disgwyl cyflwyno'r Bil gerbron y Cynulliad cyn toriad yr haf y flwyddyn nesaf. Nid yw'r wybodaeth gyfredol sydd ar gael i'r cyhoedd ar wefan Llywodraeth Cymru yn adlewyrchu'r amserlen honno, a byddwn yn croesawu ychydig o eglurder ynglŷn â'r pwynt hwnnw pan fydd yn ymateb.

In terms of amendments 3 and 4, the Government has to examine the big picture and ascertain how it can deliver real impetus to its economic, environmental and social policies. Principally, it needs to make a decision on how it wants local planning authorities to operate and deliver tangible outcomes. The elephant in the room continues to be that we have 25 local planning authorities, each of which has to produce a local development plan. There are real problems with the LDP model, and the fact that only a handful of planning authorities have had their plans accepted proves that.

O ran gwelliannau 3 a 4, rhaid i'r Llywodraeth ystyried y darlun mawr a chanfod sut y gall roi hwb gwirioneddol i'w pholisïau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol. Yn bennaf, mae angen iddi wneud penderfyniad ynghylch sut mae am i awdurdodau cynllunio lleol weithredu a sicrhau canlyniadau pendant. Y broblem na ellir ei hosgoi o hyd yw bod gennym 25 o awdurdodau cynllunio lleol, y mae'n rhaid i bob un ohonynt baratoi cynllun datblygu lleol. Cyfyd problemau gwirioneddol gyda model y CDLl, ac mae'r ffaith mai dim ond llond llaw o gynlluniau awdurdodau cynllunio sydd wedi cael eu derbyn yn brawf o hynny.

There is also a fundamental problem with public engagement and meaningful community consultation. However, the process is here and, until it changes, the planning authorities have to deliver those plans. We do not feel that it should be the role of Government to dictate local housing need to planning authorities, and nor should it require them to accommodate this within their LDPs. It has a responsibility to increase the supply of new homes being built, but it should be left to planning authorities to evaluate need and appropriate designation, because they are best placed to make that assessment. My colleague and housing guru Mark Isherwood wants to expand on this point, and I believe that he is better equipped with time and knowledge to do that.

Cyfyd problem sylfaenol hefyd o ran ymgysylltu â'r cyhoedd ac ymgynghori â'r gymuned mewn ffordd ystyrlon. Fodd bynnag, mae'r broses ar waith a, hyd nes y bydd yn newid, rhaid i'r awdurdodau cynllunio ddarparu'r cynlluniau hynny. Ni theimlwn mai rôl y Llywodraeth yw pennu'r angen lleol am dai ar ran awdurdodau cynllunio, ac ni ddylai fod yn ofynnol iddynt ddarparu ar gyfer hyn o fewn eu CDLlau. Mae cyfrifoldeb arno i gynyddu'r cyflenwad o gartrefi newydd sy'n cael eu hadeiladu, ond dylid ei gadael i awdurdodau cynllunio werthuso'r angen a'r dynodiad priodol, oherwydd hwy sydd yn y sefyllfa orau i wneud yr asesiad hwnnw. Mae fy nghyd-Aelod ac arbenigwr ar dai, Mark Isherwood, am ymhelaethu ar y pwynt hwn, a chredaf ei fod mewn sefyllfa well o ran amser a gwybodaeth i wneud hynny.

Finally, amendment 5 is about ensuring that consistent planning controls are delivered in conservation areas within Welsh local planning authorities, and that these controls are made transparent so that anyone purchasing a property in a designated area is made fully aware of their duties and responsibilities to promote effective heritage conservation, and of what that will entail.

Yn olaf, mae gwelliant 5 yn ymwneud â sicrhau bod rheolaethau cynllunio cyson yn cael eu darparu mewn ardaloedd cadwraeth o fewn awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru, a bod y rheolaethau hyn yn dryloyw fel y bydd unrhyw un sy'n prynu eiddo mewn ardal ddynodedig yn gwbl ymwybodol o'u dyletswyddau a'u cyfrifoldebau i hyrwyddo cadwraeth treftadaeth yn effeithiol, a'r hyn a olyga hynny.

I am running out of time, so I will let my colleague Janet Finch-Saunders expand on that point, but to conclude—

Mae amser yn mynd yn brin, felly byddaf yn gadael i'm cyd-Aelod Janet Finch-Saunders ymhelaethu ar y pwynt hwnnw, ond i gloi—

17:04 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order. You are out of time. You have finished, please. Sit down. I remind you that I call the speakers for this debate, not you. I call on William Powell to move amendments 2, 6 and 7, tabled in the name of Aled Roberts.

Trefn. Mae'ch amser ar ben. Rydych wedi gorffen, os gwelwch yn dda. Eisteddwch. A gaf eich atgoffa mai fi sy'n galw ar y siaradwyr yn y ddadl hon, nid chi. Galwaf ar William Powell i symud gwelliannau 2, 6 a 7, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

*Gwelliant 2—Aled Roberts*

*Amendment 2—Aled Roberts*

*Cynnwys pwynt 2 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:*

*Insert as new point 2 and renumber accordingly:*

*Yn cydnabod y gall y cyfrifoldeb ar y cyd am bolisïau cynllunio, tai ac adfywio rhwng y Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Lleol achosi llawer o densiwn a'i gwneud yn anodd i ddatblygu polisïau cynllunio ac adfywio cydlynol mewn ardaloedd gwledig.*

*Recognises that the split responsibility for planning, housing and regeneration policy between National Parks and Local Authorities can cause significant tension and make it difficult to develop a cohesive planning and regeneration policy in rural areas.*

*Gwelliant 6—Aled Roberts*

*Amendment 6—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn cydnabod rôl bwysig cynghorau tref a chymuned fel ymgyngoreion statudol yn y broses gynllunio ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i asesu ffyrdd o gryfhau'r rôl hon, er mwyn cryfhau llais cynghorau tref a chymuned.*

*Recognises the vital role of town and community councils as statutory consultees within the planning process and calls on the Welsh Government to assess ways to strengthen this role, so that the voice of town and community councils is better heard.*

*Gwelliant 7—Aled Roberts*

*Amendment 7—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sefydlu system i adolygu Nodiadau Cyngor Technegol yn gyfnodol, i sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r datblygiadau diweddaraf mewn polisïau a deddfwriaeth a'r datblygiadau technolegol diweddaraf.*

*Calls on the Welsh Government to establish a system for the periodic review of Technical Advice Notes, to ensure that they reflect the most recent developments in policy and legislation and the latest technological advances.*

17:04 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendments 2, 6 and 7 in the name of Aled Roberts.

Cynigiaf welliannau 2, 6 a 7 yn enw Aled Roberts.

It is a great privilege to be taking part in this important debate today, which has been brought forward by Plaid Cymru. In developing a national planning policy for Wales, it is clear that there are three elements of sustainable development: the environment, the economy and society. These cannot and should not be considered in isolation. In light of this, the Welsh Liberal Democrats support the motion, together with the amendments that have been tabled by the Conservative group. Russell George has already rehearsed the regrettable delays that apply to both the White Paper and the planning Bill. I will not repeat that, other than to add our considerable disappointment. We urgently need a firm timetable for the publication of both the White Paper and the planning Bill.

Mae'n fraint fawr cael cymryd rhan yn y ddadl bwysig hon heddiw, a gyflwynwyd gan Blaid Cymru. Wrth ddatblygu polisi cynllunio cenedlaethol i Gymru, mae'n amlwg bod i ddatblygu cynaliadwy dair elfen: yr amgylchedd, yr economi a chymdeithas. Ni ellir ac ni ddylid ystyried y rhain ar wahân. Yng ngoleuni hyn, mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn cefnogi'r cynnig, ynghyd â'r gwelliannau a gyflwynwyd gan y grŵp Ceidwadol. Mae Russell George eisoes wedi sôn am yr oedi anffodus o ran y Papur Gwyn a'r Bil cynllunio. Ni soniaf am hynny eto, heblaw am ychwanegu ein siom mawr. Mae arnom angen amserlen gadarn ar gyfer cyhoeddi'r Papur Gwyn a'r Bil cynllunio ar fyrder.

In respect of amendment 3, changes to demographics, including a growing population, mean that there is a growing demand for new homes. That is evident. Building these new homes is an important source of growth within the Welsh economy. Assessment on the basis of local need in place of house building targets would take account of local factors in a way that nationally imposed targets simply cannot achieve. It would also be a more transparent and accountable way of ensuring that local development plans can meet existing and future housing need. On the subject of LDPs, it is also regrettable that, despite the commitment within the programme for government, to date, only seven local planning authorities have adopted LDPs, out of a total of 25 authorities across Wales. This simply is not fast enough and it needs our attention. The whole LDP process, in fact, is in danger of becoming discredited as a result of this, and I would like to know what action the Minister is proposing to take. I was pleased to see that he acknowledged that there is a problem in this area by nodding just then.

O ran gwelliant 3, mae newidiadau i'r ddemograffeg, gan gynnwys poblogaeth sy'n tyfu, yn golygu bod galw cynyddol am gartrefi newydd. Mae hynny'n amlwg. Mae adeiladu'r cartrefi newydd hyn yn ffynhonnell bwysig o dwf o fewn economi Cymru. Byddai asesiad ar sail angen lleol yn lle'r targedau adeiladu tai yn ystyried ffactorau lleol mewn ffordd na all targedau a bennwyd yn genedlaethol ei wneud. Byddai hefyd yn ffordd fwy tryloyw ac atebol o sicrhau y gall cynlluniau datblygu lleol ddiwallu anghenion tai presennol ac anghenion yn y dyfodol. O ran CDLlau, rhaid gresynu hefyd, er gwaethaf yr ymrwymiad yn y rhaglen lywodraethu, at y ffaith mai dim ond saith awdurdod cynllunio lleol sydd wedi mabwysiadu CDLlau hyd yn hyn, o gyfanswm o 25 awdurdod ledled Cymru. Yn syml, nid yw hyn yn ddigon cyflym, ac mae angen inni roi sylw i'r mater. Mae holl broses y CDLlau mewn perygl o golli hygrededd mewn gwirionedd o'r herwydd, a hoffwn gael gwybod pa gamau y mae'r Gweinidog yn bwriadu eu cymryd. Roeddwn yn falch o weld ei fod yn cydnabod bod problem yn y maes hwn drwy amneidio â'i ben pan ddywedais hynny.

Of course, growth and development must not come at the expense of our natural environment, and I welcome the recognition that there is within this motion of the importance of facilitating green growth. Cascading national targets down through regional plans, together with an obligation on planning authorities to provide appropriate sites for renewable energy infrastructure, could help to facilitate such growth, and I would be grateful if the Minister could indicate whether any consideration has been given to this issue also.

Wrth gwrs, ni ddylai twf na datblygiad fod ar draul ein hamgylchedd naturiol, a chroesawaf y gydnabyddiaeth yn y cynnig hwn o bwysigrwydd hwyluso twf gwyrdd. Gallai rhaeadru targedau cenedlaethol drwy gynlluniau rhanbarthol, ynghyd â rhwymedigaeth ar awdurdodau cynllunio i ddarparu safleoedd priodol ar gyfer seilwaith ynni adnewyddadwy, helpu i hwyluso twf o'r fath, a byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Gweinidog nodi a oedd unrhyw ystyriaeth wedi cael ei rhoi i'r mater hwn hefyd.

I will now turn to our amendments. A progressive planning framework has immense potential for promoting community empowerment, as Russell George referred to, and the Welsh Liberal Democrats have long campaigned to make the planning system more responsive to local demands and concerns. Strengthening the role of town and community councils within the planning process is a key democratic safeguard. Most countries have set their face against a third-party right of appeal. Nevertheless, as part of the policy development process linked to the White Paper, we need to find mechanisms that will enable town and community councils to have a role that is beyond that of simply being a statutory consultee. This will help to strengthen the voice of the local community and serve to rebalance the planning process away from being focused primarily on a dialogue between developers and planning professionals. I have referred many times in this Chamber to the problems that are caused by planning and regeneration powers being split between local authorities and the national parks of Wales within their boundaries. This situation serves to threaten the economic development of an integrated approach to sustainable and economic development, and I hope that we will see provisions to address these concerns within the White Paper.

Trof yn awr at ein gwelliannau. Mae gan fframwaith cynllunio blaengar botensial aruthrol i hyrwyddo'r broses o rymuso cymunedau, fel y soniodd Russell George, ac mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wedi ymgyrchu ers amser o blaid gwneud y system gynllunio yn fwy ymatebol i ofynion a phryderon lleol. Mae cryfhau rôl y cynghorau tref a chymuned yn y broses gynllunio yn gam diogelu democrataidd allweddol. Mae'r rhan fwyaf o wledydd wedi gwrthod hawl trydydd parti i apelio. Er hynny, fel rhan o'r broses datblygu polisi sy'n gysylltiedig â'r Papur Gwyn, mae angen inni ddod o hyd i ddulliau a fydd yn galluogi cynghorau tref a chymuned i chwarae rhan sydd y tu hwnt i fod yn ymgynghorai statudol yn unig. Bydd hyn yn helpu i gryfhau llais y gymuned leol ac yn fodd i newid cydbwysedd y broses gynllunio rhag canolbwyntio'n bennaf ar ddeialog rhwng datblygwyr a gweithwyr cynllunio proffesiynol. Rwyf wedi cyfeirio lawer gwaith yn y Siambr hon at y problemau a achosir am fod pwerau cynllunio ac adfywio wedi'u rhannu rhwng awdurdodau lleol a pharciau cenedlaethol Cymru o fewn eu ffiniau. Mae'r sefyllfa hon yn peryglu datblygiad economaidd dull integredig o ymdrin â datblygu cynaliadwy ac economaidd, a gobeithio y gwelwn ddarpariaethau a fydd yn ymateb i'r pryderon hyn yn y Papur Gwyn.

In addressing our amendment 7, there has been much discussion here in recent days about the whole set-up of the technical advice notes, particularly TAN 8, TAN 15 and, recently, TAN 20. The consultation on TAN 20 took place over two years ago and we are still awaiting a refresh of that technical advice note. It appears that the current planning system is based on a rather ad hoc approach; what we need is a more structured system for a periodic review of technical advice notes.

Wrth drafod gwelliant 7 a gyflwynwyd gennym, bu llawer o drafod yma yn ystod y dyddiau diwethaf am holl drefn y nodiadau cyngor technegol, yn enwedig TAN 8, TAN 15 ac, yn ddiweddar, TAN 20. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad ar TAN 20 dros ddwy flynedd yn ôl, ac rydym yn dal i aros i'r nodyn cyngor technegol hwnnw gael ei adnewyddu. Ymddengys fod y system gynllunio bresennol yn seiliedig ar ddull ad hoc; yr hyn sydd ei angen arnom yw system fwy strwythuredig ar gyfer cynnal adolygiad cyfnodol o nodiadau cyngor technegol.

Finally, in a debate last September, we were grateful for the support we received in passing our amendments on establishing a system of accreditation of planning agents and the development of a national planning advisory and training service. In his remarks, I would be very grateful if the Minister could indicate what his thinking is in this area.

Yn olaf, mewn dadl fis Medi diwethaf, roeddem yn ddiolchgar am y gefnogaeth a gawsom i dderbyn ein gwelliannau ynglŷn â sefydlu system o achredu asiantau cynllunio a datblygu gwasanaeth cynllunio cynghori a hyfforddi cenedlaethol. Yn ei sylwadau, byddwn yn ddiolchgar iawn pe gallai'r Gweinidog nodi beth yw ei farn ar hyn.

Once again, I would like to thank Plaid Cymru for bringing forward this important debate and we hope that we will receive support for our amendments.

Unwaith eto, hoffwn ddiolch i Blaid Cymru am gyflwyno'r ddadl bwysig hon a gobeithio y caiff ein gwelliannau gefnogaeth.

17:09

## Bethan Jenkins Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The planning system is something that has much preoccupied my office in recent months. The Minister will have the privilege of hearing my fairly well-known views on mineral planning policy in a short while, and I hope that you will all stay for that. What I want to concentrate upon in my contribution this afternoon, however, is the economic impact of large-scale, unpopular developments such as opencast mines, and what we understand by the sacrifice that communities are expected to make to derive economic benefit. Many of the applications that we have seen for opencast mines in recent times—there are currently four operating, with four to five pending—come complete with an argument of economic benefit. In isolation, it is a compelling one. The communities in the south Wales coalfields suffer high levels of economic inactivity, and opencast mines bring jobs, both directly at the pits, indirectly at the washeries, in plant servicing and bacon butty providing and through the multiplier, namely the money that these employees spend in the local communities.

Mae'r system gynllunio yn rhywbeth sydd wedi mynd â llawer o amser fy swyddfa yn ystod y misoedd diwethaf. Bydd y Gweinidog yn cael y fraint o glywed fy marn eithaf hysbys ar bolisi cynllunio mwynau ymhen ychydig, a gobeithiaf y byddwch i gyd yn aros am hynny. Yr hyn yr wyf am ganolbwyntio arno yn fy nghyfraniad y prynhawn yma, fodd bynnag, yw effaith economaidd datblygiadau amhoblogaidd ar raddfa fawr, megis gweithfeydd glo brig, a'r hyn yr ydym yn ei ddeall wrth yr aberth y disgwylir i gymunedau ei wneud i gael budd economaidd. Mae llawer o'r ceisiadau yr ydym wedi'u gweld am weithfeydd glo brig yn ddiweddar—mae pedair yn weithredol ar hyn o bryd, gyda 4-5 yn yr arfaeth—yn cael eu cyflwyno ynghyd â dadl o blaid budd economaidd. O'i hystyried ar ei phen ei hun, mae'n ddadl gymhellol. Mae lefelau uchel o anweithgarwch economaidd mewn cymunedau ym meysydd glo y de, ac mae gweithfeydd glo brig yn dod â swyddi, yn uniongyrchol yn y pyllau glo, yn anuniongyrchol yn y golchfeydd, ym maes gwasanaethu peiriannau a darparu rholion cig moch a thrwy'r lluosydd, sef yr arian y mae'r gweithwyr hyn yn ei wario yn y cymunedau lleol.

When it is put like that, it is easy to portray residents who live cheek by jowl with these monstrous voids as nothing more than miserable little NIMBYs, happy to prevent the rest of the world from moving on and making a living so long as they can have their chocolate box countryside for themselves to enjoy. However, it is not like that. To argue in that way is to infer that an opencast mine is the only business in the area where it is found. What is funny is that Ministers will stand up and tell us how hard they are working to bring in high-end manufacturing and tut-tut about emission levels, but fail to pull them together and think that, perhaps, opencast mines, which are not renowned for environmental good practice, could be conspiring both to deter inward investment and to compel clean-floor manufacturers and associated businesses to move elsewhere. The issue, which I will go into in more detail in my short debate, is that a mine may be allowed where it is often demonstrable that there is economic benefit, and if you take what we know to be true, namely that it will employ people and generate money for the local economy, then it will always be of demonstrable economic benefit. However, that is in isolation.

Pan gyflwynir dadl o'r fath, mae'n hawdd portreadu trigolion sy'n byw wrth ymyl y tyllau erchyll hyn fel dim mwy na hen bobl ddiflas sy'n dweud 'na' i bopeth yn eu milltir sgwâr eu hunain, sy'n fodlon atal gweddill y byd rhag symud ymlaen a gwneud bywoliaeth cyn belled ag y gallant gael eu darn bach pert o gefn gwlad eu hunain i'w fwynhau. Fodd bynnag, nid felly y mae. Drwy ddadlau felly cesglir mai glo brig yw'r unig fusnes yn yr ardal lle y caiff ei ddarganfod. Yr hyn sy'n rhyfedd yw y bydd Gweinidogion yn sefyll i fyny a dweud wrthym pa mor galed y maent yn gweithio i ddenu swyddi gweithgynhyrchu lefel uchel ac yn twtian am lefelau allyriadau, ond yn methu â thynnu'r ddau beth at ei gilydd ac yn meddwl, o bosib, fod gweithfeydd glo brig, nad ydynt yn enwog am arferion amgylcheddol da, yn atal mewnfuddsoddiad ac yn gorfodi gweithgynhyrchwyr llawr glân a busnesau cysylltiedig i symud i rywle arall. Y mater sy'n codi, a byddaf yn manylu arno yn fy nadl fer, yw y gall mwynglawdd gael caniatâd lle mae'n aml yn dangos bod budd economaidd, ac os ydych yn cymryd yr hyn y gwyddom sy'n wir, sef y bydd yn cyflogi pobl ac yn cynhyrchu arian i'r economi leol, yna bydd bob amser o fudd economaidd amlwg. Fodd bynnag, ei ystyried ar wahân i bopeth arall a wneir.

What planning policy—Welsh Government-directed planning policy and the planning policy that it should adhere to itself—needs to take account of is the economic disadvantage. We have a lot going for us in Wales. A lot of the conditions needed to attract or create high-end green businesses that pay well and so inject more money into local economies are here. However, we are being blindsided by the relatively modest benefits of opencast mines and in danger of developing a reputation for being desperate enough to take any job creation, while ignoring the long-term benefits of planning for a sustainable, clean economy. What I ask now of the Minister is this: what work have you done to identify the economic disadvantages of opencast mining on existing business and potential inward investment? Do you think that its impact should become a consideration for planners and will you consider including this aspect in legislation in the forthcoming planning Bill?

Yr hyn y mae angen i bolisi cynllunio— polisi cynllunio a gyfarwyddir gan Lywodraeth Cymru a'r polisi cynllunio y dylid cadw ato ei hun—ei ystyried yw'r anfantais economaidd. Mae gennym lawer o fanteision yng Nghymru. Mae llawer o'r amodau sydd eu hangen i ddenu neu greu busnesau gwyrdd uwchraddol sy'n talu'n dda ac felly'n chwistrellu mwy o arian i mewn i economïau lleol yma. Fodd bynnag, rydym yn cael eu dallu gan y manteision cymharol fach sy'n deillio o weithfeydd glo brig ac rydym mewn perygl o feithrin enw am fod yn ddigon bodlon derbyn unrhyw beth sy'n creu swyddi, tra'n anwybyddu manteision hirdymor cynllunio ar gyfer economi gynaliadwy glân. Yr hyn yr wyf yn ei ofyn yn awr i'r Gweinidog yw hyn: pa waith yr ydych wedi'i wneud i nodi anfanteision economaidd cloddio glo brig ar fusnes sydd eisoes yn bodoli a buddsoddiad posibl o'r tu allan? A ydych yn credu y dylai ei effaith fod yn ystyriaeth i gynllunwyr ac a fyddwch yn ystyried cynnwys yr agwedd hon mewn deddfwriaeth yn y Bil cynllunio arfaethedig?

I see this as a put-your-money-where-your-mouth-is issue for the Welsh Government. Until now, it has fought shy of tackling the real issues associated with opencast mining. However, if it is serious—

Ystyriaf hyn yn fater rhoi eich arian ar eich gair i Lywodraeth Cymru. Hyd yn hyn, mae wedi osgoi mynd i'r afael â'r problemau gwirioneddol sy'n gysylltiedig â chloddio glo brig. Fodd bynnag, os yw o ddifrif—

17:13 **David Rees** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Do you agree, therefore, in talking about economic disadvantages, that one of them must be the cost to the environment and the communities of restoration after opencast mining and the fact that they do not consider the long-term implications of the costs incurred over time?

A ydych yn cytuno, felly, wrth sôn am anfanteision economaidd, mai rhaid mai un ohonynt yw'r gost i'r amgylchedd a chymunedau sy'n gysylltiedig ag adfer ar ôl cloddio glo brig a'r ffaith nad ydynt yn ystyried goblygiadau hirdymor y costau dros gyfnod o amser?

17:13 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Exactly. That is why, in our area, we have been frustrated by the fact that the restoration plans have not been put in place and that communities have had a hole in the ground for nigh on 10 to 15 years, David. I can only agree with you about that.

Yn union. Dyna pam rydym ni, yn ein hardal ni, wedi bod yn teimlo'n rhwystredig oherwydd y ffaith nad oedd y cynlluniau adfer wedi cael eu rhoi ar waith a bod cymunedau wedi gorfod byw gyda thwll yn y ddaear am bron 10 i 15 mlynedd, David. Ni allaf ond cytuno â chi ynglŷn â hynny.

If we are serious about attracting good-quality inward investment, about creating new, clean, green and sustainable business, and about tackling poverty and creating affluence, we need to deal with the monster from yesteryear that remains in our midst, and that is coal. We need to get serious about opencast mining, Minister, and, as a new Minister, you are best placed to do this and to take seriously the issues that will be raised not only by me from Plaid Cymru, but, I am sure, by backbench Members from your party who are increasingly frustrated by the lack of accountability that these opencast mining operators see themselves operating in.

Os ydym o ddifrif ynghylch denu mewnfuddsoddiad o ansawdd da, am greu busnes newydd, glân, gwyrdd a chynaliadwy, ac am fynd i'r afael â thlodi a chreu cyfoeth, mae angen inni ddelio â'r anghenfil o'r gorffennol sy'n dal yn ein plith, sef glo. Mae angen inni ddechrau ystyried gweithfeydd glo brig o ddifrif, Weinidog, ac, fel Gweinidog newydd, chi sydd yn y sefyllfa orau i wneud hyn ac i gymryd o ddifrif y materion a godir, nid yn unig gennym ni ym Mhlaid Cymru, ond, rwy'n siŵr, gan Aelodau meinciau cefn eich plaid sy'n teimlo'n fwyfwy rhwystredig ynglŷn â'r diffyg atebolrwydd y mae gweithredwyr gweithfeydd glo brig yn ystyried eu bod yn gweithredu oddi mewn iddo.

17:14 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

May I thank Plaid Cymru for bringing forward this debate this afternoon, if only because it is different to our normal debates on Wednesday? It is something on which we might have a level of agreement. To start with, one of the great forgotten achievements of the greatest Westminster Government that we ever had, the Attlee Government of 1945 to 1951, was the Town and Country Planning Act 1947, which came into effect in 1948 and still forms the basis of planning law in Britain. I know that the Act has been substantially amended over time, but the basic principles are there. This brought a fundamental requirement to legislation, which was to establish that planning permission was required for land development. Ownership no longer conferred the right to develop land. Are we not very pleased about that? To control this, the Act reorganised the planning system and required comprehensive development plans.

A gaf ddiolch i Blaid Cymru am gyflwyno'r ddadl hon y prynhawn yma, os mai dim ond am ei bod yn wahanol i'n dadleuon arferol ar ddydd Mercher? Mae'n rhywbeth y gallem gael rhywfaint o gytundeb yn ei gylch. I ddechrau, un o gyflawniadau anghofiedig mawr y Llywodraeth wychaf a welsom erioed yn San Steffan, sef Llywodraeth Attlee rhwng 1945 a 1951, oedd Deddf Gwlad a Thref 1947, a ddaeth i rym yn 1948 ac sy'n dal i fod yn sail i gyfraith cynllunio ym Mhrydain. Gwn fod y Ddeddf wedi'i diwygio'n sylweddol dros amser, ond erys yr egwyddorion sylfaenol. Cyflwynodd ofyniad sylfaenol o ran deddfwriaeth, sef cadarnhau bod angen caniatâd cynllunio i ddatblygu tir. Nid oedd perchenogaeth yn rhoi'r hawl i ddatblygu tir mwyach. Onid ydym yn falch iawn o hynny? Er mwyn rheoli hyn, ad-drefnodd y Ddeddf y system gynllunio ac fe'i gwnaed yn ofynnol i gyflwyno cynlluniau datblygu cynhwysfawr.

The Plaid Cymru motion today notes,

Mae cynnig Plaid Cymru yn nodi heddiw,

'the key role of the planning system in contributing towards economic, environmental and social sustainability'.

'rôl allweddol y system gynllunio o ran cyfrannu tuag at gynaliadwyedd economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol'.

There is a challenge here for the planning system to achieve this through development plans and detailed planning decisions. Planners and the planning system get it wrong occasionally, as some planners have their own petty obsessions. However, I would argue that local authority planning committees get it right more often than the unelected, but appointed, planning inspectors who sometimes overturn their decisions with little knowledge of the area.

Mae her i'r system gynllunio gyflawni hyn drwy gynlluniau datblygu a phenderfyniadau cynllunio manwl. Mae cynllunwyr a'r system gynllunio yn gwneud penderfyniadau anghywir o bryd i'w gilydd, am fod gan rai cynllunwyr eu hobsesiynau bach eu hunain. Fodd bynnag, byddwn yn dadlau bod pwyllgorau cynllunio awdurdodau lleol yn cael pethau'n iawn yn amlach na'r arolygwyr cynllunio a benodwyd ond nad ydynt wedi'u hethol, sydd weithiau yn gwrthdroi eu penderfyniadau er nad ydynt yn adnabod yr ardal.

Planning must be used as a means of protecting the environment and achieving social sustainability and economic prosperity, as well as putting the right things in the right place for the benefit of everyone. That is where the word 'plan' comes from.

Rhaid i'r drefn gynllunio gael ei defnyddio fel modd i ddiogelu'r amgylchedd a sicrhau cynaliadwyedd cymdeithasol a ffyniant economaidd, yn ogystal â rhoi'r pethau iawn yn y lle iawn er budd pawb. Dyna ystyr y gair 'cynllun'.

There is a need, particularly in urban areas, for local authorities to work together to achieve the best for the larger communities, in both the Cardiff and Swansea city regions. Both housing and commercial developments and the necessary infrastructure, including meeting transportation need, must be planned on a regional basis. We want no more estates being built with no public transport links, and no more commercial and industrial areas that cannot be reached by public transport or, where there is public transport, not at the times that people start and finish work. Really, it is about a holistic approach. You cannot just build houses in one place, put offices and factories in another, and then just assume that everyone will have a car to get there. There is, too often, a huge expectation of this. There is a need for the infrastructure—a need for people to be able to get to work. With some of the older estates near where I live, although they are great, you cannot get a bus after 4.30 p.m. So, it is okay as long as you can finish work in time to get home by 4.30 p.m. Planning needs to be integrated. It needs to work for the people of the area and for their benefits, and not just to maximise the financial return for the landowner.

Mae angen, yn enwedig mewn ardaloedd trefol, i awdurdodau lleol gydweithio â'i gilydd er mwyn sicrhau'r gorau dros y cymunedau mawr, yn ninas-ranbarthau Caerdydd ac Abertawe. Rhaid i ddatblygiadau tai a masnachol a'r seilwaith angenrheidiol, gan gynnwys diwallu anghenion cludiant, gael eu cynllunio ar sail ranbarthol. Nid ydym am weld rhagor o ystadau yn cael eu hadeiladu heb unrhyw gysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus, nac ardaloedd masnachol a diwydiannol na ellir eu cyrraedd ar drafnidiaeth gyhoeddus neu, lle mae trafnidiaeth gyhoeddus, nid yw ar gael ar yr adegau y mae pobl yn dechrau ac yn gorffen gwaith. Yn wir, mae a wnelo â dull gweithredu cyfannol. Ni allwch adeiladu tai mewn un lle, rhoi swyddfeydd a ffatrïoedd mewn lle arall, a chymryd yn ganiataol y bydd car gan bawb i gyrraedd yno. Yn rhy aml, mae disgwyliad mawr mai felly y bydd. Mae angen seilwaith—mae angen i bobl allu cyrraedd y gwaith. O ran rhai o'r ystadau hŷn sy'n agos i ble rwy'n byw, er eu bod yn wych, ni allwch gael bws ar ôl 4:30 p.m. Felly, mae'n iawn cyn belled ag y gallwch orffen gwaith mewn pryd i gyrraedd adref erbyn 4:30 p.m. Mae angen i waith cynllunio fod wedi'i integreiddio. Mae angen iddo weithio i bobl yr ardal ac er eu budd, ac nid er mwyn gwneud yr elw ariannol mwyaf i berchennog y tir yn unig.

I would prefer the second point to read:

Byddai'n well gennyf pe bai'r ail bwynt yn darllen:

'Local development plans better reflect the housing needs of the wider area'.

'bod cynlluniau datblygu lleol yn adlewyrchu anghenion tai'r ardal ehangach yn well'.

While I agree with the sentiment, it could be seen as the village or suburb rather than the county or city region. However, it is also important that villages and hamlets are not swamped by new developments, which can put a serious strain on the infrastructure, ranging from the sewerage system to the local school. I live in Swansea, in Edwina Hart's constituency, which is a huge area. The sewerage system is put under tremendous strain by planning decisions and the developments that have taken place there.

Er fy mod yn cytuno â'r syniad, gallai gael ei ystyried yn lefel y pentref neu'r faestref yn hytrach na lefel y sir neu'r dinas-ranbarth. Fodd bynnag, mae'n bwysig hefyd nad yw pentrefi na phentrefannau yn cael eu llethu gan ddatblygiadau newydd, a all roi straen mawr ar y seilwaith, yn amrywio o'r system garthffosiaeth i'r ysgol leol. Rwy'n byw yn Abertawe, yn etholaeth Edwina Hart, sy'n ardal enfawr. Mae'r system garthffosiaeth yn cael ei rhoi o dan straen aruthrol gan benderfyniadau cynllunio a'r datblygiadau sydd wedi digwydd yno.

Failure to protect the language in planning developments was brought home to me by my daughter, who believes that she must move to the constituency of Dafydd Elis-Thomas if she wants to live a life using the Welsh language as her main means of communication. That cannot be right. We do need—

Tanlinellwyd y methiant i warchod yr iaith mewn datblygiadau cynllunio gan fy merch, sy'n credu bod yn rhaid iddi symud i etholaeth Dafydd Elis-Thomas os yw hi am fyw bywyd yn ddefnyddio'r Gymraeg fel ei phrif ddull o gyfathrebu. Ni all hynny fod yn iawn. Mae angen—

17:18

## Lindsay Whittle Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Would you be welcome, though?

Ond a fyddech yn cael croeso yno?

17:18

## Mike Hedges Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Yes; one Labour voter there is what you desperately need.

Byddwn, mae angen pleidleisiwr Llafur yno yn ddybryd.

However, I would go further than Plaid Cymru on this and ask that, in designated areas where the Welsh-speaking population still exceeds 70% of the population, which I believe is the number that you need for it to be the language of a community—when it drops under that you reach the stage where English starts creeping in, becoming the language of a community because you do not have enough people who speak Welsh—the protection of the language should be the primary planning consideration. Those of you who have seen the 2011 census will know about the retreat of the Welsh language in those areas that have traditionally been the strongest, in west and north-west Wales. Unless we are very careful we will see the Welsh language become the language of the primary school, the secondary school and work, but not the language of people discussing things in the street, and not the language of the chapels.

Fodd bynnag, byddwn yn mynd ymhellach na Phlaid Cymru o ran hyn a gofyn, mewn ardaloedd dynodedig lle mae'r boblogaeth sy'n siarad Cymraeg yn dal yn fwy na 70% o'r boblogaeth, dyna'r ganran sydd ei hangen er mwyn iddi fod yn iaith gymunedol, fe gredaf—pan fydd yn gostwng o dan y ganran hon byddwch yn cyrraedd sefyllfa lle mae'r Saesneg yn dechrau ymdreiddio, yn dechrau dod yn iaith y gymuned, am nad oes gennych ddigon o bobl sy'n siarad Cymraeg—mai gwarchod yr iaith ddylai fod yn brif ystyriaeth gynllunio. Bydd y rhai ohonoch sydd wedi gweld cyfrifiad 2011 yn gwybod am enciliad y Gymraeg yn yr ardaloedd hynny lle y bu gryfaf yn draddodiadol, yn y gorllewin a'r gogledd-orllewin. Oni bai ein bod yn ofalus iawn, byddwn yn gweld y Gymraeg yn dod yn iaith yr ysgol gynradd, yr ysgol uwchradd a'r gweithle, ond nid iaith y bobl wrth drafod pethau ar y stryd, nac iaith y capeli.

The Welsh Labour Government has made substantial progress, and the planning Bill is the chance to bring in those regional plans and perhaps the last chance to save the Welsh language as a community language as opposed to just the language of school and work.

Mae Llywodraeth Lafur Cymru wedi gwneud cynnydd sylweddol, a'r Bil cynllunio yw'r cyfle i gyflwyno'r cynlluniau rhanbarthol hynny ac o bosibl y cyfle olaf i achub y Gymraeg fel iaith gymunedol yn hytrach na dim ond iaith yr ysgol a'r gweithle.

17:19 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Mae'n wir—fel y dywedodd Mike Hedges, mae gwir berygl o gyfaddawd a chytundeb yn y Siambr. Hoffwn ddilyn Mike Hedges drwy sôn ychydig mwy am y camau y gallem eu cymryd i sicrhau a diogelu lle'r Gymraeg wrth gynllunio.

It is true—as Mike Hedges said, there is a real danger of compromise and agreement in this Chamber. I would like to follow Mike Hedges by talking a bit more about the steps that we could take to safeguard and protect the Welsh language in the planning process.

Rwy'n cytuno â llawer o'r pwyntiau cyffredinol a wnaed gan Mike. Wrth gwrs, un o'r ffyrdd o wneud hyn yw sicrhau bod nodyn technegol cenedlaethol cryf yn ei le i ddiogelu beth yw rôl y Gymraeg wrth gynllunio. Mae'r Llywodraeth wedi bod yn ymgynghori ers dwy flynedd ar y nodyn technegol newydd, TAN 20, ac mae'n drist gweld nad yw'r nodyn hwnnw yn ei le eto. Mae'r rheswm am hynny fel a ganlyn. Yn y cyfnod rydym wedi bod drwyddo, mae nifer fawr—efallai saith—o awdurdodau cynllunio wedi paratoi eu cynlluniau, ac mae 10 awdurdod arall yn debygol o wneud eu cynlluniau eleni. Mae hynny'n golygu y bydd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi paratoi eu cynlluniau heb gael TAN 20, sef cyfarwyddyd cryf dros rôl y Gymraeg, yn eu dwylo ac yn barod i'w ddefnyddio. Credaf fod hynny'n siom. Gwn fod y Llywodraeth yn poeni am hyn, a'i bod yn paratoi. Byddai'n braf pe bai'r Gweinidog yn gallu rhannu â'r Cynulliad heddiw rai o'r ystyriaethau y mae'n meddwl amdanynt wrth baratoi'r TAN newydd. Pwy â wŷr? Efallai y byddwn yn gallu helpu gyda'r broses honno.

I agree with many of the general points made by Mike. Of course, one way of doing this is by ensuring that a strong national technical note is put in place to safeguard the role of the Welsh language in planning. The Government has been consulting for two years on the new TAN 20, and it is sad that it is not yet in place. The reason for that is as follows. In the period just ending, a large number of planning authorities—perhaps seven—have prepared their plans, and another 10 authorities are likely to prepare their plans this year. That means that most local authorities will have prepared their plans without having had TAN 20, with its strong guidance on the role of the Welsh language, to hand, ready to be used. I believe that that is disappointing. I know that this is of concern to the Government, and that it is being prepared. It would be good for the Minister to be able to share with the Assembly today some of the considerations that is has in mind as it prepares the new TAN. Who knows? We might be able to help with that process.

Gofynnais gwestiwn i'r Gweinidog yr wythnos diwethaf am TAN 20. Rwy'n poeni am y ffaith ei fod wedi gosod paratoi TAN 20 yng nghyd-destun y sgwrs fawr, sef y sgwrs genedlaethol y mae'r Llywodraeth yn ei chael am yr iaith Gymraeg. Hoffwn ddyfynnu ateb y Gweinidog:

I asked the Minister a question last week on TAN 20. I am worried that he placed the preparation of TAN 20 in the context of the big conversation—the national conversation that the Government wants about the Welsh language. I will quote the Minister's reply:

'If the First Minister is applying a process whereby the big conversation around the Welsh language is taking place, that may inform me better before I release the revised TAN 20.'

'Os yw'r Prif Weinidog yn cymhwyso proses lle y cynhelir y sgwrs fawr am y Gymraeg, gallai hynny roi mwy o arweiniad imi cyn imi gyhoeddi TAN 20 diwygiedig.'

Deallaf y pwynt y mae'r Gweinidog yn ei wneud. Fodd bynnag, mae'n awgrymu na fyddwn yn gweld TAN 20 tan ddiwedd y flwyddyn. Byddai hynny ddwy flynedd a hanner ers i'r broses ymgynghori ddechrau. Yn y cyfamser, mae penderfyniadau mawr yn cael eu gwneud, megis ynghylch Penybanc ger Rhydaman yn fy rhanbarth i, sy'n tanlinellu rhai o'r anawsterau. Hoffwn dynnu sylw'r Cynulliad at yr hyn a ddigwyddodd yn achos Penybanc. Gwnaed asesiad iaith gan y datblygwr, a ddywedodd y byddai'r datblygiad mawr hwn o dai yn cael effaith bositif ar yr iaith. Dyna asesiad y datblygwr. Gwnaed asesiad gan y cyngor cymuned, a oedd yn negyddol. Yn bwysig iawn, gwnaed asesiad gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, a ddywedodd hefyd y byddai datblygiad o'r maint hwnnw yn negyddol i un o'r ardaloedd hynny—fel y dywedodd Mike Hedges—lle mae'r iaith ar y dibyn, a lle bydd y rhod yn troi os na fyddwn yn ofalus, gan droi'r iaith o fod yn iaith y gymuned i fod yn iaith leiafrifol, gan greu sefyllfa lle gallai dyfodol yr iaith fod mewn cwestiwn. Yn y cyd-destun hwnnw, er bod bwrdd yr iaith wedi gwneud asesiad ac wedi dweud y byddai'r datblygiad yn andwyol i'r iaith Gymraeg, gwawdiwyd ac anwybyddwyd y farn honno gan yr awdurdod cynllunio. Mae'r sefyllfa honno, felly, yn codi'r cwestiwn o sut y gallwn fwrw ymlaen â'r syniadau y soniodd Mike Hedges amdanynt, heb fod gennym TAN 20 pwerus a chryf yn ei le. Os oes problem gyda llunio'r TAN, dewch ag ef i'r Cynulliad, fel y gallwn ei drafod a cheisio dod o hyd i'r ffordd ymlaen.

I understand the point that the Minister makes. However, he is suggesting that we will not see TAN 20 until the end of the year. That would be two and a half years after the start of the consultation process. In the meantime, big decisions are being made, such as the one on Penybanc in Ammanford in my region, which underline some of the difficulties. I would like to draw the Assembly's attention to what happened in the Penybanc case. The developer undertook a language assessment, and said that this large housing development would have a positive effect on the language. That was the developer's assessment. The community council undertook an assessment, which was negative. Importantly, the Welsh Language Board undertook an assessment, which also said that such a large development would negatively impact upon one of those areas—as Mike Hedges said—that is on a cliff edge, and where there will be a shift, if we are not careful, in the language from being a community language to being a minority language, creating a situation whereby the future of the language could be in doubt. In that context, despite the language board's assessment having said that the development would be detrimental to the language, that view was ridiculed and ignored by the planning authority. That situation, therefore, raises a question with regard to how we proceed with the ideas mentioned by Mike Hedges without a strong and powerful TAN 20 in place. If there is a problem with formulating the TAN, bring it to the Assembly, so that we can discuss it and try to find the way forward.

Y mater arall rwyf am ei drafod heddiw yw rôl cynllunio wrth ddatblygu ynni adnewyddadwy ac economi gref.

The other issue that I want to discuss today is the role of planning in developing renewable energy and a strong economy.

A little of the debate that we have had so far perhaps looks at planning as stopping things from happening. Let us look at planning as a way of helping things to happen. We have very strong renewable energy targets here in Wales, which I want to see realised. I have seen evidence that we could have 2,000 extra jobs here in Wales now, had we realised those renewable energy targets to date. We want to see the planning system work with the grain of those developments. I want to make a plea, particularly for issues around the Swansea tidal lagoon. There is a very exciting project there. I also refer to the Ramsey sound DeltaStream tidal project. I am also talking about having a permissive attitude towards small, on-farm or domestic renewable developments, whether they are hydro or wind. We need a great boost in how we approach renewable energy in Wales. There is an opportunity to reform our planning system, in a way that looks favourably at renewables and puts them as a natural part of development in Wales. That would undoubtedly lead to jobs. Some 11,000 jobs in Scotland at the moment are reliant on renewable energy.

Mae ychydig o'r ddadl yr ydym wedi'i chael hyd yn hyn wedi edrych o bosibl ar gynllunio fel rhywbeth sy'n atal pethau rhag digwydd. Gadewch inni edrych ar gynllunio fel ffordd o helpu pethau i ddigwydd. Mae gennym dargedau ynni adnewyddadwy cryf iawn yma yng Nghymru, ac rwyf am eu gweld yn cael eu gwireddu. Rwyf wedi gweld tystiolaeth y gallai fod wedi bod 2,000 o swyddi ychwanegol yma yng Nghymru erbyn hyn, pe baem wedi gwireddu'r targedau ynni adnewyddadwy hynny hyd yma. Rydym yn awyddus i weld y system gynllunio yn gweithio i'r un cyfeiriad â'r datblygiadau hynny. Rwyf am wneud ple, yn arbennig o ran materion sy'n ymwneud â morlyn llanw Abertawe. Mae'n brosiect cyffrous iawn yno. Rwyf hefyd yn cyfeirio at brosiect llanw DeltaStream yn swnt Dewi. Rwyf hefyd yn sôn am agwedd ganiataol tuag at ddatblygiadau adnewyddadwy bach ar ffermydd neu mewn cartrefi, p'un a ydynt yn rhai ynni dŵr neu ynni'r gwynt. Mae arnom angen hwb mawr yn y ffordd yr ydym yn ymdrin ag ynni adnewyddadwy yng Nghymru. Mae cyfle i ddiwygio ein system gynllunio, mewn ffordd sy'n edrych yn ffafriol ar ynni adnewyddadwy ac yn ei ystyried yn rhan naturiol o ddatblygiadau yng Nghymru. Byddai hynny yn sicr yn arwain at swyddi. Mae tua 11,000 o swyddi yn yr Alban yn dibynnu ar ynni adnewyddadwy ar hyn o bryd.

17:24 **Lynne Neagle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I am sure that Members will not be surprised that I want to talk about the Varteg Hill opencast application today, to highlight that situation once again, not just because it is causing huge concern for my constituents, but also because it illustrates a really worrying disconnect between the Welsh planning system and the communities it is meant to serve. As things stand, the people of Varteg are in limbo, awaiting a final decision after it emerged in January that the previous Minister for environment was minded to approve plans to opencast—plans that had previously been rejected by the local authority. The overwhelming majority of local residents, many of whom live less than 100 m from the site, deep inside the 500m buffer zone, bitterly oppose the proposals.

Rwy'n siŵr na fydd yr Aelodau yn synnu fy mod am sôn am gais gweithfa glo brig Bryn y Farteg heddiw, er mwyn tynnu sylw at y sefyllfa honno unwaith eto, nid yn unig am ei fod yn achosi pryder mawr i'm hetholwyr, ond hefyd am ei fod yn dangos diffyg cyswllt rhwng system gynllunio Cymru a'r cymunedau y dylai eu gwasanaethu, sy'n achos pryder mawr. Fel y saif pethau, mae pobl y Farteg mewn gwagle, yn aros am benderfyniad terfynol ar ôl iddi ddod i'r amlwg ym mis Ionawr bod y Gweinidog blaenorol dros yr amgylchedd yn ystyried cymeradwyo cynlluniau ar gyfer gweithfa glo brig— cynlluniau a wrthodwyd cynt gan yr awdurdod lleol. Mae'r mwyafrif llethol o drigolion lleol, y mae llawer ohonynt yn byw lai na 100m o'r safle, yn ddwfn y tu mewn i'r glustogfa o 500m, yn gwrthwynebu'r cynigion yn chwyrn.

There is grave concern, too, for nearby Ysgol Bryn Onnen, where parents, teachers and governors fear for the impact on their current cohort of learners and future school rolls, and for the school site's very viability if the development goes ahead. There are also real fears that Blaenavon's precious world heritage site status could be threatened by the 120 trucks a week, carrying coal from Varteg, that would thunder through its narrow streets.

Mae pryder mawr, hefyd, ynglŷn ag Ysgol Bryn Onnen gerllaw, lle mae rhieni, athrawon a llywodraethwyr yn poeni am yr effaith ar eu carfan bresennol o ddysgwyr a chofrestr yr ysgol yn y dyfodol, ac yn wir am hyfywedd safle'r ysgol pe bai'r datblygiad yn mynd rhagddo. Mae ofnau gwirioneddol hefyd y gallai statws safle treftadaeth y byd gwerthfawr Blaenafon gael ei beryglu gan y 120 o wagenni yr wythnos, yn cludo glo o'r Farteg, a fyddai'n taranu drwy ei strydoedd cul.

While the motion and amendments today understandably focus on reshaping our planning system, so that it better delivers strategic priorities, in Varteg and other cases that I have dealt with, it is as much about current planning policy not being properly implemented on the ground. I recently gave evidence to the Petitions Committee on a locally led petition calling for MTAN 2 and the 500m buffer zone to be made Welsh planning law. Members will recall that the buffer zone was arrived at and then backed unanimously by AMs after years of vigorous political debate. Indeed, it was the principal reason the Varteg proposals were rejected by Torfaen council in the first place. So, whatever the technical arguments over whether planning guidance should be incorporated in statute, or whether the TANs need the wider review that the Lib Dem amendment calls for, for me, the fact that MTAN 2 has failed the residents of Varteg shows that communities on the ground need assurances that policies intended to protect them will be upheld by planning inspectors and, ultimately, by Welsh Government Ministers. Local authorities also need certainty that, by following Welsh Government guidance, they will not be left facing crippling legal bills if a decision is appealed, and the guidance not then upheld.

Er bod y cynnig a'r gwelliannau heddiw yn canolbwyntio ar ad-drefnu ein system gynllunio, a hynny'n ddealladwy, er mwyn iddi gyflawni blaenoriaethau strategol yn well, yn achos y Farteg ac achosion eraill yr wyf wedi ymdrin â hwy, mae a wnelo cymaint â'r ffaith nad yw'r polisi cynllunio cyfredol yn cael ei weithredu'n briodol ar lawr gwlad. Yn ddiweddar, rhoddais dystiolaeth i'r Pwyllgor Deisebau ar ddeiseb leol yn galw am i MTAN 2 a'r glustogfa o 500m ddod yn gyfraith cynllunio Cymru. Bydd yr Aelodau yn cofio i'r glustogfa gael ei phennu ac yna'i chefnogi'n unfrydol gan ACau ar ôl blynyddoedd o ddadlau gwleidyddol egnïol. Yn wir, dyna'r prif reswm y gwrthodwyd cynigion y Farteg gan gyngor Torfaen yn y lle cyntaf. Felly, beth bynnag fo'r dadleuon technegol ynghylch a ddylai canllawiau cynllunio gael eu hymgorffori mewn statud, neu a oes angen yr adolygiad ehangach o'r Nodiadau Cyngor Technegol y mae gwelliant y Democratiaid Rhyddfrydol yn galw amdano, i mi, mae'r ffaith nad yw MTAN 2 wedi gwarchod trigolion y Farteg yn dangos bod angen i gymunedau ar lawr gwlad gael sicrwydd y bydd polisïau y bwriedir iddynt eu gwarchod yn cael eu gweithredu gan arolygwyr cynllunio ac, yn y pen draw, gan Weinidogion Llywodraeth Cymru. Mae angen sicrwydd ar awdurdodau lleol hefyd, drwy ddilyn canllawiau Llywodraeth Cymru, na fyddant yn wynebu biliau cyfreithiol enfawr os bydd penderfyniad yn cael ei apelio, ac yna na chaiff canllawiau eu cadarnhau.

For me, another troubling aspect of current planning system is highlighted by the fact that, to this day, along with local residents, I am totally in the dark as to why the MTAN 2 appears to have been ignored. It is deeply frustrating that, as an elected representative, I have to battle for the release of the planning inspector's report through the Office of the Information Commissioner, when it has been sitting on the desk of an unelected civil servant in Cathays park for over a year. We have fallen behind England in this regard, as planning inspectors' reports are routinely released at this stage in the process there. I understand the cynicism and frustration felt by Varteg residents when Welsh Government planners cited maintaining the openness and transparency of the planning system as the reason for not disclosing this key report. Equally frustrating, however, are the lengthy delays that can blight the system. Torfaen council rejected opencasting in Varteg back in January 2011, yet, some two and a half years later, this matter has still not been settled. When chasing the Minister for a decision last year, it was obvious that the system was becoming overwhelmed by the sheer number of cases being dealt with, and while a cursory glance at the planning division's caseload summary ahead of this debate would suggest that those pressures have eased somewhat, it is still very concerning how long it is taking to turn decisions around.

I mi, amlygir agwedd arall ar y system gynllunio bresennol sy'n peri gofid gan y ffaith, hyd y dydd hwn, ynghyd â thrigolion lleol, nad oes gennyf unrhyw amcan pam mae MTAN 2 wedi cael ei anwybyddu i bob golwg. Mae'n hynod rwystredig, fod yn rhaid imi, fel cynrychiolydd etholedig, frwydro i gael gweld adroddiad yr arolygydd cynllunio drwy Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, er ei fod wedi bod yn eistedd ar ddesg gwas sifil anetholedig ym mharc Cathays ers dros flwyddyn. Rydym ar ei hôl hi o gymharu â Lloegr yn hyn o beth, gan fod adroddiadau arolygwyr cynllunio yn cael eu cyhoeddi ar y cam hwn o'r broses fel mater o drefn yno. Deallaf y sinigiaeth a'r rhwystredigaeth a deimlir gan drigolion y Farteg pan gyfeiriodd cynllunwyr Llywodraeth Cymru at gynnal natur agored a thryloywder y system gynllunio fel y rheswm dros beidio â datgelu'r adroddiad allweddol hwn. Yr un mor rhwystredig, fodd bynnag, yw'r oedi mawr a all fod yn rhan o'r system. Gwrthododd cyngor Torfaen waith glo brig yn y Farteg yn ôl ym mis Ionawr 2011, ac eto, tua dwy flynedd a hanner yn ddiweddarach, mae'r mater hwn eto i'w benderfynu. Pan oeddwn yn mynd ar ôl y Gweinidog i gael penderfyniad y llynedd, roedd yn amlwg bod y system yn dechrau cael ei llethu gan y nifer fawr o achosion yr oedd yn ymdrin â hwy, ac er y byddai cipolwg brysiog ar grynodeb yr adran gynllunio o'i llwyth gwaith cyn y ddadl hon yn awgrymu bod y pwysau hynny yn lleddfu ychydig, mae'n bryder o hyd pa mor hir mae'n ei gymryd i wneud penderfyniadau.

Finally, I believe that a wider, more fundamental problem with the planning system exists, in that people and communities often do not feel that they have a genuine voice. Developments such as the one at Varteg, which bring few jobs and economic benefits, and which contain minimal measures to mitigate the impact on nearby residents, are foisted on communities, often in deprived areas, with little or no attempt to work with and seek the views of local people prior to formal consultation. In themselves, those consultations all too often feel like little more than slickly presented box-ticking exercises. We all want to see a Welsh planning system that can deliver on strategic priorities, boost growth and economic development, and deliver jobs, but I believe that we must urgently address some of the fundamental issues that I have described, so that it delivers for communities like Varteg in my constituency.

Yn olaf, credaf fod gan y system gynllunio broblem ehangach a mwy sylfaenol, yn yr ystyr bod pobl a chymunedau yn aml yn teimlo nad oes ganddynt lais mewn gwirionedd. Mae datblygiadau fel yr un yn y Farteg, nad yw'n dod â llawer o swyddi na manteision economaidd, ac sy'n cynnwys y mesurau lleiaf posibl i liniaru'r effaith ar drigolion cyfagos, yn cael eu gorfodi ar gymunedau, yn aml mewn ardaloedd difreintiedig, heb fawr ddim ymdrech i weithio gyda phobl leol na cheisio eu barn cyn yr ymgynghoriad ffurfiol. Mae'r ymgynghoriadau, ynddynt eu hunain, yn rhy aml yn teimlo fel dim byd mwy nag ymarferion ticio blychau wedi'u cyflwyno'n dwt. Rydym i gyd am weld system gynllunio yng Nghymru sy'n gallu cyflawni blaenoriaethau strategol, hybu twf a datblygu economaidd, a darparu swyddi, ond credaf fod yn rhaid inni fynd i'r afael ar fyrder â rhai o'r problemau sylfaenol a ddisgrifiais, fel ei bod yn cyflawni dros gymunedau fel y Farteg yn fy etholaeth.

17:29

## Jocelyn Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I am delighted to be taking part in this debate, and I will focus on two aspects: first, the report by the Environment and Sustainability Committee on energy policy and planning, which was published last year, and then, I have some observations on housing. The very comprehensive report produced by the committee outlined a variety of issues linked to the planning process and its relationship to energy. One of the considerations of the committee was the relationship between local communities, energy projects and the natural environment. That has been an important consideration for us in Plaid Cymru and we have consistently argued for a meaningful role for local communities in the planning process in general and especially in relation to energy projects. However, we just heard the powerful case that was put forward by Lynne Neagle regarding why local communities need to be involved very early and consistently throughout the process.

Rwy'n falch iawn o gael cymryd rhan yn y ddadl hon, a hoffwn ganolbwyntio ar ddwy agwedd: yn gyntaf, adroddiad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar bolisi ynni a chynllunio, a gyhoeddwyd y llynedd, ac yna, hoffwn wneud rhai sylwadau ynglŷn â thai. Amlinellodd yr adroddiad cynhwysfawr iawn a baratowyd gan y pwyllgor amrywiaeth o faterion sy'n gysylltiedig â'r broses gynllunio a'i pherthynas ag ynni. Un o ystyriaethau'r pwyllgor oedd y berthynas rhwng cymunedau lleol, prosiectau ynni a'r amgylchedd naturiol. Bu honno'n ystyriaeth bwysig inni ym Mhlaid Cymru ac rydym wedi dadlau'n gyson dros roi rôl ystyrlon i gymunedau lleol yn y broses gynllunio yn gyffredinol ac yn arbennig mewn perthynas â phrosiectau ynni. Fodd bynnag, rydym newydd glywed yr achos cryf a gyflwynwyd gan Lynne Neagle ynglŷn â pham mae angen cynnwys cymunedau lleol yn gynnar iawn ac yn gyson drwy gydol y broses.

We are all familiar with EU, UK and Welsh targets for greenhouse gas emissions for renewables and so on, but it is obvious that there is a disconnect between these large-scale, and often abstract, targets and the people in the communities that they directly affect. Plaid is committed to meeting our international obligations and setting national targets but, at the same time, we must ensure a stake for local communities. It is much more about community participation than it is about people simply having a say through the usual consultation processes. Let us empower local communities to play their part in combating climate change in local energy production projects where they could be the decision makers and owners of such projects. Let us empower them to find suitable and sustainable energy resources that aid national and international efforts, in addition to supporting their local community.

Rydym i gyd yn gyfarwydd â thargedau'r UE, y DU a Chymru o ran allyriadau nwyon tŷ gwydr ar gyfer ynni adnewyddadwy ac yn y blaen, ond mae'n amlwg bod diffyg cysylltiad rhwng y targedau hyn ar raddfa fawr, sy'n aml yn haniaethol, a'r bobl yn y cymunedau y maent yn effeithio'n uniongyrchol arnynt. Mae Plaid yn ymrwymedig i gyflawni ein rhwymedigaethau rhyngwladol a phennu targedau cenedlaethol ond, ar yr un pryd, rhaid inni sicrhau budd i gymunedau lleol. Mae a wnelo llawer mwy â chyfranogiad cymunedau nag y mae a wnelo â phobl yn cael dweud eu dweud drwy'r prosesau ymgynghori arferol. Gadewch inni rymuso cymunedau lleol i chwarae eu rhan i wrthsefyll newid yn yr hinsawdd mewn prosiectau cynhyrchu ynni lleol lle mai hwy yw'r rhai sy'n gwneud y penderfyniadau a hwy yw perchenogion prosiectau o'r fath. Gadewch inni eu grymuso i ddod o hyd i adnoddau ynni addas a chynaliadwy sy'n cynorthwyo ymdrechion cenedlaethol a rhyngwladol, yn ogystal â chefnogi eu cymuned leol.

For that, we will require national leadership—a point made by the stakeholders who gave evidence to the committee. I would be interested to hear more about the Government's response to the seven recommendations made by the committee. It urged the establishment of a renewable energy delivery board to act as a co-ordinating body at a national level. It also urged collaboration between local planning authorities to deal with renewable energy projects. While I see no problem with collaboration at a supra-local national level, I reiterate that local participation and empowerment are essential and should be enshrined in the Government's approach to planning and energy. Without those, we should not be too surprised when ineffective and weak public engagement leads to conflict, opposition and feelings of injustice. For example, in Wales, there is widespread support for wind energy generally, but enduring objections to specific developments. Therefore, involvement prior to specific proposals may be more beneficial, along the lines that Simon Thomas outlined earlier on in relation to renewables.

Er hynny, bydd angen arweinyddiaeth genedlaethol—pwynt a wnaed gan y rhanddeiliaid a roddodd dystiolaeth i'r pwyllgor. Hoffwn glywed mwy am ymateb y Llywodraeth i'r saith argymhelliad a wnaed gan y pwyllgor. Roedd yn annog sefydlu bwrdd cyflawni ar gyfer ynni adnewyddadwy i weithredu fel corff cydlynu ar lefel genedlaethol. Roedd hefyd yn annog cydweithio rhwng awdurdodau cynllunio lleol i ymdrin â phrosiectau ynni adnewyddadwy. Er na welaf unrhyw broblem gyda chydweithredu ar lefel genedlaethol uwchben y lefel leol, pwysleisiaf fod cyfranogiad a grymuso lleol yn hanfodol ac y dylid eu hymgorffori yn y ffordd y mae'r Llywodraeth yn ymdrin â chynllunio ac ynni. Heb hynny, ni ddylem fod yn rhy syn pan fydd ymgysylltu aneffeithiol a gwan â'r cyhoedd yn arwain at wrthdaro, gwrthwynebiad a theimladau o anghyfiawnder. Er enghraifft, yng Nghymru, mae cefnogaeth gyffredinol i ynni'r gwynt, ond gwrthwynebiadau parhaus i ddatblygiadau penodol. Felly, efallai y bydd cyfranogiad cyn cyflwyno cynigion penodol yn fwy buddiol, ar hyd y llinellau a amlinellwyd gan Simon Thomas yn gynharach mewn perthynas ag ynni adnewyddadwy.

Housing is another policy area that evokes strong feelings and everyone calls for more affordable housing. However, housing applications can sometimes attract considerable opposition—sometimes from the same people—and megaphone politics run rife. Therefore, the needed schemes are sometimes defeated or delayed for many years. Another issue that needs addressing in relation to affordable housing is that a landowner might very well seek permission and get it without any serious intent to build any homes at all. The value of the land can be vastly increased if it has permissions and increased valuation may be useful if the landowner is, for instance, seeking loans against that asset, but with no intention whatsoever of building anything at all. That needs to be modernised and brought up to date. I wonder whether the Minister has a view on the lapsing of affordable housing permissions—all those that exist for many years without any progress at all and without any prospect of it. I look forward to hearing the Minister's views on the Government's vision for future planning in Wales and how that is going to be reflected in the legislation.

Mae tai yn faes polisi arall sy'n ennyn teimladau cryf ac mae pawb yn galw am fwy o dai fforddiadwy. Fodd bynnag, gall ceisiadau am dai weithiau ddenu cryn wrthwynebiad—weithiau gan yr un bobl—ac mae gwleidyddiaeth corn siarad yn cario'r dydd. Felly, mae'r cynlluniau sydd eu hangen yn cael eu trechu neu eu gohirio am flynyddoedd lawer weithiau. Mater arall y mae angen mynd i'r afael ag ef mewn perthynas â thai fforddiadwy yw ei bod yn ddigon posibl y gallai perchennog tir wneud cais am ganiatâd a'i gael heb unrhyw fwriad gwirioneddol o gwbl i adeiladu unrhyw gartrefi. Gall gwerth y tir gynyddu cryn dipyn os oes caniatadau a gall prisiadau uwch fod yn ddefnyddiol os yw perchennog y tir, er enghraifft, yn ceisio benthyciadau yn erbyn yr ased hwnnw, ond heb unrhyw fwriad o gwbl i adeiladu unrhyw beth. Mae angen moderneiddio a diweddaru hynny. Tybed a oes gan y Gweinidog farn ynglŷn â chaniatadau ar gyfer tai fforddiadwy sy'n mynd yn ddi-rym—yr holl ganiatadau hynny sy'n bodoli am flynyddoedd lawer heb unrhyw gynnydd o gwbl a heb unrhyw obaith o weld cynnydd. Edrychaf ymlaen at glywed barn y Gweinidog ar weledigaeth y Llywodraeth ar gyfer cynllunio yng Nghymru yn y dyfodol a sut y caiff hynny ei adlewyrchu yn y ddeddfwriaeth.

17:34 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Minister for Housing and Regeneration, Carl Sargeant.

Galwaf ar y Gweinidog Tai ac Adfywio, Carl Sargeant.

17:34 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Tai ac Adfywio / The Minister for Housing and Regeneration*

I thank the Deputy Presiding Officer for the opportunity to contribute and to outline the Government's response to the debate. I may preface my remarks by saying that none of my comments today will reflect any decision on pre, post or current applications that are being considered by my department or me.

Hoffwn ddiolch i'r Dirprwy Lywydd am y cyfle i gyfrannu ac i amlinellu ymateb y Llywodraeth i'r ddadl. Hoffwn ragflaenu fy sylwadau drwy ddweud na fydd yr un o'm sylwadau heddiw yn adlewyrchu unrhyw benderfyniad ar achosion cyn gwneud cais, ar ôl gwneud cais nac achosion cyfredol sy'n cael eu hystyried gan fy adran neu gennyf i.

It is the role of the planning system to manage the development and use of the land in the public interest. Planning must ensure that development is managed in a sustainable way, while protecting our most valued natural resources. In short, a well-functioning planning system is essential to sustainable development, as the Member made reference to. My emphasis is on sustainable development, and I have already had discussions with my colleague Huw Lewis, who is taking forward the sustainable development Bill. It is about ensuring that the planning system acts as an enabler rather than a regulator and, as Simon Thomas said, helps to provide homes and jobs that current and future generations require.

Rôl y system gynllunio yw rheoli'r broses o ddatblygu a defnyddio tir er budd y cyhoedd. Rhaid i'r drefn gynllunio sicrhau bod datblygiad yn cael ei reoli mewn ffordd gynaliadwy, tra'n diogelu ein hadnoddau naturiol mwyaf gwerthfawr. Yn gryno, mae system gynllunio sy'n gweithredu'n dda yn hanfodol i ddatblygu cynaliadwy, fel y cyfeiriodd yr Aelod ato. Ar ddatblygu cynaliadwy y mae fy mhwyslais i, ac rwyf eisoes wedi cael trafodaethau â'm cyd-Weinidog, Huw Lewis, sy'n cyflwyno'r Bil datblygu cynaliadwy. Mae'n ymwneud â sicrhau bod y system gynllunio yn gweithredu fel galluogwr yn hytrach na rheoleiddiwr ac, fel y dywedodd Simon Thomas, ei bod yn helpu i ddarparu cartrefi a swyddi sydd eu hangen ar y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol.

'Planning Policy Wales' sets out our national planning policy. It has sustainable development running through it like the letters in a stick of rock. 'Planning Policy Wales' was last updated in November 2012, and the update introduced a new national planning policy for economic development. Importantly, the update also clarified that the planning system provides a presumption in favour of sustainable development to ensure that social, economic and environmental issues are balanced and integrated by the decision maker.

Mae 'Polisi Cynllunio Cymru' yn amlinellu ein polisi cynllunio cenedlaethol. Mae datblygu cynaliadwy yn rhedeg drwyddo fel y llythrennau mewn darn o roc. Diweddarwyd 'Polisi Cynllunio Cymru' ddiwethaf ym mis Tachwedd 2012 a chyflwynodd y diweddariad bolisi cynllunio cenedlaethol newydd ar gyfer datblygu economaidd. Yn bwysig ddigon, eglurodd y diweddariad hefyd fod y system gynllunio yn rhagdybio o blaid datblygu cynaliadwy er mwyn sicrhau bod materion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yn cael eu cydbwyso a'u hintegreiddio gan y sawl sy'n gwneud penderfyniadau.

I agree that further changes are necessary. Our draft planning reform Bill, which is due to be published before the end of this year, will update the institutional arrangements for the delivery of planning services, enhance the framework for the preparation of development plans, and improve the development management system, including enforcement. The draft Bill will not contain planning policy. Planning policy will continue to be set out in 'Planning Policy Wales' with the addition of technical advice notes. The role of 'Planning Policy Wales' and TANs will be reconsidered as part of the implementation of the programme for the new Bill. Planning policy needs to be flexible and capable of timely response to amendments and changing circumstances. This is why planning policy cannot be included in primary legislation.

Cytunaf fod angen newidiadau pellach. Bydd ein Bil drafft ar ddiwygio'r system gynllunio, y bwriedir ei gyhoeddi cyn diwedd eleni, yn diweddaru'r trefniadau sefydliadol ar gyfer darparu gwasanaethau cynllunio, yn gwella'r fframwaith ar gyfer paratoi cynlluniau datblygu, ac yn gwella'r system rheoli datblygu, gan gynnwys gorfodi. Ni fydd y Bil drafft yn cynnwys polisi cynllunio. Bydd polisi cynllunio yn parhau i gael ei amlinellu yn 'Polisi Cynllunio Cymru' ynghyd â nodiadau cyngor technegol. Caiff rôl 'Polisi Cynllunio Cymru' a nodiadau cyngor technegol eu hailystyried fel rhan o weithredu'r rhaglen ar gyfer y Bil newydd. Mae angen i bolisi cynllunio fod yn hyblyg ac mae angen iddo allu ymateb yn amserol i newidiadau ac amgylchiadau sy'n newid. Dyma pam na ellir cynnwys polisi cynllunio mewn deddfwriaeth sylfaenol.

Turning to the substance of the motion, I thought that it might be useful to explain our approach to the identified issues. Local development plans should already reflect local housing need. Local housing assessments are the main tool that local authorities must use to qualify and quantify the housing requirements in their area, and form part of the essential evidence in providing an LDP. Welsh Government household projections provide an input to that process, not the final outcome. It is essential that the local housing market assessments are prepared by local authorities in collaboration with stakeholders, including social landlords and house builders.

Gan droi at sylwedd y cynnig, roeddwn yn meddwl y byddai'n ddefnyddiol o bosibl esbonio sut y bwriadwn ymdrin â'r materion a nodwyd. Dylai cynlluniau datblygu lleol eisoes adlewyrchu'r angen lleol am dai. Asesiadau tai lleol yw'r prif ddull y mae'n rhaid i awdurdodau lleol ei ddefnyddio i fesur yr angen am dai yn eu hardal, ac mae'n rhan o'r dystiolaeth hanfodol wrth ddarparu CDLl. Mae amcanestyniadau Llywodraeth Cymru o aelwydydd yn cyfrannu i'r broses honno, nid y canlyniad terfynol. Mae'n hanfodol bod yr asesiadau o'r farchnad dai leol yn cael eu paratoi gan awdurdodau lleol ar y cyd â rhanddeiliaid, gan gynnwys landlordiaid cymdeithasol ac adeiladwyr tai.

It has become apparent that some local authorities have failed to keep their housing market assessments up to date, which may have led to some problems in taking forward LDPs. The delay in that process is not acceptable. To rectify this problem I wrote to all local authorities last month, reminding them of the need to keep local housing market assessments up to date. Although specialist consultants can help with technical aspects of market assessment preparation, local authorities themselves need to understand the dynamics of local housing market demand. Where local housing markets cross administrative boundaries, I would also encourage them to work collaboratively to deliver.

Mae wedi dod yn amlwg bod rhai awdurdodau lleol wedi methu â diweddaru eu hasesiadau o'r farchnad dai, a allai fod wedi arwain at rai problemau wrth ddatblygu CDLlau. Nid yw'r oedi yn y broses honno yn dderbyniol. Er mwyn unioni'r broblem hon, ysgrifennais at bob awdurdod lleol y mis diwethaf, gan eu hatgoffa o'r angen i ddiweddaru asesiadau o'r farchnad dai leol. Er y gall ymgynghorwyr arbenigol eich helpu gydag agweddau technegol ar baratoi asesiad o'r farchnad, mae angen i awdurdodau lleol eu hunain ddeall dynameg y galw yn y farchnad dai leol. Lle mae marchnadoedd tai lleol yn croesi ffiniau gweinyddol, byddwn hefyd yn eu hannog i gydweithio er mwyn cyflawni hyn.

I believe that if local authorities prepare their plan properly and in a competent way, then Welsh language considerations will be properly assessed. LDPs provide the firm basis for rational and consistent planning decisions. The Welsh language must be considered throughout the process of LDP preparation, and further details on how this can be undertaken in practice are provided in the draft TAN. 'Planning Policy Wales' sets out our planning policies in relation to the Welsh language. In particular, when preparing LDPs, local authorities should take into account the ability of different areas and communities to accommodate development without eroding the position of the Welsh language. This may include policies about the location, scale and phasing of a new development.

Credaf os bydd awdurdodau lleol yn paratoi eu cynllun yn briodol ac mewn ffordd gymwys, yna caiff ystyriaethau ynglŷn â'r Gymraeg eu hasesu'n briodol. Mae CDLlau yn rhoi'r sail gadarn dros benderfyniadau cynllunio rhesymol a chyson. Rhaid i'r Gymraeg gael ei hystyried drwy gydol y broses o baratoi'r CDLl, a rhoddir manylion pellach ynglŷn â sut y gellir gwneud hyn yn ymarferol yn y TAN drafft. Mae 'Polisi Cynllunio Cymru' yn nodi ein polisïau cynllunio mewn perthynas â'r Gymraeg. Yn benodol, wrth baratoi CDLlau, dylai awdurdodau lleol ystyried gallu gwahanol ardaloedd a chymunedau i gynnwys datblygiadau heb erydu sefyllfa'r Gymraeg. Gall hyn gynnwys polisïau ynglŷn â lleoliad, graddfa a datblygu fesul cyfnod datblygiad newydd.

Appropriate affordable housing policies should also be included in the LDPs. Our 'Technical Advice Note 2: Planning and Affordable Housing' and 'Technical Advice Note 6: Planning for Sustainable Rural Communities' are particularly relevant to this point. They encourage better choice and access to homes, and greater opportunity for new housing and economic development in rural Wales, much of which is part of the Welsh-speaking heartland. It is too late to consider Welsh language issues once a planning application is submitted—it needs to be at the heart of the LDP process. I made reference to Simon Thomas and his contribution regarding my comments during questions last week. The big conversation on the Welsh language was recently launched by the First Minister. I believe that it is appropriate that the revision of TAN 20 is held back to consider any outcomes that that big conversation may generate. That is about making sure that we have a holistic approach to a wider policy on the Welsh language, and that is what I intend to do.

Dylai polisïau tai fforddiadwy priodol hefyd gael eu cynnwys yn y CDLlau. Mae 'Nodyn Cyngor Technegol 2: Cynllunio a Thai Fforddiadwy' a 'Nodyn Cyngor Technegol 6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy' yn arbennig o berthnasol i'r pwynt hwn. Maent yn annog gwell dewis a mynediad at gartrefi, a mwy o gyfle ar gyfer tai newydd a datblygu economaidd yng Nghymru wledig, y mae llawer ohoni yn rhan o'r Fro Gymraeg. Mae'n rhy hwyr ystyried materion ynglŷn â'r Gymraeg ar ôl i gais cynllunio gael ei gyflwyno—mae angen iddynt fod wrth wraidd proses y CDLl. Cyfeiriais at Simon Thomas a'i gyfraniad ynghylch fy sylwadau yn ystod cwestiynau yr wythnos diwethaf. Lansiwyd y sgwrs fawr ar y Gymraeg gan y Prif Weinidog yn ddiweddar. Credaf ei bod yn briodol gohirio diwygio TAN 20 er mwyn ystyried unrhyw beth a ddaw o bosibl o'r sgwrs fawr honno. Mae hynny'n ymwneud â sicrhau bod gennym ymagwedd gyfannol tuag at bolisi ehangach ar y Gymraeg, a dyna'r hyn yr wyf yn bwriadu ei wneud.

In recent years, a prime focus for the planning system has been to encourage green growth. Planning policy on green growth was included in our new economic strategy, which was published last November, and the energy planning policy was updated in February 2011.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, prif ffocws y system gynllunio fu annog twf gwyrdd. Cafodd y polisi cynllunio ynglŷn â thwf gwyrdd ei gynnwys yn ein strategaeth economaidd newydd, a gyhoeddwyd fis Tachwedd diwethaf, a chafodd y polisi cynllunio ynglŷn ag ynni ei ddiweddaru ym mis Chwefror 2011.

For the reasons outlined in this contribution, I can support the motion as tabled and I also support the amendments to the motion, with the exception of amendment 1 tabled by William Graham. There has been no delay in bringing the planning Bill forward. My predecessor, John Griffiths, announced last September that the draft Bill would be published before the end of the year and we are on track to deliver that.

Am y rhesymau a amlinellwyd yn y cyfraniad hwn, gallaf gefnogi'r cynnig fel y'i cyflwynwyd a chefnogaf hefyd welliannau i'r cynnig, ac eithrio gwelliant 1 a gyflwynwyd gan William Graham. Ni fu unrhyw oedi wrth gyflwyno'r Bil cynllunio. Cyhoeddodd fy rhagflaenydd, John Griffiths, fis Medi diwethaf y byddai'r Bil drafft yn cael ei gyhoeddi cyn diwedd y flwyddyn ac rydym ar y trywydd iawn i gyflawni hynny.

17:41

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I call Llyr Huws Gruffydd to reply to the debate.

Galwaf ar Llyr Huws Gruffydd i ymateb i'r ddadl.

17:41

## Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Diolch i bawb am eu cyfraniadau i'r ddadl hon. Rwy'n meddwl ein bod wedi cael trafodaeth werthfawr iawn. Ni wnaf ailadrodd cyfraniadau pawb, ond fe gyfeiriaf at ambell i elfen.

I thank everyone for their contributions to this debate. I think that we have had a very valuable debate. I will not rehearse everyone's contributions, but I will refer to certain elements.

Yn sicr, mae'n bwysig bod y system gynllunio sydd gennym ni yn symud oddi wrth y diwylliant o rwystro ac atal datblygiad tuag at system sy'n annog a hybu datblygiad, ond y math iawn o ddatblygiad, wedi'i selio ar y criteria iawn—er enghraifft, annog twf gwyrdd a nifer o'r elfennau gwahanol rydym wedi clywed amdanynt. Rwy'n croesawu sylw'r Gweinidog ei fod am weld y system yn symud tuag at rywbeth sy'n hwyluso ac nid o reidrwydd jyst yn rheoleiddio.

Certainly, it is important that the planning system that we have moves from this culture of prevention of development towards a system that encourages development, but the right type of development, based on the right criteria—for example, encouraging green growth and many of the different elements that we have heard mention of. I welcome the Minister's comment that he wants to see the system moving towards something that is permissive and that does not necessarily only regulate.

Rwy'n cytuno yn helaeth iawn â'r hyn ddywedodd Mike Hedges ynglŷn â Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1947, a oedd yn ei hanfod yno i ailadeiladu Llundain ar ôl y rhyfel. Felly, mae'n hen bryd i ni fynd i'r afael â'r man cychwyn hwnnw. Rwyf hefyd yn croesawu'n gynnes iawn y sylwadau a wnaeth Mike ynglŷn ag ystyriaethau ieithyddol o fewn y drefn gynllunio. Rwy'n cytuno y dylai fod yn 'primary planning consideration'—rwy'n meddwl mai dyna oedd y geiriau a ddefnyddiodd ef. Roedd hefyd yn berffaith iawn i ddweud bod y Bil cynllunio yn un o'r cyfleoedd olaf sydd gennym i achub yr iaith Gymraeg. Dylai hynny fod yn neges sy'n mynd i galon polisïau'r Llywodraeth o safbwynt yr hyn mae'n trio cyflawni yng nghyd-destun yr iaith Gymraeg.

I agree with what Mike Hedges said in terms of the Town and Country Planning Act 1947, which was essentially put in place to rebuild London after the war. Therefore, it is about time that we tackle that starting point. I also warmly welcome the comments that Mike made about linguistic considerations within the planning system. I agree that it should be a 'primary planning consideration'—I think that those were Mike's words. He is entirely right in saying that the planning Bill is one of the last chances that we have to save the Welsh language. That should be a message that gets to the very heart of Government policies in terms of what it is endeavouring to achieve in the context of the Welsh language.

Mae'r Gweinidog wedi sôn yn helaeth am yr iaith. Yr hyn fyddwn i'n ei ddweud wrth gwrs yw: pam mai dim ond 0.03% o geisiadau cynllunio sydd wedi bod yn destun asesiad impact ieithyddol? Os yw hwnnw'n bolisi gwerth ei halen, ni fyddwn yn licio gweld polisi sydd ddim yn cwrdd â'r hyn y dylai ei wneud. Byddwn yn dadlau nad yw'n rhy hwyr i ddelio â materion ieithyddol pan fydd cais cynllunio yn cael ei roi gerbron. Yn amlwg, mae angen trefn i asesu amgylchiadau lleol yn erbyn pob cais. Ond, yn sicr o ran datblygu cynlluniau datblygu lleol a'r polisïau ehangach, mae angen cryfhau yn y maes hwnnw.

The Minister did mention the language in his response. What I would say is: why is it only 0.03% of planning applications that have had a Welsh language impact assessment? If that is a proper policy then I would not like to see a policy that does not actually achieve its objectives. I would argue that it is not too late to deal with linguistic issues when a planning application is made. Obviously, there needs to be a system in place to assess local circumstances for every application. However, certainly when it comes to developing local development plans and broader policies, we need to strengthen that area.

Er enghraifft, adeg yr ymgynghoriad ar gynllun datblygu lleol sir Ddinbych, fe heriais i'r asesiad imapct ieithyddol oedd wedi'i lunio ar y bwriad i godi 2,000 o dai ym mhentref Bodelwyddan gan dreblu maint y pentref. Os edrychwch ar rai o'r asesiadau, gwelwch fod cwestiynau dilys i'w gofyn am ansawdd yr asesiadau a pha mor gredadwy ydynt. Fel un a oedd wedi gweithio ym maes cynllunio iaith am flynyddoedd, roeddwn yn synnu nad oedd cymariaethau ag effaith ieithyddol datblygiadau mawr tebyg eraill mewn rhannau eraill o Gymru. Roedd un honiad yn yr asesiad yn dweud y byddai enwau strydoedd Cymraeg yn gymorth i wrthsefyll rhai o'r impacts ieithyddol negyddol. Wel, mae rhywbeth fel hynny'n ddim byd llai na chwerthinllyd.

For example, at the time of the consultation on the Denbighshire local development plan, I challenged the linguistic impact assessment that had been drawn up on the intention to build 2,000 homes in Bodelwyddan, which would treble the size of the village. If you look at some of these assessments, you will see that there are valid questions to be asked about the quality of the assessments and how credible they are. As one who worked in language planning for years, I was surprised that there were no comparisons with the impact on the language of similarly large developments in other parts of Wales. There was one claim in the assessment that the use of Welsh street names would be a bulwark against some of the negative impacts. Something like that is nothing less than risible.

Testun pryder imi oedd deall wedyn nad yw'r arolygydd cynllunio sy'n edrych ar y rhain yn gwirio safon ac ansawdd asesiadau o'r fath. Yr ateb oedd y byddai disgwyl i'r broses o ymchwiliad cyhoeddus amlygu unrhyw wendidau mewn adroddiadau; fel arall, byddent yn derbyn yr asesiadau fel ag y maen nhw. Nid oes rhyfedd bod Comisiynydd y Gymraeg, yn gynharach y mis hwn, wedi disgrifio TAN 20 fel un gwallus o'r dechrau ac wedi galw am welliannau drastig er mwyn sicrhau dyfodol cymunedau Cymraeg. Rwy'n diolch i'r Aelodau hynny sydd wedi datgan eu cefnogaeth ar hynny, a byddwn yn edrych unwaith eto i gyfeiriad y Llywodraeth. Bu i'r Gweinidog sôn am 'holistic approach'; efallai y cawn gyfle i gael sgwrs rhywbryd i fi gael deall yn iawn beth yn union y mae ef yn ei olygu.

It was a cause for concern for me to discover later that the planning inspector who looks at these does not consider the quality of such assessments. The response was that the public inquiry process would be expected to highlight any deficiencies in these reports; otherwise, they would accept the impact assessments as they are. There is no surprise that the Welsh Language Commissioner, earlier this month, described TAN 20 as being flawed from the outset and called for drastic improvements in order to secure the future of Welsh-speaking communities. I thank those Members who have expressed support for that, and we will look again in the direction of the Government. The Minister mentioned a holistic approach; perhaps we can a have a conversation sometime so that I can understand exactly what he means by that.

Rwyf hefyd yn nodi rhai o'r sylwadau a wnaethpwyd ynglŷn â glo brig, wrth gwrs, ac rwy'n cael ar ddeall ei bod wedi cymryd 10 mlynedd i ddiweddaru'r nodyn cyngor technegol ar lo—o'r cyfnod pan godwyd y mater hyd at weld y newidiadau yn digwydd. Mae hyn yn awgrymu i fi mai'r ffordd orau i ddiwygio'r pethau hyn yw drwy ddeddfwriaeth.

I also note some of the comments made about opencast mining, of course, and I am given to understand that it took 10 years to update the technical advice note on coal—from the period when the matter was raised through to the changes being implemented. This suggests to me that the best way to change these things is through legislation.

Mae nifer o bwyntiau eraill wedi cael eu gwneud. Bu i William Powell sôn am rôl cynghorau tref a chymuned. Mae'r grŵp ymgynghorol annibynnol ar gynllunio, dan gadeiryddiaeth John Davies, wedi argymell edrych ar rôl cynghorau tref a chymuned. Cytunaf â Jocelyn Davies pan soniodd am bwysigrwydd y llais lleol a sicrhau bod pobl yn teimlo eu bod yn rhan ystyrlon o'r broses a'u bod wedi eu hymbweru i fedru cyfranni at y drafodaeth. Gwn fod hon yn gychwyn ar drafodaeth fydd yn datblygu dros y misoedd a'r blynyddoedd nesaf wrth i'r Bil cynllunio weithio'i ffordd drwy'r Cynulliad. Edrychaf ymlaen at hyrwyddo ymhellach nifer o'r egwyddorion a'r pwyntiau sydd wedi cael eu codi.

A number of other points were made. William Powell mentioned the role of town and community councils. The independent consultative group on planning, chaired by John Davies, has suggested looking at the role of town and community councils. I agreed with Jocelyn Davies when she mentioned the important of the local voice and ensuring that people feel that they have a meaningful role in the process and that they are empowered to contribute to the discussion. I know that this is the beginning of a debate that will develop over the coming months and years as the planning Bill works its way through the Assembly. I look forward to further promoting many of the principles and points that have been raised today.

17:46

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? There is objection. Therefore, I defer all voting on this item until voting time.

Y cynnig yw y dylid derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad. Felly, gohiriaf bob pleidlais ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

Voting time will now follow. Before I proceed to take the first set of votes, do three Members wish for the bell to be rung? There are not.

Bydd y cyfnod pleidleisio yn dilyn yn awr. Cyn imi fynd ymlaen i gynnal y gyfres gyntaf o bleidleisiau, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Nac oes.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

## Cyfnod Pleidleisio

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5268.

*Gwrthodwyd y cynnig: O blaid 12, Yn erbyn 38, Ymatal 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnig NDM5268.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 34, Yn erbyn 12, Ymatal 4.*

*Cafodd gwelliant 2 i gynnig NDM5268 ei ddad-ddethol.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 3 i gynnig NDM5268.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 50, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 4 i gynnig NDM5268.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 50, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 5 i gynnig NDM5268.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 50, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

Cynnig NDM5268 fel y'i diwygiwyd:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod yr angen am strategaeth hedfan gynhwysfawr a chydlynol yng Nghymru.

2. Yn cefnogi'r datblygiadau i Faes Awyr Caerdydd sydd wedi'u hwyluso gan y sector cyhoeddus.

3. Yn galw am ddatganoli cyfraddau'r Doll Teithwyr Awyr ar gyfer teithiau pell i Gymru, fel yr argymhellwyd yn rhan 1 Comisiwn Silk, a bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno cynigion ar gyfer cyfraddau Toll Teithwyr Awyr i Gymru er mwyn ategu strategaeth hedfan nesaf Cymru.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i esbonio rôl a threfn lywodraethu Tasglu Maes Awyr Caerdydd yng ngoleuni'r ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi prynu Maes Awyr Caerdydd yn ddiweddar.

5. Yn croesawu'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y gwasanaeth bws cyflym, hirddisgwyliedig, o Gaerdydd i Faes Awyr Caerdydd, a addawyd yn gyntaf gan Lywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2009, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i ailddatgan ei hymrwymiad i gyflwyno'r gwasanaeth hwn ym mis Awst 2013.

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5268 fel y'i diwygiwyd.

*Derbyniwyd cynnig NDM5268 fel y'i diwygiwyd: O blaid 38, Yn erbyn 12, Ymatal 0.*

## Voting Time

Result of the vote on motion NDM5268.

*Motion not agreed: For 12, Against 38, Abstain 0.*

Result of the vote on amendment 1 to motion NDM5268.

*Amendment agreed: For 34, Against 12, Abstain 4.*

*Amendment 2 to motion NDM5268 deselected.*

Result of the vote on amendment 3 to motion NDM5268.

*Amendment agreed: For 50, Against 0, Abstain 0.*

Result of the vote on amendment 4 to motion NDM5268.

*Amendment agreed: For 50, Against 0, Abstain 0.*

Result of the vote on amendment 5 to motion NDM5268.

*Amendment agreed: For 50, Against 0, Abstain 0.*

Motion NDM5268 as amended:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Recognises the need for a comprehensive and cohesive strategy for aviation in Wales.

2. Supports the public sector facilitated development of Cardiff Airport.

3. Calls for the devolution of long-haul rates of Air Passenger Duty to Wales, as recommended in part 1 of the Silk Commission, and for the Welsh Government to bring forward proposals for Welsh rates of Air Passenger Duty to complement the next Welsh aviation strategy.

4. Calls on the Welsh Government to clarify the role and governance of the Cardiff Airport Task Force in light of the recent purchase of Cardiff Airport by the Welsh Government.

5. Welcomes the update on the long-awaited express bus service from Cardiff to Cardiff Airport, which was first promised by the Welsh Government in July 2009, and calls on the Welsh Government to reaffirm its commitment to introduce this service in August 2013.

Result of the vote on motion NDM5268 as amended.

*Motion NDM5268 as amended agreed: For 38, Against 12, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5269.

Result of the vote on motion NDM5269.

*Derbyniwyd y cynnig: O blaid 34, Yn erbyn 16, Ymatal 0.*

*Motion not agreed: For 34, Against 16, Abstain 0.*

17:49

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will those Members who are leaving the Chamber please do so quickly and quietly?

A wnaiff yr Aelodau hynny sy'n gadael y Siambr wneud hynny yn gyflym ac yn dawel?

17:50

# Dadl Fer: A yw'r Parth Clustogi Glo Brig yn Addas at y Diben?

# Short Debate: Is the Opencast Buffer Zone Fit for Purpose?

Senedd.tv Fideo Video

## Bethan Jenkins Bywgraffiad Biography

I have agreed to give Lynne Neagle and William Powell time to speak, and, if I am fast enough, William Graham too.

Rwyf wedi cytuno i roi amser i Lynne Neagle a William Powell siarad, ac, os byddaf yn ddigon cyflym, William Graham hefyd.

There is an old saying in politics: 'when called upon to act, act concerned'. Anyone who has read the exceptional circumstances to the 500m buffer zone included in Minerals Technical Advice Note 2, published in 2009, might be forgiven for recalling that old saying, because in the four years that we have had MTAN 2, we have had public inquiries, legal challenges, angry demonstrations and sometimes total chaos in the planning system.

Mae yna hen ddywediad Saesneg mewn gwleidyddiaeth: 'when called upon to act, act concerned'. Gellid maddau i unrhyw un sydd wedi darllen am amgylchiadau eithriadol y glustogfa 500m sydd wedi'i chynnwys yn Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 2, a gyhoeddwyd yn 2009, am feddwl am yr hen ddywediad hwnnw, oherwydd yn ystod y pedair blynedd ers cyhoeddi MTAN 2, rydym wedi cael ymchwiliadau cyhoeddus, heriau cyfreithiol, gwrthdystiadau dig ac weithiau anhrefn llwyr yn y system gynllunio.

This ineffectual protection has allowed mine operators to tie up local authorities in policy argument. The planning system should be there to protect us from nuisance, dust, noise and all of the other factors that make living close to these pits so hard. Instead, MTAN 2 has given operators licence to play fast and loose with regulations and conditions of approval. That is why I have an opencast mine in my area operating unlawfully when it should be being restored, and another that is nothing more than a silent, small moon-sized crater steadily filling with water, even though its operators lost their court case two years ago and are legally obliged to return the land to how it once was.

Mae'r amddiffyn aneffeithiol hwn wedi galluogi gweithredwyr mwynfeydd i glymu awdurdodau lleol mewn dadl bolisi. Dylai'r system gynllunio fod yno i'n diogelu rhag niwsans, llwch, sŵn a'r holl ffactorau eraill sy'n gwneud byw'n agos at y pyllau hyn mor anodd. Yn lle hynny, mae MTAN 2 wedi rhoi rhyddid i weithredwyr gymryd mantais ar reoliadau ac amodau cymeradwyo. Dyna pam y mae gennyf safle glo brig yn fy ardal sy'n gweithredu'n anghyfreithlon pan ddylai fod yn cael ei adfer, ac un arall sy'n ddim mwy na cheudwll tawel, yr un faint â lleuad fach, sy'n llenwi'n araf deg â dŵr, er bod ei weithredwyr wedi colli eu hachos llys ddwy flynedd yn ôl a bod rhwymedigaeth gyfreithiol arnynt i adfer y tir i'w gyflwr blaenorol.

The Minister will no doubt take issue with this, and say that this is not all down to the buffer zone, and that would be technically true. However, it is the poisoned tree that bears such fruit. Worse, it has unreasonably and unfairly raised the hopes of people who were relying on these regulations for protection. I anticipate that the Minister will say that policies are applied unevenly by local authorities. That, too, may be true. However, it is the fault of the Welsh Government for failing to state clearly what constitutes an exceptional circumstance. There is nothing hard for planning officers and committees to kick off from. Instead, it is a soft bottom, all stirred up and further muddying the waters.

Bydd y Gweinidog yn siŵr o anghytuno â hyn, gan ddweud nad y glustogfa yn unig sy'n gyfrifol am hyn, a byddai hynny'n dechnegol gywir. Fodd bynnag, dyna wraidd y drwg. Yn waeth, mae wedi codi gobeithion pobl a oedd yn dibynnu ar y rheoliadau hyn i'w hamddiffyn ac mae hynny'n afresymol ac yn annheg. Rwy'n rhagweld y bydd y Gweinidog yn dweud bod polisïau'n cael eu cymhwyso'n anghyson gan awdurdodau lleol. Gall hynny fod yn wir hefyd. Fodd bynnag, bai Llywodraeth Cymru yw hynny am fethu â datgan yn glir beth yw amgylchiadau eithriadol. Nid oes gan swyddogion a phwyllgorau cynllunio sylfaen gadarn i ddechrau ohoni. Yn hytrach, sylfaen feddal ydyw, gyda phopeth wedi'i gymysgu gan dywyllu'r dyfroedd ymhellach.

Local authorities have the responsibility for minerals planning, but no real power over opencasting. Planning officers spend months and months working on highly technical applications, at considerable cost to the authority's budget, only for the applicant to object when MTAN 2 is followed and the Minister overrules local democracy, as seems likely in the case of Varteg.

Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am gynllunio mwynau, ond nid oes ganddynt unrhyw bŵer gwirioneddol dros gloddio glo brig. Mae swyddogion cynllunio yn treulio misoedd ar fisoedd yn gweithio ar geisiadau technegol iawn, ar gost sylweddol i gyllideb yr awdurdod, dim ond i'r ymgeisydd wrthwynebu pan gaiff MTAN 2 ei ddilyn a phan fo'r Gweinidog yn dyfarnu yn erbyn democratiaeth leol, fel sy'n ymddangos yn debygol yn achos Farteg.

There are seven general exceptions that allow coal working within 500m of settlements. I have problems with pretty much all of them, but I will go through them quickly.

Mae saith eithriad cyffredinol sy'n caniatáu gwaith glo o fewn 500m i aneddiadau. Mae gennyf broblemau â phob un ohonynt fwy neu lai, ond af drwyddynt yn gyflym.

The first is 'where coal working provides the most effective solution to prevent risks to health and safety arising from previous mineral working'. One would hope that such dangers are already recognised and remediated or the areas quarantined, otherwise, why leave it? How exactly does coaling deal with this problem?

Y cyntaf yw lle mai gwaith glo yw'r ateb mwyaf effeithiol i atal y risgiau iechyd a diogelwch sy'n codi o weithfeydd mwynau blaenorol. Byddai rhywun yn gobeithio y byddai peryglon o'r fath eisoes wedi'u nodi a'u hunioni neu y byddai'r ardaloedd wedi'u rhoi o dan gwarantîn, fel arall, pam y cawsant eu gadael? Sut yn union y mae cloddio glo yn delio â'r broblem hon?

Another is 'to remediate land damaged by shallow coal workings or mine waste, where coal extraction appears to be the most sustainable option'. How many sites of this kind are left in Wales? Again, why the need for a big hole? How is that a better solution, when it makes life worse for near all the people in the area for up to 15 years? As for 'where coal extraction appears to be the most sustainable option', we are trying to build a green, sustainable Wales. How does digging carbon out of the ground and burning it fit with the Environment and Sustainability Committee's recent 'Energy Policy and Planning in Wales' report?

Un arall yw adfer tir sydd wedi'i ddifrodi gan waith glo bas neu wastraff mwyngloddio, lle mae'n ymddangos mai cloddio am lo yw'r opsiwn mwyaf cynaliadwy. Faint o safleoedd fel hyn sydd ar ôl yng Nghymru? Unwaith eto, pam bod angen twll mawr? Sut y mae hynny'n ateb gwell, pan fydd yn gwneud bywyd yn waeth i bron holl drigolion yr ardal am hyd at 15 mlynedd? O ran y cymal lle mae'n ymddangos mai cloddio am lo yw'r opsiwn mwyaf cynaliadwy, rydym yn ceisio creu Cymru werdd, gynaliadwy. Sut mae cloddio carbon allan o'r ddaear a'i losgi yn cyd-fynd ag adroddiad diweddar y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, 'Polisi Ynni a Chynllunio yng Nghymru'?

Another is 'where topography, natural features such as woodland, or existing development, would significantly and demonstrably mitigate impacts'. Where are the criteria for what constitutes significant and demonstrable mitigation? I have asked planning authorities and other experts, and they have not seen them.

Un arall yw lle byddai topograffeg, nodweddion naturiol megis coetir, neu ddatblygiad sy'n bodoli eisoes, yn lliniaru effeithiau'n sylweddol ac yn amlwg. Ble mae'r meini prawf i bennu gwir ystyr lliniaru sylweddol ac amlwg? Rwyf wedi gofyn i awdurdodau cynllunio ac arbenigwyr eraill, ac nid ydynt wedi'u gweld.

Another is 'where the surface expression of underground working does not include the significant handling or storage of the mineral or waste'. That would be fine if we had criteria for what is meant by this. Are we talking about a thousand tonnes of spoil? A million tonnes?

Un arall yw lle nad yw'r arwyddion ar yr arwyneb o waith dan ddaear yn cynnwys llawer o weithgarwch trin neu storio'r mwyn neu wastraff. Byddai hynny'n iawn pe bai gennym feini prawf i bennu ystyr hyn. A ydym yn sôn am fil o dunelli o wastraff? Miliwn o dunelli?

Another is 'when the proposal is of overriding significance for regeneration, employment and economy in the local area'. That is my favourite—the last refuge of the boundary-busting operator. How do we measure economic regeneration? If we accept that some local authority areas in Wales are more affluent than others, we must accept that there are different interpretations. What is ultimately good for Cardiff's economy, for example, is different from what might be beneficial for Neath Port Talbot. That is to be expected.

Un arall yw pan fydd y cynnig o arwyddocâd mawr i adfywio, cyflogaeth a'r economi yn yr ardal leol. Dyna fy ffefryn—noddfa olaf y gweithredwr sy'n torri ffiniau. Sut rydym yn mesur adfywiad economaidd? Os derbyniwn fod rhai ardaloedd awdurdodau lleol yng Nghymru yn fwy cefnog nag eraill, rhaid inni dderbyn bod gwahanol ddehongliadau. Mae'r hyn sy'n fuddiol yn y pen draw i economi Caerdydd, er enghraifft, yn wahanol i'r hyn a all fod o fudd i Gastell-nedd Port Talbot. Mae hynny i'w ddisgwyl.

However, it becomes a problem only when you realise that everyone's quality of life is equally ruined by living next to opencast. So, in effect, areas of greater affluence would be more likely to rule against it, having considered an opencast mine of lesser benefit, while, in poorer areas, applications are more likely to succeed. It is a busted flush. As I said earlier in Plaid's debate, it cannot be that opencast mines encourage other businesses to move near to them. So, not only are the people living there dealing with the impact of opencasting, they are being kept in poverty. This exception gives operators as big an opportunity as possible to justify opencast mining, while the local community can be portrayed as arguing against economic development.

Fodd bynnag, dim ond pan fyddwch yn sylweddoli bod ansawdd bywyd pawb yn cael ei ddifetha yn yr un modd drwy fyw gerllaw safle glo brig y daw hynny'n broblem. Felly, mewn gwirionedd, byddai ardaloedd mwy cefnog yn fwy tebygol o ddyfarnu yn ei erbyn, ar ôl ystyried bod safle glo brig o fudd llai, tra bod ceisiadau'n fwy tebygol o lwyddo mewn ardaloedd tlotach. Mae'n system ddiffygiol. Fel y dywedais yn gynharach yn nadl Plaid Cymru, nid yw'n gwneud synnwyr bod safleoedd glo brig yn annog busnesau eraill i symud yn agos iddynt. Felly, nid yn unig y mae'r bobl sy'n byw yno yn delio ag effaith cloddio glo brig, maent yn cael eu cadw mewn tlodi. Mae'r eithriad hwn yn rhoi cymaint o gyfle â phosibl i weithredwyr gyfiawnhau cloddio glo brig, a chaiff y gymuned leol ei phortreadu fel un sy'n dadlau yn erbyn datblygiad economaidd.

Another exception is 'where extraction would be in advance of other, permanent development which cannot reasonably be located elsewhere.' That is a contradiction in terms. You will hear opencast applicants cite previous coal Acts, which forbid the sterilisation of coal reserves. This thinking harks back to the second world war. Are they suitable for this day and age? My argument would be that, as we continue to travel towards green energy, this requirement becomes obsolete, if it is not so already.

Eithriad arall yw lle byddai echdynnu'n digwydd cyn datblygiad parhaol arall na ellir yn rhesymol ei leoli rywle arall. Mae hynny'n wrthosodiad. Byddwch yn clywed ymgeiswyr glo brig yn cyfeirio at Ddeddfau glo blaenorol, sy'n gwahardd sterileiddio cronfeydd glo. Mae'r meddylfryd hwn yn mynd â ni yn ôl i'r ail ryfel byd. A ydynt yn addas ar gyfer yr oes sydd ohoni? Byddwn i'n dadlau, wrth inni barhau i deithio tuag at ynni gwyrdd, bod y gofyniad hwn yn darfod, os nad yw wedi darfod yn barod.

If the Welsh Government is so sure of the clarity of policy it claims can be found in these words, I challenge it to do the following: write to local authorities, the Welsh Local Government Association, the Planning Inspectorate, the Environment Agency—or whatever it is now—and the Coal Authority and ask them to define exactly what constitutes these exceptional circumstances. Will their answers all be one and the same? Even allowing for some reasonable latitude, I would bet that their interpretations are a mile apart.

Os yw Llywodraeth Cymru mor siŵr o'r eglurder polisi y mae'n honni sydd i'w weld yn y geiriau hyn, rwy'n ei herio i wneud y canlynol: ysgrifennu at awdurdodau lleol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, yr Arolygiaeth Gynllunio, Asiantaeth yr Amgylchedd—neu beth bynnag ydyw nawr—a'r Awdurdod Glo a gofyn iddynt ddiffinio beth yn union yw'r amgylchiadau eithriadol hyn. A fydd eu hatebion i gyd yr un fath? Hyd yn oed gan ganiatáu rhyddid rhesymol, byddwn yn mentro bod eu dehongliadau'n wahanol iawn.

In arguing against these exceptional circumstances, I have omitted another weakness. I call it the one-exemption-trumps-all feature. Here is how it works. If one of those exceptional circumstances comes into play, then the application is allowed. There is no consideration for how it might impact, and whether it may make any worse, the circumstances that govern the other exceptions. So, an application may be allowed on the grounds that it would allow remediation, but no thought will be given to whether it might make the area's economy significantly worse and there is no weighing of whether the sacrifice is worth it.

Wrth ddadlau yn erbyn yr amgylchiadau eithriadol hyn, rwyf wedi hepgor gwendid arall. Dyma'r nodwedd rwy'n ei galw'n un eithriad yn drech na phopeth. Dyma sut mae'n gweithio. Os yw un o'r amgylchiadau eithriadol hynny'n berthnasol, yna bydd y cais yn cael ei ganiatáu. Nid ystyrir sut y gallai effeithio ar yr amgylchiadau sy'n llywodraethu'r eithriadau eraill a pha un a allai eu gwaethygu. Felly, efallai y caiff cais ei ganiatáu ar y sail y byddai'n gyfrwng adfer, ond nid ystyrir a allai wneud economi'r ardal yn sylweddol waeth ac nid asesir a yw'n werth yr aberth.

It is fair to say that the exceptional circumstances would be easier to live with if challenging them did not completely favour the opencast business, as Lynne Neagle said earlier. If the applicant does not like the council's decision, it may appeal to the Welsh Government. If the opponents do not like the council's decision, they may not. If neither like the Minister's decision, they have just six weeks to challenge it in the High Court. Miller Argent can spend £65 million on trucks and diggers; it can certainly afford the lawyers. Can the same be said for local residents, particularly in the areas where opencast pits are found? Justice beyond financial reach is justice denied.

Mae'n deg dweud y byddai'n haws byw gyda'r amgylchiadau eithriadol pe na fyddai'r broses o'u herio yn gweithredu'n gyfan gwbl o blaid y busnes glo brig, fel y dywedodd Lynne Neagle yn gynharach. Os nad yw'r ymgeisydd yn hoffi penderfyniad y cyngor, gall apelio i Lywodraeth Cymru. Os nad yw'r gwrthwynebwyr yn hoffi penderfyniad y cyngor, ni allant wneud hynny. Os nad yw'r naill ochr na'r llall yn hoffi penderfyniad y Gweinidog, dim ond chwe wythnos sydd ganddynt i'w herio yn yr Uchel Lys. Gall Miller Argent wario £65 miliwn ar dryciau a chloddwyr; yn sicr gall fforddio'r cyfreithwyr. A ellir dweud yr un peth am drigolion lleol, yn enwedig yn yr ardaloedd lle mae pyllau glo brig? Mae cyfiawnder sydd y tu hwnt i gyrraedd ariannol yn gyfystyr â gwrthod cyfiawnder.

In December 2009, in response to my previous short debate on opencast mining, the then Minister for environment, Jane Davidson, said:

'This new policy was introduced in January of this year, but since then, there have been no applications for call-in under the new arrangements. We would need to test the TAN in considering whether or not it needed to be changed.'

She added:

'It will be up to this Assembly in the future to change the guidance if it turns out that what we have worked out carefully…does not work.'

The MTAN was tested in June and July 2011, when Celtic Energy took the Welsh Government to the Court of Appeal over its refusal to allow the Margam extension. Lord Justice Pill, professing himself somewhat disturbed by the approach adopted on behalf of the Ministers, concluded:

'The impact of the 500 metre buffer zone in MTAN2… presents MPAs'—

minerals planning authorities—

'and planning Inspectors, with a dilemma. That is exacerbated by evidence on behalf of the Ministers … that MTAN2 is not "a source of relevant national policy"'.

He added:

'Further guidance would have been helpful.'

However, when I met the previous Minister for environment, John Griffiths, to discuss the judge's comments, I was assured that no change was required. 'We won the case' was how his head of planning smilingly put it. Except that it was not that cut and dried. The buffer zone limped over the legal finishing line, wounded enough for its opponents to look to set up another challenge. This was before the mess of Varteg and East Pit. It is still before what will be the mess of Nant Llesg and of Margam again. The policy of exceptional circumstances was born into ambiguity and it is sustained through the intransigence of the Welsh Government. There is no loss of face, Minister, in reviewing it and changing it. It does not signal failure. I will not be the only one on these benches that will cheer its demise.

Therefore, Minister, drop these exceptions, or at least go back to tell us why there is so much confusion across Wales on this issue. If MTAN 2 was working effectively, then, believe me, I would not need to bring a debate to the floor of the Chamber. However, time and again, we face barrier upon barrier, notwithstanding seeking to help constituents to become planning experts so that they can fight their cases effectively alone. Minister, I urge you to reconsider these exceptions before a court drops the buffer zone and then there really will be no protection for people living with opencasting.

Ym mis Rhagfyr 2009, mewn ymateb i'm dadl fer flaenorol ar gloddio glo brig, dywedodd Gweinidog yr Amgylchedd ar y pryd, Jane Davidson:

'Cyflwynwyd y polisi newydd hwn ym mis Ionawr eleni, ond ers hynny ni chafwyd yr un cais i alw ceisiadau i mewn dan y trefniadau newydd. Byddai angen inni brofi'r TAN wrth ystyried a fyddai angen ei newid ai peidio.'

Ychwanegodd:

'Mater i'r Cynulliad hwn yn y dyfodol fydd newid y canllawiau os digwydd nad yw'r hyn yr ydym wedi'i lunio'n ofalus...yn gweithio.'

Profwyd MTAN ym Mehefin a Gorffennaf 2011, pan aeth Celtic Energy â Llywodraeth Cymru i'r Llys Apêl dros ei phenderfyniad i wrthod caniatáu'r estyniad ym Margam. Daeth yr Arglwydd Ustus Pill, a ddywedodd ei fod yn poeni rhywfaint am y dull a fabwysiadwyd ar ran y Gweinidogion, i'r casgliad:

Mae effaith y glustogfa 500 metr yn MTAN2 ... yn peri penbleth i MPAau—

awdurdodau cynllunio mwynau—

ac Arolygwyr cynllunio. Caiff hynny ei ddwysáu gan dystiolaeth ar ran y Gweinidogion ... nad yw MTAN2 yn ffynhonnell o bolisi cenedlaethol perthnasol.

Ychwanegodd:

Byddai canllawiau pellach wedi bod yn ddefnyddiol.

Fodd bynnag, pan gyfarfûm â Gweinidog blaenorol yr amgylchedd, John Griffiths, i drafod sylwadau'r barnwr, cefais sicrwydd nad oedd angen unrhyw newid. 'Gwnaethom ennill yr achos' dywedodd ei bennaeth cynllunio gan wenu. Ond nid oedd pethau mor syml â hynny. Herciodd y glustogfa dros y llinell derfyn gyfreithiol, wedi'i hanafu ddigon i'w gwrthwynebwyr ystyried lansio her arall. Roedd hyn cyn llanast Farteg a Phwll y Dwyrain. Mae'n dal i fod cyn y llanast a fydd yn digwydd yn Nant Llesg a Margam eto. Cafodd y polisi amgylchiadau eithriadol ei gyflwyno mewn amwysedd a chaiff ei gynnal drwy anhyblygrwydd Llywodraeth Cymru. Nid oes unrhyw gywilydd, Weinidog, mewn adolygu'r polisi a'i newid. Nid yw'n arwydd o fethiant. Nid dim ond fi ar y meinciau hyn a fydd yn dathlu ei dranc.

Felly, Weinidog, diddymwch yr eithriadau hyn, neu o leiaf ewch yn ôl i ddweud wrthym pam y mae cymaint o ddryswch ledled Cymru ar y mater hwn. Os oedd MTAN 2 yn gweithio'n effeithiol, yna, credwch fi, ni fyddai angen imi ddod â dadl i lawr y Siambr. Fodd bynnag, dro ar ôl tro, rydym yn wynebu un rhwystr ar ôl y llall, er gwaethaf ymdrechion i geisio helpu etholwyr i ddod yn arbenigwyr cynllunio fel y gallant ymladd eu hachosion yn effeithiol ar eu pen eu hunain. Weinidog, rwy'n eich annog i ailystyried yr eithriadau hyn cyn i lys ollwng y glustogfa ac wedyn ni fydd unrhyw amddiffyn i bobl sy'n byw gyda glo brig.

18:00

## Lynne Neagle Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank Bethan for allowing me some of her time and congratulate her for bringing forward this debate today and for her long track record of work in this area. Having spoken many times in relation to Varteg hill, it will not surprise anyone in the Chamber to know that my answer to the fundamental question posed by this debate of whether the 500m buffer zone fit for purpose would have to be a resounding 'no'. I am encouraged, however, that there appears to be growing cross-party momentum behind the need to strengthen the MTAN, as well as by the fact that the Welsh Government increasingly appears to recognise the gap that exists between planning guidance and implementation on the ground. I fervently hope that recognition and a change in approach, when they come, do not come too late for the people and communities of Varteg, who so badly need the protection that it should offer them.

Diolch i Bethan am roi peth o'i hamser imi ac rwy'n ei llongyfarch am gyflwyno'r ddadl hon heddiw ac am ei hanes hir o weithio yn y maes hwn. Ar ôl siarad sawl gwaith am fryn Farteg, ni fydd neb yn y Siambr yn synnu i wybod y byddai'n rhaid imi ateb 'na' yn ddigamsyniol i'r cwestiwn sylfaenol a ofynnwyd gan y ddadl hon, sef a yw'r glustogfa 500m yn addas at y diben. Rwyf wedi cael fy nghalonogi, fodd bynnag, ei bod yn ymddangos bod momentwm trawsbleidiol cynyddol y tu ôl i'r angen i gryfhau MTAN, yn ogystal â'r ffaith bod Llywodraeth Cymru'n ymddangos mwyfwy fel pe bai'n cydnabod y bwlch sy'n bodoli rhwng canllawiau cynllunio a'r ffordd y cânt eu gweithredu ar lawr gwlad . Rwy'n mawr obeithio na fydd y gydnabyddiaeth honno a'r newid yn y dull o weithredu, pan fyddant yn dod, yn rhy hwyr i bobl a chymunedau Farteg, y mae arnynt gymaint o angen yr amddiffyniad y dylai ei gynnig iddynt.

18:01

## William Powell Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I also thank Bethan Jenkins, both for bringing forward this important short debate and for giving me the opportunity to make a brief contribution. The issue of MTAN 2 is a major issue across the south Wales coalfield, just as the need to review and refresh technical advice note 8 is of major concern further north in mid Wales. I share a number of the concerns that Bethan has brought forward on this issue, and I look forward to Carl Sargent coming before the Petitions Committee early in the autumn term to give evidence in relation to this, when the Varteg issue has been resolved. I am grateful to Lynne for her evidence before the committee that she referred to earlier. The issue of buffer zones is of great importance in the context of both opencast and windfarms, as my committee previously aired. These are both issues of concern to do with human rights and with the fundamental dignity of the citizen.

Diolchaf innau hefyd i Bethan Jenkins, am gyflwyno'r ddadl fer bwysig hon ac am roi'r cyfle imi wneud cyfraniad byr. Mae mater MTAN 2 yn broblem fawr ar draws maes glo'r de, yn union fel y mae'r angen i adolygu a diweddaru nodyn cyngor technegol 8 yn peri pryder mawr ymhellach i'r gogledd yn y canolbarth. Rhannaf nifer o'r pryderon y mae Bethan wedi'u cyflwyno ar y mater hwn, ac edrychaf ymlaen at weld Carl Sargeant yn dod gerbron y Pwyllgor Deisebau yn gynnar yn nhymor yr hydref i roi tystiolaeth mewn perthynas â hyn, pan fydd mater Farteg wedi'i ddatrys. Rwy'n ddiolchgar i Lynne am ei thystiolaeth gerbron y pwyllgor y cyfeiriodd ati yn gynharach. Mae'r mater o glustogfeydd yn bwysig iawn yng nghyd-destun glo brig a ffermydd gwynt, fel y soniodd fy mhwyllgor yn flaenorol. Mae'r ddau hyn yn destun pryder o ran hawliau dynol ac urddas sylfaenol y dinesydd.

18:02

## William Graham Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I congratulate Bethan Jenkins on the short debate today and thank her for the minute she has offered me now. My question is one for the Minister. Surely he will agree that the whole purpose of a technical advice note and a well-consultant-upon local development plan is to aid planning authorities, and to aid the inspector when there is an appeal. The case made most articulately by Lynne Neagle for the people in Varteg surely must mean that the Minister must look again at the technical advice note. It is clearly not fit for purpose. It is not unambiguous. There are exceptions that seem to be used without justification, and we ask the Minister to look once again at this and to make some reply in his answer today.

Rwy'n llongyfarch Bethan Jenkins ar y ddadl fer heddiw ac yn diolch iddi am y funud y mae wedi'i rhoi imi nawr. Mae fy nghwestiwn yn un i'r Gweinidog. Does bosib na fydd yn cytuno mai holl bwrpas nodyn cyngor technegol a chynllun datblygu lleol yr ymgynghorwyd arno'n dda yw cynorthwyo awdurdodau cynllunio, a chynorthwyo'r arolygydd pan fo apêl. Mae'r achos a gyflwynwyd mor eglur gan Lynne Neagle ar ran pobl Farteg yn sicr yn golygu bod yn rhaid i'r Gweinidog edrych eto ar y nodyn cyngor technegol. Mae'n amlwg nad yw'n addas at y diben. Nid yw'n ddiamwys. Mae yna eithriadau sy'n ymddangos fel pe baent yn cael eu defnyddio heb gyfiawnhad, ac rydym yn gofyn i'r Gweinidog edrych unwaith eto ar hyn a rhoi rhyw ymateb yn ei ateb heddiw.

18:03 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Tai ac Adfywio / The Minister for Housing and Regeneration*

Senedd.tv Fideo Video

Coal extraction, including opencast, is an emotive issue. I must say at the outset that many of the issues raised by Members today are site specific and it is not open to me to comment, particularly where there are current live applications, including those that are subject to call-in requests. You have requested the coal application in your constituency be called in, Bethan Jenkins, and I recognise that. Anything that I say this evening could and should be construed and taken in very general terms and in no way as site specific.

Mae cloddio glo, gan gynnwys glo brig, yn fater emosiynol. Rhaid imi ddweud ar y dechrau bod llawer o'r materion a godwyd gan yr Aelodau heddiw yn benodol i safleoedd ac ni allaf wneud sylwadau arnynt, yn enwedig y ceisiadau sy'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd, gan gynnwys y rhai sy'n destun ceisiadau galw i mewn. Rydych wedi gofyn i'r cais glo yn eich etholaeth gael ei alw i mewn, Bethan Jenkins, ac rwy'n cydnabod hynny. Gallai a dylai unrhyw beth yr wyf yn ei ddweud heno gael ei ddehongli a'i dderbyn mewn termau cyffredinol iawn ac ni ddylid ystyried ei fod yn benodol i safle mewn unrhyw ffordd.

It is the purpose of the national planning policy and technical advice note in relation to minerals to set out how authorities can ensure that a proper balance is achieved between the prudent use of resources and the protection of amenity and the environment. It is also about considering the facts and taking informed decisions on these different land uses. In relation to opencast and deep-mine coal development, both 'Minerals Planning Policy Wales' and 'Minerals Technical Advice Note 2: Coal'—MTAN 2—outline how this should be done. Indeed, MTAN 2 specifically delivers on the commitments of the previous 'One Wales' programme for government with respect to buffer zones, health impact assessments and public involvement. It is worth noting that, since 2009, approximately 100,000 planning applications have been submitted to local planning authorities across Wales. During this time only three applications have been determined on opencast coal, two of which remain live.

Diben y polisi cynllunio cenedlaethol a'r nodyn cyngor technegol mewn perthynas â mwynau yw nodi sut y gall awdurdodau sicrhau cydbwysedd priodol rhwng defnyddio adnoddau'n ddoeth a diogelu amwynder a'r amgylchedd. Mae hefyd yn ymwneud ag ystyried y ffeithiau a gwneud penderfyniadau gwybodus am y gwahanol fathau hyn o ddefnydd tir. Mewn perthynas â datblygiadau glo brig a glo dwfn, mae 'Polisi Cynllunio Mwynau Cymru' a 'Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 2: Glo'—MTAN 2—yn amlinellu sut y dylid gwneud hyn. Yn wir, mae MTAN 2 yn cyflawni'n benodol ar ymrwymiadau rhaglen lywodraethu flaenorol 'Cymru'n Un' mewn perthynas â chlustogfeydd, asesiadau o'r effaith ar iechyd a chyfranogiad cyhoeddus. Mae'n werth nodi, ers 2009, bod tua 100,000 o geisiadau cynllunio wedi cael eu cyflwyno i awdurdodau cynllunio lleol ledled Cymru. Yn ystod y cyfnod hwn dim ond tri chais sydd wedi'u penderfynu ar lo brig, gyda dau ohonynt yn dal i fynd rhagddynt.

To be clear, the buffer-zone policy in MTAN 2 states that surface coal developments will not generally be acceptable within 500m of a settlement. However, it contains exceptions, as Members have mentioned. It is right that all relevant considerations need to be taken into account, and the buffer-zone policy is but one of these.

I fod yn glir, mae'r polisi ar glustogfeydd yn MTAN 2 yn nodi na fydd datblygiadau glo brig yn dderbyniol fel arfer o fewn 500m i anheddiad. Fodd bynnag, mae'n cynnwys eithriadau, fel y mae Aelodau wedi crybwyll. Mae'n briodol bod angen rhoi ystyriaeth i bob ffactor perthnasol, a dim ond un o'r rhain yw'r polisi ar glustogfeydd.

I will say something about the background to the policy. It was subject to a great deal of scrutiny. It was developed in association with a technical advisory group, which included representatives of coalfield communities and environmental groups, and was informed by independent research. In particular, the buffer-zone approach itself was subject to robust scrutiny during this time, including two public consultation exercises. It was acknowledged at the time, and it is still the case today, that there are strong arguments for and against buffer zones. This includes the call for a 500m buffer zone, but also concerns expressed by others about the width of buffer zones as a whole.

Dywedaf rywbeth am gefndir y polisi. Roedd yn destun llawer iawn o graffu. Fe'i datblygwyd ar y cyd â grŵp cynghori technegol, a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o gymunedau glofaol a grwpiau amgylcheddol, a chafodd ei lywio gan ymchwil annibynnol. Yn benodol, craffwyd yn fanwl ar glustogfeydd yn ystod y cyfnod hwn, gan gynnwys dau ymgynghoriad cyhoeddus. Cydnabuwyd ar y pryd, ac mae'n dal yn wir heddiw, bod dadleuon cryf o blaid ac yn erbyn clustogfeydd. Mae hyn yn cynnwys yr alwad am glustogfa 500m, ond hefyd bryderon a fynegwyd gan eraill am led clustogfeydd yn eu cyfanrwydd.

Many south Wales communities are built on coal, and so many still lie very close to the coal resource. As well as our pride in an industry that led the world, coal mining has left an unwanted legacy—pit-fallen ground, old shafts, drainage problems and subsidence. Opencast extraction can help to put this right, and opportunities to secure improvements have been given careful consideration because communities deserve land that is green and safe.

Mae llawer o gymunedau yn y de wedi'u hadeiladu ar lo, ac felly mae llawer yn dal i fod yn agos iawn at yr adnodd glo. Yn ogystal â'n balchder mewn diwydiant a arweiniodd y byd, mae cloddio am lo wedi gadael gwaddol nas dymunir—tir sydd wedi syrthio i mewn i byllau, hen siafftiau, problemau draenio ac ymsuddiant. Gall cloddio glo brig helpu i unioni hyn, a rhoddwyd ystyriaeth ofalus i gyfleoedd i sicrhau gwelliannau gan fod cymunedau'n haeddu tir gwyrdd a diogel.

Therefore, MTAN 2 has to be sufficiently flexible to respond to today's changing financial and employment background but, at the same time, it has to be robust enough to protect communities and the environment. The document seeks a balance between the various interests, and it seeks to sustain an indigenous coal industry—with all the advantages that that implies—which respects environmental and social issues and, where appropriate, provides added benefit through land reclamation.

Felly, rhaid bod MTAN 2 yn ddigon hyblyg i ymateb i'r cefndir newidiol presennol o ran cyllid a chyflogaeth ond, ar yr un pryd, rhaid iddo fod yn ddigon cadarn i warchod cymunedau a'r amgylchedd. Mae'r ddogfen yn ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng y gwahanol fuddiannau, ac mae'n ceisio cynnal diwydiant glo brodorol—gyda'r holl fanteision sydd ynghlwm wrth hynny—sy'n parchu materion amgylcheddol a chymdeithasol a, lle y bo'n briodol, yn darparu budd ychwanegol drwy adfer tir.

18:07

## Bethan Jenkins Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you give way?

A wnewch ildio?

18:07

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I will give way in a second.

Ildiaf mewn eiliad.

Therefore, some flexibility is necessary, but an exception is not about allowing unacceptable impacts on communities, as any impact must always be acceptable. I cannot stress this enough in the planning decision process. I give way to Bethan.

Felly, mae rhywfaint o hyblygrwydd yn angenrheidiol, ond nid yw eithriad yn ymwneud â chaniatáu effeithiau annerbyniol ar gymunedau, gan fod yn rhaid i unrhyw effaith fod yn dderbyniol bob amser. Ni allaf orbwysleisio hyn yn y broses o wneud penderfyniadau cynllunio. Ildiaf i Bethan.

18:07

## Bethan Jenkins Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I would just like to hear your opinion as to where opencast mining fits within sustainability or your sustainable plan as a Government. Quite frankly, it does not fit in my brain very comfortably, and I am sick to death of hearing the fact that we should be supporting such industries in this day and age when there are so many alternatives that we could be looking into.

Hoffwn glywed eich barn ynghylch sut y mae cloddio glo brig yn cyd-fynd â chynaliadwyedd neu eich cynllun cynaliadwy chi fel Llywodraeth. A dweud y gwir, nid yw'n gwneud llawer o synnwyr imi, ac rwyf wedi hen alaru ar glywed y ffaith y dylem fod yn cefnogi diwydiannau o'r fath yn yr oes sydd ohoni pan fo cymaint o ddewisiadau amgen y gallem fod yn eu hystyried.

18:08

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think that I have been very clear on the issues around the Welsh Government's position in terms of how MTAN 2 and 'Minerals Planning Policy Wales' should be adopted and considered within Wales. That fits very clearly in the sustainable development processes within the Welsh Government.

Credaf imi fod yn glir iawn ar y materion sy'n ymwneud â safbwynt Llywodraeth Cymru o ran sut y dylai MTAN 2 a 'Polisi Cynllunio Mwynau Cymru' gael eu mabwysiadu a'u hystyried yng Nghymru. Mae hynny'n cyd-fynd yn glir iawn â'r prosesau datblygu cynaliadwy o fewn Llywodraeth Cymru.

As I said, MTAN 2 has to be successfully flexible enough to respond to today's changing environment, and therefore some flexibility is necessary. However, as I have said, an exception is not about allowing unacceptable impacts on our communities.

Fel y dywedais, rhaid i MTAN 2 lwyddo i fod yn ddigon hyblyg i ymateb i amgylchedd newidiol heddiw, ac felly mae angen rhywfaint o hyblygrwydd. Fodd bynnag, fel y dywedais, nid yw eithriad yn ymwneud â chaniatáu effeithiau annerbyniol ar ein cymunedau.

It must be remembered that the limits for impacts such as noise, dust and vibration must also be set out separately in addition to the consideration of the buffer zone.

Rhaid cofio bod yn rhaid i'r terfynau ar gyfer effeithiau fel sŵn, llwch a dirgrynu hefyd gael eu nodi ar wahân yn ychwanegol at yr ystyriaeth a roddir i'r glustogfa.

The factors that may constitute exceptional circumstances are clearly outlined in the MTAN. The list is not exhaustive and the policy is written in a way to enable local authorities to use their judgment and expert local knowledge to reach reasonable decisions in the face of complex and often unique site-specific circumstances. The exceptions are there to identify where coal extraction can lead to genuine and clear benefits for a community and the environment. This does not mean that they are a menu for the industry to access resources in their control, but to identify where genuine benefits can be obtained.

Mae'r ffactorau a allai gael eu hystyried yn amgylchiadau eithriadol wedi'u hamlinellu'n glir yn MTAN. Nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysfawr ac mae'r polisi wedi'i ysgrifennu mewn ffordd sy'n galluogi awdurdodau lleol i ddefnyddio'u barn a'u gwybodaeth leol arbenigol i wneud penderfyniadau rhesymol yn wyneb amgylchiadau safle-benodol sy'n gymhleth ac, yn aml, yn unigryw. Mae'r eithriadau'n bodoli er mwyn nodi achosion lle gall cloddio glo arwain at fuddiannau gwirioneddol a chlir i gymuned a'r amgylchedd. Nid yw hynny'n golygu eu bod yn adnodd i'r diwydiant ei ddefnyddio i gael mynediad at adnoddau dan eu rheolaeth, yn hytrach dylid eu defnyddio i ganfod ble y gellir sicrhau buddiannau gwirioneddol.

18:09

## Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am grateful to you for giving way. I am just trying to get my head around this. Coal extraction may have certain benefits for the economy—there is certainly a potential—but how on earth is it sustainable?

Diolch ichi am ildio. Rwyf ond yn ceisio deall hyn. Gall cloddio am lo gyflwyno rhai buddiannau o ran yr economi—yn sicr mae potensial—ond sut ar wyneb y ddaear y mae'n gynaliadwy?

18:09

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am grateful for the Member's question. Again, the guidance is clear in MTAN 2 about how the planning process should be applied, in terms of the economic benefits and the impacts to the community. That is all part of the consideration when making a determination on a planning application, whether that is for coal or something else.

Diolch i'r Aelod am y cwestiwn. Unwaith eto, mae'r canllawiau yn glir yn MTAN 2 ynghylch sut y dylai'r broses gynllunio gael ei chymhwyso, o ran y buddiannau economaidd a'r effeithiau ar y gymuned. Ystyrir hynny i gyd wrth wneud penderfyniad ar gais cynllunio, boed hynny ar gyfer glo neu rywbeth arall.

I am not going to comment directly on all of the issues that the Member raised, specifically in relation to the exceptions. I just wish to note with interest that the judgment in court, as the Member quite rightly said, found in favour of MTAN 2. I do not agree with the Member that it just limped over the boundary. A flexible approach based on accurate and appropriate information, as in MTAN 2 and 'Minerals Planning Policy Wales', is something that I am very keen to ensure works effectively. The approach for this is that one size does not fit all for securing buffer zones. Good policy should enable a balanced view and local determination in terms of what people think is appropriate in local constituencies and areas. I recognise that Members feel very strongly about this in relation to their local areas, and that they represent their constituencies very well. However, as Minister for planning, I have to base my decisions on accurate information that is presented to me by the inspector or the planning authority. I am grateful for the opportunity to clarify the position of the Welsh Government today.

Nid wyf yn mynd i roi sylwadau uniongyrchol ar bob un o'r materion a gododd yr Aelod, yn benodol mewn perthynas â'r eithriadau. Rwyf ond am nodi gyda diddordeb bod y dyfarniad yn y llys, fel y dywedodd yr Aelod yn gwbl briodol, wedi canfod o blaid MTAN 2. Nid wyf yn cytuno â'r Aelod mai dim ond hercio dros y llinell derfyn a wnaeth. Rwy'n awyddus iawn i sicrhau bod dull gweithredu hyblyg yn seiliedig ar wybodaeth gywir a phriodol, fel sydd yn MTAN 2 a 'Polisi Cynllunio Mwynau Cymru', yn gweithio'n effeithiol. Y dull gweithredu hwn yw nad oes un ateb yn addas i bawb o ran sicrhau clustogfeydd. Dylai polisi da alluogi barn gytbwys a phenderfyniadau lleol o ran yr hyn y mae pobl yn meddwl sy'n briodol mewn etholaethau ac ardaloedd lleol. Rwy'n cydnabod bod yr Aelodau'n teimlo'n gryf iawn am hyn mewn perthynas â'u hardaloedd lleol, a'u bod yn cynrychioli eu hetholaethau yn dda iawn. Fodd bynnag, fel y Gweinidog cynllunio, rhaid imi seilio fy mhenderfyniadau ar wybodaeth gywir a gyflwynir imi gan yr arolygydd neu'r awdurdod cynllunio. Rwy'n ddiolchgar am y cyfle i egluro safbwynt Llywodraeth Cymru heddiw.

18:11

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

That concludes today's proceedings.

Dyna ddiwedd ein trafodion am heddiw.

*Daeth y cyfarfod i ben am 6.11 p.m.*

*The meeting ended at 6.11 p.m.*